Bangor University

MASTER OF PHILOSOPHY

Agweddau ar y nofel hanes Gymraeg i blant

Parri, Heulwen Hydref

Award date:
1996

Awarding institution:
University College of North Wales, Bangor

Link to publication

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 28. Apr. 2024

Agweddau ar y Nofel Hanes Gymraeg i Blant

FW DDEFNYDDIO YN Y
LLYFRGELL YN UNIG

TO BE CONSULTED IN THE
LIBRARY ONLY

Heulwen Hydref Parri

C.P.G.C. LLYFRGELL U.C.N.W. LIBRARY

Agweddau ar y Nofel Hanes Gymraeg i Blant

Crynodeb

Astudiaeth o'r nofel hanes Gymraeg i blant a geir yn y traethawd yma. Yn rhan gyntaf y traethawd fe edrychir ar y nofel hanes fel ffurf gan roddi diffiniad o'r hyn a olygir wrth ddefnyddio'r term 'nofel hanes'. Fe restrir gwerth y maes llenyddol yma i'r darllenwyr ac yna fe gyfeirir at y problemau sydd yn wynebu awduron straeon a nofelau hanes wrth iddynt fynd ati i ysgrifennu. Yn ogystal ceir golwg ar y seicoleg sydd y tu ôl i ddysgu hanes pan edrychir ar waith arbenigwyr a fu'n ymchwilio yn y maes, arbenigwyr megis Oakden a Sturt. Wrth ddarllen am eu hymchwiliadau hwy penderfynwyd y gellid ceisio addasu eu gwaith gan wneud ymchwiliadau tebyg â phlant y nawdegau yma yng Ngwynedd. Fe welir canlyniadau'r ymchwil hwnnw yn ystod rhan gyntaf y traethawd a cheir copïau o atebion holiaduron y plant yn yr atodiad ar ddiwedd y traethawd. Yna i gloi'r rhan gyntaf fe geir golwg gryno ar ddatblygiad y nofel hanes yn yr iaith Saesneg a'r Gymraeg o'i hymddangosiad cyntaf - pan welodd Waverley, nofel Walter Scott, olau dydd ym 1814 - hyd y cyfnod presennol.

Yng nghorff y traethawd fe astudir gwaith detholiad o awduron Cymraeg. Edrychir ar waith pedwar awdur a fu'n flaenllaw ym maes y nofel hanes yn ystod yr ugeinfed ganrif - E. Morgan Humphreys, Elizabeth Watkin Jones, T. Llew Jones ac yna Gweneth Lilly. Wrth edrych ar eu gwaith fe ystyriwyd y nofelau neu'r

straeon rheini a ymdriniai â hanes cyn 1900. Wrth ddyfynnu o'u gweithiau mae'n bwysig nodi bod hynny wedi'i wneud gan ddilyn orgraff wreiddiol y nofelau a'r straeon. Yna i gloi y traethawd fe fwrir golwg ar safle'r nofel hanes ar ddiwedd y ganrif yma yng Nghymru gan dynnu sylw at yr awduron y manylwyd ar eu gwaith yn gynharach yn y traethawd ac ar gyfres y Cyd-bwyllgor Addysg a ddaeth o'r wasg ym 1990.

Cynnwys

Beth yw'r nofel hanes?	t. 1
Gwerth y nofel hanes	t. 4
Problemau sydd yn codi wrth ysgrifennu'r nofel hanes	t. 13
Yr elfen seicolegol - dealltwriaeth plant o'r cysyniad amser	t. 21
Canlyniadau'r holiaduron Cymraeg	t. 31
Datblygiad y nofel hanes	t. 47
E. Morgan Humphreys	t. 86
Elizabeth Watkin Jones	t. 123
T. Llew Jones	t. 170
Gweneth Lilly	t. 238
Clo	t. 271
Atodiad I	t. 288
Llyfryddiaeth	t. 361

Cydnabyddiaeth

Y mae nifer o bobl yr hoffwn ddiolch iddynt am eu cymorth wrth lunio'r traethawd yma. Yn gyntaf dymunaf gydnabod cymorth Mr. Hugh D. Jones, nai Elizabeth Watkin Jones, am ei barodrwydd i adael i mi gael golwg ar rai o weithiau'r awdures sydd yn ei feddiant ac i fod yn barod i gael sgwrs â mi am ei fodryb. Hefyd i Miss Nellie Trenholme, Nefyn, am ei sgwrs hithau ynglŷn â'i chyfeillgarwch ag Elizabeth Watkin Jones. Diolch i brifathro, athrawon a disgyblion Ysgol y Garnedd, Penrhosgarnedd am adael i mi fynd yno i gael atebion y plant i'r holiaduron. Yn ogystal bu Mr Hywel James a staff Llyfrgell y Sir yng Nghaernarfon yn hynod garedig yn gadael i mi fenthyg llyfrau am gyhyd o amser.

Dymunaf ddiolch i'r Adran Addysg ym Mhrifysgol Bangor am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Mr. Maldwyn Thomas am fy arwain yn ystod y blynyddoedd o lunio'r traethawd. Diolch yn fawr iawn Mr Thomas am fod yn arolygwr arbennig. Hefyd diolchaf i Iwan am ddioddef sŵn yr argraffydd ond mae fy niolch mwyaf yn mynd i Mam a Dad am fy nghefnogi nid yn unig gyda'r gwaith yma ond am fod yn gefn i mi yn ddi-dor ar hyd y blynyddoedd.

BETH YW'R NOFEL HANES?

Cyn mynd ati i edrych ar waith rhai o lenorion maes y nofel hanes bydd rhaid diffinio beth yn union yw nofel hanes. Ceir problem gan fod y termau 'nofel hanes' a 'nofel hanesyddol' yn cael eu drysu yn aml. Ond mae'r termau'n cyfeirio at fathau gwahanol o nofelau.

Os am hollti blew gellir dweud bod pob nofel yn nofel hanes. Pan fydd awdur yn ysgrifennu am ei gyfnod yna ymhen blynyddoedd bydd y cyfnod hwnnw yn gyfnod hanesyddol. Yfory bydd heddiw yn hanes. Enghreifftiau perffaith o hyn yw Rhys Lewis(1885) neu Enoc Huws(1891) gan Daniel Owen(1836-1895). Erbyn heddiw ceir ynddynt ddarlun hanesyddol o'r gymdeithas y trigai Daniel Owen ynddi, ond yn ei ddydd nid mynd ati i lunio nofelau hanes a wnaeth Daniel Owen wrth lunio'r ddwy nofel yma. Nid oes raid i'r nofel hanesyddol gael ei gosod yn y gorffennol o gwbl. Mae hi'n hanesyddol gan ei bod yn bwysig yn ei dydd ac felly'n dod yn hanesyddol yn natblygiad y nofel. Fel y dywed J. Gwynfor Jones:

> **...dehonglir natur y nofel hanesyddol yng nghyd-destun y modd yr adlewyrchir ynddi dueddiadau cymdeithasol newydd - chwyldroadol efallai - a dull newydd o strwythuro neu gynllunio'r gwaith fel llenyddiaeth.** [1]

Cyfeiria J. Gwynfor Jones at enghreifftiau o'r nofelau fyddai'n cael eu gosod yn y categori yma, nofelau megis Monica(1930) gan Saunders Lewis(1893-1985) neu Cysgod y Cryman(1953) gan Islwyn Ffowc Elis(1924-). Roedd y ddau waith yma yn arloesol yn eu

dydd a dyna paham y'u hystyrir yn nofelau hanesyddol. Ymhen blynyddoedd bydd nofel megis Seren Wen ar Gefndir Gwyn gan Robin Llywelyn hefyd yn cael ei hystyried fel nofel hanesyddol oherwydd ei newydd-deb yn ei dydd.

Mae'n amlwg bellach mai'r nofelau hanes yw'r term sydd yn diffinio orau y math o nofelau y cyfeirir atynt yma. Bydd awdur y nofel hanes yn mynd ati'n fwriadol i osod ei gymeriadau a digwyddiadau ei blot yn y gorffennol. Bydd yn disgrifio cyfnod sydd y tu hwnt i'w fywyd ef ei hun:

> **Saif y nofel hanes, fodd bynnag, mewn categori ar ei phen ei hun...Rhaid defnyddio'r dychymyg i'r eithaf i greu'r gorffennol hwn ar sail ffeithiau cywir.** [2]

Gellir cael is-adrannau oddi mewn i'r categori 'nofel hanes'. Mae'r math cyntaf yn dibynnu'n llwyr ar ddychymyg yr awdur; nid oes unrhyw sail hanesyddol i'r cymeriadau na'r digwyddiadau. Mae'r ail fath yn seiliedig ar wir ddigwyddiadau hanesyddol ond bod yr awdur wedi ychwanegu at y ffeithiau cywir. Dywed J. Gwynfor Jones mai'r gwahaniaeth sylfaenol rhyngddynt yw fod y naill yn 'hanes ffug' ar llall yn 'ffuglen hanes' [3].

Gan fod y diffiniad bellach wedi'i egluro gellir cyfeirio o hyn ymlaen at y llenyddiaeth yma fel 'nofelau neu straeon hanes'. Llenyddiaeth ydyw sy'n mynd ati'n unswydd i sôn am gyfnod hanesyddol penodol y tu hwnt i fywyd yr awdur.

1. Barn, rh. 357, Hydref 1992, t. 24.
2. Taliesin, cyf. 45, Rhagfyr 1982, t. 15.
3. ibid., t.17.

GWERTH Y NOFEL HANES

> **Historical fiction is a medium which should be taken seriously by historians. [1]**

Dyma ddywedodd Anna Davin a gellir gweld y cymhelliant a'i harweiniodd i ddweud hyn. Ni chymerodd haneswyr lawer o sylw o ffurf y nofel neu'r stori hanes: rhywbeth ysgafn - awduron yn chwarae â hanes - dyna oedd y ffurf yn eu barn hwy. Ond, wrth i statws y ffurf godi, mae'n rhaid ystyried bod lle pwysig mewn ffuglen i'r ffurf yma ac nad ar chwarae bach y llunir straeon a nofelau hanes.

Yn y dyddiau sydd ohoni tueddir i ymdrin â phob peth addysgol yn ôl ei werth i'r system addysg. Nid oes lle i unrhyw beth sydd yn cael ei ystyried yn ddiwerth neu'n wastraffus i'r disgyblion. Mae'n rhaid i bopeth gael ei werthuso cyn y caiff fynd ar gyfyl unrhyw blentyn. Wrth sôn am y nofel hanes mae cwestiynau pendant yn eu hamlygu eu hunain wrth fynd ati i werthuso'r ffurf. Cwestiynau megis a oes diben mewn cyflwyno llenyddiaeth o'r math yma i blant? Pa fanteision sydd i'r plentyn wrth iddo ddarllen y nofelau hanes? Dyma'r cwestiynau y mae'n rhaid eu hateb er mwyn gweld os oes gwerth cyflwyno'r deunydd i ddisgyblion ysgol.

Y ddadl fawr o blaid y nofel hanes yw'r ffaith mai dyma, yn aml, gyswllt cyntaf sawl plentyn â hanes. I blentyn pump oed mae'r hyn a ddigwyddodd chwe mlynedd yn ôl yn hanes iddo gan ei fod y tu hwnt i'w fywyd ef. Wrth sôn am hanes felly fe gyfeirir

at unrhyw gyfnod fu cyn geni'r plentyn. Gyda'r cysylltiad cyntaf yma fe ysbrydolir y plentyn ifanc i feddwl am y gorffennol a gall hyn ysgogi diddordeb pellach mewn cyfnod hanesyddol gan arwain at waith ymchwil yn y maes:

> **The function then, of the historical novel is to awaken the incurious, especially the young, to interest in the past, widening the horizons of all and enticing a minority of serious study.**

Wrth gwrs, nid oes raid i'r nofelau hanes arwain at waith addysgiadol penodol. Ond, os digwydd hynny, dengys bod y plentyn wedi cymryd diddordeb mewn hanes yn sgîl ei gysylltiad â'r nofel hanes.

Tasg anodd iawn i blentyn yw dod i ddeall hanes ac wrth greu stori ffug ynghlwm â hanes gall y dasg fod yn llawer haws. Mae gwybod am drefn y gorffennol yn gysyniad anodd iawn i'w ddirnad i blant ifainc ond drwy gyfeirio at nofelau sydd wedi'u lleoli mewn cyfnodau gwahanol daw'r dasg yn llawer haws. Gall y darllenwyr sylwi ar y modd y mae pethau yn newid o'r naill gyfnod i'r llall a thrwy hynny daw'r drefn a threigl amser y gorffennol yn gliriach iddynt. Gellir gwneud y cwbl drwy'r nofel hanes gan mai'r dychymyg sydd bwysicaf yn ôl Anna Davin:

> **The effort to understand the past, or even just to make sense of and remember the random chunks of it served up at school becomes much easier once the imagination is engaged.** [3]

Nid y cysyniad o drefn hanes yn unig sydd yn anodd i'w egluro i blant ifanc ond mae'n rhaid cofio bod arferion y gorffennol, megis ym maes gwleidyddiaeth a chrefydd, yn annealladwy i lawer o oedolion, heb sôn am ieuenctid. Dyma fantais arall y nofel hanes oherwydd gellir egluro yn gliriach mewn stori, ac ni cheir enghreifftiau gwell na nofelau Marion Eames am hanes y Crynwyr yn ardal Dolgellau. Yn ei nofelau Y Stafell Ddirgel(1969) ac Y Rhandir Mwyn(1972) dangosir ffydd y Crynwyr ar waith yn naliadau crefyddol Rowland Ellis. Llawer mwy diddorol yw hyn na rhestru ffeithiau i ddangos hanfodion y grefydd yma. Daw'r ffeithiau'n fyw mewn nofel gan mai i gymeriadau o gig a gwaed y digwydd y cwbl.

Nid dod i ddeall pwyntiau annelwig, cymhleth yn unig sydd yn bwysig i blant ond mae'n holl bwysig bod ein hieuenctid yn ymgyfarwyddo â'u hanes hwy fel cenedl. Drwy gyfrwng y nofel hanes gall y plant weld o ble y maent wedi dod a sut fath o bobl oedd eu cyndeidiau. Y cam nesaf wedi hynny yw dod i ddeall am draddodiadau eu cyndeidiau a pha rai o'r rheini sydd yn bwysig i'w cenhedlaeth hwy. Heb wreiddiau, ac felly wybodaeth o'u gorffennol, ni fydd gobaith i'r plant ddatblygu parch at eu traddodiadau a throsglwyddo'r traddodiadau hynny i'r genhedlaeth nesaf.

Elfen arall o bersonoli hanes yw'r modd y gall awdur ddangos cymhellion i ddigwyddiadau hanesyddol. Ni all yr hanesydd ffeithiol wneud hyn gan fod rhaid iddo fod yn gwbl ddi-duedd. Gall awgrymu, wrth gwrs, neu ddweud 'efallai' ond mae'r awdur yn gwbl rydd oddi wrth y cadwyni yma:

> **Mae'r nofelydd yn rhydd i gynnig ei esboniad ei hun am weithredoedd neu ddiffyg gweithgarwch ei gymeriadau, tra bo rhaid i hanesydd ym aml fodloni ar dybiaethau a dyfaliadau.** [4]

Wrth ddangos cymhellion a rhoi gwedd bersonol ar ymateb cymeriadau hanesyddol gall plentyn, ac oedolyn, ddod i ddeall a gwerthfawrogi hanes yn well. Ond gan nad oes neb yn gwybod y gwir resymau dros weithredoedd cymeriadau hanesyddol mae'n ddi-os y bydd barn pob awdur yn wahanol. Gall hyn arwain at gymhlethu rhai darllenwyr. Fodd bynnag ni ddylid rhwystro'r amrywiaeth yma gan ei bod yn bwysig cyflwyno sawl esboniad i blant a gadael iddynt hwy benderfynu trostynt eu hunain. Ni ddylid ceisio lliwio meddyliau plant nac oedolion ac wrth ddod ar draws y gwahanol resymau bydd ymennydd y plentyn yn cael ei ysgogi i ddethol a dewis ac yna llunio ei gasgliadau:

> **The discovery that authors vary the tone to fit their purposes is a part of learning to evaluate all second-hand accounts. Readers of all ages can profit from considering when a one-sided report is permissible and when it is dangerously misleading.** [5]

Gellir dewud nad yw barn unochrog awduron yn ddim amgenach na phropoganda. Os nad yw'r awdur am osod dwy ochr i'w ddadleuon yna nid oes raid iddo. Petai hanesydd yn gwneud hyn fe ddylai gael ei feirniadu ar ei union oherwydd cyflwyno ffeithiau yw ei swydd ef, nid lliwio bywyd y gorffennol yn ôl ei deimladau personol. Ond wrth edrych ar lyfrau hanes ffeithiol ceir

cryn syndod o sylwi bod nifer fawr ohonynt yn cael eu hysgrifennu o safbwynt y bonedd a'r uchelwyr, boed rheini'n frenhinoedd neu fân-uchelwyr lleol. Prin iawn yw'r sôn am gyflwr bywyd y taeog ar dir y bonedd ac mae hanes eu cyfraniad hwy i barhâd gwledydd yn fwy prin. Y gwŷr ar y ceffylau blaen, nid y milwyr a ddilynai ar droed, sydd yn bwysig.

Nid propoganda yn erbyn 'dosbarth' yn unig sydd i'w weld yn y llyfrau hanes ond rhagfarn yn erbyn lliw - y duon yw achos pob helynt - ac yn erbyn crefydd - y Protestaniaid Seisnig yw'r gorau bob amser. Yn anffodus, nid yn y llyfrau ffeithiol yn unig yr ymddengys y gwerthoedd yma. Cyfeiria Nicholas Tucker at nofel Charles Kingsley Westward Ho!(1855) a'r cymeriad o'r enw Amyas Leigh sy'n ymgnawdoliad o'r gwir Sais gyda'i syniadau imperialaidd:

> **This was heady stuff for young readers at the time, feeding a type of egocentric, omnipotent fantasy under the guise of a flattering patriotism, while also offering opportunities for private, sadistic reverie made respectable by being in the British cause.** [6]

Yn ffodus mewn nofelau hanes mwy diweddar cafwyd cyfle i wrthbrofi'r feddylfryd yma o gymeriadau dewr sydd yn mynnu clodfori y drefn imperialaidd ar bob cyfrif. Wrth droi oddi wrth y math yma o deipiau ceir cipolwg ar gymeriadau na fyddai haneswyr yn tynnu sylw atynt. Awdur a wnaeth lawer yn y maes yma yw Geoffrey Trease gan iddo ddewis ei gymeriadau o blith y 'werin', pobl a oedd yn debycach i'r darllenwyr ac mae hyn i'w

weld yn ei nofelau megis Bows Against The Barons (1934) neu Comrades For The Charter (1934). O'r herwydd roedd hi'n haws i'r darllenwyr ddeall hanes y cyfnodau gwahanol, fel y dywed Anna Davin:

> **One of the major values of Trease's books for me and no doubt for other children was that they gave a version of the political past which was more easily understood and also more acceptable than what was taught at school: they were on the side of the people and enabled one to see and argue things in those terms, whereas in school history, the ruling class was always doing its best.** [7]

Yn aml bydd awduron yn defnyddio ffurf y nofel hanes er mwyn procio cydwybod y presennol. Wedi'r cwbl yr un yw'r natur ddynol ar hyd y canrifoedd ac os yw dangos yr ymdriniaeth a dderbyniai rhai carfanau o'r gymdeithas yn y gorffennol am rwystro'r fath beth rhag digwydd eto, yna gorau oll. Wrth ddangos yr anghyfiawnderau a welwyd yn y gorffennol efallai y bydd rhai darllenwyr yn sylwi bod yr un math o bethau yn parhau i ddigwydd. Petai awduron yn ceisio dangos yr anghyfiawnderau yn y presennol yna byddent yn cael eu beirniadu am bregethu a moesoli. Ond drwy dreiddio i is-ymwybod dyn drwy'r nofel hanes mae'r awdur yn osgoi y broblem hon. Sylwodd Dafydd Ifans ar y nodwedd yma yn y nofel hanes:

> **...ond gan mai'r un yw cyflwr dyn ymhob cenhedlaeth y mae'r gorffennol yn aml yn gallu profi yn gyfrwng**

> **llawer mwy effeithiol a hwylusach i rai ar gyfer archwilio a threiddio i wewyr enaid y ddynoliaeth heddiw.** [8]

Yn anffodus fe gwyd problemau wrth ymdrin â'r anghyfiawnderau. Gan fod plant am ddarllen y nofelau hanes mae'n rhaid bod yn ofalus wrth grybwyll erchyllterau'r gorffennol ac felly cwyd y cwestiwn a ddylid cyflwyno creulonderau'r gorffennol i ddarllenwyr ifainc y presennol? Ond ni ddylid defnyddio'r broblem yma fel esgus i ddarlunio'r gorffennol fel gwynfyd na welwyd ei well. Os yw awdur yn dewis peidio â phortreadu rhai creulonderau yna bydd plant yn tyfu'n oedolion heb ddod i wybod amdanynt ac os digwydd hyn yna ni fydd posibl iddynt rwystro'r un pethau rhag digwydd eto. Mae hi'n broblem ddyrys a'r awdur yw'r unig un all benderfynu beth i'w gynnwys a beth i'w hepgor:

> **History is not pretty...I think people were far more cruel to each other in times past...The law was certainly more cruel. So was poverty. So was the treatment of children...One certainly does not want to cosset children in their reading...yet the difficulty remains: the brutality of times past may shock the over-sensitive.** [9]

Wedi mynd ati i 'werthuso'r' nofel hanes onid doeth o beth fyddai derbyn y cyfrwng fel unrhyw gyfrwng arall? Pwrpas nofel yn y pen-draw yw diddanu ac os yw darllenydd yn cael blas ar y nofel hanes yna mae hynny'n ddigon. Nid oes raid darganfod rhesymau dilys dros ysgrifennu am y gorffennol. I'r sawl sy'n

hoff o ddiddanwch stori dda mae cael ei gludo i gyfnod arall, cwbl wahanol i'w fywyd bob dydd, yn ddihangfa berffaith. Hyn, yn anad dim, yw prif werth y nofel hanes, fel y dywed Dafydd Ifans:

> **Pan gordeddir y ddwy elfen, hanes a dyfeisgarwch creadigol, prin y gellir gwadu nad yw y nofel hanesyddol yn hawlio'n sylw fel ffurf lenyddol o bwys.** [10]

1 Literature and Learning, t. 72.
2 Historical Novels, t. 19.
3 Literature and Learning, t. 72.
4 Ysgrifau Beirniadol IX, t. 301.
5 Literature For Thursday's Child, t. 270.
6 The Child And The Book, t. 153.
7 Literature and Learning, t. 77.
8 Ysgrifau Beirniadol IX, t. 299.
9 The Cool Web, t. 164.
10 Ysgrifau Beirniadol IX, t. 300.

PROBLEMAU SYDD YN CODI WRTH YSGRIFENNU NOFELAU HANES

Yn aml fe edrychir ar y nofelwyr hanes fel awduron sydd yn dewis eu cyfrwng arbennig gan mai hwnnw yw'r cyfrwng hawsaf. Cânt eu beirniadu gan eu cyd-awduron a chânt eu beirniadu gan haneswyr, fel y sylwodd Hester Burton:

> **Historical novels - like most mixed marriages - are frowned upon by the Establishment. Historians look upon them with contempt, feeling sure that their author must have tampered with, or at least distorted, historical fact. The straight novelist regards them as unfortunate aberrations - at best, as a misuse of their writers' talents** [1]

Ond nid yw'r farn yma'n gwbl gywir gan nad dewis y ffurf hawsaf a wna awduron nofelau hanes. Yn aml dyma'r ffurf anoddaf oherwydd gall nifer o broblemau godi wrth ysgrifennu.

Problem fawr yw problem y ffeithiau. Faint yn union a ddylid eu cynnwys? Ni ellir cael gormod gan y bydd hyn yn torri ar rediad y stori, ac eto mae'n rhaid cynnwys digon er mwyn cyfiawnhau gosod y nofel yn y gorffennol. Gyda gormod neu ddim digon o ffeithiau plot da sy'n holl bwysig gan mai dyma sydd yn cynnal y ffeithiau gyda'i gilydd, fel y nododd Dafydd Ifans:

> **Mae stori dda heb fanylion hanesyddol yn llwyddo, ond nid yw rhestr o ffeithiau hanesyddol heb stori i'w clymu ynghyd yn debyg o wneud hynny.** [2]

Ond os canolbwyntir gormod ar y stori ni fydd unrhyw wahaniaeth rhwng y nofel hanes a'r nofel yn y presennol. Mae angen dangos mai yn y gorffennol y digwydd y stori ac i wneud hynny mae'n rhaid i'r awdur allu nodi ei fod yn gyfarwydd â'r cyfnod y lleolir ei stori ynddi. O'r herwydd y mae'n angenrheidiol bod y nofelydd hanes yn gwneud rhywfaint o waith ymchwil, fel y dywed Marion Eames, awdures sy'n hen law â'r cyfrwng yma:

> **Os ydi hi... yn ysgrifennu nofel hanes, neu nofel yn ymdrin â rhyw bwnc neilltuol, mae'n rhaid iddi wneud gwaith ymchwil. Ond hyn sy'n bwysig. Unwaith y bydd hi'n dechrau ysgrifennu mae'n rhaid iddi adael i'r gwaith ymchwil hwnnw suddo i'r is-ymwybod, dim ond i ddod i'r wyneb yn awr ac yn y man i gadarnháu ffeithiau.** [3]

Gellir gweld felly bod y ffin rhwng gormod a dim digon o ffeithiau yn denau iawn, a champ i unrhyw awdur yw darganfod y cyd-bwysedd cywir.

Dwysáu mae'r broblem yma wrth ystyried nofelau neu straeon hanes i blant. Mae'n rhaid i'r stori dynnu sylw plentyn o'r munud cyntaf neu bydd yn siŵr o golli diddordeb. Felly er bod angen gosod y cefndir hanesyddol ni ellir treulio gormod o amser yn gwneud hynny. O'r herwydd ni chaiff awduron ar gyfer plant eu beirniadu am beidio â bod yn fanwl gywir gyda ffeithiau. Gellir gwyro peth ar y gwir, ond heb fod hynny yn arwain at gelwyddau noeth am y gorffennol:

> But when a child first begins to read or to listen to historical novels, accuracy is not of the first importance. What matters, above all, is that the story should be interesting. [4]

Yn anffodus manteisia rhai awduron ar ddiniweidrwydd plentyn gan gyflwyno deunydd sy'n bell o'r gwir ac weithiau'n gwbl amhosibl. Llygaid neu glust oedolyn yn unig fyddai'n medru sylwi ar yr anghysonderau. Gellid ystyried y modd yr ymddengys rhyw lwybr cyfrinachol neu guddfan gyfleus yn y categori yma gan eu bod yn digwydd ymddangos pan fo'r awdur angen hynny.

Ni all awdur nofelau hanes ar gyfer plant fyth anghofio mai ychydig iawn o wybodaeth hanesyddol sydd gan ei ddarllenydd. Wrth gyflwyno ffeithiau rhaid gwneud yn siŵr bod digon ar gael er mwyn i'r plentyn ddeall yr hanes. Dywed Hester Burton hyn mewn ffordd effeithiol:

> Children are not less intelligent than grown-ups. The problem is that they know less. In particular they know less history. [5]

Dyma broblem fawr i'r nofelydd hanes ac yn aml nid yw awduron eraill na haneswyr yn cofio am hyn wrth feirniadu'r cyfrwng.

Pan fydd awdur yn mynd ati i ysgrifennu am gyfnod nad yw'n wybyddus ag ef yr hyn a geir yw nofel neu stori mewn 'gwisg ffansi' hanes. Defnyddir hanes at ddibenion yr awdur yn unig, nid oherwydd yr awydd i gyflwyno cyfnod arbennig i ddarllenwyr.

Ni fydd awduron o'r math yma yn treiddio i mewn i deimladau'r gorffennol ond yn hytrach ceir ambell ddisgrifiad, o wisgoedd neu fwydydd, er mwyn atgoffa'r darllenwyr eu bod yn darllen am gyfnod yn y gorffennol. Yn amlach na pheidio straeon caru sy'n cael eu gosod yn y cyd-destun yma gan fod tueddiad i ystyried y gorffennol fel cyfnodau 'rhamantaidd' iawn. Sylwodd Helen Cam ar y gwendid yma ymhlith rhai awduron:

> The taste for the romantic can, of course, be shamelessly exploited. The historical background is used as an ornate stage setting, and the characters are put into fancy dress. [6]

Gair mawr gan feirniaid y nofel hanes yw anacronistiaeth, sef y camgymeriad o osod digwyddiad mewn cyfnod hanesyddol anghywir. Cyfeiria Dafydd Ifans [7] at dri math o anacronistiaeth. Y camgymeriad mwyaf poblogaidd yw gosod ffeithiau hanesyddol mewn trefn anghywir. Mae'r ail fath o gamgymeriad, sef y defnydd o eiriau, yn dibynnu'n llwyr ar fympwy'r awdur. Ni ellir clywed geiriau 'modern' o enau cymeriadau hanesyddol, ac eto ni ddisgwylir clywed ailadrodd gramadegau'r cyfnodau pell. Gellir gweld felly bod rhaid i awdur bwyso a mesur yn ofalus. Ochr arall y ddadl a wêl John Rowlands pan ddywed:

> Ond am wn i nad yw hanes yn amddiffynfa glyd rhag problemau iaith ac arddull ein dyddiau ni. Unwaith yr awn o'r ugeinfed ganrif mae yna ieithwedd barod wrth law i'r nofelydd hanes. [8]

Efallai bod awdur yn osgoi problemau ein hiaith heddiw ond nid dihangfa glyd yw dewis ysgrifennu iaith y gorffennol. Cwyd problemau wrth droi at yr iaith honno hefyd ac mae'n rhaid i awdur eu gorchfygu hwy fel y mae'n rhaid i awdur y presennol orchfygu problemau iaith heddiw.

Camgymeriadau ynglŷn â syniadau o wahanol gyfnodau hanesyddol yw'r trydydd anacronistiaeth. Gan fod awdur yn ysgrifennu am y gorffennol ond yn gwneud hynny yn ei bresennol mae'n anodd iawn iddo beidio â rhoi rhai o syniadau'r presennol i gymeriadau'r gorffennol:

> **...the atmosphere of belief, the attitudes and assumptions of society that he conveys, must be in accordance with what is known of the mental and emotional climate of the place and period.** [9]

Tasg anodd iawn yw cael cywirdeb yn y maes yma oherwydd peth digon hawdd yw darlunio teimladau'r gorffennol yn ôl canllawiau heddiw gan nad oes llawer wedi ei gadw i ni ynglŷn â theimladau ein cyn-dadau. Yr enghraifft a ddefnyddia Dafydd Ifans yw'r teimlad o genedlaetholdeb: syniadau hollol wahanol oedd gan Undeb Cymru Fydd o'u cymharu â chenedlaetholdeb heddiw. [10]

Yn yr un modd, os ceisir dangos cymhellion y tu ôl i weithredoedd cymeriadau hanesyddol ni ellir defnyddio cymhellion modern ein hoes ni. Nid oes unrhyw bwynt felly mewn ceisio gwneud dadansoddiad seicolegol yn ôl canllawiau heddiw gan fod cyfnod y nofel hanes yn gwbl wahanol i gyfnod yr awdur. Dyma

dasg anodd i unrhyw lenor, yn arbennig i awdur nofelau gan ei fod yn dod i gysylltiad agos â'i gymeriadau ac felly mae'n anodd cadw'r pellter angenrheidiol er mwyn rhwystro'r portreadu modern.

Fel y mae'r deunydd a gadwyd i ni am deimladau'r oesoedd gynt yn brin, prin hefyd yw'r hanes am ferched. Gwŷr cadarn, cyhyrog, dewr yw arwyr y gorffennol i gyd, a'r merched yn ymddangos fel morynion i ddawnsio tendans ar yr arwyr gwrywaidd. O'r herwydd tasg anodd sy'n wynebu awdur sydd am gael prif gymeriad benywaidd yn ei nofel. Rhaid gwneud gwaith ymchwil manwl ond yn aml dychymyg yr awdur yw'r unig sail i'r cymeriadau yma. Sylwodd Anna Davin ar y diffyg deunydd sydd ar gael am hanes merched y gorffennol:

> **There are problems of course in setting out to write the history of the oppressed, in fiction as in formal history. Inadequate evidence is one difficulty, the risk of idealization is another. These difficulties are particularly acute if one is concerned with women in the past. Orthodox history shows them (if at all) as secondary and subservient, and alternative versions are only gradually being rediscovered or built up.** [11]

Yma yng Nghymru ceir awduron sydd yn ysgrifennu o safbwynt y merched. Un o'r awduron cynharaf i wneud hynny oedd Elizabeth Watkin-Jones a greodd ferched dewr iawn yn ei nofelau. Gwraig arall a ysgrifennodd am ferched yw Gweneth Lilly. Yn amlach na pheidio gwragedd sydd yn mynd ati i ysgrifennu am gymeriadau o'r un rhyw â hwy gan ei bod yn haws iddynt uniaethu â'r cymeriadau

benywaidd.

Gwall mawr ac anfaddeuol yw'r arfer hwnnw o egluro unrhyw gyfeiriad mewn cromfachau. Byddai hyn yn gwbl dderbynadwy mewn gwerslyfr hanes ond nid oes reswn dros ei gynnwys mewn nofel neu stori hanes. Wrth wneud hyn nid yn unig mae'r awdur yn torri ar rediad y stori ond hefyd atgoffir y darllenydd mai yn y presennol y mae ac nid yn y gorffennol y bu ei ddychymyg byw ynddo drwy'r nofel. Dylai awdur da fedru gwneud ei holl waith esbonio yng nghyd-destun ei blot.

Ar ôl rhestru rhai o'r prif anawsterau sy'n wynebu awduron y nofel hanes ni ellir bychanu'r dasg sydd yn eu hwynebu. Er bod beirniadu llym ar yr awduron mae'n amlwg bod yn rhaid i nofelydd hanes da fod yn arbenigwr ar lunio stori afaelgar, creu cymeriadau credadwy yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r rhwystrau a allai ddod i'w ran wrth geisio dwyn y ffeithiau hanesyddol i gynnwys y stori. Nid tasg fechan sydd yn ei wynebu felly ac mae'n rhaid i ni glodfori unrhyw un sydd yn llwyddo yn y maes yma.

1 The Cool Web, t. 159.
2 Ysgrifau Beirniadol IX, t. 311.
3 Barn, rh. 352, Mai 1992, t. 22.
4 Historical Novels, t. 7.
5 The Cool Web, t. 164.
6 Historical Novels, t. 7.
7 Ysgrifau Beirniadol IX, t. 308.
8 Ysgrifau ar y Nofel, t. 247.
9 Historical Novels, t. 8.
10 Ysgrifau Beirniadol IX, t. 309.
11 Literature and Learning, t. 82.

YR ELFEN SEICOLEGOL

DEALLTWRIAETH PLANT O'R CYSYNIADAU AMSER

Rydym i gyd yn gwybod bod plant ifainc yn cael trafferth i ddeall eu gorffennol gan ei bod yn anodd iawn iddynt roi trefn ar yr hyn sydd eisoes wedi digwydd. Nid yw eu cysyniadau o orffennol a threfn hanes wedi ei ddatblygu yn llawn ac felly braidd yn annelwig yw eu dealltwriaeth o unrhyw orffennol, boed hynny yn orffennol eu bywydau hwy neu hyd yn oed ymhellach yn ôl gyda gwahanol gyfnodau hanesyddol. Caiff plant gryn drafferth wrth ddeall ystyr y cysyniad o oedran a pheth cyffredin yw clywed plant yn 'dweud celwydd' am eu hoedran, neu'n camddehongli oed person arall. Cefais i brofiad o'r math yma pan nad oeddwn eto'n ddeunaw. Awgrymodd un ferch bedair oed wrthyf fy mod eisoes yn ddeg ar hugain! Nid dweud celwydd bwriadol a wna plant fel hyn, methant â deall y drefn.

Gan fod y cysyniad o amser yn cynnwys nifer o elfennau nid tasg hawdd i'r plentyn yw dod i deall ehangder amser sy'n amrywio o eiliadau a munudau, draw at fisoedd a blynyddoedd ac ymlaen at ganrifoedd. Sylwodd Gustav Jahoda(1962) ar ehangder y maes:

> Our own system of reckoning time, ranging from milliseconds to millennia, is a very complex one, adapted to the requirements of a scientific and technological civilisation. It is not suprising therefore, that the process of acquiring this is a slow and gradual one. [1]

Mae'n amlwg mai'r cyfnodau byrraf yw'r hawsaf i'w deall ac felly daw plant yn wybyddus â hwy i ddechrau. Nododd Louise Bates Ames(1946) [2] fod plentyn dyflwydd oed yn deall y cysyniad o amser 'diwrnod', ac o fewn blwyddyn arall mae'n deall 'wythnos'. Erbyn y bydd y plentyn yn bedair oed bydd y cysyniad o 'fis' yn ddealladwy iddo.

Yn dilyn cyfnod yn yr ysgol pan ddaw'r plentyn i gysylltiad â'r gwahanol dymhorau, drwy ei ymdriniaeth â'r newidiadau a ddigwydd ym myd natur yn ystod y tymhorau, mae'r cysyniad o'r pedwar tymor yn glir iddo yn chwech oed. Er nad yw plentyn yn deall pa flwyddyn yw hi, fe ddaw i ddeall y cysyniad o 'flwyddyn' yn saith oed oherwydd sylweddola fod digwyddiadau megis y Nadolig a'i ben-blwydd yn digwydd yn flynyddol. O'r herwydd mae gan ddealltwriaeth o'r cysyniadau amser gysylltiad agos â datblygiad meddwl a chof y plentyn:

> **His growing memory, together with the important events which provide landmarks in time, help him to become aware of time in an increasingly quantitative way.** [3]

Ar ôl dod i ddeall y cyfnodau a enwir uchod bydd plentyn yn cael ei arwain at geisio deall yr amser yn ôl y cloc. Dyma ddod at yr elfennau eiliad, munud ac awr ac erbyn y bydd y plentyn yn wyth oed bydd yn deall hyn yn ogystal â'r cyfnodau megis wythnos a blwyddyn. Ond parhau i fod yn ansicr y mae ei allu i ddweud pa flwyddyn yn union yw hi, a chan ein bod yn egluro hanes yn ôl trefn gronolegol y blynyddoedd mae'n rhaid aros hyd ddatblygiad y gallu hwnnw cyn y gallwn ddisgwyl i blant

lawn ddeall y deunydd hanes a gyflwynir iddynt, boed y deunydd hwnnw yn nofelau neu straeon hanes neu yn ffeithiau hanesyddol moel.

ARBROFION A WNAETHPWYD I DDARGANFOD CYSYNIADAU AMSER PLANT

Gwnaed sawl arbrawf er mwyn ceisio darganfod yr union oedran y datblyga dealltwriaeth plentyn o'r syniad o drefn gronolegol hanes a'r gorffennol. Gwaith pur arloesol yn y maes yn ei ddydd oedd gwaith Oakden a Sturt(1922). Yn eu hastudiaeth hwy aethpwyd ati i holi plant ynglŷn â'u dealltwriaeth o gysyniadau amser penodedig gweddol fyr, megis wythnos, tymor a blwyddyn a chyfnodau hwy megis canrifoedd. Roedd yr ail ran yma, a oedd yn cyfeiro at ganrifoedd, yn cyplysu gyda dealltwriaeth y plentyn o hanes gan fod canrif yn ôl yn rhan o gyfnod hanesyddol gwahanol i gyfnod geni'r plentyn. Enghraifft o'r math yma o gwestiwn yw'r cwestiwn canlynol a ofynnwyd gan Oakden a Sturt(1922) a chan Bradley(1947) yn ddiweddarach.

Dywedwyd wrth y plant bod Robin Hood yn byw yn 1187. Os nad oedd y plant yn gwybod pwy oedd y cymeriad dywedwyd wrthynt: **'He was a robber and lived in the forests'** [4]. Wedi'r esboniad byr yma aed ati i holi dau gwestiwn i'r plant:

a) a oedd eich mam yn fyw yn y cyfnod yma?

b) a oedd eich nain yn fyw yn y cyfnod yma?

Dewisiodd Bradley(1947) y canran o 75% yn ateb yn gywir fel y trobwynt pwysig ac yn ei waith ef a gwaith Oakden a Sturt(1922) saith oed yw'r plant cyn y dônt i ddeall y dylid dweud 'na' yn ateb i'r cwestiwn cyntaf(a) a naw oed cyn y deallent bod angen ateb yn negyddol i'r ail gwestiwn(b). Dyma'r canlyniadau (o gofio mai 75% neu ragor yw'r ffigwr tyngedfennol):

	Cwestiwn a) 7oed	Cwestiwn b) 9oed
Oakden a Sturt(1922)	77%	89%
Bradley(1947)	80%	83%

[5]

Yng nghanlyniadau Oakden a Sturt(1922) gellir gweld y modd y datblyga dealltwriaeth plant wrth iddynt aeddfedu. Gwelir isod y canlyniadau i'r ddau gwestiwn uchod gan blant o chwech i ddeg oed.

	6 oed	7 oed	8 oed	9 oed	10 oed
Cwestiwn a)-mam	67%	77%	92%	92%	100%
Cwestiwn b)-nain	40%	38%	63%	89%	67%

[6]

Dengys y canlyniadau hyn nad yw plant yn deall trefn hanes cyn eu bod yn naw oed. Yn wir un genhedlaeth yn unig o orffennol y gall plentyn saith oed ei dirnad. Mae Gustav Jahoda(1962) yn nodi nad yw'r canlyniadau yma yn berffaith oherwydd na wnaed unrhyw ymgais i wahaniaethu rhwng y plant a oedd yn dyfalu a'r plant a oedd yn wir gredu eu hatebion. Nid Jahoda (1962) yw'r unig un i godi cwestiwn ynglŷn â dilysrwydd yr arbrawf oherwydd gwnaethpwyd hynny gan Oakden a Sturt(1922) eu hunain:

> It appeared to be Robin Hood's name, rather than the date, that suggested a period remote from ordinary experience. The description given of him as a robber, and the stories of him in books where he was often described as living in 'the olden times', probably often determined the right answer when it was given.[7]

O ganlyniad i'r amheuon yn y cwestiwn 'Robin Hood' aeth Oakden a Sturt(1922) ati i lunio cwestiwn arall. Yn awr rhoddwyd enw pum cymeriad hanesyddol a phum dyddiad i'r plant a gofynnwyd iddynt eu gosod mewn trefn gronolegol gan osod y cymeriad a fu fyw bellaf nôl mewn hanes i ddechrau. Bu'n rhaid cwtogi'r arbrawf yma a chynnwys tri enw yn hytrach na'r pump gwreiddiol, gan mai 20% yn unig o'r plant deg oed a allai ateb. Dyma ffurf y fersiwn newydd:

Attila	lived in Hungary	in 438 A.D.
Philip	lived in Spain	in 1585 A.D.
Nero	lived in Rome	in 50 A.D. [8]

Ysgrifennwyd yr enwau yma ar y bwrdd du cyn gofyn i'r plant ateb y cwestiwn. Yn y tabl isod gellir gweld y canlyniadau yn ôl oedran y plant:

Oedran	8	9	10	11	12	13
Nifer y plant	45	75	57	52	40	28
Canran yn gywir	51	61	67	89	85	96

[9]

Ond, pan aeth Bradley(1947) ati i ail wneud yr arbrawf cafodd ef ganlyniadau ychydig yn wahanol, fel y gwelir isod:

Oedran	8	9	10	11	12	13
Nifer y plant	21	29	27	34	47	19
Canran yn gywir	19	48	56	82	85	63

[10]

Er mwyn hwylustod cymerodd Jahoda(1962) gyfartaledd y ddau arbrawf uchod a chael y canlyniadau canlynol:

Oedran	8	9	10	11	12
Canran yn gywir	35	55	62	86	85

[11]

Gellir casglu felly mai yn un-ar-ddeg oed y mae tri chwarter y plant yn dod i ddeall y syniad o drefn hanesyddol.

Awgrymwyd wrth Oakden a Sturt(1922), gan un athrawes, bod y cwestiwn yn annheg oherwydd yr enwau anghyfarwydd a'r dyddiadau ymhell yn y gorffennol. O'r herwydd gwnaethpwyd arbrawf ychwanegol, arbrawf na chynhwysai enwau cymeriadau hanesyddol na dyddiadau dieithr. Rhoddwyd y ddau enw a'r ddau ddyddiad canlynol i'r plant:

"John was born in 1898. Mary was born in 1901.
Who is the older?" [12]

Roedd y canlyniadau beth yn well o'u cymharu â'r arbrawf 'Attila':

Oedran	8	9	10
% cywir (cwestiwn Attila)	48	57	50
% cywir (cwestiwn John-Mary)	67	70	71

[13]

Ond fel y dywedodd Bradley(1947) am y prawf 'John a Mary' :

> They appear, however, to have overlooked the fact that as it includes only two names, mere guess-work would result in a 50% score and thus the value of these results is doubtful. [14]

Dyma sy'n cyfrif am y cynnydd o 20% yn yr atebion. Felly, ni ellir derbyn y canlyniadau yma fel rhai dilys a dibynadwy.

O astudio canlyniadau arbrofion megis yr arbrawf 'Attila' deuir i'r casgliad mai tua'r un-ar-ddeg oed y mae plant yn dod i wir ddeall y syniad o hanes. Cyfeiria Jahoda at waith arloesol Oakden a Sturt(1922):

> ...the work of Oakden and Sturt was original and rich in insight. By present-day standards some of their methods are admittedly open to criticism, but subsequent research in various countries has substantially confirmed their main conclusion, in particular the view that somewhere around the age of eleven tends to be a turning point in the development of concepts of historical time; it is only after that age, for instance, that the past becomes differentiated into various historical periods. [15]

Wrth ystyried hyn mae sawl barn y gellid eu trafod ymhellach. Os yw plant yn cael trafferthion wrth geisio amgyffred yr hyn a ddigwyddodd yn eu gorffennol hwy ac ymhellach fyth yng

ngorffennol eu cyndeidiau yna gellid gofyn os oes unrhyw bwrpas mewn ceisio ehangu gwybodaeth hanesyddol y plant. Yn sicr dylid dwyn i gof y wybodaeth a gasglwyd gan arbenigwyr ar hyd y ganrif yma yn hytrach na'i ddiystyrru yn llwyr. Dylid ystyried yr oedran y mae plant yn cael eu cyflwyno i wybodaeth hanesyddol gan gofio bob tro mai'r hyn sydd agosaf at fywyd y plentyn sydd hawsaf iddo ei ddeall. Felly dylid dechrau wrth draed y plant gan droi at fywyd eu rhieni ac yna eu teidiau a'u neiniau. Dyna'r drefn fwyaf perthnasol a'r callaf i ymdrin â hi os ydym am ddefnyddio gwaith gwŷr megis Oakden a Sturt(1921), Bradley(1947) a Jahoda(1962) er mwyn ein helpu i ddarganfod y dulliau gorau ynglŷn â sut i fynd ati i gyflwyno hanes i'n plant.

1 Educational Review, cyf. 15, t. 91.
2 Journal of Genetic Psychology USA, cyf. 68, t. 123.
3 Primary Mathematics Today, t. 278.
4 The British Journal of Psychology, cyf. 12, t. 312 a The British Journal of Psychology, cyf. 38, t. 68.
5 The British Journal of Psychology, cyf 12, t. 313 a The British Journal of Psychology, cyf. 38, t. 72.
6 The British Journal of Psychology, cyf. 12, t. 313.
7 ibid., t. 316.
8 ibid., t. 316.
9 ibid., t. 317.
10 The British Journal of Psychology, cyf. 38, t. 73.
11 Educational Review, cyf. 15, t. 96.
12 The British Journal of Psychology, cyf. 12, t. 318.
13 ibid., t. 318
14 The British Journal of Psychology, cyf. 38, t. 70.
15 Educational Review, cyf. 15, t. 97.

CANLYNIADAU'R HOLIADURON CYMRAEG

Wedi darllen erthygl Oakden a Sturt(1922) [1], erthygl sydd yn adrodd hanes canlyniadau yr holiaduron a wnaethpwyd ganddynt hwy, penderfynwyd mai buddiol o beth fyddai holi plant heddiw, ddeng mlynedd a thrigain wedi gwaith arloesol Oakden a Sturt(1922). Roedd angen bod yn ymwybodol mai deng mlynedd a thrigain oedd wedi mynd heibio ers y profion cyntaf ac roedd disgwyl y byddai'r cyfnod hir yma yn cael ei adlewyrchu yn y gwahaniaeth yn y canlyniadau gan fod llawer iawn o newid wedi bod rhwng bywyd plentyn ym 1922 a phlentyn ym 1992. Lluniwyd yr holiaduron gan ddilyn patrwn cwestiynau Oakden a Sturt(1922), ond gan mai Cymry a fyddai'n eu hateb penderfynwyd y dylid addasu peth ar y cwestiynau. Sampl fechan o blant a holwyd: naw plentyn o allu cymysg ym mlwyddyn tri, sef plant saith ac wyth oed (roedd chwe phlentyn yn saith oed a thri eisoes yn wyth oed); a naw plentyn o allu cymysg o flwyddyn chwech, sef plant deg ac un-ar-ddeg oed (roedd pum plentyn yn ddeg oed a phedwar eisoes yn un-ar-ddeg oed). O ran hwylustod fe elwir plant blwyddyn tri yn saith oed a phlant blwyddyn chwech yn ddeg oed. Dylid nodi ar ddechrau'r adran hon bod y dyfynnu a wneir o atebion y plant yn cael ei wneud yn union yn ôl eu sillafiad a'u geiriad hwy.

Holwyd y pymtheg cwestiwn canlynol i'r plant:

1. Faint yw eich oed?
2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd?
3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni?

4a) Pan fyddwch chi'n 11 oed (i blant 7-8 oed) / 15 oed (i

blant 10-11 oed) fyddwch chi'n hŷn neu iau?

b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau?

5. Pa dymor yw hi?

6. Pa fis yw hi?

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi?

8. Pa flwyddyn yw hi?

9. Pa ddiwrnod yw hi yng Nghaernarfon?

10. Faint o'r gloch yw hi?

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon?

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor?

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau?

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig?

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi? (Os yn gofyn yn y bore) Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? (Os yn gofyn yn y prynhawn) (Roedd angen ailffurfio'r cwestiwn yma gan fod tueddiad ymhlith plant i ddewis yr olaf o ddau ateb).

Gyda'r mwyafrif o'r cwestiynau roedd disgwyl i'r plant ateb yn bendant, e.e. dyddiad eu geni, y mis a'r dyddiad a'r cwestiwn 'Pan fyddwch chi'n 11oed/15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau?'. Dyma rifau'r cwestiynau y disgwylid atebion pendant: 1, 2, 3, 4a, 4b, 6, 7,8,9,15a. Sylwer nad yw cwestiwn 5 'Pa dymor yw hi?' yn gynwysiedig. Fe gafwyd problem gyda'r ateb yma. Rhoddodd mwyafrif o blant 7 oed 'y gaeaf' fel eu hateb ond 'yr hydref' gafwyd gan fwyafrif y plant 10 oed. Roedd hi'n anodd iawn gwahaniaethu gan mai ar Dachwedd y 27ain yr holwyd y plant. Roedd hi'n ddiwrnod gwyntog a gwlyb, yn union fel diwrnod yng nghanol y Gaeaf ac eto fe ystyrir Tachwedd yn un o fisoedd yr Hydref. Wedi pendroni penderfynwyd bod y naill ateb neu'r llall

yn gywir.

Roedd rhaid bod yn llai pendant gydag atebion i'r cwestiynau amser (rhifau 10, 11, 12 ac 13). Dilynwyd canllawiau Oakden a Sturt(1922) yma gan dderbyn atebion a oedd o fewn deng munud y naill ffordd i'r ateb cywir, e.e. os mai 11.15 oedd yr ateb cywir yna derbyniwyd amser rhwng 11.05 ac 11.25. Yn yr un modd gyda chwestiwn 14 'Faint o amser sydd hyd y Nadolig?' fe dderbyniwyd atebion a oedd fwy nag wythnos yn rhy ychydig neu'n ormod fel atebion anghywir. Felly gan mai pedair wythnos oedd yr ateb cywir derbyniwyd atebion o dair i bum wythnos. Gellir gweld copiau o atebion y plant yn yr atodiad yng nghefn y traethawd.

Yn y tabl canlynol gellir gweld y canrannau a atebodd yn gywir yn y pymtheg cwestiwn. Hefyd gwelir canrannau Oakden a Sturt(1922) ac felly gellir cymharu'r canlyniadau:

Rhif y	Canrannau yn Gywir			
cwestiwn	7 oed YG	7 oed OaS	10 oed YG	10oed OaS
1	100	100	100	100
2	89	7	100	100
3	33	0	89	43
4a	56	50	100	80
4b	44	14	100	67
5	44	14	67	100
6	100	7	78	100
7	67	0	100	57

Cwestiwn	7 oed YG	7 oed OaS	10 oed YG	10oed OaS
8	89	0	100	57
9	89	14	100	86
10	22	0	56	14
11	11	50	67	100
12	33	7	89	83
13	33	7	100	100
14	56	0	89	71
15	100	67	100	100

YG= Ysgol y Garnedd

OaS= Oakden a Sturt[2]

Digon tebyg oedd atebion y plant i gyd i ail ran cwestiwn 15, 'Pam ei bod yn fore/prynhawn?'. Dyma atebion y plant 7 oed (bore oedd yr ateb cywir):

5 yn dweud 'ddim wedi cael cinio eto'

2 yn dweud 'newydd gyrraedd yr ysgol'

1 yn dweud 'amser chwarae'r bore newydd fod'

1 yn dweud 'am fod yr haul allan'

Rhoddodd un plentyn yr ateb 'brêns' cyn meddwl am reswm arall!

Dyma atebion y plant 10 oed (prynhawn oedd yr ateb cywir):

4 yn dweud 'mae hi ar ôl cinio'

3 yn dweud 'mae hi ar ôl 12 o'r gloch'

1 yn dweud 'bron yn amser mynd adra'

1 yn dweud ei fod yn gwybod yn 'naturiol'.

Roedd ail ran yr holiadur yn delio mwy â dealltwriaeth plant o rediad amser yn y gorffennol. Roedd dwy ran i'r cwestiwn cyntaf:

Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma?

b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma?

Yn wahanol i Oakden a Sturt(1922), nid oedd ar y plant angen esboniad o bwy oedd Robin Hood gan fod y ffilm 'Robin Hood: Prince of Thieves' wedi bod yn boblogaidd iawn yn ddiweddar. Roedd disgwyl atebion pendant yn y negyddol i ddwy ran y cwestiwn. Dyma'r canrannau cywir:

Cwestiwn	7 oed YG	7oed OaS	10 oed YG	10oed OaS
1a	89	50	100	100
1b	89	35	100	100

YG=Ysgol y Garnedd(1992)

OaS=Oakden a Sturt(1922)[3]

Un plentyn yn unig a atebodd yn anghywir yn y cwestiwn yma ac yn ail ran y cwestiwn dywedodd bod ei nain yn byw yn y cyfnod ond

nad oedd ei daid. Efallai bod ei nain wedi marw ac felly fe ystyriai ei bod hi'n hŷn na'i daid. Unwaith eto mae'r canlyniadau'n uwch na chanlyniadau Oakden a Sturt(1922) ond gellir dweud mai'r rheswm am hyn yw'r ffaith bod Robin Hood yn gymeriad llawer mwy poblogaidd yn 1992 o'i gymharu â 1922. Erbyn heddiw ceir cyfresi teledu, ffilmiau a llyfrau yn adrodd hanes y cymeriad hwn, ac o'r herwydd gŵyr y plant ei fod yn byw mewn cyfnod 'pell iawn yn ôl'.

Yn yr ail gwestiwn roedd angen i'r plant osod enw tri chymeriad hanesyddol mewn trefn gronolegol. Dyma union eiriad y cwestiwn yn Gymraeg (cymharer â'r cwestiwn 'Attila-Philip-Nero' sydd yn dilyn yn Saesneg):

> Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn fyw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nôl mewn hanes i ddechrau:
>
> Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C.928
> Roedd Owain Glyndŵr yn byw yng Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400
> Roedd Caradog yn byw yng Ngwent yn O.C.48
>
> Attila lived in Hungary in 38 A.D.
> Philip lived in Spain in 1585 A.D.
> Nero lived in Rome in 50 A.D. [4]

Cafodd rhai o'r plant iau fwy o drafferth gyda'r cwestiwn yma, fel y gwelir yn y tabl canlyniadau yn ôl canrannau cywir

isod:

Cwestiwn	7 oed YG	7 oed OaS	10 oed YG	10oed OaS
2	44	51	100	71

YG=Ysgol y Garnedd(1992)

OaS=Oakden a Sturt(1922)[5]

O'r pum plentyn saith oed a oedd wedi ateb yn anghywir roedd tri wedi gosod yr enwau mewn trefn gwbl groes. Hynny yw roeddent wedi ateb 'Owain Glyndŵr, Hywel Dda, Caradog' yn hytrach na 'Caradog, Hywel Dda, Owain Glyndŵr'. Mae'n amlwg eu bod hwy wedi dewis y rhif mwyaf i ddechrau yn hytrach na'r rhif lleiaf.

Dewis o ddau enw oedd gan y plant yn ateb i'r trydydd cwestiwn ac felly, fel y nodwyd eisoes wrth gyfeirio at y gwaith gwreiddiol gan Oaken a Sturt(1922), gall y canlyniadau fod yn annheg. Rhoddwyd y ddau enw fel a ganlyn (cymharer â'r cwestiwn 'John-Mary' dilynol yn Saesneg):

Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

Pa un yw'r hynaf?

John was born in 1898. Mary was born in 1901.

Who is the older? [6]

Unwaith eto mae'r canlyniadau'n well na chanlyniadau Oakden a Sturt(1922):

Cwestiwn	7 oed YG	7 oed OaS	10 oed YG	10oed OaS
3	78	67	100	71

YG=Ysgol y Garnedd(1992)

OaS=Oakden a Sturt(1922)[7]

Yn y ddau gwestiwn olaf nid oedd modd darganfod canrannau'r atebion cywir. Yn wir nid dyna oedd diben y cwestiynau. Cynhwyswyd y ddau olaf er mwyn darganfod beth oedd syniadau'r plant ynglŷn â dau gyfnod hanesyddol. Gofynnwyd yr un deg cwestiwn ar gyfnod Oes y Cerrig a chyfnod y Rhufeiniaid, ac ar y cyfan cafwyd atebion eithaf synhwyrol. Dyma'r cwestiynau a'r croesdoriad o atebion a gafwyd am bobl Oes y Cerrig gan y plant 7 a 10 oed:

Cwestiwn	Atebion plant 7 oed	Atebion plant 10 oed
a) Eu gwaith oedd:	gwneud pethau allan o gerrig; hela; ymladd; lladd mamoth; gwneud tŷ;	hela; ymladd a dyfeisio gwneud tai; lladd; magu teulu a ffeindio bwyd i'r teulu;
b) Roeddent yn bwyta:	bara; cig; dŵr; cawl; mamoth;	anifeiliaid a llysiau; cig; mamoth;
c)Adeiladwyd eu tai o:	gwellt; ogofâu; cerrig mawr; brics;	cerrig; ogofâu; clai; esgyrn a lledr;
ch)Eu prif dref oedd:	dim un ganddynt; does neb yn gwybod; Sbaen; Copenhagen; Llandudno; (Nid oedd 4 wedi ateb)	doedd dim un; (Nid oedd 2 wedi ateb)
d) Wrth ymladd eu harfau oedd	cerrig a phastwn; esgyrn cerrig efo mîn bach; catapolt; cleddyfau a gwn	cerrig; darnau o bren; pastynau; gwaywffyn;
dd)Ar eu pennau roeddent yn gwisgo	defnydd; dim byd; pen croen arth; gwallt; helmed fetel;	gwallt; dim byd;

Cwestiwn	Atebion plant 7 oed	Atebion plant 10 oed
e)Ar eu traed roeddent yn gwisgo	dim byd; sandalau; troed eliffant; sbwnj;	dim byd; esgidiau o hen groen;
f)Roeddent yn addoli:	Duw; nid oeddent yn addoli; Iesu; eu duwiau eu hunain; (Nid oedd 1 wedi ateb)	eu hunain; eu cig; anifeiliaid; neb; 'sbirit'; (Nid oedd 1 wedi ateb)
ff)Roeddent yn siarad yr iaith:	Sbaeneg; Saesneg; Llychlyn; Denmarc; eu hiaith eu hunain; dim ond synau;	iaith Oes y Cerrig; ddim yn siarad; ddim yn deall ei gilydd; 'mymblan' oedda nhw; (Nid oedd 1 wedi ateb)
g)Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd:	llyfrau; amgueddfa; wedi darganfod eu cyrff; ffrind dad; oherwydd bod pobl yn byw; 'oedd fi'n byw yna yn 1645';	pobl yn dweud; teledu; llyfrau; amgueddfa; lluniau ar waliau; sgerbwd;

Gellir gweld bod amrywiaeth yn yr atebion er nad oes cymaint â hynny o wahaniaeth wrth gymharu oedran ac atebion. Yr un syniadau sydd yn ymddangos gan y naill oedran fel y llall. Yr un

plentyn roddodd yr ateb 'Copenhagen' fel prif dref a dewis 'Llychlyn' fel yr iaith. Roedd y plentyn ymhlith y goreuon wrth ateb y cwestiynau eraill ac efallai ei fod wedi drysu'r cyfnod gyda chyfnod y Llychlynwyr. Roedd hi'n amlwg bod y plant wedi bod yn astudio'r cyfnod hwnnw gan fod posteri a phrosiectau wedi eu gosod ar wal y dosbarth.

Gofynnwyd yr union gwestiynau am y Rhufeiniaid ac isod gellir gweld y math o atebion a dderbyniwyd.

Cwestiwn	Atebion plant 7 oed	Atebion plant 10 oed
a) Eu gwaith oedd:	ymosod dros Gesar; cadw cyfraith Rhufain; helpu Iesu; lladd; helpu i gario pethau; edrych ar ôl y defaid; (Nid oedd 2 wedi ateb)	ymladd i ennill gwledydd; gwneud arfau; gwneud pedolau; edrych ar ôl anifeiliaid; cwffio; gwneud dillad o ledr;
b)Roeddent yn bwyta:	bara a gwin; ffrwythau a llysiau; moron a chig; pysgod a bara; cawl; sosej;	grawnwin; cig; ffrwythau llysiau a bara; anifeiliaid; cig moch; mamoths;
c)Adeiladwyd eu tai o:	cerrig mawr a mân; coed a gwair; pren; mwd; defnydd planced;	mwd a phridd; cerrig; gwellt; 'marbl'; clai;

Cwestiwn	Atebion plant 7 oed	Abebion plant 10 oed
ch)Eu prif dref oedd:	Rhufain; Caerdydd; (Nid oedd 4 wedi ateb)	Rhufain; Athen; y ddinas (Nid oedd 1 wedi ateb)
d) Wrth ymladd eu harfau oedd	pren a chyllell; cleddyf; bwa a saeth; gwaywffyn; rhaff; gwn;	cleddyfau a tharian; picellau hirion; gwaywffyn; esgyrn;
dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo:	helmed galed; het; rhywbeth metal efo dail arnynt; lliain;	haearn wedi ei fowldio'n siap pen; helmed fetel; hanner cylch sy'n mynd o amgylch y pen; pen iâr;
e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo:	sandalau; sgidia metel; bŵts mawr; rhyw fath o esgidiau heb sana; sbwnj; 'fflip fflops'	esgidiau haearn; esgidiau lledr; sandalau
f)Roeddent yn addoli:	y duwiau; Iesu; ddim yn addoli; (Nid oedd 1 wedi ateb)	yr haul a'r sêr; Duw; ddim yn addoli; delwau aur; 'Sisar'(Cesar); (Nid oedd 1 wedi ateb)
ff)Roeddent yn siarad yr iaith:	Eidaleg; Rhufeinig; Sbaeneg; iaith Iwerddon; (Nid oedd 1 wedi ateb)	Rhufeinig; Groeg; Cymraeg;

Cwestiwn	Atebion plant 7 oed	Atebion plant 10 oed
g)Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd:	llyfrau; amgueddfa; olion Rhufeinig; 'oherwydd bod pobl yn byw';	llyfrau; teledu a fideo; olion Rhufeinig;

CASGLIADAU A GAFWYD WRTH DDADANSODDI'R HOLIADURON CYMRAEG

Mae'n hollol amlwg wrth gymharu atebion 1922 a 1992 bod atebion plant heddiw yn llawer gwell ymhob agwedd o'r holiadur. Gall fod sawl rheswm am y cynnydd sylweddol yng nghanrannau'r atebion cywir. Yn gyntaf rhaid cofio mai sampl fechan iawn o blant a ddewiswyd. Er bod croesdoriad o ran gallu yn y sampl, mae'n gwbl bosibl y byddai mwy o amrywiaeth yn yr atebion pe ceid sampl fwy neu sawl sampl o nifer o ysgolion. Hefyd mae'n rhaid cyfaddef bod peth copïo atebion wedi digwydd wrth i'r plant lenwi'r holiaduron. Wrth reswn gwnaethpwyd pob ymdrech i geisio rhwystro hynny ond roedd ambell blentyn yn cael cipolwg sydyn dros ysgwydd ei gyfaill. Ond ni fyddai hyn yn peri cymaint o gynnydd yn y canlyniadau oherwydd rhaid cofio y gellir copïo atebion anghywir yn ogystal ag atebion cywir.

Er y dywedwyd eisoes nad dysgu cysyniadau hanes y bydd plant ond aeddfedu i'w deall, mae rhai atebion y gall plant ddod i'w dysgu. Wrth dderbyn gwersi yn yr ysgol bydd y plentyn yn dod i

allu ateb rhai o'r cwestiynau a welwyd yn yr holiadur, megis enwi'r mis, tymor a'r flwyddyn. Bydd yn dod i wybod amdanynt wrth iddo ysgrifennu'r dyddiad yn ei lyfr neu wrth iddo gael ei ysgrifennu ar y bwrdd du.

Y prif reswm am y gwelliant mae'n bur debygol yw'r cynnydd yn ymwybyddiaeth y plant o hanes. Daeth hyn gyda'r newidiadau mawr a fu ym maes addysg ac hefyd ym maes technoleg. Yn y deng mlynedd a thrigain a aeth heibio ers dyddiau Oakden a Sturt(1922) mae'r teledu, ac yn ddiweddarach y fideo, wedi dod yn gyfrwng poblogaidd iawn. Daeth yn bwysig nid yn unig fel cyfrwng diddanu ond hefyd fel cyfrwng i gyfleu gwybodaeth. Gan fod plant yn gwylio cymaint ar y teledu maent yn sicr o dderbyn peth gwybodaeth, naill ai'n ymwybodol neu'n anymwybodol. Ceir rhaglenni hanes ffeithiol sy'n cael eu cyflwyno mewn dull diddorol iawn ac mae hyn yn ennyn diddordeb plant. Wrth iddynt fwynhau eu hunain derbyniant wybodaeth addysgol sy'n ymwneud â hanes ac er na sylwant mae'r wybodaeth yn treiddio i'w hisymwybod. Rhaglen megis Tocyn Diwrnod a welwyd ar S4C yn ddiweddar yw un enghraifft o'r math yma o raglen. Er bod rhai cartwnau yn ymwneud â chyfnodau hanesyddol, megis The Flintstones, nid ydynt yn cyflwyno'r ffeithiau yn gwbl gywir. Ond wedi beirniadu rhaid cofio bod y plant yn derbyn rhai syniadau cywir am y cyfnod hanesyddol penodedig. Mae'r holl gyswllt yma gyda'r teledu yn sicr o gael effaith ar ymwybyddiaeth hanesyddol y plant.

Dylanwad arall ar wybodaeth y plant yw'r newidiadau a fu ym maes addysg ers dechrau'r ganrif. Erbyn hyn caiff y plant gyfle

i astudio cyfnodau hanesyddol mewn dulliau diddorol iawn. Yn hytrach na derbyn ffeithiau o werslyfrau caiff y plant gyfle i wneud prosiectau. Ysgogir diddordeb y plant ymhellach gan ymweliadau â llefydd o bwys hanesyddol. Roedd rhai o'r plant iau a atebodd yr holiaduron wedi astudio cyfnod yr ymfudo i Batagonia ac wedi bod ar ymweliad â dociau Lerpwl er mwyn gweld y math o longau oedd ar gael yn y cyfnod, tra roedd y plant hŷn wedi paratoi prosiectau ar y Tuduriaid. Gellir gweld felly bod newid mawr wedi bod yn nulliau dysgu hanes ac fel y cynnydd ym myd teledu mae hyn yn siŵr o ddylanwadu ar wybodaeth gyffredinol y plant.

1 The British Journal of Psychology, cyf. XII, 1922, tt. 309-336.
2 ibid., t. 313.
3 ibid., t. 313.
4 ibid., t. 316.
5 ibid., t. 317.
6 ibid., t. 318.
7 ibid., t. 318.

DATBLYGIAD Y NOFEL HANES

Gellir dweud mai datblygiad di-wreiddiau sydd i'r nofel hanes, gan iddi ymddangos dros nos, yn union fel y gwna madarch mewn cae. Gwelodd olau dydd pan gyhoeddwyd Waverley(1814) gan Syr Walter Scott(1771-1832) ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf:

> **To all intent and purpose the historical novel sprang to life, fully accoutred and mature, with the appearance of Waverley in 1814... [1]**

Ni chafwyd y math yma o nofel o'r blaen ac mae ôl gwaith Scott ar y nofelau hanes sy'n ei dilyn. Syr Walter Scott, felly, oedd tad y nofel hanes a gwêl Andrew Sanders [2] mai'r olwg a geir ar gymdeithas a gwleidyddiaeth y cyfnod hanesyddol sydd yn rhoi'r arbenigedd ar nofel Scott. Cafodd yr arbenigedd yma ddylanwad uniongyrchol ar ddatglygiad y nofel hanes yn Ewrop.

Nid rhyfedd o beth, meddai Georg Lukacs[3], mai ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y daeth y nofel hanes i fodolaeth. Roedd y cyfnod rhwng y Chwyldro Ffrengig, yn 1789, a diwedd cyfnod Napoleon, yn 1815, yn gyfnod o ferw gwleidyddol yn hanes Ewrop gyfan. Er na phrofodd Cymru, yr Alban na Lloegr yr un amser cythryblus â Ffrainc, nid oeddent heb eu problemau eu hunain. Yn 1689 bu'r Chwyldro Gogoneddus, a welodd ddisodli Iago'r ail o orsedd Lloegr, cafodd yr Alban a Lloegr eu huno yn ôl y Ddeddf Uno yn 1707, ac yna cafwyd y ddau wrthryfel Jacobitaidd yn 1715 ac 1745. Gellir gweld bod digon o fwrlwm yn yr Alban yn y ganrif cyn i Scott fynd ati i lunio ei nofel. Nid

rhyfedd felly iddo droi at hanes ei wlad enedigol er mwyn cael cefndir i'w nofel. Sylwodd Georg Lukacs ar hyn hefyd, er mai enwi Lloegr ac nid yr Alban a wna ef fel y wlad y datblygodd y math newydd o nofel ynddi:

> **It is no accident that this new type of novel arose in England(sic).** [4]

Wedi dweud nad oedd gan y nofel hanes unrhyw seiliau a chefndir uniongyrchol, roedd llenyddiaeth a oedd yn ymdrin â hanes eisoes yn bodoli. Mae cefndir yr Iddewon yn bwysig iawn iddynt hwy a chymerwyd pob gofal, ar hyd y canrifoedd, i gadw'r hanes yn fyw ymysg eu cenedl. Hefyd gwelwyd dylanwad hanes ar ddramâu Shakespeare. Yn wir sylwa Andrew Sanders ar sawl tebygrwydd rhwng gwaith y bardd mawr a Scott:

> **Like Shakespeare he generally shows himself politically and morally conservative while being supremely able to evoke and understand the passion which divide nations, classes, families and friends... Scott <u>was</u> Shakespearean in his balance of comic and tragic elements, and his mixing of love and resignation, of disaster and blessing, and in his sense of history as immanent.** [5]

Edward Waverley yw cymeriad canolog y nofel <u>Waverley</u>(1814) a'i hanes ef yn ymweld â'r Alban yn y cyfnod wedi'r ail wrthryfel Jacobitaidd a geir. Roedd gan Scott gysylltiad uniongyrchol ag un a fu'n brwydro yn y ddau wrthryfel. Yn ôl Claire Lamont [6]

cofiai Scott glywed Alexander Stewart o Invernahyle, cyfaill i'w dad, yn adrodd ei hanes yn ystod 1715 ac 1745. O'r sgyrsiau hyn y deilliodd diddordeb Scott yn ymgyrchoedd y Jacobitiaid.

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd effeithiau methiant y ddau wrthryfel i'w gweld yn Ucheldir ac Iseldir yr Alban, er enghraifft roedd cynnydd yn nylanwad senedd Lloegr a lleihad yng ngrym y 'clans'. Felly pan aeth Scott ati i ysgrifennu ei nofel roedd yn ymwybodol o beth oedd oblygiadau'r ymgyrchoedd Jacobitaidd. Ymddengys i Scott ysgrifennu tua saith pennod o'r nofel cyn rhoi'r gwaith heibio am ychydig flynyddoedd. Ail-afaelodd yn yr ysgrifennu am ychydig yn 1810 cyn mynd ati i gwblhau'r nofel yn derfynol yn 1813-14. Bu peth beirniadu ar y nofel Waverley(1814) a chred llawer y gellid hepgor sawl pennod yn llwyr. Mae'r penodau cyntaf yn enghraifft o hyn oherwydd treulir tipyn o amser yn adrodd hanes magwraeth Edward Waverley cyn mynd i'r afael â'r stori o ddifrif. Ond mae'n rhaid cofio bod Scott yn arloeswr yn ei faes ac ni allwn amgyffred y dasg enfawr yr oedd yn ei wynebu. Er gwaethaf y brychau mae'n rhaid ystyried Waverley(1814) yn gampwaith.

Er mai Syr Walter Scott(1771-1832) a gaiff ei ystyried fel tad y nofel hanes nid nofel ar gyfer plant a phobl ifanc oedd Waverley(1814). Y gŵr a fu'n gyfrifol am y nofel hanes gyntaf yn arbennig ar gyfer plant oedd Capten Frederick Marryat(1792-1848). Mab i aelod seneddol ydoedd a phan oedd yn dair ar ddeg oed cafodd ganiatâd ei dad i fynd ar y môr, wedi iddo geisio dianc sawl gwaith. Treuliodd gyfnod anturus ar y môr gan ymladd mewn brwydrau yn erbyn llynges Napoleon. Roedd y cyfnodau anturus

yma yn sail i rai o'i straeon cynnar er enghraifft Masterman Ready(1841-2). Yn dilyn ymddiswyddiad Capten Marryat o'r llynges yn 1830 trodd ei law at ysgrifennu'n broffesiynol. Un o'r llyfrau a ymddangosodd oedd The Children of the New Forest(1847). Hon oedd y nofel hanes gyntaf i blant:

> **Marryat's books for children are of crucial significance in the history of children's literature, for in the years before he began writing, the vast majority of children's stories tended to be moral and domestic tales, often extremely didactic in tone. [7]**

Dewisiodd Marryat ffurf a oedd eisoes yn bodoli fel patrwm llenyddol i'w nofel The Children of the New Forest(1847), sef y ffurf a elwir bellach yn 'Robinsonnade'. Datblygodd y term wedi ymddangosiad nofel Daniel Defoe Robinson Crusoe(1719). Yn y math yma o nofel ceir digon o antur gan fod yn rhaid i'r cymeriadau geisio ymdopi â bywyd mewn amgylchiadau cwbl wahanol i'w bywyd bob dydd. Ar ynys bellenig y mae Robinson Crusoe yn codi cartref iddo'i hun ond nid oes raid i'r math yma o nofel gael ei lleoli ar ynys. Yn y dyfyniad canlynol eglura Margery Fisher beth yw hanfod y 'Robinsonnades':

> **In essence the Robinsonnade as a type of fiction turns on the sudden, unexpected juxtaposition of a person (or persons) and a place; the events that follow will depend in varying degrees on how the character or characters adapt to or make use of a particular place, a desert island - that is, a place isolated from the**

rest of the world and presenting an unfamiliar aspect to the person thus unexpectedly thrown upon it. [8]

Roedd yn ffurf boblogaidd iawn, yn arbennig felly ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan gafwyd digonedd o'r math yma o straeon i blant a phobl ifainc. Un o'r rhai enwocaf oedd The Swiss Family Robinson(1814) gan Johann Wyss a ymddangosodd ychydig flynyddoedd o flaen nofel enwog Marryat. Yn wahanol i Robinson Crusoe(1719) nid ar ynys anial y gadewir y pedwar plentyn amddifad o deulu Beverley yn The Children of the New Forest, yn hytrach gwnânt eu cartref yn nghanol y Goedwig Newydd. Er bod y cefndir yn wahanol i nofel Defoe yr un math o bethau a ddisgrifir; yn Robinson Crusoe(1719) mae'n rhaid i'r cymeriad ddysgu sut i ddefnyddio adnoddau'r ynys er mwyn byw. Yn yr un modd mae'r hen ŵr, Jacob Armitage, yn dysgu'r plant sut i hela yn y goedwig er mwyn iddynt hwythau gael bywoliaeth. Nid dyma'r unig debygrwydd yn ôl Dennis Butts [9]. Gwêl ef y tebygrwydd yn hanes Robinson Crusoe yn cyrraedd yr ynys a'r plant yn cyrraedd y bwthyn yn y goedwig: cyrhaeddodd Robinson Crusoe wedi llong-ddrylliad egr a chyrhaeddodd y plant wedi iddynt ddianc yn hwyr yn y nos o dŷ a fyddai'n wenfflam cyn y bore. Nid chwilio am debygrwydd sydd yn bwysig i ni ond sylweddoli bod Capten Frederick Marryat wedi llunio'r nofel hanes gyntaf i blant yn Saesneg. Cyfeirir at ambell ddigwyddiad hanesyddol megis dihangfa Siarl I o garchar yn Hampton Court ac yna ei ail garchariad ar Ynys Wyth. Yn ogystal ceir sôn am y seneddwyr a'r brenhinwyr, fel y disgwylir mewn nofel sydd wedi ei lleoli yn y cyfnod yma. Efallai bod rhai brychau yn y nofel ond rhaid cofio

nad oedd gan Marryat enghreifftiau i'w hefelychu. Wrth gwrs roedd nofelau antur megis Robinson Crusoe(1719) gan Defoe ac roedd y nofel hanes Waverley(1814) gan Scott yn bodoli, ond dyma'r nofel hanes gyntaf ar gyfer plant:

> **But Marryat was a pioneer, we must remember. He laid down almost single-handedly the foundations of the nineteenth-century adventure story for children...** [10]

Marryat yn sicr oedd y gŵr a osododd y seiliau ond, heb os nac onibai, y gŵr a lwyddodd i sicrhau lle blaenllaw i'r nofel hanes yn Saesneg oedd Robert Louis Stevenson (1850-1894).

Mae cefndir yr Albanwr yma yn ddiddorol dros ben. Roedd ei dad yn beiriannydd ac yn cael ei gyflogi i adeiladu goleudai yn yr Alban ac er i Robert Louis Stevenson hefyd gael addysg brifysgol i ddilyn ôl troed ei dad ni fu'n bosibl iddo ymgymryd â'r gwaith. Yn wir ni fu'n bosibl iddo barhau â'i waith fel cyfreithiwr ychwaith. Mae mwy nag un rheswm am hyn: ei ddiffyg dyfalbarhad **'His enthusiasm, such as it was, did not last...'** [11] meddai Ian Bell ac er bod gwirionedd yn hyn mae'n fwy na thebyg mai cyflwr ei iechyd oedd y rheswm pennaf. Ar hyd ei oes roedd iechyd Robert Louis Stevenson yn fregus iawn a syndod mawr yw ei fod wedi llwyddo i ysgrifennu o gwbl gan mor wan ydoedd. Mae Ian Bell [12] yn synnu iddo fyw cyhyd ac er mwyn gweld pa mor wael ydoedd mae'n dyfynnu o lythyr a ysgrifennodd Stevenson ei hunan at gyfaill flwyddyn cyn iddo farw:

> For fourteen years I have not had a day's real health; I have awakened sick and gone to bed weary; and I have done my work unflinchingly. I have written in bed, and written out of it, written in haemorrhages, written in sickness, written torn by coughing, written when my head swam for weakness;... [13]

Wrth ddarllen am gyflwr afiach Robert Louis Stevenson mae'n syndod mawr iddo allu ysgrifennu o gwbl heb sôn am ysgrifennu'r campweithiau. Ond roedd un wraig yn ei annog ymlaen yn ddidrugaredd, hyd yn oed pan oedd iechyd Stevenson ar ei waethaf. Fanny Osborne oedd y wraig hon a phriododd Stevenson hi ym Mai, 1880 pan oedd hi yn ddeugain oed ac yntau yn ddeg-ar-hugain oed. Roedd hi'n wraig galed iawn a thra roedd Stevenson yn ysgrifennu The Strange Case of Dr Jekyll amd Mr Hyde (1886) mynnodd ei fod yn ail-lunio rhai rhannau ohoni, fel y dywed Ian Bell:

> The appalling amount of work involved had been doubled by her vigorous objections to the first draft that Louis, struggling to hold on to the atmosphere of his dream, had produced in such a fever. [14]

Felly roedd sawl elfen y bu'n rhaid i Robert Louis Stevenson frwydro yn eu herbyn wrth ysgrifennu ei nofelau enwog megis Treasure Island(1881), Kidnapped(1886) ac, fel yr enwyd eisoes, The Strange Case of Dr Jekyll and Mr Hyde(1886).

Kidnapped(1886) yw nofel hanes gyntaf Robert Louis Stevenson a chafodd dderbyniad gwresog iawn. Ynddi mae'n cyflwyno peth o

hanes yr Alban yn ystod blynyddoedd canol y ddeunawfed ganrif, megis yr ymladd rhwng y 'clans' neu hanes 'Bonnie Prince Charlie'. Y prif gymeriad yw David Balfour ac ar ddechrau'r nofel caiff wybod ei fod yn hannu o deulu cyfoethog ac felly mynn gyfarfod â'i ewythr. Ond croeso gwael a gaiff yno wrth i'w ewythr geisio ei ladd ac yna ei orfodi ar long yn erbyn ei ewyllys. Daw David yn ôl i dir sych wedi llongddrylliad ac wrth iddo grwydro Uchelderau'r Alban mae'n dyst i lofruddiaeth. Rhag ofn iddo ef gael ei gyhuddo mae'n rhaid iddo ddianc i ganol yr anialdir. Yno daw ar draws Alan Breck, hen gyfaill iddo, ac er na welodd David ef yn saethu'r gwn mae'n ei amau yn gryf iawn cyn i Alan egluro yn union beth ddigwyddodd. Yn awr mae'r ddau ohonynt ar ffo a cheir eu hanes anturus yn ceisio osgoi y milwyr sydd yn yr ardal. Wedi sawl helbul llwydda David Balfour i gyrraedd cartref Mr. Rankeillor, cyfreithiwr. Ar ôl adrodd ei hanes wrtho ef cynllwynia'r ddau i sicrhau etifeddiaeth David. Mae ewythr David yn cyfaddef wrth Alan Breck y modd yr herwgipiodd y bachgen ifanc ac heb yn wybod i'r hen ŵr mae'r cyfreithiwr hefyd yn sefyll o fewn clyw ac felly mae gan David y dystiolaeth angenrheidiol iddo allu adfer ei etifeddiaeth.

Ceir digon o gyffro yn y stori er mwyn cadw diddordeb unrhyw ddarllenydd ond yn ogystal â hyn llwydda Robert Louis Stevenson i gyflwyno peth o hanes yr oes i ni mewn dull digon naturiol. Cyfeirir at y modd yr oedd yr Albanwyr yn cael y llaw uchaf ar y gyfraith a oedd yn gwahardd gwisgo dillad traddodiadol y 'clans':

The Highland dress being forbidden by law since the

> rebellion, and the people condemned to the Lowland habit, which they much disliked, it was strange to see the variety of their array. Some went bare, only for a hanging cloak or great coat, and carried their trousers on their backs like a useless burthen: some had made an imitation of the tartan with little parti-coloured stripes patched together like an old wife's quilt; others, again, still wore the Highland philabeg, but by putting a few stitches between the legs, transformed it into a pair of trousers like a Dutchman's. [15]

Er nad oes gan y disgrifiad yma ran allweddol yn natblygiad y stori mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod am gefndir y cyfnod. Mae'r dyfyniad yn rhoi'r darlun i ni o ba mor gryf oedd teimladau'r Albanwyr ynglŷn â'u traddodiadau a'r modd yr oeddent am gadw eu hunaniaeth heb orfod ymdebygu i'w gelynion. Drwyddi draw mae'r nofel yn rhoi darluniau o'r math yma i ni a gellir eu darllen yn ddigon hawdd heb i hynny amharu ar rediad y stori o gwbl.

Mae Robert Louis Stevenson yn llwyddo i gyfuno ffeithiau hanesyddol pendant, megis digwyddiadau, gyda ffeithiau mwy personol am gymeriadau hanesyddol pendant. Gwelir hyn pan mae David Balfour yn sôn am ei gyfarfyddiad â gŵr o'r enw Cluny a'r hanes a ddywedodd hwnnw wrtho am 'Bonnie Prince Charlie':

> By these [straeon Cluny] I gathered the Prince was a gracious, spirited boy, like the son of a race of polite kings, but not so wise as Solomon. I gathered

> too, that while he was in the Cage, he was often drunk; so the fault that has since, by all accounts, made such a wreck of him, had even at that early age begun to show itself. [16]

Mae'n amlwg wrth ddarllen Kidnapped(1886) bod Robert Louis Stevenson wrth ei fodd gyda'r cyfnod yma yn hanes ei wlad ac felly nid syndod o beth yw gweld iddo ysgrifennu dilyniant iddi, sef y nofel Catriona(1893) sydd yn delio mwy â materion cyfreithiol ac achos llys y llofruddiaeth yr oedd David Balfour yn dyst iddo. Yn ddiau, o'r ddwy nofel Kidnapped(1886) yw'r fwyaf enwog a honno sydd yn garreg filltir arall yn hanes datblygiad y nofel hanes ym Mhrydain. Ynddi mae'n llwyddo i gyfuno'r hanes gyda stori dda er mwyn ennyn a chadw diddordeb y darllenydd, yr union beth sydd ei angen mewn unrhyw nofel hanes effeithiol a dyna yw'r nofel hon.

Cyfeiria Ian Bell at y modd y llwyddodd Stevenson i ofalu nad oedd y ffeithiau hanesyddol yn cael cyfle i foddi gweddill y stori:

> It unites the historical background which so fascinated Stevenson with characters alive in their period while never allowing mere facts to derail the narrative. This is not to say that R.L.S. does not try to be faithful to history, only that he never allows himself to be overwhelmed by it in this novel... [17]

Dyna paham y mae mor hawdd cytuno â'r farn sydd yn disgrifio

Kidnapped gyda'r geiriau hyn: **'...arguably the masterpiece of nineteenth century children's historical fiction.'** [18]. Roedd ffurf y stori hanes bellach yn boblogaidd yn Saesneg a'r seiliau wedi eu gosod yn gadarn ar gyfer yr awduron dilynol gan wŷr megis Marryat a Stevenson.

Wrth fwrw golwg dros gynnyrch yr ugeinfed ganrif yn Lloegr mae enw sawl awdur yn ei amlygu ei hun. Roedd y nofelau cynharaf yn dueddol o fod wedi eu hysgrifennu mewn arddull a oedd yn perthyn i'r cyfnod hanesyddol yr oeddent wedi eu lleoli ynddynt. Roedd hyn yn eu gwneud hwy bron yn gwbl amhosibl i'w darllen a phe llwyddid i'w darllen prin iawn fyddai mwynhad y darllenydd. Newidiodd hyn gyda dyfodiad awdur pwysig iawn yn natblygiad y nofel hanes yn Lloegr, sef Geoffrey Trease(1909-). Ymhlith ei lyfrau amlycaf, o'i gyfnod cynnar, mae Bows Against the Barons(1934) a Comrades for the Charter(1934). Roedd y llyfrau hyn yn allweddol yn natblygiad y nofel hanes gan eu bod yn darlunio hanes o safbwynt y werin bobl yn hytrach na'r aristocratiaid cefnog. Roedd darllenwyr yn gallu uniaethu â'r cymeriadau, yn arbennig felly o ystyried mai darllenwyr cyfnod dirwasgiad y tridegau oedd ei gynulleidfa, fel y dywed Robert Leeson:

> **And it was in the early '30s in England that Geoffrey Trease opened the way for the modern historical novel for children with a series of adventures which, by their radical insistence on 'not crowns and kings but men', proved a model for the future.** [19]

Roedd Trease felly wedi arwain y ffordd ynglŷn â'r modd y darlunid gwerin cymdeithas. Yn wir yn y nofelau cynnar yma gellir honni bod Geoffrey Trease yn llunio nofelau propaganda yn hytrach na nofelau cytbwys crwn. Dywedir bod y cymeriad Robin Hood yn Bows Against the Barons yn **'revolutionary with the sentiments of Trease's own Spanish Civil War generation'** tra bo Comrades for the Charter yn **'more propaganda than history'** [20]. Ond wrth i Geoffrey Trease ddatblygu fel awdur fe ddaeth i gyflwyno ei farn yn ddi-duedd, yn hytrach na gadael i'w ddaliadau ef liwio barn y cymeriadau. Gwelwyd yr awdur newydd ar waith pan ymddangosodd ei nofel Cue for Treason(1940) sydd wedi'i lleoli yng nghyfnod y Rhyfel Cartref. Ynddi hefyd gwelwyd y modd yr oedd Trease yn sicrhau ei fod yn hanesyddol gywir wrth ymdrin â ffeithiau'r oes. Roedd Trease ar flaen y gad gyda hyn ac iddo ef mae'r diolch am osod seiliau cadarn i'r hanes yn y nofelau hanes, fel y dywedwyd:

> **Authenticity and historical accuracy are now taken so much for granted as part of the craft of historical novelists that the debt to Trease is often forgotten.**
>
> [21]

Mae'n amlwg bod Geoffrey Trease yn arloeswr yn ei ddydd ac mae dyled maes y nofel hanes yn fawr iddo. Gan fod ganddo ddiddordeb mewn anghyfiawnderau'r unigolyn mae straeon sydd yn sôn am y bygythiad i'r unigolyn yn mynd â'i fryd a dyna paham y ceir hanes carfan wahanol o bobl i'r hyn a gafwyd o'r blaen. Y werin oedd yn dioddef ac felly y werin oedd cymeriadau straeon Trease ac yn hyn o beth mae'n rhaid nodi ei fod wedi cyfrannu at ddatblygiad y

nofel hanes. Yn wir mae ei gyfraniad ef mor bwysig fel y disgrifiwyd ei waith gyda'r geiriau canlynol:

> **To survey the work of Geoffrey Trease is to write the history of children's books in England for the past 50 years.** [22]

Dyma ddweud mawr iawn gan awgrymu'n gryf mai gwaith Geoffrey Trease sydd wedi mapio hanes y ffurf llenyddol yma dros yr hanner canrif ddiwethaf. Mae'n amlwg felly ein bod yn delio ag awdur pwysig wrth sôn am Geoffrey Trease.

Awdur pwysig arall ym maes y nofel hanes yn Lloegr yw gŵr sydd ag enw tebyg iawn i'r awdur blaenorol. Ysgrifennodd Henry Treece(1911-1966) gyfanswm o bum nofel hanes ar hugain ar gyfer darllenwyr ifainc, a hynny mewn cyfnod o ddeuddeng mlynedd. Ond nofel ar gyfer oedolion oedd ei nofel gyntaf, The Dark Island(1952) ac wedi hynny cafwyd naw nofel arall ar gyfer oedolion cyn i Henry Treece fynd ati i ysgrifennu ar gyfer plant ym 1954 gyda'i nofel Legions of the Eagle. Roedd yn awdur dawnus iawn gan ei fod yn gallu ysgrifennu ar gyfer plant o bob oed ac er mwyn i'r darllenwyr deimlo eu bod yn rhan o'r cynnwrf yn ei straeon yn aml iawn plant yw'r cymeriadau allweddol sydd yn gweld yr holl ddigwydd cyffrous yn y nofelau. Cyfnodau cynnar mewn hanes sydd yn mynd â bryd Henry Treece gyda chyfnod y Rhufeiniaid yn cael lle blaenllaw yn ei nofel gyntaf ar gyfer plant a'r nofel The Eagles Have Flown(1954). Yna gwelwyd nofelau a oedd yn ymdrin â chyfnod y Llychlynwyr. Roedd yn hoff iawn o'r cyfnod hwn gan fod ganddo ddwy gyfres gyda'r cyfnod yma yn gefndir

iddynt. Yn y gyfres gyntaf o dair nofel ymdrinir â hanes Harald Sigurdson yn Viking's Dawn(1955), The Road to Miklagard(157) a Viking's Sunset(1960). Yna yn yr ail gyfres, eto yn cynnwys tair nofel, hanes Llychlynwr arall a geir, sef Harald Hardrada. Mae'r tair nofel Hounds of the King(1955), Man With a Sword(1962) a The Last of the Vikings(1964) ar gyfer darllenwyr iau na'r gyfres gyntaf.

Gwelir yr un themâu yn ymddangos dro ar ôl tro yng ngwaith Henry Treece. Un ohonynt yw ei ymdriniaeth o gyfnodau sydd yn delio â newidiadau mawr mewn hanes. Mae cyfnod y Rhufeiniaid a'r Llychlynwyr yn enghreifftiau o hyn. Yn ogystal mae sawl cymeriad yn chwilio am dad neu gymeriad 'tadol', megis Beorn yn y nofel Horned Helmet(1963). Dywed llawer mai ymateb Treece i farwolaeth ei fab oedd y thema yma. Problem i sawl awdur nofelau hanes yw cyflwyno deialog hanesyddol ond llwydda Henry Treece i wneud hyn yn gelfydd dros ben. Roedd ganddo glust arbennig o dda at sŵn geiriau ac roedd yn ymwybodol bod angen i'w ddarllenwyr ddeall yr hyn a ysgrifennai yn y deialogau. Yn wahanol i rai awduron llwyddodd ef i greu deialog a oedd yn '**...both natural to modern ears and appropriate to period and character**' [23]. Roedd yn awdur toreithiog a'r pechod mwyaf yw na chafodd Henry Treece ei gydnabod fel awdur pwysig hyd nes ei farwolaeth cynnar ym 1966. Pedair blynedd dros ei hanner cant ydoedd pan fu farw a phwy a ŵyr ble y byddai wedi arwain y nofel hanes petai wedi cael byw i ysgrifennu rhagor o nofelau llwyddiannus.

Fel Henry Treece, cyfnod cynnar mewn hanes oedd yn mynd â

bryd Rosemary Sutcliff(1920-)hefyd. Ar ddechrau ei gyrfa fel awdures canolbwyntiodd ar ysgrifennu straeon digon syml a oedd yn addas ar gyfer darllenwyr ifainc. Yn wir mae'n anodd credu iddi ddatblygu cymaint wedyn mewn cyn lleied o amser oherwydd y gwahaniaeth sydd rhwng un o'i nofelau cynnar megis The Armourer's House(1951) ac yna'r nofel gyntaf sydd yn ei dangos fel meistres ar ffurf y nofel hanes, sef y nofel Simon(1953). Cyfnod y Rhyfel Cartref yw cefndir y nofel yma a ddisgrifwyd fel **'the first of Sutcliff's mature and complex stories'** [24]. Mae ôl datblygiad i'w weld yn y modd y llwydda Rosemary Sutcliff i drosglwyddo safbwynt y brenhinwyr a'r seneddwyr drwy gydol y nofel, yn hytrach na chanolbwyntio ar un ochr i'r ddadl yn unig. Flwyddyn yn ddiweddarach cafwyd y gyntaf mewn cyfres o dair nofel wedi eu gwreiddio yng nghyfnod y Rhufeiniaid, cyfnod y dychwelodd yr awdures ato lawer gwaith. The Eagle of the Ninth(1954) oedd y gyntaf ac yna fe'i dilynwyd gan The Silver Branch(1957) a The Lantern Bearers(1959). Yn ogystal â chanolbwyntio ar y gyfres yma roedd hi hefyd yn ysgrifennu nofelau eraill yn ystod yr un blynyddoedd ac yn The Shield Ring(1956) gwelir bod cyfnod hanesyddol arall yn mynd â'i bryd, sef cyfnod y Llychlynwyr.

Yn ôl llawer ei nofel The Mark of the Horse Lord(1965) yw ei nofel orau ac fe'i disgrifir fel

> **...arguably her finest novel, for adults or children. Certainly it is a book of supreme assurance and maturity of style, construction, and content.** [25]

Fel y gyfres o dair nofel, cyfnod y Rhufeiniaid yw cefndir y

nofel hon hefyd. Cyn-ymladdwr dewr yn yr amffitheatr yw'r prif gymeriad ac mae'n troi ei olygon at fod yn arweinydd carfan o bobl. Ar ddiwedd y nofel gwelir nad yw y cyn-ŵr dewr yn arweinydd cryf ond yn hytrach mae'n gymeriad trasig sydd yn ennyn cydymdeimlad. Er gwaethaf y ganmoliaeth a dderbyniodd yr awdures am y nofel hon syndod mawr yw sylweddoli nad aeth Rosemary Sutcliff ati i ysgrifennu unrhyw nofel fawr ar gyfer plant am ddeng mlynedd wedi ymddangosiad The Mark of the Horse Lord. Ond pan dorrwyd ar y tawelwch, nofel am hanes y Llychlynwyr a welodd olau dydd ym 1977, Blood Feud. Ddwy flynedd yn ddiweddarach dechreuodd ar gyfres arall, y tro yma am hanes y brenin Arthur. Dwy nofel oedd yn y gyfres yma, The Light Beyond the Forest(1979) a The Sword and the Circle(1981).

Fe gafwyd peth beirniadaeth ar waith Rosemary Sutcliff a hynny yn bennaf ar ei harddull wrth ysgrifennu deialog. Tuedda i fod yn or-lenyddol ac felly nid yw y darlleniad yn llithrig a rhwydd. Wrth sylwi ar rai o'r cymeriadau sydd i'w gweld yng ngweithiau'r awdures fe sylwir bod ambell gymeriad yn dioddef ag anabledd corfforol, megis Drem, y prif gymeriad, yn Warrior Scarlet(1958). Nid yw hyn yn syndod wrth ddod i ddeall bod gan Rosemary Sutcliff anabledd drwg ei hun, wedi iddi fod yn sâl pan oedd yn ddyflwydd oed. Yn ei gwaith fe ymddengys yr un themâu drosodd a throsodd ac un o'i hoff themâu yw'r ymgiprys rhwng y goleuni a'r tywyllwch. Trosiadau ydynt am y newid mawr a ddigwyddodd yn ystod diwedd cyfnod y Rhufeiniaid, sef y cyfnod y dewisiodd hi osod llawer o'i nofelau ynddo. Hefyd fe wêl Rosemary Sutcliff bod tebygrwydd rhwng y cyfnod pell yma a'n cyfnod ni, fel y dywedir yn y dyfyniad canlynol:

> **She has said that she believes that 'the disintegration of the Roman Empire and the onset of the Dark Ages contain truths for our own time...We have the same uncertainty the Romans must have had whether the light would show up again at the end of the tunnel'.** [26]

Gan fod Rosemary Sutcliff yn gweld tebygrwydd rhwng cyfnod y Rhufeiniaid a'n cyfnod ni gall uniaethu â'r cymeriadau a'u sefyllfaoedd ac felly wrth iddi ysgrifennu mae modd iddi sôn am eu problemau fel un sydd yn deall yr hyn mae ei chymeriadau yn eu dioddef. Yn sicr mae hyn yn ychwanegu at apêl ei nofelau hanes gan fod modd i ni weld beth sydd yn arwain pob cymeriad i weithredu fel y gwna. Wrth i'r awdures uniaethu â hwy gallwn ninnau ddeall eu cymhellion yn well. Gellir gweld bod yr awdures wedi datblygu ffurf y nofel hanes er gwell ac mae'n ddigon hawdd cytuno â'r farn ganlynol am Rosemary Sutcliff:

> **In Rosemary Sutcliff's hands the children's historical novel has gained passion, insight, and depth.** [27]

Awdur poblogaidd arall yn y chwedegau oedd Leon Garfield(1921-). Yn wahanol i'r awduron a enwir uchod roedd Garfield wrth ei fodd gyda chyfnod y ddeunawfed ganrif ac mae llawer o'i nofelau wedi eu lleoli yn ei ardal enedigol ef, sef Brighton. Llyfrau yn llawn antur yw un o nodweddion yr awdur hwn a gwelwyd hynny yn ei nofel gyntaf Jack Holborn(1964). Roedd Garfield wedi llunio'r nofel ar gyfer oedolion ond fe'i anogwyd

ef, gan olygydd, i'w haddasu ar gyfer plant. Eto mae hyn yn wir am amryw o'i nofelau gan eu bod yr un mor addas ar gyfer plant ac oedolion. Ar brydiau mae'n ymdrin â themâu sydd, efallai, yn anaddas ar gyfer darllenwyr ifainc. Yn Black Jack(1968) adroddir hanes gŵr yn cael ei grogi ond llwydda i dwyllo ei ddienyddwyr ac felly yn nes ymlaen mae'n codi o'i arch ac yn dilyn bywyd llawn drygioni wedi hynny. Mewn nofel arall, The Strange Affair of Adeilaide Harris(1971) ceir yr elfen oruwchnaturiol, fel mewn nofelau eraill, tra mae prif gymeriad The Drummer Boy(1969) yn wrywgydiwr. Nid yw rhain yn themâu y byddai disgwyl i awdur ymdrin â hwy mewn nofelau ar gyfer plant. Ond wedi dweud hyn mae'n amlwg mai nofelau ar gyfer darllenwyr ifainc yw gwaith Leon Garfield ar y cyfan ac yn amlach na pheidio plant yw prif gymeriadau'r nofelau. Thema sydd yn ymddangos dro ar ôl tro yw thema'r plentyn yn chwilio am ei achau. Fe'i gwelwyd yn ei nofel gyntaf ac eto mewn nofelau eraill, megis Devil-in-the-Fog(1966). Wrth gwrs roedd y thema yma wedi ymddangos o'r blaen mewn nofelau hanes, megis yn Kidnapped(1886) gan Robert Louis Stevenson.

Yn wahanol i awduron eraill nid gwaith ymchwil manwl oedd yn mynd â bryd Leon Garfield. Yn hytrach roedd ganddo fwy o ddiddordeb yn y modd yr oedd y digwyddiadau hanesyddol yn dylanwadu ar ei gymeriadau, fel y dywedir yn y dyfyniad canlynol:

> **...Garfield's work is usually placed under the heading of Historical Novels, but it is far from being that well-meaning type of historical writing where the painstakingly researched background is all-important.**

> **History lies lightly on these novels. Garfield has certainly done his research, but the background is transmuted so that we see it as it affects the inner lives of his charaters.** [28]

Mae'n rhaid canmol Leon Garfield oherwydd mae'n bwysig ein bod yn dod i ddeall sut y gallai ein cyndeidiau fod wedi ymateb i ddigwyddiadau hanesyddol ac yn ei nofelau hanes ef dyna a gawn. Mae ei gyfraniad yn bwysig, fel y dywedwyd yn y llyfr Twentieth Century Children's Writers:

> **Leon Garfield has produced a very considerable body of work for young people, remarkable for its high imaginative quality and individual style.** [29]

Wrth edrych ar y nofel hanes yn ystod ail hanner y ganrif yma yn Lloegr gellir gweld bod y ffurf wedi datblygu yn aruthrol yn nwylo medrus awduron megis Geoffrey Trease, Rosemary Sutcliff, Henry Treece a Leon Garfield. Mae'n rhaid cofio mai ychydig dros ganrif a hanner sydd wedi mynd heibio ers cyhoeddi Waverley yn 1814 ac yna ganrif yn ôl y cyhoeddwyd y nofel Kidnapped(1886) a fu'n sbardun i hyrwyddo ffurf y nofel hanes. Bu amryw o gerrig milltir pwysig ar hyd y daith a chyda pob carreg newydd aeddfedodd y nofel hanes yn Lloegr.

Y DATBLYGIAD YNG NGHYMRU

O'i gymharu â Lloegr digon araf fu datblygiad y nofel hanes yng Nghymru. Ymhlith y rhesymau am hyn oedd y ffaith nad oedd gweisg a chanolfannau argraffu i'w cael yng Nghymru mor gynnar â Lloegr. Ond y prif reswm am yr oedi oedd diffyg ymwybyddiaeth y Cymry o hanes eu gorffennol. Roedd hyn yn wahanol i'r Saeson a oedd yn cael eu trwytho yn hanes eu cenedl. Roedd hanes yn cael ei ddysgu yn ysgolion Cymru ond nid hanes Cymru ydoedd. Roedd y drefn wedi ei seilio yn gadarn yn nhrefn Lloegr, fel y dywed John Davies:

> **Mabwysiadwyd yr egwyddor o 'dalu yn ôl y canlyniadau' yn 1861, a chan i'r profion gael eu cyfyngu i wybodaeth o rifyddeg ac i'r gallu i ddarllen ac ysgrifennu Saesneg, alltudiwyd y Gymraeg o'r ysgolion.** [30]

Eithriwyd y Gymraeg a phopeth Cymreig. Daeth dysgu hanes Cymru yn fwy poblogaidd wedi 1889 wrth iddo gael ei dderbyn gan y drefn addysgol oherwydd câi ysgolion yn awr eu talu am ganlyniadau llwyddiannus mewn '...**gramadeg Cymraeg a hanes a daearyddiaeth Cymru...**' [31]. Cymorth arall i'r nofelwyr oedd ymddangosiad gwaith ysgolheigaidd gan haneswyr megis O. M. Edwards. Yn awr roedd gan y llenorion eu ffeithiau cefndirol er mwyn mynd ati i greu eu nofelau hanes am hanes Cymru. Wedi hyn y gwelwyd y deffroad ym maes y nofel hanes.

Roedd ambell nofel y gellir ei hystyried yn nofel hanes wedi ymddangos cyn y gwir ddeffroad. Yn ôl rhai ystyrir Daniel

Owen(1836-1895) ymhlith y cyntaf i gynhyrchu nofel hanes gan fod Gwen Tomos (1894) yn sôn am y cyfnod y gwelwyd cynnydd mewn Ymneilltuaeth ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gellir lleoli y digwydd yn bendant rhwng y blynyddoedd 1835 ac 1843 oherwydd y cyfeiriad a geir at berson o gig a gwaed hanesyddol. Gwêl Gwen Tomos ac Elin Wyn '**...ŵr golygus a hardd ar gefn ceffyl du, porthiannus, ond llonydd.**' [32] a dywed Elin Wyn mai '**Mr. John Phillips, Treffynnon, - pregethwr Methodus ydi o**' [33]. Gellir cadarnhau bod y gŵr hwn wedi bod yn weinidog yn ardal Treffynnon oherwydd ceir y geiriau canlynol yn Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940:

> **Ymadawodd oddi yno** [Prifysgol Caeredin] **ym Mai 1835, a derbyniodd alwad i Dreffynnon i fugeilio eglwys neilltuol Gymraeg y Methodistiaid Calfinaidd. Ordeiniwyd ef yn weinidog yng nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 1837. Yn ystod ei weinidogeth yn Nhreffynnon, priododd ag Eleanor, merch Robert Parry, y Frigan, Llaneugrad, sir Fôn, a symudodd yno yn 1843.** [34]

Gan mai ym 1837 yr ordeiniwyd John Phillips gellir dweud bod dechrau'r nofel Gwen Tomos yn digwydd rhwng 1837 ac 1843, cyfnod pan oedd Daniel Owen yn faban bychan. Nid yw'r nofel yn sôn am gyfnod sydd y tu hwnt i fywyd yr awdur felly ond gellir dweud bod Daniel Owen wedi dechrau gosod y seiliau ar gyfer y nofel hanes. Yn ei ragymadrodd i'r argraffiad newydd o Gwen Tomos yn 1992 dywed E.G. Millward mai '**Nofel hanesyddol, felly, yn y lle cyntaf, yw Gwen Tomos...hanes twf yr ymneilltuaeth ddiwygiadol newydd...**' [35]. Roedd Daniel Owen felly wedi dechrau braeanu'r

tir ar gyfer ffurf y nofel hanes yn Gymraeg.

Roedd yr Eisteddfod hefyd yn ceisio ysbrydoli awduron i fynd ati i lunio nofelau hanes megis y modd y cynigwyd gwobr o ddeg punt am ramant hanesyddol yn Eisteddfod y Gordofigion yn 1867. Roedd rhai o gylchgronau poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hefyd yn fwy na bodlon cyhoeddi straeon neu nofelau hanes gan eu bod yn denu darllenwyr wrth wneud hynny. Mae nifer o enwau yn ymddangos dro ar ôl tro yn y cylchgronau yma, enwau megis Ieuan Ddu, Allt-wen, neu Beriah Gwynfe Evans neu Ellis o'r Nant. Yr un oedd bwriad nifer o'r awduron, sef gweld eu cyfle i gyflwyno gwell moesau i'w darllenwyr. Darlunient eu cyndeidiau fel seintiau perffaith nad oeddent yn yfed yr un diferyn o'r ddiod gadarn. Dyma oedd y ddelfryd ar gyfer y presennol ym marn yr awduron: **'Lloches oedd y gorffennol rhag dirywiad yr oes fodern...'** [36] meddai E. G. Millward ac mae rhywun yn sylweddoli nad oes dim wedi newid mewn canrif.

Bwriad arall yr awduron oedd gwella ymwybyddiaeth y Cymry o'u hanes a thrwy wneud hyn geisio codi eu hunanddelwedd fel cenedl. Y mae'r arwyr cryf i'w gweld yn aml ac un o hoff gymeriadau hanesyddol y cyfnod oedd Owain Glyndŵr. Roedd yr arwyr i gyd wedi eu torri o'r un brethyn ag ef:

> **Amddiffynwyr gwrol yr iaith Gymraeg, y gwareiddiad Cymraeg a thir Cymru yn erbyn y Sais yw'r rhain,** [arwyr y nofelau] **a gallant ymroi ar dro i wrth-Seisnigaeth afieithus.** [37]

Wrth ysgrifennu am gyfnodau mwy llewyrchus yn hanes Cymru roedd y llenorion yn ceisio adfer peth o'r hunaniaeth mewn cyfnod pan welwyd nifer o'r Cymry yn troi eu cefnau ar bethau Cymraeg a Chymreig gan weld man gwyn man draw yn nhraddodiadau Seisnig oes Fictoria. Gweld eu cyfle yr oedd awduron y ganrif ddiwethaf wrth droi at ffurf y nofel hanes. Nid hoffi'r ffurf fel ffurf yr oeddent ond ei hoffi oherwydd y cyfleon a gynigai i ddiwallu eu hanghenion.

Y ffigwr pwysig nesaf yn natblygiad y stori hanes yng Nghymru yw O. M. Edwards(1858-1920). Nid hanesydd yn unig ydoedd O. M. Edwards. Roedd hefyd yn llenor penigamp a sylweddolai nad oedd plant Cymru yn ymwybodol o'u cefndir a chredai eu bod yn dlotach o'r herwydd. Ei fwriad ef oedd unioni'r cam yma ac yn ei lyfrau a'i gylchgronau aeth ati i lunio straeon hanes. Cymry clodwiw yw'r cymeriadau yn ei straeon a rheini'n amlach na pheidio yn bobl a ymdebygai i'r bobl y cafodd O. M. Edwards ei fagu yn eu plith. Roedd yn arloeswr yn hyn o beth gan mai prin iawn oedd y deunydd hanesyddol yng Nghymru a phrinach fyth o safbwynt y 'werin' Gymraeg.

Cyfeiriodd amryw at y nodwedd 'werinol' yng ngwaith O. M. Edwards gan ddweud mai unig reswm yr awdur dros wneud hyn oedd er mwyn dangos i'r darllenwyr mai'r 'werin' fu'n cynnal y traddodiad Cymraeg. Hebddynt hwy ni fyddai'r genedl wedi goroesi. Mae'n rhaid cofio mai'r dosbarth gwerinol fyddai'n darllen ei waith ac felly gwnâi'n siŵr ei fod yn apelio atynt hwy. Dywed Alun Llywelyn Williams nad oedd O. M. Edwards yn ddim amgenach na phropagandydd:

> **Y gwir yw, er cymaint ei ddiddordeb mewn llenyddiaeth ac mewn hanes, nad y pethau hyn oedd agosaf at ei galon, eithr yn hytrach rhyw ofal angerddol dros les a ffyniant y gymdeithas Gymraeg fel cyfangorff, ac i'r graddau y gallai gwybodaeth o'r hanes a gwerthfawrogiad o'i llenyddiaeth hyrwyddo bywyd y genedl yn y presennol a'r dyfodol, i'r graddau hynny yn unig yr oeddynt yn bwysig. Propagandydd ydoedd yn hytrach na llenor creadigol. [38]**

Efallai bod hyn yn ddigon gwir ond ni ellir diystyru gwaith O. M. Edwards yn y maes yma. Ei fwriad oedd addysgu plant a phobl Cymru am draddodiadau a hanesion eu gwlad ac os mai propaganda y mynn rhai pobl alw hyn yna mae'n rhaid dweud mai propagandydd oedd O. M. Edwards.

Nid fel awdur yn unig y cyfrannodd O. M. Edwards i faes y nofel neu stori hanes. Bu hefyd yn gyfrifol am annog awduron newydd i fentro ysgrifennu. Gan mai O. M. Edwards oedd golygydd cylchgronau fel Cymru rhoddai gyfle i awduron newydd weld eu gwaith wedi'i gyhoeddi. Ymhlith yr awduron yma mae gŵr a fu'n llenor poblogaidd iawn. Ymddangosodd rhai o straeon cynnar E. Morgan Humphreys(1882-1955) yng nghylchgronau O. M. Edwards, megis y stori **Dirgelwch yr Anialwch** a welodd olau dydd yn y cylchgrawn Cymru, cyfrol XL ym mis Ionawr 1911. Roedd straeon E. Morgan Humphreys yn llawn antur ac felly wrth fodd darllenwyr ifainc. Gan fod rhai o'i straeon yn ymddangos fesul pennod yn fisol yn y cylchgrawn Cymru, megis y nofel Rhwng Rhyfeloedd yng nghyfrol L, roedd yn rhaid cael diweddglo a fyddai'n annog y

darllenwyr i ailymuno â'r stori y tro nesaf ac ychwanegai hyn at y tensiwn yn ei straeon.

Ymhlith nofelau hanes E. Morgan Humphreys mae Rhwng Rhyfeloedd(1916) sydd yn sôn am y cyfnod yn ystod Rhyfeloedd Napoleon ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Gwraidd yr hanes yw bod Capten Gruffydd yn derbyn arian ar yr amod ei fod yn trosglwyddo rhai o gyfrinachau Prydain i'r Ffrancwyr. Wrth iddo deimlo'n euog am hyn penderfyna dorri ei addewid a phan ddaw'r Ffrancwyr i chwilio amdano mae'n lladd Carrier, un ohonynt, ac yn ceisio rhoi'r bai ar Huw Anwyl, arwr y nofel. Digon arwynebol yw'r nofel hon o'i chymharu a'i nofel nesaf. Yr Etifedd Coll(1924) oedd ei ail nofel ac mae'r plot yn llawer mwy cymhleth na'r nofel flaenorol. Ynddi adroddir hynt a helynt Edward Prichard yn mynd i Dde America i chwilio am ei frawd Huw er mwyn i'r ddau ohonynt etifeddu cartref eu tad. Os na ddeuir o hyd i'r brawd bydd yr etifeddiaeth yn cael ei throsglwyddo i ddwylo Robert Price, cyfreithiwr cyfrwys sydd wedi anfon Sion Phylip ar ôl Edward i Dde America er mwyn iddo ladd y ddau frawd i'w rhwystro rhag derbyn eu hetifeddiaeth. Yn ystod eu taith mae'n rhaid iddynt wynebu storm enbyd ar y môr, cael eu carcharu gan drigolion lleol a'u herwgipio gan lwyth o Indiaid, sydd yn digwydd bod yn gyfeillion mynwesol i Huw Prichard. O'r herwydd daw Edward o hyd i'w frawd a dychwela'r ddau i Gymru gan hawlio eu cyfoeth. Fel y gellir dychmygu mae'r nofel Yr Etifedd Coll yn llawn cyffro a chyd-ddigwyddiadau cyfleus iawn. Ond er gwaethaf hyn mae hi'n nofel hynod ddiddorol i'w darllen ac yn dangos datblygiad mawr yng ngwaith E. Morgan Humphreys wrth ei chymharu a'r nofel Rhwng Rhyfeloedd.

Hefyd cyhoeddodd E. Morgan Humphreys gyfrol o straeon o'r enw Dirgelwch yr Anialwch ac Ystraeon Eraill (1911). Ymddangosodd y straeon i gyd yn flaenorol yn y cylchgrawn Cymru yn ystod 1910 a 1911. Yn y gyfrol ceir hanesion am sawl cyfnod gwahanol, o gyfnod Llywelyn yn y stori **Y Ddau Frawd** i gyfnod Owain Glyndŵr yn **Mab Llwyn y Ceirw**, cyfnod Cromwell yn **Ar y Ffordd Ddu** a hanes y Cymry ym Mhatagonia yn **Dial y Cymry**. Gwelir yr un teimlad gwladgarol yn rhedeg drwy'r holl straeon ac fel y dywedodd Bedwyr Lewis Jones mae modd gweld dylanwad ei anogwr yng ngwaith E. Morgan Humphreys:

> **Mae dylanwad Owen M. Edwards yn amlwg; mae'r straeon yn cyflwyno hanes Cymru o safbwynt gwlatgar.** [39]

Gŵr a ysgrifennai yn yr un cyfnod ag E. Morgan Humphreys oedd W. D. Owen ac ystyrir ei nofel ef, Madam Wen(1925) yn nofel hanes. Disgrifir y nofel fel 'rhamant' ac er nad y stori garwriaethol sydd yn cael y lle blaenllaw ynddi, mae'r elfen o serch yn bodoli rhwng Morys Williams ac Einir Wyn ac fel pob rhamant werth chweil fe gawn briodas hapus y ddau ar ddiwedd y nofel. Eilbeth yw'r rhamant ynddi mewn gwirionedd gan mai dirgelwch y cymeriad Madam Wen, fel yr awgryma teitl y llyfr, yw'r prif stori ynddi. Dwyn oddi ar y cyfoethog a wna Madam Wen ond er hyn mae ganddi egwyddorion oherwydd mae'n dychwelyd cod o arian a ddygwyd oddi ar Morys Williams. Nid oes ond ychydig o griw yn gwybod pwy yw Madam Wen ond fe roddir digon o gliwiau i'r darllenydd yn ystod y nofel. Fel nofel hanes nid yw hi'n nofel sydd yn llawn cyfeiriadau hanesyddol, er bod modd lleoli'r digwydd yn y blynyddoedd wedi gorseddiad Iago II yn 1685-88,

oherwydd y cyfeiriad a geir bod Einir Wyn wedi '**...dawnsio yn llys y Brenin Iago**' [40] a hynny '**...ar fraich urddasol Syr William ei hun...**'[41] a dywed y Cyrnol Sprigg y geiriau canlynol:

> '**Gwasanaeth ein hardderchocaf frenin Iago ydyw...Llwydd iddo! Aflwydd i'w holl elynion! Yn enwedig i'r ellyll hwnnw o'r Isalmaen, Gwilym Ddistaw!**' [42]

Cyfeiriad sydd yma wrth gwrs at olynydd y brenin Iago, sef William III. Dywedir wrthym bod Iago yn ceisio hel milwyr ynghyd yn yr Iwerddon er mwyn ceisio adfer ei goron oddi wrth William III: '**Gyda glaniad y Brenin Iago, a chyfarfyddiad ei senedd unochrog yn Nulyn, datblygodd yr ymrafael, a dechreuwyd ymladd o ddifrif.**' [43]. Mae modd felly gosod y dyddiad yma ar ôl Chwefror y trydydd ar ddeg, 1689, pan ddaeth William a Mari i gyd-oreseddu yn Lloegr a chyn Gorffennaf y cyntaf, 1690, oherwydd fel y dywed John Davies:

> **Nychwyd hynny o deyrngarwch a oedd ar ôl i James pan laniodd yn Iwerddon yn 1689 er mwyn defnyddio'r ynys yn sail i'w ymosodiad ar Brydain. Trechwyd ef gan William III ger afon Boyne ar 1 Gorffennaf 1690.** [44]

Fel y gellir gweld llwyddwyd i osod y nofel mewn cyfnod hanesyddol pendant, yn '**ystod cyfnod pur fyr yn wythdegau'r ail ganrif ar bymtheg**' [45] fel y dywed R. Maldwyn Thomas, oherwydd y cyfeiriadau a geir gan W. D. Owen, ond ar wahân i'r enghreifftiau uchod a'r aml sôn am uchelwyr y Penrhyn neu wŷr pwysig Môn yn y cyfnod, megis Siryf Sparrow, digon cyffredin yw'r

cyfeiriadau eraill. Mae hyn i'w weld wrth i'r awdur gyfeirio at groesi'r Fenai er mwyn i'r cymeriadau gyrraedd y gwleddoedd a'r partion a gynhelid yn y Penrhyn. Fe ddisgrifir y daith fel un rwydd iawn gyda brawddeg yn unig yn ddigon i sôn amdani, er enghraifft: **'Gadawyd Lewys [ceffyl Morys Williams] mewn diddosrwydd yng nghanol llawnder yn Nhan y Foel, ac aeth ei berchen dros y dŵr ei hunan'** [46] neu **'Wedi croesi'r afon daeth Lewys Ddu a'r ebol melyn wrth eu pwys i Fangor...'** [47]. Mor hawdd! Nid oes arlliw o sôn am gerynt cryf y Fenai a'r holl drafferthion y gellid eu cael i gyrraedd Arfon.

Yn wir ar ddechrau'r nofel ceir y math o ddyfyniad y dylid ceisio ei osgoi mewn unrhyw nofel hanes oherwydd daw'r darllenydd i wybod mai rhywbeth yn y gorffennol yw'r stori yn hytrach na bod yr awdur wedi llwyddo i dynnu'r darllenydd i mewn i gyfnod y nofel gan wneud iddo anghofio popeth am ei bresennol.

> **Y mae Tafarn y Cwch eto'n aros, ond nid fel maelfa ddiodydd. Saif ar dair croeslon yn agos i eglwys LLanfihangel-yn-Nhowyn. Perthyn yn amlwg i gyfnod a fu; tŷ a welodd well - neu yn hytrach waeth - dyddiau. Yn amser Sion Ifan yr oedd megis ym mlodau ei ddyddiau yn fan cyfarfod amaethwyr y cylch.** [48]

Nid yw'r hanes yn holl bwysig i W. D. Owen gan mai ei awydd i gyflwyno dirgelwch y Fadam Wen oedd ei bennaf fwriad a gellid newid cefndir hanesyddol y nofel i unrhyw ganrif heb fawr drafferth gan nad yw'r cyfeiriadau at frenhinoedd a gwŷr Môn y cyfnod yn rhan allweddol o rediad y stori. Ond wedi dweud hyn

mae Madam Wen yn stori afaelgar sydd yn ennyn chwilfrydedd y darllenydd gan ei fod am ddarganfod ai Einir Wyn yw Madam Wen a phryd y daw Morys Williams i ddeall hynny. Roedd W. D. Owen yn ŵr o flaen ei oes gan iddo gael merch fel prif gymeriad ei nofel a honno'n ferch gadarn, ddewr heb ofni rhoi'r dynion yn eu lle.

Awdures arall a efelychodd W. D. Owen drwy ysgrifennu am ferched dewr ac awdures a fu'n llwyddiannus iawn yn yr Eisteddfod Genedlaethol oedd Elizabeth Watkin Jones (1887-1966). Cyfnod y Rhyfel Cartref a'r ymgiprys i geisio adfer y goron a chael gwared â Chromwell aeth â bryd Elizabeth Watkin Jones ac o'i saith nofel mae pump yn ymdrin â'r cyfnod yma: Plant y Mynachdy (1939), Y Cwlwm Cêl (1947), Esyllt (1951), Lowri (1951), a Lois (1955). O'r ddwy nofel arall mae'r naill, Luned Bengoch (1946) yn sôn am gyfnod Owain Glyndŵr a'r llall, Y Dryslwyn (1947) yn sôn am gyfnod y Goets Fawr. Fel W. D. Owen, ac yn wahanol i awduron eraill blaenorol, penderfynodd Elizabeth Watkin Jones ddewis merched fel ei phrif gymeriadau. Wrth wneud hyn dewisiodd ferched o blith teuluoedd uchelwrol ac felly gellir dweud nad yw Elizabeth Watkin Jones yn dilyn ôl troed O. M. Edwards nac E. Morgan Humphreys gan iddynt hwy benderfynu darlunio bywyd y 'werin'.

Bu peth beirniadu ar waith Elizabeth Watkin Jones a dywedir mai gwisg ffansi yn unig yw'r cefndir hanesyddol yn ei nofelau. Cyfleustra a barodd iddi osod ei chymeriadau yn y gorffennol a gallasai'r stori ddigwydd mewn unrhyw gyfnod. Yn ei thraethawd M.A. sylwodd Sian Teifi(1987) ar hyn:

> ... cefndir yn unig i anturiaethau'r prif gymeriadau yw'r cyd-destun hanesyddol yn nofelau Elizabeth Watkin-Jones. [49]

Mae ymdriniaeth bellach o waith Elizabeth Watkin Jones yn nes ymlaen yn y traethawd a chaiff y farn yma ei thrafod yn fanylach yn y bennod honno. [50]

Fel yr ymddangosai mwy o nofelau hanes roedd y safon yn codi: roedd y datblygiad i'w weld gydag awduron diweddar yn tynnu ar brofiad yr awduron cynt. Un o awduron mwyaf poblogaidd ymysg darllenwyr yn y cyfnod diweddar yw T. Llew Jones(1915-). Bu ei lyfrau ef yn swyno plant dros y deng mlynedd ar hugain ddiwethaf. Mae'n gosod y mwyafrif o'i nofelau yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Ymhlith ei nofelau ceir tair sy'n sôn am y cymeriad Twm Siôn Cati: Y Ffordd Beryglus(1963), Ymysg Lladron(1965) a Dial o'r Diwedd(1968). Mae hefyd yn hoff o straeon am y môr, môr-ladron a smyglwyr: mae'r nofelau Trysor y Môr-Ladron(1960), Ofnadwy Nos(1971), Barti Ddu o Gasnewy' Bach (1973) a Dirgelwch yr Ogof(1977) yn enghreifftiau o straeon am y môr. Yn ogystal aeth T. Llew Jones ati i sôn am y digwyddiadau yn ystod terfysgoedd Beca yn y nofel Cri'r Dylluan(1974). Mae'r elfen o gyffro, fel y disgwylir, yn bwysig iawn yn nofelau hanes T. Llew Jones a llwyddodd yr awdur i boblogeiddio'r ffurf ymhlith plant Cymru.

Awdures sydd yn ysgrifennu ar gyfer plant ychydig yn hŷn na darllenwyr T. Llew Jones yw Gweneth Lilly(1920-). Mae ei llyfrau hi yn cynnwys mwy o ffeithiau hanesyddol ac felly yn cadw

yn nes at ffurf y nofel hanes na T. Llew Jones, sydd yn fwy dibynnol ar y nofel antur na'r nofel hanes. Enghreifftiau o nofelau hanes Gweneth Lilly yw Rwy'n Cofio Dy Dad(1982), Ysbïwr yn yr Ysgol(1982), Hogan y Plas(1983) a nofel yng nghyfres y Cyd-bwyllgor Addysg, sef Tachwedd Tân Gwyllt(1990). Er bod rhai nofelau eraill sydd yn ymdrin â hanes gan yr awdures, megis Gaeaf y Cerrig(1981), nid ydynt yn nofelau hanes perffaith gan mai ffantasi sydd yn mynd â'r plant yn ôl mewn hanes. Yng ngwaith Gweneth Lilly gwelir y modd y mae hi'n tynnu yn helaeth ar y ffeithiau hanesyddol sydd ar gael iddi ac ni ellir ond enwi'r nofel Rwy'n Cofio Dy Dad, sydd yn sôn am hanes Llywelyn Ein Llyw Olaf, fel ei nofel sydd yn dangos hyn ar ei orau.

Nofelwraig arall a ysgrifennai yn yr un cyfnod â Gweneth Lilly oedd Irma Chilton(1930-1990). Trodd Irma Chilton at y Gymraeg a'r Saesneg wrth fynd ati i ysgrifennu ar gyfer plant a llwyddodd yn y naill iaith fel y llall, fel y dengys y gwobrwyon a dderbyniodd yn ystod ei hoes. Hi yw'r unig awdur a enillodd wobr Tir Na n-Og yn y ddwy iaith. Fe'i derbyniodd dair gwaith i gyd: y tro cyntaf ym 1980 am Y Llong(1979), yna ym 1984 am ei nofel Saesneg The Prize(1983) ac yn y Gymraeg eto ym 1989 gyda'i nofel Liw(1988). Yn ogystal derbyniodd Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Dyffryn Conwy 1989 am ysgrifennu'r nofel Mochyn Gwydr(1989). Mae'n ddigon hawdd sylwi bod Irma Chilton yn awdures lwyddiannus iawn a bu wrthi'n ddygn iawn yn ysgrifennu gan i dros ddeugain o'i llyfrau gael eu cyhoeddi.

Ceir un nofel ac un stori hanes o eiddo Irma Chilton sydd wedi eu lleoli yn yr un cyfnod ag aeth â bryd Elizabeth

Watkin Jones, sef cyfnod y Rhyfel Cartref. Morwyn yw prif gymeriad Breichled Modlen(1977) a phan mae Modlen yn unig mae'n edrych ar y freichled a dderbyniodd gan ei thad cyn iddo'i gadael i fynd i ymladd ar ran y brenin. Daw'r brenin ei hun i'r ardal yn y nofel, fel y daw'r Tywysog Rupert yn y stori **Y Cwlwm Gwaed** yn y gyfrol Y Cwlwm Gwaed a Storïau Eraill(1981). Drwy gyflwyno'r cymeriadau hanesyddol yma yn y straeon daw'r darllenwyr i wybod pwy oeddynt a beth oedd eu cyfraniad i'r hanes. Y ddeuddegfed ganrif yw dyddiad nofel hanes nesaf Irma Chilton, er bod peth gwedd ffantasïol i'r nofel Tomen y Bwlch(1982). Hanes Harri II a'i gyrchoedd yng Nghymru sydd yma a'r cymeriad Wili'r crwydryn sydd yn ychwanegu'r elfen o ffantasi gan ei fod yn hen ŵr pan oedd nain Dewi, un o'r cymeriadau eraill, yn iau. Cyfnod cynharach yw cefndir Achub y Llwyth(1983), sydd yn sôn am y Rhufeiniaid, ac er mwyn i'r darllenwyr uniaethu â'r cymeriadau bachgen ifanc yw arwr y nofel. Mae'n rhaid iddo rybuddio ei lwyth bod y Rhufeiniaid yn yr ardal cyn iddynt hwy gael gafael arnynt o'i flaen. Dyma ddywed Philip Wyn Jones am y nofel hon:

> **...mae Achub y Llwyth(Gwasg Gomer, 1983) yn nofel gampus...Drwyddi draw mae'r arddull yn blaen ond yn urddasol; mae'n arwrol yn ei gynildeb gan atgoffa'r darllenydd o hen groniclau'r Saeson a Beowulf. Dyma un o nofelau gorau'r awdur. [51]**

Awdures lwyddiannus arall a enillodd wobr Tir na n-Og, fel y gwnaeth Irma Chilton yw Mair Wynn Hughes. Ond yn wahanol i Irma Chilton fe enillodd Mair Wynn Hughes y wobr am nofel hanes. Ym

1984 dyfarnwyd Y Llinyn Arian(1983) fel ffuglen orau'r flwyddyn. Cyfnod Oes y Cerrig yw cefndir y nofel a hanes un o'r llwythau drwy lygaid brawd a chwaer a geir. Mae'r brawd a'r chwaer yn eu harddegau, a hynny yn cyd-fynd yn union ag oedran darllenwyr y nofel. Drwy ddewis plant fel y prif gymeriadau llwydda Mair Wynn Hughes i adael i'r darllenwyr gael golwg ar draddodiadau gwahanol drwy gyfrwng cymeriadau y gallant uniaethu â hwy. Yn ogystal gan fod Cert ac Wna, y ddau blentyn, yn fab a merch i arweinydd y llwyth cawn olwg fanylach ar drefn y gymdeithas yma. Yn anffodus caiff pawb eu lladd pan ymosodir ar eu gwersyll gan lwyth arall dieithr. Nid yw'r teulu dedwydd yn disgwyl hyn oherwydd dywedir wrthym beth yw trefn eu blwyddyn arferol ac ni ddisgwyliai yr un ohonynt unrhyw fath o berygl i hynny newid:

> **Hela a bwyta, glanhau crwyn, llunio arfau, pysgota, mudo i ogof y gaeaf ac yn ôl i wersyll yr haf, sychu cig a phlanhigion ar gyfer y tywydd garw; nid oedd dim arall mewn bywyd. Pa berygl? Perygl yr helfa a'r creaduriaid gwyllt, dyna'r unig beryglon a wyddent. Pam ofni'n awr?** [52]

Drwy'r dyfyniad yma gall y darllenwyr sylwi ar y math o fywyd a oedd gan eu cyndadau. Wedi'r gyflafan mae'n rhaid i'r ddau blentyn, gan mai hwy yw'r unig rai a adawyd yn fyw, geisio byw ar eu pennau eu hunain. Yn awr caiff y darllenwyr gyfle i fwrw golwg ar sut oedd pobl yn byw yn ystod Oes y Cerrig a chan mai'r ddau blentyn sydd yn gorfod ymdopi â phroblemau'r oes mae'r digwydd yn gymaint mwy diddorol i'r darllenwyr. Ar ddiwedd y nofel ceir diweddglo hapus wrth i Cert ac Wna gael eu derbyn gan

lwyth arall ac er mwyn ychwanegu at y llawenydd daw Wna yn gyfeillgar iawn â Mer, un o feibion y llwyth newydd. Fel Y Llinyn Arian cyfnod cynnar iawn yw'r cefndir hanesyddol Yr Un yw'r Frwydr(1983). Ynddi mae'r ddau brif gymeriad yn llwyddo i fynd i'r gorffennol er mwyn cael bod yn rhan o frwydr bwysig, ond ni ellir ei hystyried yn nofel hanes gan nad yw wedi ei gosod yn gyfangwbl mewn hanes.

Cyfnod cynnar sydd yn mynd â bryd Hilma Lloyd Edwards hefyd ac nid yw hyn yn syndod gan iddi lunio traethawd M. A. ar gyfnod yr Eifftiaid. Tra roedd yn y coleg yr aeth Hilma Lloyd Edwards ati i ddechrau ysgrifennu a chan ei bod yn hannu o'r Bontnewydd roedd arni gryn awydd cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon ym 1979. Dyna a wnaeth ac enillodd gomisiwn i gwblhau ei nofel Y Llwybr Disglair(1982) yn yr eisteddfod honno. Hanes y Rhufeiniaid yw cefndir y nofel hon ac mae'r prif gymeriad Lludd wrth ei fodd yn cael ei ddysgu am feddyginiaethau gan yr hen ŵr Meiddug. Mae am ddysgu cymaint ag y gall oherwydd fod ei fryd ar fod yn Dderwydd. Ond mae'n cael ei roi yng nghanol y Rhufeiniaid i weithio fel ffisigwr i wella eu clwyfau hwy. Wedi cyfnod yn eu cwmni mae'n gweld Caradog, un o'i hen gyfeillion, yn garcharor gan y Rhufeiniaid ac mae hyn yn pigo ei gydwybod. Penderfyna na all aros rhagor ymysg estroniaid a chychwyna ar ei daith gartref i Dre'r Ceiri, yn ôl at ei bobl ei hun.

Cefndir maes ymchwil Hilma Lloyd Edwards a geir i'r nofel Mab yr Haul(1990). Gŵr trigain oed sydd yn adrodd ei hanes fel y bu raid iddo fod ar ffo am nifer fawr o flynyddoedd wedi iddo gael ei erlid o balas y Pharo Achenaten ar ôl blynyddoedd o gael

ei gyd-fagu â phlant yr uchelwyr ac yna cael ei ddewis yn bersonol, gan y Pharo, i fynd yn offeiriad. Edrych yn ôl ar rai o brif ddigwyddiadau ei fywyd a wna Hetep-Re wedi iddo gael y newyddion da, ar ddechrau'r nofel, am farwolaeth Achenaten a'i fod yntau bellach yn ŵr rhydd heb orfod bod ar ffo. Gan ein bod yn cael golwg ar fywyd Hetep-Re rydym drwy hyn yn cael golwg ar fywyd yr Eifftwyr yn ystod eu hoes aur. Mae'n rhaid canmol Hilma Lloyd Edwards am droi at hanes yr Eifftwyr gan mai prin iawn yw'r nofelau Cymraeg sydd wedi eu gosod yn ystod y cyfnod diddorol yma.

Nid syndod yw sylweddoli bod y tair awdures uchod wedi cael eu dewis i gyfrannu nofelau i'r gyfres Prosiect Hanes Cymru gan y Cyd-Bwyllgor Addysg. Ysgrifennodd Irma Chilton a Mair Wynn Hughes am gyfnodau agos at ei gilydd: Irma Chilton yn gosod ei nofel yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf yn Kynnaston yng Nghlwyd a Mair Wynn Hughes yn niwedd y ddeunawfed ganrif yn Amlwch. Yn y nofel Cip ar y Goleuni(1990) gan Irma Chilton disgrifir yr amodau gwaith caled yr oedd yn rhaid i Cwil, bachgen ifanc iawn, ei wynebu yn ddyddiol wrth iddo dynnu cart ar hyd system rwydwaith o dan y ddaear yn y pwll glo. Mae'r gweithwyr yn gofyn i'w meistr, Syr Watcyn Williams Wyn, wella eu hamodau gwaith ac ar ddiwedd y nofel cawn y newyddion hapus ei fod am wneud hynny. Yn Caleb(1990), gan Mair Wynn Hughes, cawn hanes gweithfeydd copr Amlwch wrth i deulu Caleb, bachgen deg oed, fynd i'r dref honno i chwilio am waith oherwydd nad oedd modd iddynt wneud bywoliaeth yn y wlad. Nid oes yr un ohonynt yn hoffi eu bod wedi symud a thrwy lygaid y teulu gwelwn y modd yr oedd y copr wedi gadael ei ôl ar y tir a phobl yr ardal. Roedd y pridd

yn goch ac roedd y trigolion yn pesychu. Ond daw newyddion da i'r teulu yma, yn union fel diwedd nofel Irma Chilton, wrth i ŵr bonheddig ddod atynt a chynnig gwaith i'r tad a chartref i'r teulu ar ei ystad ef yn y wlad.

Fel y disgwylid cyfnod cynharach o lawer a ddewisiodd Hilma Lloyd Edwards yn gefndir i'w nofel hi. Ganddi hi mae'r nofel gynharaf o ran trefn gronolegol yn y gyfres gyfan. Hanes y Derwyddon ym Môn a'r cyfnod pan welwyd y Rhufeiniaid yn yr ardal am y tro cyntaf yw cefndir Gwarchod yr Ynys(1990). Bachgen o ardal Dinlleu yw Coel, y prif gymeriad, ond ei fod wedi cael mynd i Fôn i ymuno â'r Derwyddon a bod yn aelod cyfrin o griw y Saethwyr Sanctaidd. Wrth i Coel a'i ffrind fynd am dro maent yn dod ar draws rhai o'r Rhufeiniaid a chaiff Coel ei ddal yn garcharor. Mae Edryd, ei gyfaill, yn dychwelyd i rybuddio'r Derwyddon ac maent yn casglu ynghyd i geisio difa'r estroniaid. Llwydda un o'r Derwyddon i achub Coel ac aiff ef at lyn ble mae Gwyddiorig, un o'r hynafiaid wedi'i glwyfo. Mae'n trosglwyddo dwyfronneg y llwyth i Coel gan ddweud bod angen arweinydd newydd arnynt bellach. Ar ddiwedd y nofel felly Coel, arwr y nofel, yw'r un i arwain y Derwyddon yn erbyn y Rhufeiniaid a fyddai'n siŵr o ddychwelyd.

Nofelau byrion yw'r dair nofel o'u cymharu â gweithiau blaenorol y dair awdures, ond gan mai dyna yw holl gyfres y Cyd-Bwyllgor ni ellir beirniadu'r awduresau am hyn. O'r dair nofel, nofel Hilma Lloyd Edwards yw'r fwyaf gafaelgar gan fod iddi stori unigryw o'i chymharu â nofelau eraill y gyfres. Gellir dweud bod nofel Irma Chilton a nofel Mair Wynn Hughes yn

eithaf tebyg i'w gilydd mewn gwirionedd gan fod anghyfiawnderau gweithwyr yn cael lle blaenllaw ganddynt, a chan awduron eraill yn y gyfres hefyd.

Cyfres boblogaidd ar ddechrau'r wythdegau oedd Cyfres Dafydd ap Siencyn gan Emrys Evans. Ynddi ceir hanes yr herwr Dafydd ap Siencyn yn Nyffryn Conwy yn ystod y bymthegfed ganrif. Cyhoeddwyd y gyntaf Dafydd ap Siencyn yr Herwr ym 1982 a'r degfed Dafydd ap Siencyn a'r Gwalch Glas ym 1988. Mae'r straeon wedi eu seilio ar gymeriad o gig a gwaed a fu'n byw fel herwr yn Nant Conwy. Prif fwriad yr herwr yw gwneud bywyd yr Ustus Coch, ei brif elyn, yn gymaint o boen â phosibl. Mae ganddo griw bychan o Gymry yn ei gynorthwyo wrth iddynt dreulio eu dyddiau yng nghanol coedwigoedd ac ogofâu y dyffryn. Gellid cymharu'r cymeriad yma â Robin Hood gan ei fod yn un o'r werin yn ceisio cael rhagoriaeth ar un o wŷr pwysig y gyfraith. Y stori antur sydd bwysicaf yn y nofelau hyn ond er hynny mae Emrys Evans yn llwyddo i gyfleu naws yr oes i'r darllenwyr ifainc ac mae'n cadw at rai ffeithiau hanesyddol gywir, er enghraifft yn ôl y sôn roedd Dafydd ap Siencyn yn arbenigwr ar ymladd gyda bwa a saeth, fel yr oedd llawer o Gymry y cyfnod, ac fe gadwodd Emrys Evans at y nodwedd honno yn y cymeriad yn ei lyfrau.

Diddorol yw sylwi mai gwragedd yw mwyafrif yr ysgrifenwyr a enwyd fel awduron mwyaf llwyddiannus ail hanner y ganrif yma. Mae hyn yn wahanol i'r hyn gafwyd yn Lloegr, ac eithrio Rosemary Sutcliff, gan fod gwŷr megis Geoffrey Trease a Leon Garfield wedi amlygu eu hunain fel nofelwyr hanes yno. Gellir gweld bod amryw o awduron poblogaidd wedi ymddangos yng Nghymru gan roi bri ar

ffurf y nofel hanes. Roedd llyfrau yn cael eu cyhoeddi ar gyfer darllenwyr ifanc a rhai hŷn gan sicrhau bod y plant yn cael cynnyrch i gynnal eu diddordeb yn y maes. Fel y gwelir yn mhenodau dilynol y traethawd roedd y deunydd a gynhyrchwyd o'r safon uchaf gan roi yr un statws i'r llenyddiaeth yma yng Nghymru fel y câi'r nofelau hanes yn Lloegr.

1 The Victorian Historical Novel 1840-1880, t. ix.
2 ibid., t. ix.
3 The Historical Novel, t. 31.
4 ibid., t. 31.
5 The Victorian Historical Novel 1840-1880, tt. 6-8.
6 Waverly, t. x.
7 The Children of the New Forest, t. viii.
8 The Bright Face of Danger, t. 308.
9 The Children of the New Forest, t. xi.
10 ibid., t. xvii.
11 Dreams of Exile, t. 85.
12 ibid., t. 11.
13 ibid., t. 12.
14 ibid., t. 189.
15 Kidnapped, t. 110.
16 ibid., t. 180.
17 Dreams of Exile, t. 195.
18 The Oxford Companion to Children's Literature, t. 249.
19 'The spirit of what age?, t. 173.
20 Twentieth Century Children's Writers, t. 777.
21 ibid., t. 777.
22 ibid., t. 776.
23 ibid., t. 779.
24 The Oxford Companion to Children's Literature, t. 505.
25 Twentieth Century Children's Writers, t. 745.
26 The Oxford Companion to Children's Literature, t. 506.
27 Twentieth Century Children's Writers, t. 745.
28 ibid., t. 313.
29 ibid., t. 313.
30 Hanes Cymru, t. 421.
31 ibid., t. 439.
32 Gwen Tomos, t. 62.
33 ibid., t. 63.
34 Y Bywgraffiadur Cymrieg Hyd 1940, t.
35 Gwen Tomos, t. vi.
36 Ysgrifau Beirniadol XVII, t. 140.
37 ibid., t. 142.
38 Y Traethodydd, cyf. XXVII, 1959, t. 14.
39 Dewiniaid Difyr, t. 49.
40 Madam Wen t. 32.
41 ibid., t. 32.
42 ibid., t. 72.
43 ibid., t. 82.
44 Hanes Cymru, t. 280.
45 Gwŷr Mon t. 147.
46 Madam Wen t. 57.
47 ibid., t. 186.
48 ibid., t. 13.
49 Traethawd M. A. Sian Teifi, t. 174.
50 Gweler y bennod ar Elizabeth Watkin Jones, t. 167.
51 Pori, Hydref 1986, t. 13-14.
52 Y Llinyn Arian, t. 17.

E. Morgan Humphreys

E. MORGAN HUMPHREYS

EI FYWYD

Magwyd E. Morgan Humphreys yn yr hen Sir Feirionnydd ar fferm 'Y Faeldref' yn Nyffryn Ardudwy. Ganed mab John ac Elizabeth Humphreys ar Fai y pedwerydd-ar-ddeg, 1882 i linach o Fethodistiaid enwog. Roedd ei daid a'i hen daid o ochr ei fam yn bregethwyr pwysig yn eu dyddiau ac ymhellach fyth yn ei linach, yn ôl y sôn, roedd enwogion megis Edmwnd Prys a hyd yn oed Ellis Wynne a John Jones, Maesygarnedd.

Derbyniodd E. Morgan Humphreys ei addysg gynnar yn Ysgol Fwrdd Talsarnau, tra bu'r teulu'n byw ar fferm Cefn-gwyn am dair blynedd, ac yna yn Ysgol Fwrdd Dyffryn Ardudwy wedi iddynt symud yn ôl i'r Faeldref. Mynychodd ddwy o Ysgolion Sir yr ardal, sef Ysgol Sir Y Bermo ac Ysgol Sir Porthmadog ac yn ystod y cyfnod yma y datblygodd ei ddiddordeb mewn llenyddiaeth. Mae rhai o'i gerddi cynnar a luniodd pan yn yr ysgol ar gael heddiw yn ei lawysgrif ei hun. Ceir tystiolaeth bendant iddo anfon rhai o'r cerddi yma at O. M. Edwards oherwydd yn yr archifau ym Mhrifysgol Bangor, yn y casgliad o lythyrau a anfonwyd at E. Morgan Humphreys, ceir llythyr a dderbyniodd yr awdur yn ddwy ar bymtheg oed. Yn y llythyr, sydd wedi ei ysgrifennu yn y Saesneg, mae O. M. Edwards yn rhoi awgrymiadau ar sut y gall y bardd ifanc wella ei ddeunydd. Awgryma nad yw rhai geiriau yn odli â'i gilydd, ond ar y cyfan canmol y gwaith a wna. Dyma ychydig frawddegau o'r llythyr hwnnw:

Lincoln College,

Oxford.

Jan 26, 1899

Dear Mr. Humphreys,

I am exceedingly sorry that I cannot publish any of the verses in Wales, as I had to discontinue that periodical some twelve months ago.

I think the poems are exceedingly promising...throughout there is true poetic touch. I hope you will cultivate your gift, and I shall be glad to give you any help within my power.

Ever faithfully yours,

O. M. Edwards.

[1]

Gellir gweld felly bod y ddau ŵr wedi dod i gysylltiad, am y tro cyntaf efallai, ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Rhyfedd o beth mai trwy gyfansoddi barddoniaeth Saesneg y daeth yr awdur straeon poblogaidd Cymraeg i sylw'r arloeswr o Lanuwchllyn.

Ar ôl gadael yr ysgol bwriad y mab fferm oedd mynd yn gyfreithiwr a chafodd brentisiaeth gyda chwmni ym Mhorthmadog. Ond wedi cyfnod byr yno bu'n rhaid iddo ddychwelyd i Ddyffryn Ardudwy gan nad oedd ei iechyd yn dda, problem a oedd i'w ganlyn ar hyd ei fywyd. Ni lwyddodd i ail-afael yn ei brentisiaeth a phenderfynodd ddilyn gyrfa newydd. Yn 1904 aeth i weithio ar bapur newydd lleol, y Barmouth Advertiser. Byr fu ei arhosiad yno gan iddo dderbyn swydd yn Runcorn, eto fel gohebydd ar bapur Saesneg, cyn iddo symud i Gaernarfon yn 1905 i weithio ar Y

Genedl.

Treuliodd E. Morgan Humphreys gyfnod hir yn gweithio ar Y Genedl, fel gohebydd ac fel golygydd wedi 1908. Bu yn y swydd honno am ddwy flynedd ar hugain, ac eithrio cyfnod rhwng 1914 ac 1917. Yn ogystal â chyfrifoldebau golygyddol Y Genedl bu hefyd yn gyfrifol am wythnosolyn arall am gyfnod o Orffennaf 1914 hyd Ragfyr 1918, sef Y Goleuad, papur newydd y Methodistiaid Calfinaidd. Nid fel golygydd cul y cofir amdano ar y papur hwnnw gan iddo roi lle blaenllaw i waith beirdd ac awduron newydd. Cyfeiriodd Bedwyr Lewis Jones(1983) [2] at yr elfen hon yn ei olygyddiaeth gan sôn mai yn Y Goleuad yr ymddangosodd rhai o sonedau R. Williams Parry am y tro cyntaf yn ystod 1917. Meddai, am bwysigrwydd E. Morgan Humphreys:

> **Yn adfywiad llenyddol chwarter cyntaf y ganrif mae E. Morgan Humphreys y beirniad a'r golygydd yn ffigwr pwysig.** [3]

Yn ogystal â chyfrannu i rai o bapurau Cymraeg y cyfnod roedd gan E. Morgan Humphreys, wrth iddo ddefnyddio'r ffug enw 'Celt' , golofn wythnosol o'r enw 'Welsh Notes' yn y Liverpool Daily Post o 1919 hyd flwyddyn ei farwolaeth. Yn y golofn ysgrifennai ar bob pwnc a oedd ag agwedd Gymreig, megis addysg, cynghorau lleol, llenyddiaeth a chyhoeddiadau diweddar yn Gymraeg a Saesneg. Roedd hefyd yn cyfrannu ambell nodyn i'r Manchester Guardian, ac yn ddiweddarach trodd ei olygon tuag at gyfrwng y radio. Roedd plant wrth eu boddau gyda'i sgyrsiau radio - 'Y Byd a'r Betws'.

Roedd E. Morgan Humphreys yn ffodus ei fod yn ohebydd mewn cyfnod pan oedd Caernarfon yn un o'r ddwy ganolfan bwysicaf ym myd y wasg yng Nghymru. Ond pan ddaeth y newyddion am yr Ail Ryfel Byd daeth trai ar y bwrlwm a bu'n rhaid iddo yntau dreulio cyfnod fel Swyddog Cynorthwyol Pwyllgor Amaeth Sir Gaernarfon. Parhaodd yn y swydd honno am ddeng mlynedd, o 1939 hyd 1949. Fel gŵr a oedd wedi ei fagu ar fferm yn Sir Feirionnydd roedd yn ŵr cymwys iawn i'r swydd ac yn ŵr poblogaidd ymysg y ffermwyr. Roedd yn deall eu problemau. Ac eithrio'r cyfnod yma treuliodd E. Morgan Humphreys ei yrfa ym maes newyddiaduraeth a darlledu.

Penderfynodd E. Morgan Humphreys fynd ati i ysgrifennu ar gyfer plant oherwydd cofiai am ddiffyg llyfrau Cymraeg pan oedd ef yn laslencyn yn Ardudwy a cheisiodd unioni'r cam hwnnw. Yn ei ragair i Dirgelwch yr Anialwch ac Ystraeon Ereill(1911) eglura y modd y bu'n rhaid iddo droi at ddarllen llyfrau Saesneg, gan nad oedd y math o lyfrau a hoffai ef ar gael yn Gymraeg:

> **Bwriadwyd y llyfr yn bennaf ar gyfer bechgyn yn yr oed hwnnw pryd y teimlir dyddordeb mewn anturiaethau a bywyd gwyllt yn yr awyr agored. Hyd y gwn i ychydig iawn o ystraeon ar bynciau felly a ysgrifenwyd yng Nghymraeg, a bu raid i lawer o honom ddarllen llyfrau Saesneg er mwyn cael yr hyn oedd arnom ei eisiau. Mewn canlyniad peidiasom a darllen Cymraeg am gyfnod lled faith. Dyna, beth bynnag, fy mhrofiad i.** [4]

Roedd am wneud yn siŵr na fyddai rhaid i ddarllenwyr eraill droi oddi wrth eu mam-iaith am ddeunydd darllen. Hefyd roedd E.

Morgan Humphreys am sicrhau bod plant Cymru yn ymwybodol o'u cefndir a'u traddodiadau. Yn ei lyfr Land of My Fathers, sydd yn ei ffurf deipiedig yn archifau'r Brifysgol ym Mangor, dywed yr awdur am y math o addysg a dderbyniodd ef a chynifer eraill yn ysgolion y cyfnod:

> It appeared to be based on the theory that Welsh people should be taught to be ashamed of their history, of their language and of their country...many children grew up feeling that their own language was something inferior. Of their own culture, of their literature, one of the oldest living literatures in Europe, they were told nothing in school. In Ardudwy, the home of some of the greatest Welsh writers and of famous soldiers and scholars, we were taught nothing of our country's past. As far as the school and the English educational system went, Wales and the Welsh life might never have existed...generation after generation grew up imbued with the idea, the carefully fostered idea, that the Welsh language was something to be ashamed of and that Welsh culture counted for nothing. [5]

Y diffyg yn ei addysg gynnar a ysgogodd E. Morgan Humphreys i lunio straeon a fyddai'n llenwi'r gwacter yma ynghylch gwybodaeth y Cymry am eu cefndir hanesyddol.

Ymddangosodd ei stori gyntaf yn un o gylchgronau O. M. Edwards. Rhaid cydnabod bod gan y gŵr yma gryn ddylanwad ar awduron newydd, ac E. Morgan Humphreys yn eu plith:

Yn wir, cynnyrch adfywiad Owen Edwards oedd ef, yn llenyddol, ac yn Cymru Coch y bwriodd ei brentisiaeth fel llenor Cymraeg. [6]

Yn y Cymru yn Ionawr 1910 gwelwyd y stori **Dial y Cymry**, stori sydd yn adrodd hanes llofruddiaeth ym Mhatagonia ym 1878. Erbyn Mai 1911 ymddangosodd saith stori arall yn y cylchgrawn ac yn Awst 1911 fe'u cyhoeddwyd ynghyd yn y gyfrol Dirgelwch yr Anialwch ac Ystraeon Ereill.

Ni chyfyngodd E.Morgan Humphreys ei ysgrifennu i straeon yn unig. Ym 1916 cyhoeddwyd ei nofel gyntaf, Rhwng Rhyfeloedd, fesul rhan yn Cymru. Ymddangosodd y tair pennod ar ddeg rhwng Ionawr a Mehefin y flwyddyn honno. Fel y straeon cafodd y nofel ei chyhoeddi ar wahân ym 1924. Yn ystod yr un flwyddyn daeth Yr Etifedd Coll o'r wasg. Stori antur ydyw yn adrodd hanes Edward Prichard yn hwylio i ganolbarth America i chwilio am ei frawd Huw. Os na ddeuai o hyd i'w frawd maent am golli eu hetifeddiaeth i ddwylo'r gŵr drwg Robert Price. Hefyd cyhoeddwyd pedair o nofelau datrys y ditectif John Aubrey gan E. Morgan Humphreys: Y Llaw Gudd (1924), Dirgelwch Gallt y Ffrwd (1938), Ceulan y Llyn Du (1944) a Llofrudd yn y Chwarel (1951).

I'r sawl a welodd E. Morgan Humphreys ymddangosai o ran gwedd fel gŵr o uchel dras, fel y dywedodd R. T. Jenkins yn ei ysgrif goffa iddo yn Y Traethodydd yn Hydref 1955 ac yna yn y gyfrol Ymyl y Ddalen (1957):

Corff tal, lluniaidd, osgo urddasol, troediad cryf

hamddenol, llais a rhyw dinc o awdurdod ynddo. Ymwisgai hefyd, 'fel gŵr bonheddig,' nid â'r diofalwch hapus hwnnw y tybir ei fod yn cydweddu â llenorion; yr oedd yn wir yn debycach i 'sgweier' na llawer uchelwr tiriog a welsom. [7]

Cymharodd D.Tecwyn Evans ymddangosiad E. Morgan Humphreys ag arddull yr awdur: yr oedd y ddau **'bob amser yn chwaethus ac urddasol'** [8]. Roedd yr awdur yr un mor ofalus ynglŷn â'i ymddangosiad ag ydoedd ynglŷn ag arddull ei ysgrifennu.

Fel cydnabyddiaeth am ei waith diflino ym maes newyddiaduraeth a llenyddiaeth plant derbyniodd E. Morgan Humphreys radd M. A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru ym 1927. Roedd yn haeddu'r anrhydedd nid yn unig am y cyfraniad llenyddol ond hefyd am yr ymdrech a roddodd wrth frwydro yn erbyn ei iechyd bregus. Bu'n rhaid iddo dreulio cyfnod mewn sanatoriwm a sawl tro fe'i gorfodwyd i gymryd pwyll. Fodd bynnag daeth diwedd ar allu'r corff i ymladd salwch ac ar Fehefin yr unfed-ar-ddeg, 1955 bu farw E. Morgan Humphreys.

GWEITHIAU HANES E. MORGAN HUMPHREYS

Dirgelwch yr Anialwch ac Ystraeon Ereill(1911) oedd cyhoeddiad cyntaf pwysig E. Morgan Humphreys ac yn y gyfrol ceir wyth stori. Ymddangosodd yr holl straeon yn flaenorol yn y cylchgrawn Cymru mewn cyfnod o flwyddyn a hanner ar ddechrau'r ganrif. Gwelodd **Dial y Cymry** olau dydd yng nghyfrol XXXVIII yn

Ionawr 1910. Cafodd E. Morgan Humphreys seibiant o ddeng mis cyn y cyhoeddwyd **Gorchest Wil Ifan** yn Nhachwedd 1910, cyfrol XXXIX rhif 232. Wedi hyn ymddangosodd stori bob mis hyd Fai 1911: **Y Ddau Frawd** yn Rhagfyr, cyfrol XXXIX rhif 233 a **Dirgelwch yr Anialwch**, Ionawr 1911 yng nghyfrol XL rhif 234. Yna, yn yr un gyfrol, XL, daeth **Mab Llwyn y Ceirw** yn Chwefror, rhif 235, **Croesaw Rhys Morus** yn rhif 236, mis Mawrth. Yn Ebrill, rhif 237, gwelwyd **Y Llong a'r Goeden** a'r stori olaf ym Mai, rhif 238, **Ar y Ffordd Ddu**.

Er bod wyth stori yn y gyfrol, saith ohonynt sydd yn hanesyddol eu naws. Ni ellir dweud bod y stori gyntaf, sy'n dwyn enw teitl y gyfrol, yn hanesyddol oherwydd adroddir hynt Rhys a Huw yn chwilio am drysor mewn anialwch yn Affrica. Ni leolir y stori mewn amser na chyfnod arbennig. O blith y straeon eraill ceir amrywiaeth o gyfnodau hanesyddol: o'r cyfnod wedi marw Llywelyn Ein Llyw Olaf yn y stori **Y Ddau Frawd** i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a hanes y Rhyfeloedd â Napoleon yn y stori **Gorchest Wil Ifan** neu hanes rhai o'r ymfudwyr cynnar i Batagonia yn **Dial y Cymry**.

Straeon antur yw pob un ohonynt. Yn **Y Ddau Frawd** ceir hanes Cadifor a Hywel, dau o filwyr Llywelyn, yn ceisio dianc rhag milwyr y Saeson. Ond gan fod Hywel wedi ei glwyfo mae'r daith yn araf. Wrth iddynt aros ar lan Llyn Cwellyn am lymaid o ddŵr daw gwraig atynt - eu mam ydyw ac nis gwelsant ers talwm. Aiff hi â hwy i'w chuddfan ar ynys fechan ar Lyn y Dywarchen ond daw'r milwyr o hyd iddynt. Lleddir y ddau frawd ac yn ei hanobaith mae'r fam, cyn ei thaflu ei hun i'r llyn, yn melltithio'r Saeson.

Hon yw'r stori sydd wedi ei gosod bellaf yn ôl yn hanesyddol.

Y stori agosaf ati o ran cyfnod yw **Mab Llwyn y Ceirw**. Milwyr o Loegr yw achos y gynnen unwaith yn rhagor gan eu bod yn peri loes i fam Gwilym ap Cynfrig yn ystod cyfnod Owain Glyndŵr. Yn ei wylltineb mae Gwilym yn lladd un ohonynt ac felly, gan y byddent yn siŵr o ddychwelyd i dalu'r pwyth yn ôl iddo, mae'n rhaid i Gwilym geisio cymorth y milwyr Cymraeg sydd yng nghastell Aberystwyth, castell sydd dan warchae'r Saeson. Ar ei ffordd i'r castell mae'n taro ar wersyll milwrol ac yno, er mawr syndod iddo, mae Owain Glyndŵr. Gyda chymorth y milwyr llwyddir i achub teulu Llwyn y Ceirw ac, yn ychwanegol, codir cymaint o ofn ar y Saeson nes y penderfynant ddianc o'r ardal. Ceir diweddglo llawer mwy gobeithiol yma nag yn **Y Ddau Frawd**.

Cyfnod cythryblus arall yw cefndir **Ar y Ffordd Ddu**, sef cyfnod y Rhyfel Cartref a'r casineb a fodolai rhwng y brenhinwyr a'r seneddwyr. Merch fferm yw Beti Rhobet ac mae'n darganfod Hywel Wyn wedi ei glwyfo ar ochr ffordd. Penderfyna fod yn rhaid iddi ei guddio rhag un o filwyr cas y brenhinwyr, Ralph Fychan, a'i gyfaill. Mae'n cytuno i arwain y ddau filwr ar ffordd y dywed hi yr aeth y seneddwr ar ei hyd, ond mae ganddi gynllun. Wrth i'r niwl ddod yn is ar y mynydd llwydda Beti i arwain y ddau yn nes ac yn nes at ddibyn serth ac yn y diwedd disgynnant i'r dyfnderoedd islaw. Llwyddodd i achub Hywel Wyn ac mae dyfodol hapus yn wynebu'r ddau.

Ceir dwy stori sydd yn ymwneud â'r un cyfnod. Y ddwy stori yw **Y Llong a'r Goeden** a **Croesaw Rhys Morus** a'r cyfnod dan sylw yw

cyfnod y môr-ladron, yn arbennig Harri Morgan - cymeriad yr oedd gan E. Morgan Humphreys ddiddordeb mawr ynddo. Stori ddigon rhyfedd yw **Y Llong a'r Goeden** sydd yn adrodd hanes William Prys fel Capten y 'Santa Anna', llong a arferai fod yn rhan o lynges Harri Morgan ond penderfynodd y Capten ddilyn ei drywydd ei hun. Wrth iddo ysbeilio llongau a threfi mae'n cadw cyfran o'r trysor iddo'i hun ac un o griw y llong, Ffrancwr o'r enw Francois. Ar un o'r teithiau i gladdu y trysor ar ynys unig caiff Francois ei ddal yn gaeth ym mrigau coeden arbennig ac mae William wrth ei fodd. Ond, wedi iddo ymlwybro yn ôl drwy'r goedwig gwêl fod ei long yn wenfflam. Mae yntau wedi ei gaethiwo yn awr heb yr unman i fynd na'r undyn yn gwmni iddo.

Er bod awgrym mai un o ddynion Harri Morgan oedd Rhys Morus nid olrhain y cyfnod hwnnw yn ei fywyd a wneir yn y stori **Croesaw Rhys Morus**. Erbyn 1673 dychwelodd Rhys i'w gartref yng Nghaernarfon ond gan nad oes neb yn ei adnabod llwydda i smalio mai dieithryn ydyw er mwyn iddo gael gwrando ar sgwrs rhai o lanciau ifainc y dref. Sylweddola eu bod yn bwriadu ymosod ar ei fam a'i gyfnither ac felly aiff draw i'r tŷ i'w rhybuddio. Pan ddaw'r llanciau heibio cânt dipyn o fraw wrth weld Rhys yno yn barod i ymladd â hwy. O fewn dim maent yn gadael y dref oherwydd cywilydd ac ofn Rhys. Caiff Rhys a'i gyfnither lonydd i briodi.

Stori yn ymwneud â bywyd y môr yn ystod y Rhyfel â Napoleon yw **Gorchest Wil Ifan**. Un o longwyr y 'Lizzie Jane' yw Wil Ifan ac wedi i'r llong hwylio o Gaernarfon yn 1803 daw o dan warchae llong Ffrengig. Caiff holl griw y 'Lizzie Jane', ac eithrio Wil, eu trosglwyddo ar fwrdd y llongau Ffrengig a daw'r Ffrancwyr ar

fwrdd y 'Lizzie Jane'. Cyn hir a hwyr caiff y Ffrancwyr afael ar y gwirodydd a thra maent hwy yn feddw llwydda Wil i'w cloi yn y caban ac ail lywio'r llong tuag at Plymouth. Wil yw arwr y dydd ac mae wrth ei fodd yn ailadrodd yr hanes wrth drigolion Caernarfon.

Y stori olaf o ran ei chyfnod hanesyddol oedd y stori gyntaf i E. Morgan Humphreys ei hysgrifennu. Hanes rhai o'r ymfudwyr i Batagonia a geir yn **Dial y Cymry**, ac felly mae'n rhaid ei bod wedi ei lleoli wedi 1865 oherwydd dyna flwyddyn sefydlu'r Wladfa. Pan leddir y cwnstabl Ifan Morgan gan Diaz y Sbaenwr aiff holl Gymry'r Wladfa i chwilio am y llofrudd er mwyn dial arno. Myrddin, cyfaill Ifan, sydd yn darganfod Diaz yn cuddio mewn gwelltglas hir ac felly mae'n ei saethu. Yna caiff pob un o'r Cymry a oedd yn erlid y llofrudd gyfle i saethu ato er mwyn rhannu'r dial. Byth wedi hynny roedd ofn y Cymry ar holl ladron a llofruddion y Wladfa.

Gan mai **Dial y Cymry** oedd stori gyntaf E. Morgan Humphreys teg fyddai pori mwy ynddi. Fe'i cyhoeddodd yng nghylchgrawn O. M. Edwards Cymru yn Ionawr 1910, wyth mlynedd wedi i'r Cyrnol Jones adrodd hanes llofruddiaeth Aaron Jenkins ym Mhatagonia. Ymddangosodd yr hanes hwnnw yn rhifynnau Ionawr a Chwefror o Cymru'r Plant ym 1902 ac ailadrodd yr hyn a welwyd mewn papur newydd dair blynedd ar hugain ynghynt a wna'r Cyrnol Jones.

Yn ôl yr hanes yn Cymru'r Plant [8] dywedir bod y Cymry yn wyliadwrus iawn o unrhyw ddieithriaid a ddeuai i'w plith gan eu bod wedi eu rhybuddio gan y llywodraeth ynghylch milwyr a

charcharorion Chiliaidd a oedd yn rheibio a dinistrio popeth o fewn eu gallu. Daliwyd llawer ohonynt a phenderfynwyd mynd ati i holi pob dieithryn a ddeuai i'r ardal. Roedd yn rhaid i Aaron Jenkins ac un swyddog arall fynd ag un o'r dieithriaid yma i Dre Rawson, ond pan ddaeth yr amser roedd y swyddog arall yn sâl. Penderfynodd Aaron Jenkins wneud y dyletswydd ei hunan.

Cychwynnodd ar ei daith ond erbyn hwyr y prynhawn roedd Cymro arall wedi cyrraedd Tref Rawson i ddweud am yr hyn a welodd ychydig filltiroedd o'r dref. Darganfuwyd corff Aaron Jenkins mewn pwll o waed gyda'i gleddyf a'r gorchudd wedi eu gosod ar ffurf croes gan y Pabydd o lofrudd. Roedd y truan wedi ei drywanu unwaith yn ei gefn, pryd y rhoddwyd tro i'r cledd, ac un waith ar bymtheg yn ei frest.

Y dydd canlynol aeth mintai o Gymry allan ar hyd y paith i ddilyn ôl y llofrudd. William R. Jones, gŵr o'r Bala, oedd eu harweinydd ac wedi tridiau o chwilio darganfuwyd bod y llofrudd wedi llwyddo i ffeirio ei geffyl ac wedi cael hogi ei gleddyf. Yna gwelwyd y llofrudd yn ymguddio yng nghanol twmpath o hesg. Fe'i saethwyd gan W. R. Jones ac er iddo ymbilio arnynt i beidio â'i ladd mae gweddill y Cymry yn saethu ato hyd nes bod ei gorff yn llawn tyllau bwledi ac olion cleddyfau. Byth oddi ar hynny fe elwir y rhan hynny o'r Wladfa yn 'Drofa y Llofrudd'.

Gellir gweld y tebygrwydd rhwng yr hanes yma, a ymddangosodd yn Cymru'r Plant, a stori E. Morgan Humphreys. Mae'n amlwg bod yr awdur wedi darllen adroddiad y Cyrnol Jones, ac wedi newid peth ar yr hanes. Y newid mwyaf sylfaenol yw'r enwau - aiff

Aaron Jenkins yn Ifan Morgan a William R. Jones yn Myrddin Rhys.

Dro ar ôl tro defnyddia E. Morgan Humphreys yr un dechneg wrth gyflwyno ffeithiau hanesyddol yn ei straeon. Yn y stori **Y Ddau Frawd** ceir rhestr o ddigwyddiadau o ddiwedd 1282 a dechrau 1283 yn y paragraff cyntaf:

> **Yr oedd Iorwerth I yn meddwl am adeiladu Castell Caernarfon. Yr oedd pen Llywelyn ap Gruffydd yn madru yn Llundain. Yr oedd y Tywysog Dafydd yn ymladd brwydr olaf rhyddid Cymru yn nghilfach y mynydd ac o amgylch castell Dol Badarn.** [9]

Er nad yn y paragraff cyntaf yr ymddengys y rhestr yn **Gorchest Wil Ifan** fe'i gwelir ar ail dudalen y stori:

> **Amser cythryblus oedd hwnnw. Yr oedd Napoleon wedi gosod braw yng nghalon Ewrop, ac yr oedd Prydain ac yntau yng ngyddfau eu gilydd. Nid oedd unrhyw long Brydeinig yn ddiogel yn unman ar y môr, a deuai hanes beunydd am ryw lestr neu gilydd wedi syrthio i ddwylaw y Ffrancod.** [10]

Nid y ddwy stori yma yw'r unig enghreifftiau. Mae derbyn manylion o'r math yma yn gosod y cefndir i'r darllenwyr ond efallai y byddai'n well petai un o gymeriadau'r stori yn dweud yr hanes wrth gymeriad arall. Gallai hyn fod yn llawer mwy cyffrous ac yn fwy diddorol i'r darllenydd oherwydd ni fyddai'r ffeithiau hanesyddol yn ymddangos fel rhestr ar wahân, ond yn hytrach fel

rhan naturiol o ddatblygiad y straeon.

Er bod peth gwendid yn null yr awdur o gyflwyno ffeithiau ni ellir gweld yr un gwendid wrth iddo geisio cyfleu awyrgylch gyffredinol hanesyddol. Wrth gyflwyno hanes Hywel a Cadifor fel milwyr yn y blynyddoedd wedi marw Llywelyn cyfeirir at fwa eu tad. Yr oedd milwyr Cymru yn enwog iawn am eu dawn i ymladd gyda bwa a saeth yn yr Oesoedd Canol. Drwy gymharu'r dull yma o ymladd a'r defnydd o ynnau mewn straeon eraill, megis **Croesaw Rhys Morus**, gall y darllenydd sylwi ar y modd y bu newid mewn arfau dros y canrifoedd. Enghraifft arall yw'r arfer o gyfeirio at ddull y cymeriadau o deithio. Roedd yn rhaid i Gwilym ap Cynfrig gerdded draw i gastell Aberystwyth i geisio cymorth yn **Mab Llwyn y Ceirw** a chaiff aml un farchogaeth ar gefn ceffyl tra mae'r llongau'n ddibynnol ar nerth y gwynt i lenwi eu hwyliau.

Yn anffodus mae'r arddull a ddewisiodd E. Morgan Humphreys yn Dirgelwch yr Anialwch ac Ystraeon Ereill yn aml yn hir-wyntog ac o'r herwydd ceir paragraffau cyfain y gellid eu hepgor yn rhwydd. Enghraifft perffaith yw **Ar y Ffordd Ddu**. Ynddi ceir pedwar paragraff agoriadol o ddisgrifio hyfrydwch y cwm ble lleolir y stori. Yna yn y pumed a'r chweched paragraff disgrifir dau gymeriad, y naill yn wryw a'r llall yn fenyw. Rhain yw prif gymeriadau'r stori. Wedi hyn yn unig y caiff y stori ei pharhau. Er bod y disgrifiadau yn rhai pleserus iawn, nid ydynt yn ychwanegu dim at rediad y stori. Braidd na ellid awgrymu y dylid defnyddio'r disgrifiadau, megis y dyfyniad canlynol, mewn hysbysebion ar gyfer gwyliau yng Nghymru:

> Rhedai afonig fechan drwy'r brwyn, ac o dan y cerrig ar hyd gwaelod y cwm. Codai mewn mawnog noethlwm yng nghesail y bryniau yn ymyl, ac arllwysai i'r môr ar ôl taith ferr a gwyllt islaw LLwyngwril draw. Ac eithrio brefiad ambell i ddafad, a chrawc bran ar y garreg, nid oedd dim ond murmur yr afonig i dorri distawrwydd y mynydd. Yr oedd yn brydnawn ym mis Awst. Yr oedd yr haul fel pe wedi deifio'r cwm, ac wedi tynnu yr holl wyrddlesni o hono. [11]

Mae'n ddisgrifiad hyfryd dros ben a gall fod o ddaioni i ddarllenwyr ifainc ddarllen paragraffau fel hyn, mewn cyd-destun gwahanol. Ond mewn stori antur fer nid oes angen rhagymadroddi fel y gwneir yma. Dylid ceisio dwyn sylw darllenwyr o'r munud cyntaf, ac nid wrth restru gogoniannau cefn gwlad y gwneir hynny.

O fewn dim i'r stori olaf ymddangos yn Cymru aethpwyd ati i roi'r straeon at ei gilydd mewn cyfrol. O'r herwydd, naill ai am na chafwyd cyfle i wneud mân newidiadau neu fe benderfynwyd cadw at yr un orgraff, mae rhai brawddegau yn ymddangos yn chwithig wrth eu darllen heddiw. Mae hyn yn fwy gwir wrth i E. Morgan Humphreys geisio dynwared sgwrsio ei gymeriadau. Ond mae'n rhaid i ni sylweddoli nad oedd y ffasiwn o osod collnod bob yn ail lythyren yn boblogaidd yn ei gyfnod ef, fel y mae heddiw. Petai gwasg yn penderfynu ailgyhoeddi Dirgelwch yr Anialwch ac Ystraeon Ereill yn y dyfodol gallai golygydd profiadol lacio peth ar yr orgraff er mwyn cael iaith sydd yn rhwyddach i'w darllen.

Gan mai cyfres o straeon sydd yma nid oes cyfle i ddatblygu

cymeriadau fel y mae modd gwneud mewn nofel. O'r herwydd, cymeriadau sydd yn ateb gofynion y straeon ydynt i gyd, megis Rhys a'i ddawn i ymladd yn **Croesaw Rhys Morus** neu ddewrder Beti Rhobet yn **Ar y Ffordd Ddu** a Wil Ifan yn **Gorchest Wil Ifan**. Yn wir bodau i'w hedmygu yw prif gymeriadau'r holl straeon, ac eithrio William Prys yn **Y Llong a'r Goeden**, gan eu bod yn cyflawni rhyw orchwylion anturus ac arbennig.

Hoffai O. M. Edwards gyflwno digwyddiadau o bwys hanesyddol Cymreig ac yng ngwaith E. Morgan Humphreys gellir gweld yr union beth. Dengys hyn cymaint oedd ddylanwad O. M. Edwards ar awduron newydd, fel y sylwodd Bedwyr Lewis Jones, ac fel y nodwyd eisoes wrth gyfeirio at ddatblygiad y nofel hanes yng Nghymru:

> **Mae dylanwad Owen M. Edwards yn amlwg; mae'r straeon yn cyflwyno hanes Cymru o safbwynt gwlatgar.** [12]

Mewn mwy nag un stori gelynion yw'r Saeson a chaiff y Cymry lwyddiant wrth eu trechu. Er bod Hywel a Cadifor, y ddau filwr Cymraeg, yn cael eu lladd yn **Y Ddau Frawd** mae'r fam yn llwyddo i ddychryn y Saeson gan eu diawlio hwy a chanmol y Cymry. Hyd yn oed yn ei gwewyr cofia am ei chenedl:

> **Melldithiodd hithau hwynt a'u holl genedl. Melldithiodd Saeson fu, oedd, ac a fyddai, mewn geiriau mor chwerw, mewn brawddegau mor ffyrnig fel na roddir hwy i lawr yma. Ac yna, fel pe rhoddasid rhyw weledigaeth rhyfedd iddi, proffwydodd oruchafiaeth Cymru ar bob trais a**

gormes a sarhad. [13]

Gwelir melltithio'r Saeson yn y stori **Mab Llwyn y Ceirw** hefyd, gan mai milwyr Lloegr yw'r gelynion unwaith eto. Fe'u gelwir yn **'ladron a thaeogion Seisnig'** [14] pan ddôn t i Lwyn y Ceirw i hawlio bwyd gan wraig y fferm.

Nid lladd ar y Saeson yn unig a wneir yn y straeon yn y gyfrol. Mae'r sarhad a gaiff Cymro sydd wedi bradychu ei wlad yn sarhad gwaeth na'r hyn a gaiff y Sais. Yn y stori am gyfnod wedi marw Llywelyn a chyfnod Owain Glyndŵr y gwelir y cymeriadau sydd wedi bradychu Cymru. **'Gwasaidd'** [15] yw'r gair a ddefnyddir i ddisgrifio Cymro sydd, yn nhyb Gwilym ap Cynfrig, wedi ymuno â'r gelyn. Fodd bynnag caiff Rhys ap Hywel ei alw'n llawer gwaeth ac fe awgrymir yr hyn a fydd yn ei aros pan ddaw Dydd y Farn:

> **'Dyna,' medd hithau, 'Rhys ap Hywel, y bradwr. Efe a'u harweiniodd hyd y llwybr cudd. Efe a ddywedodd wrthynt am y cwch. Gwerthodd ei wlad er mwyn cadw ei dir, a Duw a'i gwerth yntau i ddiawl am ei fradwriaeth. Tyn dy fwa, Cadifor, a lladd ef.'** [16]

Mae'n amlwg bod gan yr hen wraig deimladau cryfion iawn dros ei gwlad a throsglwyddir y syniadau hyn i'r darllenwyr. Gallai ambell un beirniadol alw rhai o straeon E. Morgan Humphreys yn bropaganda gwladgarol cynnar.

Yn **Dial y Cymry** gellir dweud mai is-blot y stori yw'r modd y mae'r Cymry yn uno i wneud yn siŵr eu bod yn talu'r pwyth yn ôl i

Sbaenwr, nid Sais fel yn y straeon cynt. Nid yw Cymry'r Wladfa yn fodlon rhoi tynged y llofrudd yn nwylo swyddogion y gyfraith oherwydd gwell ganddynt hwy yw gwneud yn ôl eu cyfraith eu hunain. Wedi'r lladd llygaid am lygaid roedd pawb yn gwybod beth fyddai eu tynged hwy pe bai digwydd iddynt ladd Cymro arall, fel y dywedir ym mharagraff olaf y stori:

> **Aeth y sôn am y dial ar led, nid drwy'r Wladfa yn unig, ond drwy'r holl wlad. Dysgwyd pawb mai nid diogel ymyrryd â'r Cymry, a deallwyd mai gwŷr peryglus oeddynt hwy pan gynhyrfid hwynt. Ac o'r dydd hwnnw allan cawsant berffaith lonydd gan bobl fel Diaz, a lladron a llofruddion ereill.** [17]

Gellid dweud bod y paragraff yma yn cyfiawnhau gweithredu cyfraith eich hunain, hyd yn oed os yw'r gyfraith honno yn erbyn cyfraith gwlad.

Gyda'r ychydig enghreifftiau a ddyfynwyd uchod gwelir y modd y mae'r ogwydd Gymreig yn gryf yn straeon E. Morgan Humphreys. Roedd hyn yn beth newydd yn ei ddydd ac felly ni ellir llai na chanmol yr awdur gan na fyddai plant Cymru wedi sylweddoli bod ganddynt hanes gwahanol i blant Lloegr. Mae'n bur debyg bod yr awydd yma i lowi gwybodaeth Cymry ifainc yn deillio o'r math o addysg a gafodd yr awdur ei hun. Sylweddolodd E. Morgan Humphreys fod angen straeon tebyg i'r rhai a welir yn y gyfrol <u>Dirgelwch yr Anialwch ac Ystraeon Ereill</u>.

Cyhoeddwyd Rhwng Rhyfeloedd fel nofel gyflawn yn 1924, yr un flwyddyn ag ymddangosiad nofel arall gan E. Morgan Humphreys, sef Yr Etifedd Coll. Stori am filwr o Gymro sydd wedi penderfynu bradychu rhai o gyfrinachau byddin Prydain i Ffrainc sydd yma. Lleolir y digwydd yn y cyfnod o heddwch yn ystod y rhyfeloedd â Napoleon. Derbyniodd y Capten Gruffydd swm o arian ar yr amod ei fod yn trosglwyddo dogfennau i'r Ffrancwyr. Ond wedi derbyn yr arian daeth pwl o euogrwydd dros y Capten. Nid oes llawer o sôn am hanes y cyfnod ac eithrio cyferiadau at rai o gyfreithiau'r oes, megis nad oedd hawl gan drigolion Llanwennol i smyglo nwyddau ar y môr, y sôn am y 'press gangs' neu gyfeiriadau at enw Napoleon, er enghraifft:

> **Ond y môr ac nid y mynydd oedd bywyd y pentref i raddau pell iawn, yn enwedig adeg yr 'Heddwch Bach', pan ddigwyddodd y pethau a adroddir yn y stori hon, yr egwyl honno a ddaeth ar Ewrob rhwng yr amser yr anfonwyd Napoleon i Elba a'r amser y dychwelodd i wynebu ar Waterloo.** [18]

Gallesid bod wedi cyflwyno mwy o hanes y cyfnod mewn ambell sgwrs rhwng y cymeriadau yn hytrach na'r dull a ddefnyddir yn y dyfyniad uchod.

Weithiau fe atgoffir y darllenydd mai darllen am stori sydd wedi digwydd yn y gorffennol y mae a gwneir hyn mewn modd sydd yn ei ysgwyd yn ôl i'r presennol. Dylid ysgrifennu nofel hanes yn gyfangwbl yn y gorffennol rhag amharu ar ddychymyg y darllenydd sydd wedi ei swyno gan y cyfnod ac nid symud yn ôl ac ymlaen

o'r naill gyfnod i'r llall. Enghraifft o'r nam yma yw'r geiriau canlynol a ymddengys pan ddisgrifir Capten Gruffydd am y tro cyntaf, gan fanylu ar ei ddillad: **'...ac yn gwisgo yng ngwisg ffasiynol y cyfnod hwnnw'** [19]. Fe'n hatgoffir bod y 'cyfnod hwnnw' yn gyfnod gwahanol i gyfnod y darllenydd.

Dangosir y gwahaniaethau hynny sydd yn ychwanegu at awyrgylch y cyfnod yn llawer mwy cynnil. Ymddengys cyfeiriadau at oleuo ystafelloedd â chanhwyllau drwy gydol y nofel ac ychwanegir at y tensiwn mewn rhai golygfeydd gan hyn, megis pan mae D'Alton, un o'r Ffrancwyr, yn mynnu gwybod y gwir am Carrier, Ffrancwr arall a lofruddiwyd gan y Capten. Oherwydd y diffyg golau oddi wrth un gannwyll mae cysgodion enbyd yn cael eu taflu ar y Capten ac ar weddill yr ystafell [20]. Prin yw cyfeiriadau eraill o'r math yma ac ni fanylir ar ddisgrifiadau o fwydydd na gwisgoedd, ac eithrio ymddangosiad y Capten a ddyfynnwyd uchod. Gallai E. Morgan Humphreys fod wedi gwneud llawer mwy o ddisgrifio gan y byddai hyn o fudd i ddarllenwyr ifainc, gan ddangos iddynt y newidiadau a fu rhwng y gorffennol a'r presennol.

Er mwyn gwneud i ddihiryn y stori, sef y Capten Gruffydd, ymddangos yn waeth plethir ei hanes yn ceisio cael merch leol o'r enw Sian Tomos yn gariad iddo gyda hanes y Ffrancwyr. Yn anffodus iddo yntau mae hi eisoes mewn cariad â Huw Anwyl, gŵr y mae'r Capten bron â marw eisiau cael tystiolaeth yn ei erbyn gan ei fod yn rhan o gynllwyn smyglo gyda thad Sian, Alun Tomos. Bwriad y Capten yw cael gwared o Huw ac yna byddai Sian ar gael iddo ef. Gwna hyn drwy osod y bai am lofruddiaeth Carrier ar Huw. Ond gyda chymorth John Ambros, llongwr sydd yn dal dig tuag

at y Capten am ddigwyddiad flynyddoedd yn ôl, a D'Alton, Ffrancwr arall, y Capten ac nid Huw sydd yn cael ei gyhuddo. Ni all cydwybod Capten Gruffydd ddioddef y fath sarhad ac felly yn y môr ar waelod y clogwyn y penderfyna ddiweddu ei oes. Ceir diweddglo hapus iawn gan fod y gŵr drwg yn cael ei ddifa a chaiff Huw a Sian rwydd hynt i briodi. Bydd diweddglo o'r math yma wrth fodd y darllenwyr ifainc.

Tuedd yr holl gymeriadau yw bod yn deipiau. Erchyll o ddrwg yw'r rhai 'drwg' megis Capten Gruffydd ac er bod y cymeriadau 'da' yn gwneud pethau anghyfreithlon drwy smyglo, nid ystyrir hyn yn nodwedd 'ddrwg'. Yn wir cenir clodydd y rhai sydd yn llwyddo i beidio â chael eu dal:

> **Nid oedd neb yn Llanwennol yn edrych ar smyglio fel drwg moesol. Hyd yn oed pe lleddid swyddog mewn brwydr deg ar lan y môr, mae'n debyg na buasent hwy, na Sian yn eu plith, yn edrych ar hynny ond fel damwain anffodus iawn.** [21]

Mae'r merched hyd yn oed yn rhoi cymorth i'r smyglwyr gan fod Sian, cariad yr arwr, yn rhybuddio'r criw fod Cooke a Watson, y swyddogion tollau, a'r Capten ar eu holau. Gellir dweud mai hi yw arwres y nofel oherwydd fe'i disgrifir fel **'geneth ddewr oedd Sian, geneth wedi arfer wynebu peryglon'** [22]. Saif yn gefn i Huw yng nghanol ei helyntion a phan ddaw'n amser iddo fynd ymaith mae'n fodlon derbyn mai dyna'r ateb gorau ar y pryd. Yn wir cynllwynia i wneud yn siŵr na ddaw'r Capten i wybod am ddihangfa Huw oherwydd gwna gytundeb i gadw oed â'i gelyn yn nghoed y plas.

Alun Tomos yw'r unig gymeriad sydd yn ymddangos yn dda weithiau ac yn ddrwg dro arall. Llwydda E. Morgan Humphreys i godi amheuaeth ei ddarllenwyr ynglŷn â gonestrwydd cymeriad tad Sian ar ddechrau'r nofel. Ai ef a laddodd Carrier? A yw'n ceisio gosod y bai ar Huw er mwyn achub ei groen ei hun? Dyna'r math o gwestiynau sydd yn troelli yn ein meddyliau. Ond, chwarae teg iddo, ceisio rhoi cymorth i Huw ddianc oddi wrth grafangau Capten Gruffydd y mae Alun Tomos. Gŵr didwyll yw yntau wedi'r cwbl.

Rhwng Rhyfeloedd oedd nofel gyntaf E. Morgan Humphreys ac yn anochel nid oes cystal saerniaeth iddi o'i chymharu â rhai o'i nofelau diweddarach. Yn anffodus gwelir gormod o eiriau megis **Rhaid i ni droi yn ôl bellach, a dychwelyd at y ddau yng nghoed y Plas.** [23] neu **Yr oedd John Ambros a Huw, pan adawsom hwynt...** [24]. Dengys hyn nad oedd E. Morgan Humphreys wedi paratoi trefn y nofel yn ddigon gofalus cyn mynd ati i ysgrifennu. Dylid ceisio sicrhau bod penodau yn llifo'n esmwyth i'w gilydd.

Stori antur yw Rhwng Rhyfeloedd ac felly dibynna'r cyffro ar ddawn E. Morgan Humphreys i gyfleu'r tensiwn. Wrth adrodd hanes Capten Gruffydd yn lladd Carrier, a'r synau a glywodd Huw, ceir tensiwn drwy gael brawddegau byr, ailadrodd ambell air yn fwriadol a chynnwys cwestiynau. Mae'r holl dechnegau hyn yn ychwanegu at gyffro'r darlleniad, fel y gwelir yn y dyfyniad canlynol:

> **Teimlodd y dyn ieuanc yng nghysgod y gwrych ei waed yn fferru yn ei wythiennau. Pa beth oedd yn**

digwydd yn y tywyllwch o'i flaen?

Yna clywodd rywun yn symud, ac yn ei wthio ei hun drwy'r gwrych yn egniol...

Yna bu distawrwydd.

Ni wyddai Huw yn iawn pa hyd yr arhosodd yng nghysgod y gwrych. Ni wyddai beth i'w wneuthur. Ofnai fynd yn ei ôl, ac ofnai yr hyn oedd ymlaen hefyd. [25]

Ymddangosodd y nofel Rhwng Rhyfeloedd mewn cyfrol ar ei phen ei hun ym 1924 a cheir cryn dipyn o newidiadau ynddi o'i chymharu â'r hyn a welwyd yn y cylchgrawn Cymru. Y newid cyntaf a sylwir arno yw nifer y penodau. Yn ystod y chwe mis rhwng Ionawr a Mehefin 1916 gwelwyd tair pennod ar ddeg: y gyntaf ym mis Ionawr, rhifau dau a thri yn Chwefror, y tair nesaf yn Mawrth, rhifau saith, wyth a naw yn Ebrill, dwy ychwanegol ym Mai a rhifau deuddeg a thair ar ddeg ym Mehefin. Ond yn y nofel deuddeg pennod yn unig a geir. Mae pennod naw a deg, 'D'Alton yn Clywed am Dynged Carrier' a 'Beth yw Hwn?', yn uno yn y nofel o dan y teitl 'D'Alton yn Clywed am Dynged Carrier'. Mae'r ddwy bennod yma yn fyrrach o'u cymharu â'r penodau eraill yn Cymru. Wrth eu huno fe geir pennod sydd yn cyfateb yn weddol debyg o ran hyd i weddill y penodau.

Gellir dweud mai gwaith golygu gramadegol yw mwyafrif y newidiadau. Gwelir hyn yn glir yn y rhestr o enwau'r penodau. Yn y cylchgrawn 'John Ambros a Capten Gruffydd' yw teitl y bennod olaf ond fe gywirwyd y diffyg treiglad llaes erbyn 1924. Yn yr un modd fe newidwyd enw'r pentref, o 'Lanwenol' i 'Lanwennol'. Ceiswyd diweddaru peth ar orgraff y fersiwn newydd gan newid

berfau megis 'danghosodd' i 'dangosodd' neu 'myned' i 'mynd'. Ond yn anffodus ceir rhai newidiadau sydd yn heneiddio'r orgraff yn hytrach na'i diweddaru. Enghreifftiau yw newid 'gwneud' yn 'gwneuthur' neu 'dweud' yn 'dywedyd'.

Mewn ambell baragraff fe gollwyd rhai brawddegau cyfain erbyn y nofel gyflawn. Wrth adrodd hanes Wil, y gŵr nad oedd yn ei iawn bwyll, yn ymosod ar D'Alton yn ei ystafell wely fe esbonir y math o gymeriad oedd Wil. Ond fe hepgorwyd y geiriau canlynol yn yr ail fersiwn:

> **Mab i un o forwynion y Plas oedd; ganwyd ef i gywilydd, ac ni bu llun dyn arno yntau.** [26]

Weithiau fe newidir ambell frawddeg a rhydd hyn oleuni gwahanol ar rediad y stori. Ym mhennod deuddeg yn y cylchgrawn ceir y geiriau a welir yn y dyfyniad cyntaf isod, ond ym mhennod gyfatebol y nofel ceir y geiriau sydd yn yr ail ddyfyniad:

> **Dygwyd y goleuni i'r ystafell gan Gapten Gruffydd. Daeth i mewn yn sydyn, pan nad oedd D'Alton yn ei ddisgwyl, a chanwyllbren yn un llaw a phistol mawr yn y llall. Ni ddywedodd yr un gair wrth y Ffrancwr, ond trodd a chlodd y drws ar ei ôl ac yna rhoddodd yr allwedd yn ei boced.** [27]

> **Dygwyd y goleuni i'r ystafell gan Gapten Gruffydd. Daeth i mewn yn sydyn, pan nad oedd D'Alton yn ei ddisgwyl, a chanhwyllbren yn un llaw a phistol mawr yn**

y llall. Ni ddywedodd yr un gair wrth y Ffrancwr ond trodd a chaeodd y panel ar ei ôl. [28]

Mae'n amlwg mai pwrpas y newid yma oedd er mwyn pwysleisio pwysigrwydd y panel cudd.

Yn ei hanfod nofel ddigon diniwed yw Rhwng Rhyfeloedd gydag ychydig o gyfeiriadau at hanes er mwyn ei gwneud yn nofel hanes. Yn wir gellid ei lleoli mewn unrhyw gyfnod gan mai nofel antur ydyw mewn gwirionedd. Mae'r diffygion yn rhy amlwg ynddi i'w gwneud yn nofel lwyddiannus. **Nid yw'r awdur eto wedi llawn feistroli technegau cynllunio stori hir.** [29] yw geiriau Bedwyr Lewis Jones amdani ond rhaid cofio mai dechrau ysgrifennu nofelau yr oedd E. Morgan Humphreys a gosododd y seiliau ar gyfer gwaith pellach. Erbyn ymddangosiad Yr Etifedd Coll(1924) gellir gweld y modd y mae'r awdur wedi datblygu yn ei ysgrifennu.

Yn wahanol i Rhwng Rhyfeloedd(1924) lleolir y mwyafrif o blot Yr Etifedd Coll(1924) yn Ne America. Mae'n rhaid i Edward Prichard fynd yno i ddarganfod ei frawd, Huw, gan mai ef sydd wedi etifeddu cartref eu tad. Os na ddeuir o hyd i Huw, Robert Price, cyfreithiwr dieflig y tad, sydd i etifeddu'r cwbl. Penderfyna Price fod rhaid lladd Huw ac felly anfona Sion Phylip i Dde America ar ôl Edward a'i gyfaill Wmffra Llwyd.

Gwelwyd hoffter E.Morgan Humphreys o blethu stori garu gyda stori antur yn Rhwng Rhyfeloedd(1924) ac mewn ambell stori yn Dirgelwch yr Anialwch(1911) a cheir yr un math o beth yma hefyd. Peggi Fychan yw'r ferch ac mae hithau'n ceisio darganfod ei thad

gyda chymorth Edward ac Wmffra. Wedi sawl antur cânt eu carcharu ond gyda chymorth y Tad Francisco, sydd yn digwydd bod yn dad i Peggi Fychan, llwydda'r ddau ŵr i ffoi. Fodd bynnag, byr yw eu rhyddid oherwydd cânt eu dal gan Indiaid sydd yn eu hebrwng at Huw yng nghanol y diffeithwch. O'r diwedd mae Edward wedi darganfod ei frawd, a hynny cyn y cafodd Sion Phylip ei ddwylo arno.

Ond nid dyma ddiwedd y cyffro. Yn wir, megis dechrau mae'r anturiaethau oherwydd caiff Huw ei ddal gan Sion Phylip ond fe'i hachubir gan un o'r Indiaid. Llwyddir i achub Peggi a'i thad oddi wrth eu tynged o losgi i farwolaeth yn ngŵyl yr Auto de Fe. Yn awr cânt ddychwelyd i Gymru ac wedi taith bleserus a digyffro, pan gaiff y criw a'r darllenwyr gyfle i gael eu gwynt atynt, croeso cynnes iawn sydd yn eu haros yng nghartref William Bennet, ewythr y ddau frawd. Penderfynant fynd i weld Robert Price er mwyn hawlio eu hetifeddiaeth a chânt fywyd dedwydd iawn wedi cynnwrf yr anturiaethau yn Ne America.

Wrth gymharu plot y nofel hon, o'r crynodeb bras a roddir uchod, â phlot Rhwng Rhyfeloedd(1924) gellir gweld bod llawer mwy o ddigwydd yn Yr Etifedd Coll. Ceir un antur ar ôl y llall ac mae'r cwbl yn llwyddo i gynnal diddordeb drwy gydol y stori. Mae'r holl ddigwydd yn plethu i'w gilydd yn gelfydd iawn ac er bod y cyd-ddigwyddiadau yn ymddangos yn aml iawn nid yw'r awdur yn colli gafael ar y stori gan ei fod yn llwyddo i arwain ei ddarllenwyr o un digwyddiad i'r llall yn ddigon naturiol.

Cyfeiriodd Bedwyr Lewis Jones at yr elfennau tebyg a geir yn

Yr Etifedd Coll a nofelau Robert Louis Stevenson. Yn ei nofel Kidnapped(1886) adroddir hanes anturiaethau David Balfour wrth iddo ddychwelyd i'r Alban i adfeddiannu ei etifeddiaeth oddi wrth ei ewythr. Mae'r elfen o ddychwelyd i hawlio etifeddiaeth i'w chael yn gryf yn nofel E. Morgan Humphreys hefyd. Ond nid dyna'r unig debygrwydd rhwng y ddau awdur. Er mai un o is-themâu Yr Etifedd Coll yw hanes y map sydd ym meddiant Sion Phylip, y map sydd yn arwain at drysor John Donn, gellir olrhain y thema yma at nofel arall gan R. L. Stevenson, sef Treasure Island(1881). Yn yr un modd daw tebygrwydd hanes y miwtini ar fwrdd llong y 'Mary Prys' o'r un nofel gan Stevenson. Gan fod E. Morgan Humphreys yn arloesi yn y maes roedd yn rhaid iddo droi at awdur arall er mwyn cael arweiniad ac ni allasai fod wedi dewis gwell awdur. Dyma ddywedodd Bedwyr Lewis Jones am y tebygrwydd:

> **Benthycodd E. Morgan Humphreys rai o elfennau'r gwaith o Kidnapped...ac o Treasure Island...Ond pa ots! Y peth pwysig yw iddo ddysgu gan R. L. Stevenson beth oedd hanfodion stori dda ac iddo roi i'r anturiaethau liw a mynegiant rhugl Gymreig.** [29]

Yn y nofel Yr Etifedd Coll gwelir bod mwy o gymeriadau nag a gafwyd yn y nofel flaenorol. Dengys hyn bod E. Morgan Humphreys wedi aeddfedu fel nofelydd ac felly'n gallu cynnal rhagor o gymeriadau. Roedd y mwyafrif o gymeriadau Rhwng Rhyfeloedd yn ymddangos drwy gydol y nofel ond ni ellir dweud yr un peth yma. Byr iawn yw rhan ambell gymeriad yn y nofel, megis Owen gwas Maes-y-Clogwyn, William Bennet, sy'n ymddangos ar ddechrau ac ar ddiwedd y nofel, Dic Plas Isa, Harri Trevor, Lawrence Smith neu

Aretzuma, pennaeth yr Indiaid. Ymddengys y pedwar olaf yn ail hanner y nofel, ac yn wir nid yw Harri Trevor na Lawrence Smith yn ychwanegu dim at rediad y stori ac eithrio eu bod wrth law er mwyn cael ychwaneg o ddynion i ymladd yn erbyn y Sbaeniaid.

Edward Prichard yw'r gŵr rhinweddol yn y nofel ac mae'n fodlon peryglu ei fywyd er mwyn darganfod ei frawd. Ond wedi cael Huw mae'n peryglu ei fywyd unwaith yn rhagor er mwyn sicrhau rhyddid Peggi Fychan. Nid yw hunanoldeb yn ei natur o gwbl, yn wahanol iawn i gymeriad Robert Price. Ymgnawdoliad o'r gŵr drwg ei hunan yw'r cyfreithiwr. Mae'n ddiegwyddor, gan ei fod yn sicrhau arian iddo ef ei hun yn ewyllys un o'i gwsmeriaid. Mae'n gyfrwys, gan ei fod yn ffugio llythyr Sbaeneg sydd yn cadarnhau marwolaeth Huw ac Edward ac felly trosglwyddir yr holl ystad iddo yntau. Mae'n greulon, gan nad yw'n poeni ym mha fodd y ceir gwared o Edward ac Huw cyn belled â'u bod yn diflannu o'i olwg ef. Gyda'r holl nodweddion yma rydym yn casáu Robert Price ac yn falch iawn pan gaiff y ddau frawd y llaw uchaf arno yn y diwedd.

Mae holl bobl ddrwg y nofel yn gymeriadau y mae'n ddigon hawdd eu casáu. Cymeriadau megis Sion Phylip, Sion Simon, Don Diego di Santillana a'r Tad Domingo yw'r enghreifftiau yn y categori yma. Nid oes y mymryn lleiaf o rinwedd yn perthyn iddynt ac mae eu holl weithredoedd yn ein cythruddo. Mor wahanol yw ymateb y darllenydd wrth ddarllen am hanes y cymeriadau 'da'. Rhain sy'n ennyn edmygedd, pobl megis Edward, Huw, Peggi Fychan, Capten Prys a'r Tad Francisco, sef Herbert Fychan.

Gellir dweud mai teipiau yw'r holl gymeriadau gan mai un

wedd yn unig ohonynt a ddangosir i ni. Ceisiodd E. Morgan Humphreys bwysleisio mai'r da sydd yn trechu'r drwg ond, yn anffodus, nid dyna drefn bywyd bob tro. Nid pobl real, crwn eu personoliaeth, a bortreadir yma. Gellir dweud bod hyn yn wendid. Mae ei gymeriadau'n llenwi'r gofyn yn berffaith, a dyna'r cwbl. Ond er hyn maent yn ennyn y teimladau cywir gan y darllenydd, er enghraifft caiff y gelynion eu casáu ac fe gydymdeimlir â'r arwyr. Dyma sydd yn dangos bod yr awdur wedi llwyddo i greu cymeriadau y gall darllenwyr uniaethu â hwy ac ym maes llenyddiaeth plant mae hyn yn holl bwysig.

Wrth geisio manylu ar y modd y darlunir y cyfnod hanesyddol yn Yr Etifedd Coll gellir dweud mai'r un nodweddion a welwyd yn Rhwng Rhyfeloedd. Prin iawn yw'r cyfeiriadau at ddigwyddiadau hanesyddol o bwys, yn wir yr unig gymeriad hanesyddol a grybwyllir yw'r môr-leidr Harri Morgan. Fel arall sylwir mai mewn cyfnod hanesyddol y lleolwyd y stori gan y cyfeiriadau at arferion gwahanol i heddiw. Fwy nag unwaith dywedir bod rhai o'r cymeriadau'n marchogaeth ceffylau neu'n goleuo ystafell â channwyll. Wrth gwrs mae'r disgrifiadau o fywyd llongwr ar fwrdd y 'Mary-Prys' yn rhoi inni ddarlun o oes y llongau hwyliau. Nid moethusrwydd llongau modern sydd yn wynebu Edward, Wmffra a Peggi ac wrth i'r storm roi'r naill hergwd ar ôl y llall i'r llong gall y darllenydd weld pa mor beryglus oedd bywyd ar y môr yn y gorffennol.

Wrth astudio arddull nofelau E. Morgan Humphreys mae'n ddigon hawdd beirniadu'r dôn henaidd sydd i'r ysgrifennu. Ond mae'n rhaid i ni gofio'r union ddyddiad y cyfansoddodd ei waith.

Cafodd y deunydd ei ysgrifennu yn nau ddegawd cyntaf y ganrif yma mewn cyfnod pan oedd straeon Cymraeg i blant yn bethau prin iawn, ac eithrio yng nghylchgronau O. M. Edwards. Ar brydiau bydd y sgwrsio yn ymddangos yn glogyrnaidd, er enghraifft:

> **'Meistr Prichard,' ebe'r Capten, 'gelwais chwi yma am y gall y bydd arnom eisiau eich help yn fuan. A sylwasoch chwi fod rhywbeth o'i le ar y llong?'** [30]

Mae'r defnydd o hen ffurfiau berfau megis 'dywedyd', 'myned', 'gweled' neu 'dyfod' yn chwithig ar glust y darllenydd modern ar y dechrau. Ond daw i arfer gyda hyn ac ni ellir dweud ei fod yn peri unrhyw anhwylustod iddo. Nid oes modd beirniadu E. Morgan Humphreys am hyn gan mai dyma'r ffurfiau a ddefnyddiwyd yn nechrau'r ganrif.

Arddull bersonol iawn sydd i'r nofel hon gydag ambell frawddeg neu gymal yn rhoi'r teimlad bod yr awdur yn siarad yn uniongyrchol â'r darllenydd unigol. Drwy hyn ceir yr elfen o agos-atrwydd rhwng yr awdur a'r darllenwyr. Enghreifftiau yw brawddeg megis **'...yr wyf yn ddigon carbwl yn ceisio dywedyd fy helyntion heb sôn am geisio dywedyd wrthych sut olwg oedd ar y ferch honno.'** [31], neu **'Credwch fi, yr oedd llais fy nghyfaill...'** [32]. Drwy annerch y darllenydd mae E. Morgan Humphreys yn dod ag ef yn rhan o'r stori.

Gan fod llawer mwy o symud yn <u>Yr Etifedd Coll</u> gellir disgwyl rhannau sydd yn llawn cyffro. Ni'n siomir. Drwy gydol y nofel fe'n harweinir o un digwyddiad cynhyrfus i'r llall, ac mae gan E.

Morgan Humphreys y ddawn i ddisgrifio'r gwahanol ddigwyddiadau yn berffaith. Gall gyfleu cyffro dau ddyn yn ymladd:

> Ni chefais amser i wneuthur mwy na chodi ar fy nhraed cyn bod un ohonynt ar fy ngwarthaf...Nid oedd dim amdani, felly, ond dwrn, a tharewais â'm holl nerth i'r lle y tybiwn fod wyneb yr ymosodydd. Ond methais yn y tywyllwch; aeth yr ergyd i'r awyr wag, a chyn i mi gael amser i sadio yr oedd y dyhiryn wedi cydio amdanaf ac wedi fy nhaflu ar lawr. Cydiais innau ynddo yntau wrth syrthio a daeth i lawr gyda mi,- ond efe oedd uchaf. Teimlwn ei ddwylo yn chwilio am fy ngwddf, ac ymdrechwn â'm holl nerth - ac nid ychydig oedd hynny'r adeg honno - i'w daflu ymaith. [33]

Gellir dweud y gallasai'r enghraifft yma fod yn well pe hepgorid y geiriau '- ac nid ychydig oedd hynny'r adeg honno -', gan eu bod yn torri ar rediad gweddill y darn. Ond, er hyn, mae'r darllenydd yn gweld yr holl symudiadau yn ei ddychymyg, ac yn cydymdeimlo gydag Edward oherwydd ymddengys bod y gŵr am gael y gorau arno. Dengys hyn bod E. Morgan Humphreys wedi cyfleu'r hanes i'r dim.

Cyffro o fath hollol wahanol sydd i'w gael pan adroddir hanes Edward ac Wmffra yn ceisio croesi'r gors wrth iddynt ffoi o lys Don Diego. Ceir tensiwn yn y modd y llwydda E. Morgan Humphreys i greu awyrgylch iasol y gors, er enghraifft:

> Ac ar hynny rhoddodd fy nghyfaill ei droed ar y

> llwybr, a dilynais innau ef. Medrwn ei weled o fy mlaen, a dyna'r oll. Ofnwn rhag bod rhywun ar fur y castell yn medru ein gweled hefyd, ond ofnwn fwy na hynny rhag y farwolaeth oedd yn disgwyl amdanom o'r ddeutu. Ac eto, hyd yn hyn, yr oedd popeth yn ddistaw. ...Unwaith neu ddwy clywais un o'r bwystfilod yn taro'r dŵr, heb fod ymhell, a daeth fy nghalon i gorn fy ngwddf gan y sŵn. [34]

Wrth sylwi ar y ddau ddyfyniad uchod gellir gweld fel y llwydda'r awdur i gyfleu yr union fath o gyffro y mae ei angen. Nid oes wahaniaeth p'run ai cyffro 'symudol' fel yn y disgrifiad o'r ymladd neu gyffro sydd yn ddibynnol ar awyrgylch iasol. Y mae E. Morgan Humphreys yn llwyddo yn y naill a'r llall, a dyma ddangos ei fod yn awdur meistrolgar ar ei grefft.

Fodd bynnag ceir ambell ddisgrifiad sydd yn rhy ddramatig ac o'r herwydd mae'n ymddangos yn chwerthinllyd. Un enghraifft o hyn yw marwoleth Dic Plas Isa. Yn ei wendid mae'n llwyddo i ddweud neges holl bwysig wrth Edward ac Wmffra cyn marw'n dawel:

> Ac yna ychwanegodd mewn llais oedd mor isel fel na allai neb ond Wmffra a minnau ei glywed. 'Y mae Huw Prichard efo nhw. Yn iach, 'r hen shipmet, - pwy fasa'n meddwl mai dyma fasa'r diwedd, ynte?'
>
> A chyda'r geiriau yna disgynnodd ei ben yn ôl i freichiau Wmffra. Yr oedd wedi marw. [35]

Yr un math o ddigwyddiad dramatig sydd i hanes Edward yn achub

Peggi Fychan oddi wrth y stanc:

> ...a rhuthrais innau at Peggi, gan daro'r mynach a geisiai fy atal nes yr oedd ar lawr. Safai hi yn syn, a goleuni rhyfedd yn ei llygaid.
>
> 'Peggi, Peggi!' meddwn. 'Fy nghariad, y mae popeth yn iawn.'
>
> Trodd ataf am funud. 'Edward!' oedd y cwbl a ddywedodd, ond yr oedd y gair a'r edrychiad yn ddigon, ac yna suddodd yn fy mreichiau. Yr oedd wedi llewygu.
>
> [36]

Mae'n amlwg mai dyma sut y mae pob merch rinweddol yn fod i ymddwyn pan ddaw ei chariad ar ei chyfyl! Dylai'r rhyw deg lewygu dan bwysau'r cyfarfyddiad emosiynol! Gellir dweud bod E. Morgan Humphreys yn gwneud i unig gymeriad benywaidd y nofel ymddangos yn ferch ddi-asgwrn cefn ac yn hen hoeden ben-ysgafn. Yn wir ychydig funudau cyn llewygu roedd yn dweud wrth ei thad y byddai hi'n dangos i'r Sbaenwyr pa mor ddewr y gallai'r Cymry fod wrth farw. Trueni bod anghysonderau fel hyn yn ymddangos yng nghymeriad Peggi.

Wrth ystyried cyfraniad E. Morgan Humphreys i faes y stori a'r nofel hanes mae'n rhaid ei ganmol am fentro pan nad oedd y ffurf ond baban ifanc iawn yng Nghymru. Gellid credu yn hawdd bod yr awdur yn camu i hen draddodiad Cymraeg oherwydd y modd y llwydda i greu straeon a nofelau sydd yn afaelgar iawn. Yn wir gŵel Bedwyr Lewis Jones gyfraniad E. Morgan Humphreys fel cam pwysig iawn yn hanes llenyddiaeth ein cenedl, fel y dywedodd yn

Dewiniaid Difyr:

> Yn Dirgelwch yr Anialwch(1911), Rhwng Rhyfeloedd(1916), a'r Etifedd Coll(1924) arloesodd E. Morgan Humphreys dir newydd mewn sgrifennu i fechgyn yn Gymraeg ac ymestyn ffiniau ein rhyddiaith naratif ni. [37]

Roedd ymddangosiad y llyfrau yma yn bwysig iawn gan na chafwyd dim tebyg o'r blaen yn Gymraeg. Gwelodd yr awdur bod bwlch ac felly aeth ati i'w lenwi. Roedd yn ymwybodol o'r bwlch ers dyddiau ei blentyndod ef ei hun ac roedd am wneud yn siŵr na fyddai raid i eraill droi at iaith estron er mwyn cael mwyniant wrth ddarllen. Cyflawnodd y dasg yn wyrthiol a phan mae ar ei orau ceir stori sydd yn llawn cyffro ac antur a honno wedi ei chyflwyno mewn iaith raenus dros ben. Y canlyniad yw nofel wir afaelgar, megis Yr Etifedd Coll, nofel y mae holl ddawn E. Morgan Humphreys i'w weld yn glir ynddi. Nofel o'r math yma sydd yn mynd â bryd darllenwyr o bob oed, fel y dywedwyd yn y Cydymaith i Lenyddiaeth Gymraeg:

> Yr oedd Humphreys yn un o'r awduron Cymraeg cyntaf i sylweddoli'r angen am ddefnydd darllen cyfaddas i bobl ifanc yn Gymraeg er gwrthweithio'r defnydd helaeth oedd i'w gael yn Saesneg...Gwnaeth ymdrech deg i gyflenwi'r angen mewn storiau wedi'u lleoli ar gefndir hanesyddol...Y mae crefft y storiau hyn yn rhagorol ac y maent yn ddiddorol i oedolion yn ogystal â phlant. [38]

Mae'n rhaid i ni gydnabod ein dyled i E. Morgan Humphreys oherwydd hebddo ef ni fyddai awduron eraill wedi mentro ar hyd yr un llwybr a mynd ati i lunio eu straeon neu nofelau hanes eu hunain. Ef oedd yr arloeswr a thrueni na fyddai mwy o ddarllen ar ei lyfrau gan fod ei nofelau antur hanes yr un mor addas i ddarllenwyr ifainc heddiw.

1 Llythyr yng nghasgliad llythyrau E. Morgan Humphreys yn Adran yr Archifau, Coleg y Brifysgol, Bangor.
2 Dewiniaid Difyr, t. 47.
3 Dirgelwch yr Anialwch, rhagymadrodd.
4 Land of My Fathers, tt. 166-167.
5 Ymyl y Ddalen, t. 185.
6 ibid., t. 175.
7 Y Genhinen, cyf. 5, rh. iv, Hydref 1955, t. 202.
8 Cymru'r Plant, cyf. XI, Ionawr 1902, tt. 11-13; Cymru'r Plant, cyf. XI, Chwefror 1902, tt. 50-53.
9 Dirgelwch yr Anialwch, t. 28.
10 ibid., t. 48.
11 ibid., t. 93.
12 Dewiniaid Difyr, t. 49.
13 Dirgelwch yr Anialwch, t. 46.
14 ibid., t. 61.
15 ibid., t. 70.
16 ibid., t. 43.
17 ibid., t. 125.
18 Rhwng Rhyfeloedd. t. 7.
19 ibid., t. 10.
20 ibid., t. 96.
21 ibid., t. 46.
22 ibid., t. 46.
23 ibid., t. 94.
24 ibid., t. 108.
25 ibid., t. 31.
26 Cymru, cyf. L, Mai 1916, t. 242.
27 Cymru, cyf. L, Mehefin 1916, t. 284.
28 Rhwng Rhyfeloedd, t. 125.
29 Dewiniaid Difyr, t. 250.
30 Yr Etifedd Coll, t. 59.
31 ibid., t. 47.
32 ibid., t. 73.
33 ibid., t. 39.
34 ibid., t. 118.
35 ibid., t. 174.
36 ibid., t. 216.
37 Dewiniaid Difyr, t. 51.
38 Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru, t. 282.

Elizabeth Watkin Jones

ELIZABETH WATKIN JONES

EI BYWYD

Gwraig â'i gwreiddiau'n ddwfn ym Mhen Llŷn oedd Elizabeth Watkin Jones. Yno y magwyd ei theulu yn forwyr, fel sawl teulu arall yn Nefyn. Roedd ei dau daid yn gapteiniaid llongau ac i'r môr yr aeth tad yr awdures hefyd, y Capten Henry Parry, ond fe'i boddwyd ger De America pan oedd Elizabeth Watkin Jones yn ifanc iawn. Yn wir, ni welodd yr awdures mo'i thad erioed ac oherwydd mai boddi a wnaeth, bu hithau ofn teithio ar y môr byth wedyn.

Roedd mam Elizabeth Watkin Jones yn byw gyda'i rhieni yn Nhanllan, Nefyn pan anwyd ei merch ar Orffennaf y trydydd ar ddeg, 1887. Er i'w mam ail briodi ni chafodd Elizabeth Watkin Jones frodyr na chwiorydd eraill. Yn ôl ei chyfaddefiad ei hun cafodd ei difetha'n llwyr wrth iddi gael ei magu'n unig blentyn:

> **Byddwn innau er pan yn ifanc iawn, yn rhannu fy amser rhwng tŷ fy mam a thŷ fy nhaid a nain. Pan fyddwn yn cael cerydd mewn un tŷ, byddwn yn siwr o gael dinas noddfa yn y tŷ arall, felly doedd dim rhyfedd fy mod yn cael gormod o fy ffordd fy hun.** [1]

Efallai bod â wnelo'r unigrwydd pan yn blentyn â'r ffaith iddi fynd ati i lunio straeon. Cyfeiria ati hi ei hun yn adrodd straeon yn uchel wrth hen ddelw oedd gan ei nain yn ei gardd. Roedd wrth ei bodd gyda straeon tylwyth teg ac yn un dda am ramantu, yn ôl yr hyn a ddywedodd wrth Miss. Nellie Trenholme

[2]. Gyda'r dychymyg byw a oedd ganddi arferai ei difyrru ei hun gan nad oedd ganddi gwmni brodyr a chwiorydd.

Yn dilyn cyfnod yn Ysgol y Babanod Nefyn ac Ysgol y Genod yn Nefyn, lle'r ymddengys iddi fod yn ddisgybl digon cyffredin, aeth Elizabeth Watkin Jones yn ei blaen i Ysgol Ganolraddol Pwllheli ac yna i Ysgol Sir Pwllheli erbyn 1900. Wedi cyfnod o chwe blynedd yno dechreuodd ar ei gwaith fel cynorthwyes ddysgu yn rhai o ysgolion yr ardal, megis Mynytho ac Ysgol y Babanod Nefyn. Ar ôl dwy flynedd yn y ddwy ysgol cafodd ganiatâd i ddechrau ar waith a fyddai'n y pen-draw yn arwain at dderbyn statws athrawes drwyddedig.

Roedd yn daith hir a bu'r cam cyntaf ym 1908 pan dreuliodd gyfnod yn Ysgol Troed yr Allt, Pwllheli er mwyn cael ei hyfforddi mewn rhai o hanfodion dysgu babanod. Hefyd llwyddodd gydag arholiadau a'i galluogodd i fynd i'r Coleg Normal rhwng Hydref 1912 a Gorffennaf 1914. Nid syndod o beth yw deall iddi ymddiddori'n fawr mewn Cymraeg a Hanes tra roedd yn y Coleg.

Trodd Elizabeth Watkin Jones ei golygon ymhell iawn o Ben Llŷn yn awr gan dderbyn swydd yn Aberdâr ym Mawrth 1915 ond cwta saith mis y bu yno cyn iddi symud i Ysgol y Cyngor, Onllwyn am naw mis ac wedi hynny dychwelodd i'r gogledd. I ardal Eifionydd y daeth i ddysgu, i Ysgol Ynyscynhaiarn ym Mhorthmadog ac yna am gyfnod i Drefriw. Erbyn Pasg 1917 yr oedd wedi priodi â John Watkin Jones.

Gŵr o Forfa Nefyn, y pentref agosaf at Nefyn, oedd John

Watkin Jones ac, fel ei wraig, aeth i ddysgu i ardal Merthyr. Yno, mae'n bur debyg, y bu i'r ddau gyfarfod. Bu'n rhaid iddo frwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf cyn derbyn swydd fel prifathro Ysgol Gynradd Nefyn. Cyfrannodd y pâr yn sylweddol at fywyd y pentref gan eu bod ill dau yn flaenllaw iawn yng ngweithgareddau Capel Soar, yr Annibynwyr. Symud o Nefyn i Forfa Nefyn fu eu hanes ym 1964 ac yno, ddwy flynedd yn ddiweddarach, ar Fehefin yr ail, 1966, y bu farw Elizabeth Watkin Jones yn 78 mlwydd oed.

Ar gyfer plant y capel y dechreuodd Elizabeth Watkin Jones gyfansoddi straeon a dramâu byrion i'w perfformio yn ystod y gwasanaethau. Er bod rhai ohonynt yn Feiblaidd eu naws, er enghraifft Doethineb Solomon neu Samuel ac Eli, ceir amrywiaeth yn y math o waith a ysgrifennodd ar gyfer y Capel. Yn eu plith mae dramâu a seiliwyd ar hen chwedlau megis Y Deuddeg Brawd sydd yn adrodd hanes un o chwedlau Grimm, drama hanesyddol ar gyfnod Beca, drama Saesneg ar hanes Robin Hood neu ddrama hwyliog ac ysgafn sydd yn seiliedig ar y gân 'Sosban Fach', sef Ffantasi ar y Sosban Bach.

Ar gyfer eu perfformio yn Neuadd Madryn, neuadd bentref Nefyn, y cyfansoddwyd rhai o gynnyrch Elizabeth Watkin Jones ac roedd yn rhaid eu galw'n sgetsus. Roedd rheswm pendant am hyn oherwydd y caent eu perfformio ar ddydd Nadolig ac roedd angen trwydded arbennig i gynnal dramâu ar y diwrnod hwnnw. Wrth eu galw'n sgetsus roedd modd osgoi gofyn am drwydded. Roedd y sgetsus mor boblogaidd, gan mai Elizabeth Watkin Jones oedd yr awdures, fel y gallesid llenwi'r neuadd ac os cynhelid perfformiad yn y Capel byddai gofyn trefnu dwy noson.

Yn ôl un o gynhyrchwyr y dramâu neu'r sgetsus, Miss Nellie Trenholme, ni fyddai Elizabeth Watkin Jones yn ymyrryd o gwbl yn y gwaith cynhyrchu, a'i hunig gyfraniad yn y maes yma fyddai dewis yr actorion. Wrth iddi ysgrifennu'r dramâu byddai'n cadw'r dewis o actorion mewn cof ac os gwyddai na allai person ymdopi â rhan fawr byddai'n sicrhau bod un cymeriad yn y cast gyda rhan fechan megis llefaru un frawddeg yn unig. Ysgrifennu ar gyfer ei phobl a wnai ac os byddai unrhyw ddrama yn llwyddiant yna câi ei chyhoeddi, ond nid cyn i bobl Nefyn roi sêl eu bendith arni. Yn ogystal â'r dramâu uchod aeth Elizabeth Watkin Jones ati i ddramateiddio rhai o nofelau clasurol y Gymraeg, er enghraifft rhannau o Rhys Lewis, a chlasuron y Saesneg, megis gwaith Dickens. Ceir casgliad o beth o'i gwaith dan ofal Mr. Hugh D. Jones, nai yr awdures, a dymunaf ddiolch iddo am gael gweld y ffeil o'i gwaith sydd yn ei feddiant.

Yn y Saesneg y cyhoeddodd Elizabeth Watkin Jones beth o'i gwaith cynnar. Straeon a anfonwyd i gylchgronau megis Bubbles neu Chuck's Own oeddynt ac ni chyhoeddwyd dim o'i heiddo yn Gymraeg hyd 1938, pan ymddangosodd peth o'i gwaith yn Yr Athro. Wedi hynny aeth ati i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan ddod i'r brig yn aml. Cafodd Luned Bengoch y wobr yn Ninbych ym 1939, Y Cwlwm Cêl, neu Yn Nyddiau Cromwell fel y'i gelwid yn wreiddiol, yn Eisteddfod Bangor ym 1943, yn Rhosllannerchrugog, 1945, cafodd Y Dryslwyn y wobr gyntaf ac ym Mae Colwyn ym 1947 Lois oedd ar y brig.

Ni chyhoeddwyd yr un o'r nofelau uchod ym mlwyddyn eu llwyddiant eisteddfodol. Y nofel gyntaf i ymddangos oedd Plant y

Mynachdy ym 1939, yna gwelwyd Luned Bengoch ym 1946. Y flwyddyn ganlynol daeth dwy nofel o'r wasg, Y Cwlwm Cêl a'r Dryslwyn. Gwelwyd dwy nofel ym 1951 hefyd, Esyllt a Lowri, a ymddangosodd yn Storiau Ias a Chyffro. Yna ym 1955 y cyhoeddwyd Lois, nofel olaf Elizabeth Watkin Jones.

Fodd bynnag nid dyma unig gyfraniad yr awdures i faes llenyddiaeth plant oherwydd ymddangosai ei gwaith yn gyson mewn cylchgronau enwadol megis Trysorfa'r Plant, Tywysydd y Plant, Y Winllan a chylchgronau anenwadol megis Cymru'r Plant a Hwyl. Cafodd rhai o'i straeon mwyaf poblogaidd a ymddangosodd yn Hwyl eu dwyn ynghyd mewn cyfrol ar wahân. Cyfres o straeon y cymeriadau 'Pwt a Moi' oedd y rhain a gwelodd y gyfrol olau dydd ym 1953 ac yna ddeng mlynedd yn ddiweddarach cyhoeddwyd Pwt a'r Cawr. Gwelwyd felly bod gan Elizabeth Watkin Jones y ddawn i ysgrifennu'n greadigol ar gyfer plant o bob oed.

Galwai pobl yn aml yng nghartref Elizabeth Watkin Jones ac o'r herwydd prin iawn oedd yr amser a gâi i fynd ati i ysgrifennu'n greadigol. Yn aml gwelid hi a'i gŵr yn mynd am dro yn y car gan aros am ysbaid yng nghefn gwlad Pen Llŷn. Tra âi John Watkin Jones i gerdded byddai ei wraig yn aros yn y car i ysgrifennu ei stori ddiweddaraf. Dyna'r unig ffordd y câi lonydd i weithio, meddai ei nai. Roedd y ddau hefyd yn hoff o fynd ar eu gwyliau i Drefriw ac yno y cafodd ambell nofel ei hysgrifennu. Ysgrifennai gynllun bras o'r nofel neu'r stori i ddechrau cyn mynd ati i greu'r cyfanwaith.

Nid gwaith creadigol ar gyfer ei ddarllen yn unig a wnaeth

Elizabeth Watkin Jones oherwydd cyfrannodd yn doreithiog ar gyfer y radio. Ymysg ei chynnyrch mae addasiadau a gwaith gwreiddiol. Hefyd cafodd rhai o'i nofelau hanes eu haddasu ar gyfer eu darllen ar y radio, er enghraifft wedi marw'r awdures cafodd ei nofel boblogaidd Lois ei darllen mewn pedair rhan rhwng Ebrill yr ugeinfed a Mai yr unfed ar ddeg, 1968.

Gwraig urddasol oedd yr awdures ar hyd ei hoes ac oherwydd ei bywyd fel merch i gapten llong ac yna fel gwraig y prifathro lleol credai llawer ei bod yn ffroenuchel. Gwraig wylaidd ydoedd mewn gwirionedd a chasâi unrhyw gyhoeddusrwydd oherwydd ei dawn fel awdures. Gwrthododd feirniadu mewn eisteddfodau ar sawl tro gan y byddai gofyn iddi siarad yn gyhoeddus. Fodd bynang roedd yn barod iawn i wneud cymwynas yn y dirgel a phan ddaeth morwyn nad oedd wedi cael llawer o addysg i weithio ati hi a'i gŵr aeth Elizabeth Watkin Jones ati i ddysgu'r ferch. Ymhen hir aeth y ferch i nyrsio cyn dod yn ôl i Lŷn fel nyrs yn y gymuned. Nid oedd yr awdures yn poeni am golli morwyn, roedd yn well ganddi roi ei hamser a'i phrofiad er mwyn gweld un yn llwyddo. Dyma ddangos yn berffaith y math o wraig ydoedd Elizabeth Watkin Jones.

NOFELAU HANES ELIZABETH WATKIN JONES

Wrth astudio themâu nofelau Elizabeth Watkin Jones mae'n hollol amlwg bod y cyfnod rhwng 1640 ac 1660 yn mynd â'i bryd yn arw. O'i saith nofel mae pump ohonynt wedi eu lleoli yng nghyfnod y Rhyfel Cartref. Cyfnod Owain Glyndŵr a chyfnod y

goets fawr sydd yn gefndir i'r ddwy nofel arall. Bydd rhai o'r nodweddion a grybwyllir yn nes ymlaen yn gyffredin i'r saith nofel, rhai i'r pum nofel yn ymwneud â'r Rhyfel Cartref ac eraill i nofelau unigol.

Nofel wedi ei gosod yng nghyfnod y Rhyfel Cartref oedd y nofel gyntaf a gyhoeddwyd gan Elizabeth Watkin Jones, sef Plant y Mynachdy(1939). Mae'r famaeth, Mari, yn cadw llygaid ar Esyllt a Benni gan fod eu mam wedi ei chladdu a'u tad, Owen Maredydd, yn ymladd ar ran y seneddwyr. Pan ddaw milwyr y brenin i gipio eu cartref aiff y ddau blentyn i ymguddio mewn ogof sydd â llwybr yn arwain iddi oddi wrth un o luniau'r teulu yn y galeri. Yn anffodus caiff Mari ei dal a rhaid iddi hi aros yn y tŷ er mwyn tendio ar y milwyr.

Daw'r Cadfridog John Gwynne i wybod am y llwybr ond penderfyna beidio ag erlid y brawd a'r chwaer. Yn wir pan ddaw'r amser i'r milwyr adael y Mynachdy mynnent fod hawl ganddynt i losgi'r tŷ. Yn ffodus i bawb roedd Esyllt wedi clywed si am hyn ac wedi mynd ar ei hunion i Gaernarfon i geisio cymorth John. Daw yntau i Ben Llŷn i orfodi ei filwyr i beidio â llosgi cartref Esyllt a Benni. Gallai'r stori yn hawdd fod wedi dirwyn i ben yma ond ni wneir hynny. Ategir hanes John Gwynne yn mynd i ymladd i Newbury a thrwy gyd-ddigwyddiad ffodus daw ar draws seneddwr wedi ei glwyfo. Gallai'n hawdd fod wedi rhoi'r ergyd farwol iddo ond sylwa ar yr enw ar ei gledd - Owen Maredydd. Wedi i'r seneddwr ddychwelyd i'r Mynachdy daw i ddeall paham y bu iddo dderbyn cymorth gan frenhinwr.

Yn Plant y Mynachdy gwelir yr holl nodweddion sydd i'w gweld mor aml yng ngwaith yr awdures; y famaeth annwyl a hoffus ond sydd eto'n cadw llygaid barcud ar bawb a phopeth, y llwybr cudd sydd yn arwain at ogof neu guddfan gyfleus, awgrym o berthynas rhwng arwres y nofel a'r gŵr ifanc sydd yn cefnogi'r gelyn, tad yr arwres sydd yn aml yn bell o gartref gan ei fod yn ymladd dros ei blaid, mam sydd naill ai wedi marw neu'n eistedd yn y gornel yn dawel bach heb fawr ran yn y stori ac, yn olaf, gwreiddiau'r stori yn gadarn iawn yn nhir Pen Llŷn. Wrth gyfeirio at y nofelau eraill gellir gweld y cwbl, neu ambell un, o'r elfennau yma yn ymddangos dro ar ôl tro.

Llwybr o ystafell wely Nest i'r Eglwys sydd i'w weld yn y nofel Y Cwlwm Cêl(1947) a thrwyddo y daw Hywel i geisio rhestr bwysig o enwau'r rhai a gefnogai'r ymgyrch i adfer y frenhiniaeth. Yr oedd am sicrhau'r rhestr gan fod enw ei dad arni ac os byth y deuai i ddwylo seneddwr byddai ar ben arno ef a'r gŵŷr eraill a dorrodd eu henwau ar y rhestr. Nid yw yr un o rieni Nest yn absennol yn y nofel hon gan fod eu hangen yn y stori. Mae'n rhaid cael y tad er mwyn i'r rhestr ddisgyn i ddwylo seneddwr ac mae angen y fam er mwyn cael gwraig wael gan fod yn rhaid i Nest fynd i geisio meddyginiaeth iddi. Drwy hynny y bu iddi ddisgyn oddi ar y clogwyn i'r môr a chael ei hachub gan Hywel. Yna caiff mam Nest ei hanfon i Fiwmares o'r ffordd.

Er bod y rhestr werthfawr yn nwylo Llywelyn ap Maelgwyn, tad Nest, nid yw'n ei throsglwyddo i ddwylo seneddwyr eraill. Rhy gymorth i Syr Arthur Vaughan, tad Hywel, groesi'r Fenai er mwyn iddo gael mynd yn ei flaen i'r Iwerddon. Gwnaeth hyn oherwydd

bod Hywel wedi achub Nest o'r môr. Ymhen amser adferwyd y frenhiniaeth o dan Siarl II ac fel tâl i Syr Arthur Vaughan a Hywel cânt gartref gerllaw Bryn Mynach. Yn ogystal mae'r brenin newydd yn dewis gwraig i Hywel ac er mawr syndod iddo Nest ydyw. Wrth gwrs mae'r ddau wrth eu boddau.

Daw cymeriad yr hen famaeth i'r golwg unwaith yn rhagor yn y nofel Esyllt (1951) a Modryb Lowri yw ei henw y tro yma. Bu'n rhaid iddi hi gadw golwg ar Esyllt a'i hefaill Ifor gan fod eu mam wedi marw ar eu genedigaeth. Yn y stori mae Ifor a'i dad wedi gadael cartref i ymladd ar ran y seneddwyr. Wrth iddo ddychwelyd i faes y gad o Gastell Pentyrch yn Nefyn caiff Ifor ei saethu ac o'r herwydd mae Esyllt yn ffeirio lle gydag ef, a chaiff yntau gyfle i wella. Wrth farchogaeth gyda milwyr y brenin tuag at eu lloches mae'n rhaid i Esyllt aros y noson mewn coedwig fechan. Ymosodir arnynt a chaiff Syr John Wyn, cadfridog y brenhinwyr, ei glwyfo. Ond llwydda Esyllt i fynd ag ef i fferm gerllaw lle mae Enid, un o hen gyfeillion Esyllt, yn aros. Dywed hi wrth Syr John bod Esyllt ac Ifor yn efeilliaid.

Pan ddaw Esyllt o hyd i god fechan yn llawn trysorau gwerthfawr sydd yn eiddo i Syr John mae'r ferch rinweddol, foesol yn penderfynu bod yn rhaid iddi ddychwelyd y god i'w pherchennog gwreiddiol, er y gallai ei phlaid hi ei hun wneud defnydd o'r arian. Wedi iddi ddychwelyd i Gastell Pentyrch daw rhai o filwyr cas y gelyn yno i geisio Ifor, sydd yn cuddio mewn ogof ar waelod llwybr cudd. Aiff Esyllt yn gandryll gyda Syr John pan ddalia Ifor, a hithau wedi bod yn drugarog wrth ddychwelyd y trysorau iddo. Ond cynllun gan Syr John yw hyn oherwydd roedd yn rhaid

iddo ef ddal Ifor neu fe fyddai un o'r milwyr eraill wedi gwneud. Y cwbl a wna yw rhyddhau Ifor wedi iddo fynd o olwg ei gyd-filwyr. Pan ddychwel i gartref Esyllt i ddweud hyn wrthi mae hi'n hynod ddiolchgar ac er bod rhaid i Syr John ymadael am y rhyfel ceir awgrym cryf bod rhywbeth ar droed rhwng y pâr ifanc. Diweddglo hapus sydd yma hefyd, fel a geir yn y nofel nesaf.

Yn wahanol i Esyllt nid oes hen famaeth na llwybr nac ogof gudd yn Lowri (1951). Mae mam Lowri yn ymddangos yn y stori hon gan fod angen rhywun i ddwrdio'r arwres am ei bod yn cadw cysylltiad â theulu Huw, sydd yn frenhinwyr. Mae'r tad, fodd bynnag, wedi gadael cartref er mwyn ymladd dros y seneddwyr tra mae Richard, brawd Lowri, yn ysbïwr ar eu rhan ac yn ceisio smyglo trysorau i goffrau'r blaid.

Pan gaiff Lowri a Richard eu dal yn smyglo cist o drysorau ger Enlli, Huw yw'r brenhinwr sydd yn gyfrifol am eu rhwystro a chânt eu hebrwng i dŷ gerllaw. Yno caiff y milwyr ddiod, bwyd a chynhesrwydd a chyn bo hir mae pawb, ac eithrio Lowri, Richard a Huw, yn cysgu. Gan ei bod yn boeth yno mae Huw yn agor ffenestr a phan mae ei gefn wedi ei droi neidia Richard allan. Llwydda Lowri hithau i ddianc ond fe ymosodir arni gan fynach gwallgof. Huw yw'r gŵr sydd yn ei hachub ac yn hwylio'n ôl gyda hi i draeth Nefyn. Yn niogelwch ei chartref eglura Richard wrthi y modd y rhoddodd Huw y cyfle iddo ddianc yn fwriadol oherwydd ei gariad tuag at Lowri. Cydwybod euog sydd yn pigo Lowri oherwydd ei bod wedi teimlo casineb tuag at Huw am eu dal. Mae'n rhaid iddi ei weld cyn iddo fynd i ymladd dros ei blaid ac yn nhawelwch Pen Llŷn caiff y ddau gyfle i ffarwelio â'i gilydd.

Yn y nofel olaf yng nghategori nofelau'r Rhyfel Cartref gellir gweld yr holl nodweddion a ymddangosodd yn y nofelau uchod. Sioned yw enw'r hen famaeth yn Lois (1955) a bu tri phlentyn yn ei gofal yn y Twŵr, eu cartref. Maredydd, Gwen a'u hanner chwaer Siwan yw'r plant. Bu farw mam Siwan cyn i'r teulu ddod i Lŷn a chafodd eu tad ei ladd mewn brwydr yn erbyn y brenhinwyr. Daw John ap Huw Owain, brenhinwr ifanc, i guddio i lofft y gloch yn y Twŵr, wedi iddo gael ei glwyfo gan fwledi'r seneddwyr. Roedd ar berwyl perygl gan fod rhaid iddo drosglwyddo dogfennau pwysig i frenhinwyr yn yr Iwerddon. Ond ar ddechrau ei daith fe'i carcharwyd wrth iddo daro ar smyglwyr. Yn ffodus roedd merch ifanc o'r enw Ann yn eu plith a chyda'i chymorth hi mae'n dianc o'u gafael. Wedyn caiff ei ddal gan seneddwyr ond nid cyn llwyddo i roi'r dogfennau i Ann a'i hannog i fynd i Ben Llŷn i gartref rhai o frenhinwyr pybyr yr ardal. Er bod Gwen a Siw yn seneddwyr ni ddywedant fod brenhinwr, a oedd wedi dianc o gastell Caernarfon, yn cuddio yn eu cartref.

Yn gymysg â'r stori yma ceir hanes Lois, sef 'figure-head' un o longau Rhodri Farfgoch, y môr-leidr. Daw Siw o hyd i'r ddelw mewn pwll o ddŵr a chaiff ei chadw wedi hynny yn llofft y gloch. Roedd Rhodri wedi gadael neges mewn Beibl i ddweud bod trysor yng ngofal Lois ond ni lwyddwyd i ddod o hyd i'r trysor hyd nes i John dynnu'r marmor oddi ar y ddelw gan adael aur pur. Wedi peth amser mae Ann yn awyddus i ddychwelyd y llythyrau i John ac felly ar ddiwrnod ffair Nefyn mae'n dod i'r ardal i'w geisio. Daw o hyd iddo ond gwêl Gwen hi'n trosglwyddo'r llythyrau iddo ac mae'n meddwl eu bod yn gariadon. Cyn i John adael mae'n egluro'r cwbl wrth Gwen a gofynna os bydd croeso iddo

ddychwelyd i hen gartref ei deulu, sef y Twr. Collodd ei dad yr hawl i'r tir yn ystod teyrnasiad Cromwell. Fodd bynnag caiff John ei gartref yn ol oherwydd ymhen blynyddoedd gwerthwyd y ddelw aur o Lois er mwyn ail gyflenwi'r ystad i'r etifeddion newydd, Gwen a John. Yn ogystal a'r diweddglo hapus i'r par yma ceir awgrym cryf bod Maredydd ac Ann yn llawer mwy na ffrindiau.

Diddorol yw sylwi mai seneddwyr yw'r teuluoedd i gyd yn y nofelau uchod ac mai'r brenhinwyr yw'r gelynion. Daw'r ffaith hon yn fwy diddorol o wybod fod Elizabeth Watkin Jones wedi crybwyll wrth Miss Nellie Trenholme mai ar ochr y brenhinwyr y buasai hi petai wedi byw drwy'r Rhyfel Cartref. Ni ellir dweud mai gelynion creulon yw'r brenhinwyr yn ei nofelau oherwydd maent yn fodlon aberthu egwyddorion eu plaid er mwyn arbed rhai o'r seneddwyr. Gellir nodi felly bod teimladau personol yr awdures i'w gweld yn y modd y gwna i'r gelynion ymddangos yn rhinweddol.

Wrth droi ein golygon tuag at y ddwy nofel arall fe welir bod teyrngarwch tuag at blaid yn bwysig yn Luned Bengoch (1946) hefyd ond yn wahanol i nofelau'r Rhyfel Cartref ymladd dros arwr Cymraeg a wneir yma. Owain Glyndwr yw'r gwr y mae Huw Fychan a'i fab Dafydd yn ymladd trosto. Mae'n rhaid i Rhys a Gwen aros gartref yng Nghastell Gwrtheyrn gyda Modryb Modlen yn cadw golwg arnynt. Un o'u cyfeillion yw Luned Bengoch a phan fu farw ei nain daw i'r Castell i fyw gyda theulu Huw Fychan. Yn dilyn llongddrylliad gerllaw daw gwr i'r castell a gofynna i Rhys fynd a llythyr pwysig i Lyndwr a heb yn wybod iddo dilyna Luned ef. Holir Luned gan bawb ai hi yw merch Caradog ab Merfyn Goch ond ni wyr hi pwy oedd ei rhieni gan iddi gael ei magu gan ei nain. Ar

y ffordd yn ôl i Ben Llŷn aiff Rhys a Luned ar goll a cheisiant noddfa yng nghartref Merfyn Goch, sydd yn ddiarwybod i Luned yn ewythr iddi. Caiff ei chloi mewn twr ond llwydda Rhys i'w hachub a dychwela'r ddau ar frys i Lŷn.

Ymhen hir a hwyr daw crythor dall i ymweld â Chastell Gwrtheyrn ac er ei fod yn ddall llwydda i fynd lawr y llwybr cul i'r Nant a draw tuag at hen gartref Luned a'i nain. Yno daw ar draws bocs yn llawn aur ond nid yw'n ceisio ei ddwyn. Wedi hyn daw Merfyn Goch i'r tŷ i geisio Luned gan mai hi yw gwir etifedd ei theulu ac nid Merfyn. Llwydda Luned i fynd lawr tuag at y môr ac yno mae cwch y gall hi rwyfo i ddianc oddi wrth ei gelynion. Wrth i Ferfyn a'i filwyr ei herlid ar y tir cânt eu boddi mewn cors. Dychwela Dafydd gartref i ddweud wrth Luned bod y crythor dall wedi darganfod tystiolaeth a brofai mai merch Caradog ap Merfyn Goch ydoedd ac felly hi oedd etifeddes Plas Crafnant. Nid yw hi'n awyddus i fynd i'w chartref newydd ond mae'r syniad yn llawer gwell pan ddywed Rhys y daw ef yno gyda hi. Yn nhraddodiad y nofelau am y Rhyfel Cartref ceir diweddglo rhamantus yma hefyd.

Mae plot Y Dryslwyn yn llawer mwy cymhleth, yn wir gellir dweud mai hon yw'r nofel fwyaf celfydd o ran gwead y stori, fel y dywedodd Siân Teifi **Mae'n bosib mai dyma nofel orau Elizabeth Watkin Jones...**[3]. Ar ddechrau'r nofel daw Gwen i aros at Lowri, ei chwaer, yn 'Y Dryslwyn' ond caiff y goets fawr y teithia hi arni ei dal gan ladron pen-ffordd. Hefyd mae'r Ustus lleol a Gruffydd Ellis, tafarnwr lleol, yn arweinwyr ar griw o smyglwyr ond mae Arthur, nai yr ustus, yn erbyn hyn. Un diwrnod

â Nia, merch Lowri, ar goll ac wrth i Gwen chwilio amdani daw ar draws cuddfan y smyglwyr ond caiff hi a Nia eu cloi mewn cell yno gan yr Ustus. Arthur ddaw o hyd iddynt ac mae'n rhaid i Nia aros yn ei gwely am gyfnod er mwyn gwella ar ôl y cynnwrf. Sylwa Gwen ei bod yn chwarae â gem - y gem a ddygwyd oddi arni gan y Brodyr Llwydion, y lladron pen-ffordd.

Mae hen was yn gweithio yn 'Y Dryslwyn', Eban yw ei enw, a phan frifa wrth lifio coed mae pawb yn poeni'n arw ac nid yw Gwen yn deall y rheswm am yr holl bryder. Nid yw ychwaith yn deall sut y bu i un o'r Brodyr Llwydion ddod i'w helpu pan fu mewn helynt gyda rhai o lanciau ifainc yr ardal. Eban oedd yr unig un a oedd gyda hi a diflannodd cyn yr ysgarmes ac erbyn i Gwen gyrraedd yn ôl i'r cartref roedd Lowri eisoes yn gwybod yr hanes. Mae nifer o bethau'n poeni Gwen ac felly penderfyna Lowri ddweud yr holl hanes wrthi. Richard Wynne, ei gŵr, yw Eban mewn gwirionedd a chan ei fod ar herw bu'n rhaid iddo ymguddio fel hen was. Roedd angen arian ar Lowri er mwyn prynu maddeuant i Richard a dyna paham mai hi a Richard oedd y Brodyr Llwydion. O'r diwedd mae digon o arian ganddynt i fynd i weld y brenin.

Ond nid taith hawdd yw hi i Lundain. Ar y ffordd daw Lowri a Gwen ar draws cartref rhai sydd yn dioddef gyda'r frech wen a chan fod Lowri wedi mynd i mewn i'r tŷ mae'n rhaid iddi aros yn yr ardal am gyfnod er mwyn gwneud yn siŵr nad yw hi'n dioddef o'r aflwydd. Penderfyna roi peth o'r arian tuag at y trueniaid sydd yn dioddef ac felly dywed wrth Gwen am ddychwelyd i'r Dryslwyn. Fodd bynnag nid dyna a wna Gwen. Yn hytrach â yn ei blaen i Lundain i weld y brenin a dywed yr holl hanes wrtho ac er nad oes

digon a arian ganddi llwydda i brynu maddeuant i Richard.

Cynhelir dathliad yn y pentref pan gaiff Richard a Lowri eu rhyddid a chânt ddychwelyd i Gorwen i'w cartref gwreiddiol. Cyniga Arthur edrych ar ôl y Dryslwyn os caiff aros yno gyda Gwen. Dyna yw ei gynnig ef i Gwen ei briodi. Ceir diweddglo hapus i bawb gan fod yr Ustus yn penderfynu rhoi heibio'r arfer o smyglo ac am droi ei olygon tuag at Dŷ'r Cyffredin. Mae'r holl ddigwyddiadau yn clymu ynghyd yn daclus tu hwnt yn y diwedd er bod y darllenydd yn amau beth yw'r cysylltiad rhwng y gwahanol straeon ar y dechrau.

Wrth fynd ati i grynhoi'r straeon mae'n haws sylwi ar y tebygrwydd sydd yn y nofelau. Gwelir cymeriad y famaeth ym mhump o'r saith nofel; Mari yn Plant y Mynachdy, Modryb Lowri yn Esyllt, Sioned yn Lois, Modryb Modlen yn Luned Bengoch a Margiad Huws yn Y Dryslwyn. Yn y pum nofel yma bu farw'r fam wedi genedigaeth y plant ac felly mae angen y famaeth i gadw llygaid arnynt. Nid oes olwg o'r tad yn y nofelau hyn nac yn Lowri ychwaith. Bu farw'r tad wrth ymladd dros y seneddwyr yn Lois tra mae tadau y gweddill yn ymladd ar ran y blaid honno, neu ar ran Owain Glyndŵr yn Luned Bengoch. Ni chrybwyllir beth ddigwyddodd i rieni Gwen a Lowri yn Y Dryslwyn. Fe ymddengys tad Esyllt yn Plant y Mynachdy er mwyn smyglo trysorau i goffrau ei blaid er ei fod oddi cartref yn ymladd. Yn Y Cwlwm Cêl yn unig y mae'r tad gartref yn rheoli ei ystad.

Wedi darllen y saith nofel mae un tebygrwydd sydd mor amlwg nes bod darllenydd yn mynd ati i chwilio am y nodwedd honno, sef

y disgrifiad o walltiau'r arwresau. Daw'r gair 'modrwyog' i'r golwg dro ar ôl tro. Gwallt modrwyog sydd gan y prif gymeriad benywaidd ymhob un o'r nofelau ac eithrio Y Dryslwyn sydd yn disgrifio gwallt Gwen fel a ganlyn: **a chudynnau o wallt cyrliog golau...** [4]. Yr un ansoddair sydd i'w weld wrth ddisgrifio'r brenhinwyr a'u gwalltiau hir ac mewn dwy nofel mae gan dwy gymeriad yr un gwalltiau - Esyllt ac Enid yn Esyllt a Gwen ac Ann yn Lois. Yn wir mae'n ddigon hawdd cael llond bol o weld yr un ansoddair a buasai'n well petai Elizabeth Watkin Jones wedi cael amrywiaeth weithiau. O ddarllen y nofelau gellir casglu bod pawb yn bwyta eu crystiau ers talwm!

Y llwybr dirgel neu'r guddfan gyfleus yw nodwedd arall sydd yn amlwg yn nifer o'r nofelau. Yn Plant y Mynachdy ceir llwybr yn arwain o'r llun yn yr oriel i ogof islaw, tra mae llwybr yn arwain o gwpwrdd Nest yn llofft yr arwres at gist faen yn eglwys Nefyn yn Y Cwlwm Cêl. Cuddfan ddirgel sydd i'w weld yn Esyllt a Lowri. Yn y cyntaf mae Ifor yn llwyddo i guddio mewn ogof na ŵyr ond nifer fechan amdani a llofft y gloch yw'r guddfan gyfleus i John yn Lois. Arwain i'r môr y mae'r guddfan yn Luned Bengoch a'r gist yn y neuadd yw dechreuad y llwybr.

Gan mai'r tensiwn rhwng y seneddwyr a'r brenhinwyr yng nghyfnod y Rhyfel Cartref yw prif nodweddion y nofelau am y cyfnod hwnnw, mae'n anhepgorol bod teuluoedd yn ffraeo â'i gilydd. Mae hyn yn creu tensiwn ychwanegol. Ym mhedair o'r pum nofel am y Rhyfel Cartref fe welir bod teuluoedd a arferai fod yn gyfeillion mawr yn gorfod anwybyddu ei gilydd gan eu bod yn perthyn i bleidiau gwahanol. Ni chaiff Esyllt, yn y nofel o'r un

enw, siarad â'i ffrind pennaf Enid oherwydd yr atgasedd, tra mae'n rhaid i Lowri a'i chariad Huw drefnu i gyfarfod yn ddirgel, yn Lowri, rhag i'w teuluoedd ddod i wybod. Ffrwgwd teuluol gwahanol ond sydd eto yn ddigon tebyg sydd yn Y Cwlwm Cêl a Lois. Collodd teulu Hywel, yn Y Cwlwm Cêl, a theulu John, yn Lois, eu cartrefi oherwydd iddynt gael eu trosglwyddo i ddwylo teuluoedd y seneddwyr. Mae hyn yn creu drwg deimlad rhwng y cyn berchnogion a'r perchnogion newydd.

Er mwyn adfer y cyfeillgarwch fe wna Elizabeth Watkin Jones yn siwr fod mab y cyn berchennog yn syrthio mewn cariad â merch y perchennog newydd ac felly caiff llinach y ddau deulu barhau yn y cartref. Ymhob un o'r nofelau mae awgrym cryf iawn, neu gadarnhad pendant, y bydd yr arwres yn priodi'r gelyn, sef y brenhinwr. Yn Plant y Mynachdy awgrymir y bydd parhad ym mherthynas Esyllt a'r Cadfridog John Gwynne, Nest a Hywel sydd yn cael sêl bendith y brenin i briodi yn Y Cwlwm Cêl tra mae Esyllt a Syr John Wyn yn gyfeillion da yn Esyllt. Llwydda Lowri a Huw i barhau yn gariadon drwy'r nofel Lowri ac yn Lois ceir awgrym cryf o ddwy garwriaeth ar y gweill - Gwen a John ap Huw Owain ac Ann a Maredydd. Mae'n amlwg felly bod rhamant yn hollbwysig yn nofelau Elizabeth Watkin Jones.

Er bod teyrngarwch tuag at blaid yn bwysig i'r seneddwyr a'r brenhinwyr fel ei gilydd mae'n rhyfedd sylwi bod aelodau o'r ddwy ochr yn gwadu'r teyrngarwch yma ar brydiau. Daw John Gwynne i wybod am guddfan Esyllt a Benni yn Plant y Mynachdy ond nid yw'n bradychu ei gyfeillgarwch ag Esyllt er mwyn dial ar aelod o'r blaid sydd yn ei erbyn. Hefyd mae'n achub y Mynachdy rhag cael

ei losgi, gan mai dyna a arferid ei wneud â chartref seneddwr. Mae dau aelod o deulu Plas Bryn Mynach yn torri rheolau eu plaid yn Y Cwlwm Cêl. Ceidw Nest y rhestr o frenhinwyr rhag ei thad er mwyn helpu Hywel a thua diwedd y nofel mae tad Nest yn caniatáu i dad Hywel gael ei ryddid er eu bod yn elynion. Caiff Ifor yntau ei ryddid gan Syr John Wyn yn Esyllt oherwydd i Esyllt ddychwelyd trysorau y brenhinwr iddo er y gallasai ei phlaid hi fod wedi eu defnyddio. Llwydda Richard i ddianc yn Lowri, a hynny oherwydd i Huw droi ei gefn ar frawd ei gariad. Dylasai fod wedi ei garcharu oherwydd cafodd Richard ei ddal yn smyglo trysorau tros ei blaid. Nid rhoi cymorth i John ap Huw Owain ddianc a wna Gwen yn Lois ond rhy lety iddo gael cyfle i wella wedi iddo gael ei glwyfo gan fwled. Gwna hyn er bod Maredydd, ei brawd, a John yn elynion. Gellir gweld bod aelodau o'r naill blaid a'r llall yn ildio i deimladau'r galon yn hytrach na dyletswydd at blaid.

Daw teimladau cryfion i'r golwg yn y nofel sydd yn ymdrin â chyfnod Owain Glyndŵr hefyd. Gellir dweud mai propaganda o blaid y Cymry a geir oherwydd caiff Glyndŵr ei alw'n 'arwr a'n Tywysog' [5]. Enghraifft arall yw'r modd yr eglura Huw Fychan ei fwriad i fynd i ymladd dros ei arwr:

> Fedrwn ni ddim ymdawelu yn y fan yma, ac ymgrymu i orthrwm estron, tra mae'r gŵr sydd wedi aberthu popeth a fedd er mwyn ei wlad yn llochesu ym mynyddoedd Eryri. Mae Owain Glyn Dŵr heddiw yn galw ar bob Cymro teilwng o'r enw i gymryd rhan yn yr ornest fawr...Mae'n ddyletswydd ar bob Cymro iawn roddi ei hun a'i eiddo at wasanaeth Owain Glyn Dŵr. [6]

Wrth edrych ar y nofel heddiw fe ddywedid bod daliadau tebyg i'r rhai sydd yn y dyfyniad uchod yn ymddangos yn wleidyddol ac felly'n bropaganda. Fodd bynnag, gan fod cyfleu teimladau ac emosiwn yn rhan o grefft y nofel hanes mae'r hyn a wna Elizabeth Watkin Jones yn gwbl dderbyniol.

Diddorol yw sylwi ar enwau'r gelynion yn y nofelau hanes. Mae tri o'r pum brenhinwr yn dwyn yr enw John: John Gwynne, Syr John Wyn a John ap Huw Owain, a cheir Huw hefyd yn Lowri. Efallai y dylid bod wedi ceisio amrywio ond gan nad yw'r tri yn ymddangos yn yr un nofel ni ellir beirniadu Elizabeth Watkin Jones yn ormodol. Ailadroddir enwau'r merched hefyd. Esyllt yw enw'r arwres yn Plant yn Mynachdy ac yn y nofel sydd yn dwyn ei henw hi. Ceir hen famaeth o'r enw Modryb Lowri yn Esyllt, Lowri yw enw prif gymeriad mewn nofel arall a Lowri yw enw chwaer Gwen yn Y Dryslwyn. Rhwng y saith nofel ceir pedair Gwen a dwy Sioned.

Ceir tebygrwydd arall hefyd a hynny yn bennaf gan fod chwe nofel wedi eu lleoli yn bendant ym Mhen Llŷn ac yn fwy penodol yn Nefyn ei hun. O'r herwydd daw enwau ardaloedd o gwmpas Nefyn i'r golwg yn aml iawn. Enghreifftiau yw Bryn Mynach, Gaerdderwest, Gwylwyr a Charreg Llam yn ogystal â chyfeiriadau at lefydd pellach megis Enlli neu Nant Gwrtheyrn. Caernarfon yw'r dref bwysig yn y nofelau i gyd a'r rheswm am hynny yw mai yno yr oedd canolfan y brenhinwyr yn y cyfnod.

Mae'r sôn am ffair Nefyn i'w weld yn aml ac fe'i defnyddir at bwrpas gwahanol bob tro. Yn y nofel Lois mae'r ffair yn

bwysig iawn gan mai yno y gwêl Ann Siw a chaiff wybod bod John ap Huw Owain yn fyw ac yn weddol iach yn llofft y gloch. Mae'r ffair yr un mor bwysig yn Y Cwlwm Cêl gan mai yno yr â Nest i weld y seryddwraig ac wedi'r helynt rhwng y seryddwraig ac un o'r trigolion caiff Nest ei hachub gan Hywel. Digwyddiad i'w gyfeirio ato yn unig ydyw yn y nofelau eraill, er enghraifft yn Esyllt [7]. Digwyddiad cyfleus er mwyn cael cyfle i ddisgrifio bwrlwm y ffair ydyw.

Cyn gorffen sôn am y tebygrwydd rhwng y straeon mae'n rhaid cyfeirio at stori gyfres gan Elizabeth Watkin Jones. Ymddangosodd y gyfres yn y cylchgrawn Hwyl rhwng Gorffennaf 1949 ac Awst 1950. Roedd naw pennod i'r pedair rhan ar ddeg o'r stori **Dirgelwch y Priordy** ac ynddynt adroddir hanes Nia yn ceisio darganfod trysor Rhodri Farfgoch. Dywedir bod Rhodri mewn cariad â lleian o'r enw Lois a daw Nia i wybod mai ym medd Lois y mae'r trysor. Ond mae'n rhaid darganfod y bedd a chyda chymorth brenhinwr o'r enw Rhys, a ffawd o'i thu, daw Nia o hyd i ddelw aur a arferai fod ar flaen llong. Dyma'r trysor. Mae tebygrwydd pendant rhwng y stori yma a'r nofel Lois a cheir rhai brawddegau, a hyd yn oed baragraffau, yn ymddangos air am air yn y nofel a'r stori gyfres. Gellir gweld hyn yn y ddau ddyfyniad canlynol. Daw'r cyntaf o'r stori **Dirgelwch y Priordy** yn Hwyl a'r ail o Lois, ac er bod y dyfyniad yn weddol hir, traean yn unig o'r brawddegau sydd yn cyfateb yn union ar ôl ei gilydd sydd i'w gweld yma:

> **'Wel, mi ddewisaist dy le,' meddai nain yn sychlyd. 'Mewn mynwent! Pwy yn ei bwyll a fuasai'n**

gwneud mynwent yn fan cyfarfod?'

'Nid yn y fynwent y byddwn ni'n cyfarfod, ond wrth y llwyn coed sydd y tu draw iddi, ac nid y tu fewn i'r fynwent y gwelais i Rhodri Farfgoch, ond yn sefyll wrth y bedd sydd ar ei ben ei hun y tu allan i'r wal, bedd y lleian honno.' [8]

'Mi ddewisaist dy le,' meddai Sioned yn sychlyd. 'Mewn mynwent! Pwy yn ei bwyll fuasai'n gneud mynwent yn fan cyfarfod?'

'Nid yn y fynwent y byddwn ni'n cyfarfod,' eglurodd Margiad yn grynedig, 'ond yn y llwyn coed sydd y tu draw iddi, ac nid y tu mewn i'r fynwent y gwelais i Rodri Farfgoch. 'Roedd o fel 'tasa fo'n codi o'r bedd sydd ar ei ben ei hun tu allan i'r wal. Bedd y lleian honno.' [9]

Er bod ambell wahaniaeth, megis newid enwau'r cymeriadau neu olygu cystrawen, yr un yw'r deunydd yn ei hanfod ac ni ellir gwadu bod **Dirgelwch y Priordy** wedi dylanwadu'n drwm iawn ar Lois.

Digon tebyg yw'r croesdoriad o gymeriadau yn y nofelau a hynny yn bennaf oherwydd nad oes wahaniaethau mawr ym mhlot y saith nofel. Mae'r tebygrwydd pennaf i'w weld yn y nofelau sydd yn ymwneud â'r Rhyfel Cartref. Roedd angen merch gadarn yn arwres yn y nofelau ac felly gellir priodoli'r un nodweddion i Esyllt yn Plant y Mynachdy, Nest yn Y Cwlwm Cêl, Esyllt arall yn Esyllt, Lowri yn y nofel o'r un enw a Gwen yn Lois. Nid oes wahaniaeth mawr yng nghymeriad Luned yn Luned Bengoch neu Gwen a

Lowri yn Y Dryslwyn. Maent oll yn ymddwyn yn ddewr wrth iddynt gyfrannu tuag at weithred dyngedfennol, megis y modd y mae Nest yn cuddio'r rhestr bwysig, Lowri yn rhoi cymorth i'w brawd gario trysor eu plaid i Enlli neu Luned yn dilyn Rhys ar ei daith i weld Owain Glyndŵr.

Er mwyn gwneud i'r merched ymddangos yn fwy dewr na'r cyffredin ceir cymeriad benywaidd arall mewn sawl nofel ac nid yw honno mor ddewr â'r arwres. Enghraifft berffaith o hyn yw'r modd y mae'r gwahaniaeth rhwng Gwen a Luned i'w weld mor bendant yn Luned Bengoch. Mae'r ddwy frawddeg ganlynol yn dangos hyn yn glir: **'Dof efo chdi,' meddai Luned ar unwaith, ond cilio'n ôl a wnaeth Gwen. Yr oedd arni ormod o ofn.** [10]. Drwy'r weithred syml yma fe ddangosir pa mor ddewr yw Luned o'i chymharu â Gwen. Gellir dweud mai teip o ferch yw'r Gwen dawel ac ofnus, ac unig bwrpas Elizabeth Watkin Jones wrth gynnwys ei chymeriad yn y nofel oedd er mwyn pwysleisio'r gwahaniaeth rhyngddi a Luned.

Nid cymeriadau caled, di-deimlad yw'r merched yn y nofelau gan fod iddynt nodweddion sensitif hefyd. Rhydd hyn undod i'w cymeriadau gan eu gwneud yn fodau crwn. Maent, fel ei gilydd, yn barod iawn eu cymwynas i eraill, er enghraifft wrth i Nest fynd i roi cymorth i oen mewn trybini yr aeth hithau i helbul ei hun ac mae Esyllt yn gwneud yn siŵr ei bod yn dychwelyd trysorau Syr John Wyn iddo yn ddiogel. Merched da ydynt mewn gwirionedd a'r unig bethau drwg a wnant yw'r gweithredoedd y gellir eu cyfiawnhau yn enw eu plaid. Mae hyd yn oed y drwg a wna Lowri yn Y Dryslwyn wrth iddi ymosod ar drueiniaid fel un o'r Brodyr Llwydion yn cael ei gyfiawnhau gan ei bod yn casglu arian i brynu

maddeuant i'w gŵr. Yn wir mae Esyllt yn Plant y Mynachdy yn wylo wrth iddi sylwi bod ei thad wedi ei dal yn anufuddhau iddo gan ei bod yn ystyried hyn yn bechod mawr. Yn y bôn genethod rhinweddol, egwyddorol ac, yn bennaf oll, Cristnogol ydynt i gyd.

Dylid cofio bod Elizabeth Watkin Jones yn gosod merched yn brif gymeriadau ei nofelau mewn cyfnod pan nad oedd hyn yn ffasiynol ac felly rhaid ei chanmol am fod mor flaenllaw. Weithiau mae rhai o'r merched yn cyflawni tasgau anodd tu hwnt, megis y modd y mae Luned yn rhwyfo cwch ar y môr ar ei phen ei hun wrth iddi ddianc o flaen gwŷr Merfyn Goch neu pan lwydda Lowri i gario cist yn llawn trysor ar hyd creigiau Enlli. Arwresau yw'r merched yn y nofelau ac mae arwresau byth a beunydd yn llwyddo i gyflawni tasgau sydd y tu hwnt i allu bodau cyffredin. Yn ôl y sôn gwraig fenywaidd iawn oedd yr awdures a chan fod merched y nofelau yn fwy 'bachgennaidd', drwy eu bod yn fodlon mentro a pheryglu eu bywydau fel y disgwylir gan arwyr ein llenyddiaeth, efallai bod Elizabeth Watkin Jones yn cyflawni rhyw ddyhead personol yn y nofelau, gan yr hoffasai hi fod wedi bod yn Luned Bengoch, Esyllt neu Lowri.

Nodweddion cyffelyb i'r merched y mae dynion y nofelau yn berchen arnynt; dewrder a gwyleidd-dra, urddas a hyfdra. Mae'r mwyafrif ohonynt yn wynebu perygl wrth iddynt gyflawni eu gorchwylion, megis Rhys sydd yn barod i deithio i Bumlumon er mwyn trosglwyddo neges i'w arweinydd, Glyndŵr. Nid oes gan Hywel ofn y brenin hyd yn oed wrth iddo fod mor hyf â'i ateb yn ôl gan brotestio nad yw am briodi'r ferch y dewisiodd y brenin. Maent hefyd yr un mor garedig â'r merched ac yng nghymeriadau'r dynion

y gwelir y modd yr aberthant egwyddorion eu pleidiau er mwyn rhyddhau aelod o'r gelyn. Caredigrwydd sydd yn bwysicach na rheolau plaid wrth i Huw adael i Richard ddianc yn Lowri neu Syr John roi ei ryddid i Ifor yn Esyllt.

Ond nid yw Elizabeth Watkin Jones yn gadael i wŷr y nofelau fod yn ddewr drwy'r cwbl. Mae hi'n eithaf bodlon dangos eu bod hwythau'n barod i golli deigryn ac yn crynu yn eu sodlau ar brydiau. Yn Esyllt mae Syr John ac Ifor yn wylo ar adegau gwahanol a llwyddir i ddangos y modd y mae dynion yn credu na ddylent ddangos eu dagrau i'w cyd-ddynion wrth i Syr John droi ei ben oddi wrth Maredydd Puw. Mynn Rhys yntau guddio ei ddagrau rhag Luned: **Ni ddywedodd Rhys yr un gair. Trodd ei ben draw. Yr oedd dagrau yn ei lygaid yntau hefyd, ac ni fynnai er y byd i Luned eu gweled.** [11]. Mae Benni, hyd yn oed, yn ymwybodol nad yw'n fod i ddangos ei bryder ac felly gwadu fod ganddo ofn a wna yntau.

Wrth fanylu ar y cymeriadau sydd yn ymddangos yn nofelau Elizabeth Watkin Jones diddorol yw sylwi nad oes llawer o gymeriadau y gellir eu galw'n wir elynion. O'r herwydd prin yw'r cymeriadau rheini y mae'r darllenydd yn gallu eu casáu â chas perffaith. Yr unig un sydd yn ennyn casineb yw'r Ustus yn Y Dryslwyn wrth iddo fynd ati'n unswydd i garcharu Gwen a Nia yn y gell yn yr ogofâu. Ond caiff ef hanner maddeuant wrth iddo gyhoeddi, ar ddiwedd y nofel, ei fwriad i beidio â smyglo ychwaneg a cheisio am sedd yn Nhŷ'r Cyffredin. Cael ei haeddiant a wna Merfyn Goch yn Luned Bengoch oherwydd marwolaeth yw ei dynged ef wedi iddo geisio difa gwir etifedd ei ystad. Ond ni

ellir dweud mai Merfyn Goch yw'r gelyn yn y nofel gan nad yw'n ymddangos hyd draean olaf y stori. Rhannau bach sydd gan ddau ŵr arall y gellir eu galw'n fath o elynion, sef yr ysbïwr â'r graith sydd yn dilyn John ap Huw Owain yn Lois ac Edward Sieffrai sydd yn dilyn Esyllt drwy'r goedwig ac yn darganfod cuddfan Ifor. Fodd bynnag er bod y cymeriadau yma yn elynion i arwyr y nofelau nid ydynt yn gymeriadau sydd yn cythruddo'r darllenydd gan wneud iddo eu gwir gasáu. Gallasai Elizabeth Watkin Jones fod wedi cynhyrfu mwy ar deimladau cryfion y darllenydd petai'n dymuno gwneud hynny.

Ar y cyfan mae'r cymeriadau a bortreadir gan Elizabeth Watkin Jones yn llenwi gofynion y nofelau'n berffaith. Pan fo angen merch gadarn a dewr yna ni ellid cael gwell na Luned Bengoch. Mae'r holl gymeriadau'n berchen ar nodweddion sydd yn eu gwneud yn fodau y gellir yn hawdd credu eu bod yn real. Mae hyn yn holl bwysig gan fod angen i'r darllenydd ymddiried ynddynt gan mai hwy sydd yn datgelu'r straeon. Heb gymeriadau credadwy ni fyddai'r plot yn werth ei adrodd gan na fyddai'n argyhoeddi ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, weithiau bydd ambell gymeriad yn ymddangos fel teipiau a'r enghraifft orau o hyn yw Gwen yn Luned Bengoch, fel y crybwyllwyd eisoes.

Pan gaiff ffeithiau hanesyddol eu cyflwyno i'r darllenydd gwelir mai at yr un math o bethau y cyfeirir atynt a thrwy ddefnyddio'r un dulliau o gyflwyno ffeithiau y gwneir hynny gan Elizabeth Watkin Jones. Mewn tair nofel gwelir ei bod yn gosod y dyddiad yn bendant ar ddechrau'r nofel er mwyn i'r darllenydd fod yn berffaith siŵr ym mha gyfnod y mae'r nofelau wedi eu lleoli.

Tachwedd 1401 yw'r dyddiad yn Luned Bengoch, ar ail dudalen y stori yr ymddengys y dyddiad yn Y Cwlwm Cêl ond caiff ei bwysleisio yn y frawddeg gyntaf yn Plant y Mynachdy:

> **Ar noswaith dawel, hyfryd, ym mis Mai 1642, cerddai bonheddwr i fyny'r goedwig a arweiniai i gyfeiriad plasty hynafol o'r enw Mynachdy.** [12]

Arddull llawer mwy cynnil sydd gan Elizabeth Watkin Jones wrth gyflwyno ffeithiau eraill a gellir gweld ei bod wedi gwneud gwaith ymchwil gan fod cyfeiriadau at wisgoedd, bwydydd a brwydrau enwog y cyfnod i'w gweld yn ei nofelau. Yn ôl Mr. Hugh D. Jones, [13] ei nai, roedd yn hoff o ddarllen am hanes ac roedd ei llyfrgell yn cynnwys llyfrau Saesneg a Chymraeg a oedd yn delio â chyfnodau gwahanol o'n gorffennol. Mae'n amlwg bod hyn wedi bod o fudd iddi. Yn Plant y Mynachdy, Y Cwlwm Cêl a Lois mae'r awdures yn rhestru rhai o uchelwyr Pen Llŷn a oedd yn bleidiol naill ai i'r seneddwyr neu'r brenhinwyr. Ceir enghraifft o hyn wrth i John ap Huw Owain geisio meddwl am gartrefi brenhinwyr yr ardal ble y câi Ann loches ganddynt. Enwir Cefnamwlch, Meillionydd a Chlenennau. Ffeithiau cwbl wir yw rhain ac felly mae'n amlwg bod Elizabeth Watkin Jones wedi darllen er mwyn gweld i ba blaid yr oedd y gwahanol deuluoedd yn deyrngar.

Gellir gweld ôl y gwaith darllen wrth i'r cymeriadau gyfeirio at nifer o frwydrau enwog a fu yn ystod y Rhyfel Cartref. Yn Plant y Mynachdy, Y Cwlwm Cêl a Lois gwelir y cyfeiriadau at y brwydrau megis Brwydr Edgehill, a fu yn 1642.

Caiff hon dipyn o sylw yn y nofel gyntaf ac nid ei henwi yn unig a wna'r awdures. Yn hytrach caiff Owen Maredydd, y tad, gyfle i sôn am Iarll Essex, arweinydd y seneddwyr, a'r Tywysog Rupert, nai ac arweinydd byddin y brenin. Ceir enghraifft arall o gael cymeriad i gyflwyno'r hanes yn Luned Bengoch. Gan fod Huw Fychan yn cyfeirio at y cysylltiad rhwng Cymru, Yr Alban ac Iwerddon a'r modd y gobeithiai'r Cymry y byddai cymorth yn dod oddi wrth y ddwy wlad caiff yr hanes ei gyflwyno mewn dull diddorol. Drwy sgwrs anffurfiol treiddia'r ffeithiau i isymwybod y darllenydd heb iddo sylwi.

Dull arall o gadw diddordeb y darllenwyr yn hanes y brwydrau yw cael rhai o'r prif gymeriadau i fod yno ar faes y gad. John Gwynne yw'r gŵr sydd yn filwr ym mrwydr Newbury, 1643, a disgrifir y modd y gorfodwyd y brenin i gilio o'r fan yn ystod y nos:

> **Pan ddechreuodd dywyllu, gwelodd y Brenin mai ildio a fyddai raid, ac yn nyfnder y nos, a'r tywyllwch fel y fagddu, ciliodd ef a'i wŷr heibio i wylwyr y gelyn, a phan gododd haul y bore, yr oedd wedi cyrraedd Wallingford, ar ei ffordd i Rydychen.** [14]

Roedd y Brenin wedi penderfynu gadael Newbury yn ystod y nos ac mae haneswyr proffesiynol yn bendant am hyn **...and although the King was not defeated he drew off his forces during the night...** yw geriau Roger Lockyer[15].

Wrth astudio'r ffeithiau ynglŷn â'r Rhyfel Cartref mae'n

syndod gweld mai yn Plant y Mynachdy ac yn Y Cwlwm Cêl y gwelir y nodweddion yma amlaf. Prin iawn yw'r cyfeiriadau sydd yn dangos ôl ymchwil yn y tair nofel sydd yn weddill yn y categori yma. Gellid bod wedi disgwyl mai fel arall y byddai pethau gan mai'r ddwy nofel sydd yn cynnwys y ffeithiau oedd dwy nofel gynharaf yr awdures ac felly ni ellir dweud bod datblygiad yn y nodwedd yma yng ngwaith Elizabeth Watkin Jones.

Yn Y Dryslwyn caiff hanes helynt y tollau yn America ei gyflwyno yn ddigon 'ffwrdd â hi' oherwydd bod yr Ustus yn gwylltio wrth iddo geisio egluro'r helynt wrth ei nai. Brawddegau byr a ddefnyddia wrth iddo wylltio ac felly caiff yr holl hanes ei gyflwyno yn gryno iawn, er enghraifft:

> **'Taswn i'n Nhŷ'r Cyffredin pan oeddynt yn dileu'r tollau Americanaidd yna, buaswn wedi ymladd fel llew yn eu herbyn, wsti. Dileu tollau, wir!...Dileu tollau ar bopeth ond ar de! Ac am fod hwnnw'n aros, a North yn gwrthod yn bendant ei ddiddymu, dyna gychwyn chwyldro! Ie, Pitt ac Edmund Burke oedd yn iawn yn y peth yna, reit siŵr. Y cwbwl neu ddim! 'Doedd dim angen ymyrryd yn y tollau!'** [16]

Cyfeiriadau digon cyffredin yw gweddill y ffeithiau a gyflwynir a dyna paham y cafodd Elizabeth Watkin Jones ei beirniadu a'i galw'n awdures a oedd yn gosod ei nofelau mewn gwisg ffansi hanesyddol yn unig. Ceir aml gyfeiriadau at wisgoedd a bwydydd y cyfnod. Cig eidion yn rhostio a phastiod o gig carw yn coginio yw'r bwydydd y mae cyfeirio pennaf atynt ac

ni newidiodd hyn dros ddwy ganrif oherwydd yr un bwyd a welir yn Y Dryslwyn hefyd. Daw'r enghraifft ganlynol o'r nofel Lowri:

> **Arweiniai grisiau o'r galeri yn igam ogam drwy fath ar dŵr i lawr i'r ceginau, a deuai aroglau cigau yn rhostio a phasteiod yn crasu i fyny trwy'r drws a oedd yn gil agored.** [17]

Bwydydd ysblennydd sydd ymhob un o gartrefi'r cymeriadau, ac eithrio teulu Luned Bengoch sydd yn cael cawl wedi ei gynhesu ar y tân. Mae'n rhaid cofio bod y cawl yn cael ei fwyta ddwy ganrif o flaen y bwydydd a ddisgrifir yn y nofelau eraill ac felly digon rhesymol yw disgwyl newid. Yn Esyllt caiff y llestri yr arlwyir y bwydydd arnynt eu disgrifio ac ychwanegir at yr ymddangosiad ysblennydd gan hyn:

> **...daeth y morynion i mewn i hulio'r bwrdd at swper - dernyn mawr o gig eidion a phastai o gig carw. Gwin gwyrdd Siatrys a seidr. Teisennau newydd eu crasu a phetris rhost...Disgleiriai'r treinsiwriau, yr odardau a'r platiau piwtar ac arian cyn loywed nes medrai pawb weld eu llun ynddynt...** [18]

Efallai bod rhai o'r geiriau a ddefnyddir yn anodd iawn i blant heddiw eu deall oherwydd anaml iawn y clywir geiriau megis 'treinsiwriau', sef math o blât pren, ac 'odardau' ar dafod leferydd y dyddiau yma.

Fel yr oedd y bwydydd yn cael eu disgrifio yn eu gogoniant

felly hefyd y mae'r disgrifiadau o ddillad y cymeriadau, yn arbennig gwisgoedd y brenhinwyr. Roedd gan Elizabeth Watkin Jones ddiddordeb mawr mewn dillad a byddai wastad wedi ei gwisgo'n drwsiadus a chofia llawer o blant Nefyn hi yn gwisgo croen cadno o amgylch ei gwddf a llygaid y llwynog yn syllu arnynt. Nid syndod felly yw sylwi ar y disgrifiadau o ddillad y cymeriadau. Defnydd gwerthfawr o **'felfed du wedi ei leinio â sidan glas golau'** [19] sydd i wisg Syr John Wyn yn Esyllt a dangosir y gwahaniaeth a oedd rhwng rhwysg y brenhinwyr a dillad syml y seneddwyr yn Plant y Mynachdy. Gwneir hyn wrth i Esyllt sylwi ar ddillad y milwyr brenhinol, sydd wedi meddiannu ei chartref, a'u cymharu â dillad y milwyr seneddol:

> **Sylwodd fod gwisgoedd y milwyr a orweddai yn y neuadd yn wahanol iawn i'r rhai a wisgai byddin y Senedd. Plaen a diaddurn oedd gwisg y Cyrnol Mytton a'r gwŷr a oedd gydag ef y noswaith y daethant gyda'r Mynach Du i symud trysorau'r Mynachdy, ac yr oedd eu gwallt wedi ei dorri'n fyr. Gwahanol iawn oedd y Brenhinwyr a orweddai o'i blaen. Disgynnai eu gwallt yn gudynnau modrwyog dros eu hysgwyddau, a gwisgent ddillad drudfawr. Crogai llawddrylliau rhai ohonynt wrth arwest sidan, ac yr oedd plu ar aml i het ar lawr.** [20]

Wrth gwrs gellir dweud mai digon cyffredinol yw'r disgrifiadau oherwydd cyfeirio at felfed, sidan a phlu yn unig a wna Elizabeth Watkin Jones. Ceir sôn am sidan yn y nofel o gyfnod y goets fawr hefyd oherwydd **'hosannau o sidan du'** [21] gyda byclau arian ar eu pennau sydd gan Arthur. Fel yn y disgrifiadau o'r bwydydd yr un

ansoddeiriau ac enwau sydd yn ymddangos dro ar ôl tro.

Ychydig o gyfeirio at draddodiadau'r oes a wneir yn nofelau Elizabeth Watkin Jones, ac eithrio'r sôn parhaus am ffair Nefyn, ond yn Y Dryslwyn ceir hanes am draddodiadau Calan Gaeaf yn ardal Corwen lle arferai Gwen a Lowri fyw. Gwen sydd yn hel meddyliau am yr amser da a arferai ei gael wrth i deuluoedd ddiffodd eu tanau ac yna eu hail gynnau o'r goelcerth fawr. Gwneid hyn er mwyn i'r teulu gael hapusrwydd a diogelwch am y flwyddyn ganlynol. Hefyd câi un o'r teisennod eu rhwbio â darn o olosg cyn ei rhoi gyda'r teisennod eraill. Byddai'n rhaid i'r sawl a ddewisiai'r deisen honno gerdded drwy'r tân. Mae hi'n holl bwysig bod arferion yn cael eu cofnodi rhag iddynt fynd yn angof ac ni ellir llai na chanmol Elizabeth Watkin Jones am wneud hyn. Y trueni yw nad ysgrifennodd am ychwaneg ohonynt.

Ar y cyfan, mae'r modd y caiff y ffeithiau a'r nodweddion hanesyddol eu dwyn i'r stori yn ddigon naturiol gan fod dau gymeriad yn trafod, fel y cyfeirwyd at Nest a'i thad yn trafod Brwydr Edgehill uchod a Huw Fychan a'i deulu yn trafod Cymru a'r gwledydd Celtaidd. Dull arall yw'r modd y caiff cymeriad fod yn rhan o ryw ddigwyddiad pwysig, megis sôn bod John Gwynne yn ymladd ym mrwydr Newbury. Wrth gael y cysylltiad personol mae'n haws i'r darllenydd ddod i ddeall yr hanes. Fodd bynnag, weithiau bydd Elizabeth Watkin Jones yn methu wrth geisio cyflwyno'r gorffennol yn ei nofelau ac fe atgoffir y darllenydd mai darllen am gyfnod gwahanol i'r presennol y mae. Nid yw'n cael y cyfle i lwyr ymgolli yn y plot a thrwy hynny deimlo'n rhan o'r cyfnod hanesyddol. Ceir enghraifft yn Plant y Mynachdy pan

gyflwynir y paragraff canlynol ar ddechrau'r nofel:

> **Rhaid cofio bod ein gwlad yr adeg honno yn bur wahanol i'r hyn ydyw yn awr. Nid oedd sôn am na thrên na cherbyd modur. Pan fyddai ar rywun eisiau mynd ar daith, byddai raid iddo gerdded neu farchogaeth. Nid oedd sôn ychwaith am lythyrdy na phapur newydd, a byddai llythyrau neu negesau yn cael eu cludo o fan i fan gan farchogion. Oes y ceffylau oedd yr oes honno.**
>
> [22]

Sylwodd Norah Isaac ar y nam yma a dywed '**...ni wna hyn ond chwalu'r rhith a grewyd**' [23]. Yn yr un modd caiff tywydd drwg Pen Llŷn ei ddisgrifio ym mharagraff agoriadol Esyllt a dywedir bod y tywydd yn ymddwyn '**yr un fath yn union heddiw ag y gwnaeth ar y diwrnod trymddu hwnnw dri chan mlynedd yn ôl...**' [24]. Mae'n drueni bod brawddegau o'r math yma yn ymddangos oherwydd maent yn torri ar naws hanesyddol y nofelau.

Beirniadwyd Elizabeth Jones gan amryw am fod mor frysiog wrth ysgrifennu. Gallai ysgrifennu stori mewn pythefnos neu dair wythnos a gadewir ôl y brys yma ar yr arddull. Defnyddir ymadroddion Seisnig wedi eu Cymreigeiddio, megis yr idiom canlynol o Lois: '**... ac y byddai ei fywyd yn y glorian**' [25] neu o Luned Bengoch: '**Ond marcia di fy ngeiriau i**' [26]. Weithiau ceir geiriau sydd wedi cael eu Cymreigeiddio, er enghraifft '**fforiners**' [27] neu '**secred**' [28]. Yn ogystal ceir rhai gwallau gramadegol megis anghofio treiglo, '**a twr**' [29], neu ddiffyg anadliad caled, '**er mwyn eu arbed**' [30]. Hefyd ceir

camgymeriadau sillafu, er enghraifft 'cymeryd' [31] ac 'ar gyrrion' [32]. Wrth gwrs dylid bod wedi gofalu nad oedd camgymeriadau gramadegol yn ymddangos yn y nofelau gan mai ar gyfer plant y'u bwriadwyd. Os caiff plant eu cyflwyno i iaith wallus yna gwallus fydd eu Cymraeg hwythau. Sylwodd Kate Roberts [33] ar nifer fawr o wallau yn Esyllt.

Ond prin yw'r camgymeriadau wrth ystyried y nofelau yn eu crynswth ac ar brydiau caiff y darllenydd ei gyflwyno i iaith gyfoethog iawn. Yn aml yn y paragraffau disgrifiadol y gwelir hyn a cheir enghraifft pan adroddir hanes Esyllt a Benni yn cerdded i lawr i'r gell gudd a oedd yn y Mynachdy:

> Grisiau yn arwain i lawr trwy un o dyrrau'r Mynachdy oedd y rhain, a gwnâi'r arogl clos, anhyfryd, i'r plant ddyheu am anadliad o awyr iach. Fflachiai golau'r gannwyll ar ysmotiau llaith a llwydni afiach ar hyd y muriau moelion.
>
> O'r diwedd, cyraeddasant y gwaelod, a gwelsant eu bod mewn cell eang wedi ei naddu yn y graig. Yr oedd yn y gell amryw o golofnau yn ffurfio math ar bontydd, y gellid myned danynt i gelloedd llai.
>
> ...Yr oedd sedd o garreg ar hyd un ochr i'r gell, a math ar fwrdd yn y pen-draw, ac uwchben yr oedd croes fawr wedi ei naddu yn y graig. [34]

Nid disgrifiad gweledol yn unig sydd yma a thrwy gyfeirio at yr arogl llaith sydd yn y gell ceir apêl at synnwyr ychwanegol. Fodd bynnag o fewn yr un nofel, Plant y Mynachdy, ceir enghraifft

o ddisgrifiad nad yw'n ychwanegu dim at y plot. Nid disgrifiad bychan ydyw a dylai Elizabeth Watkin Jones fod wedi ffrwyno ei hun rhag gor ddefnyddio paragraffau disgrifiadol er mwyn llenwi bylchau. Wedi'r cwbl, gormod o bwdin...Yn y dyfyniad canlynol disgrifio golygfa o un o ffenestri'r Mynachdy a wneir:

> **Cerddodd Benni ar hyd yr oriel gan edrych allan drwy'r ffenestri. Gwelai'r goedwig dewfrig islaw, a'i ffiniau'n ymylu ar gors leidiog. Gwelai'r gors yn ymdaenu nes cyrraedd môr glas a'i ymyl o ewyn gwyn. Taflai haul y cyfnos gysgodion ar hyd rhes o fryniau a ymestynnai fraich hir i'r môr. Yn y pellter gwelai dyrrau Castell Caernarfon, a machlud haul yn goreuro'r meini llwydion. Blinodd Benni edrych drwy'r ffenestri, a daeth yn ôl at Esyllt.** [35]

Nid oes rhyfedd i Benni flino ar yr olygfa oherwydd bydd y darllenydd yntau'n blino ar ormod o baragraffau o'r math yma. Gellir gweld camgymeriad yn y dyfyniad oherwydd mae'n bur sicr mai '...rhes o fryniau a ymestynnai'n fraich hir i'r môr' a fwriadodd yr awdures.

Nodwedd arall sydd weithiau'n dda ac weithiau'n wael yw defnydd yr awdures o iaith lafar. Gellir gweld bod ganddi glust dda i godi sgwrs pobl oherwydd llwydda i gyflwyno iaith lafar ystwyth ar brydiau, er enghraifft y geiriau canlynol a ddywed Lowri wrth Huw ap Rhys: **'Dim byd, am wn i, ond 'mod i'n poeni ynghylch yr hen helynt yma,'** [36]. Drwy ychwanegu'r 'am wn i' rhoddir mwy o gredinedd i'r sgwrs fel iaith y gellid ei chlywed

ar dafod leferydd. Hefyd mae'n llwyddo wrth geisio cyfleu sgwrs plentyn, fel y gwelir yng nghymeriad Siw yn Lois neu Nia yn y dyfyniad canlynol o'r Dryslwyn:

> **'Nia eisio mynd adla,' meddai'n gysglyd. 'Pws bach Nia wedi mynd i'r twll, a Nia mynd ar ôl Pws bach. Nia eisio bwyd.'** [37]

Drwy'r defnydd o frawddegau byr ac ailadrodd 'Nia', yn hytrach na'r rhagenw 'fi', gellir yn hawdd dychmygu mai plentyn ifanc iawn sydd yn llefaru'r geiriau.

Yn anffodus prin yw'r enghreifftiau o ddefnyddio iaith lafar gredadwy yn y nofelau a brawddegau tebyg i eiriau Gwen yn y dyfyniad canlynol sydd yn nodweddu'r sgwrsio yn y straeon:

> **'Yr oeddwn i'n sefyll wrth ymyl y darluniau yn yr oriel,' meddai Gwen...'a gwelais rywbeth tebyg i ddyn fel petai wedi codi o'r ddaear. Safodd am ennyd a gwelais ei wisg yn blaen. Gwyddwn fod y Mynach Du, ysbryd y Mynachdy, yr hwn a laddwyd ers cannoedd o flynyddoedd yn ôl, yn sefyll o'm blaen.'** [38]

Nid yn unig y mae arddull glogyrnaidd yr iaith lafar yn rhwystro'r darllenydd ifanc rhag credu yn y cymeriadau mae hefyd yn arafu'r darlleniad ac felly'n torri ar fwynhad y plentyn o'r nofel.

Ar brydiau mae'r arddull a ddefnyddia Elizabeth Watkin Jones

yn ei nofelau yn hirwyntog, yn arbennig felly wrth iddi defnyddio ansoddeiriau. Pan mae Modryb Lowri yn hel meddyliau am hynt Esyllt mae brawddegau lu yn cael eu neilltuo ar gyfer hyn ond gellid eu hepgor heb i hynny amharu ar y stori. Nodwedd arall sydd yn gwastraffu geiriau yw'r arfer o ailadrodd ambell ddigwyddiad. Gŵyr y darllenydd am y modd y daeth Nest o hyd i'r rhestr bwysig yng nghoes y gwely yn Y Cwlwm Cêl ond mae'n rhaid ail ddarllen am y digwyddiad, er yn llawer mwy cryno, wrth i Nest ddweud wrth Hywel am y modd y bu iddi ei darganfod. Nid oes galw am hyn oherwydd mae'n arafu'r stori mewn nofel sydd i fod yn gyffrous ac anturus.

Ar ôl beirniadu rhai o nodweddion arddull Elizabeth Watkin Jones mae'n braf cael dweud bod llawer mwy o nodweddion cadarnhaol yn ei gwaith ac wedi lladd ar yr arfer o ailadrodd gellir gweld bod lle iddo pan fydd amgylchiadau'n caniatáu. Yn Y Dryslwyn mae Lowri'n ailadrodd sawl gair ac mae hyn yn cyfleu'r panig a oedd yn ei llais wedi iddi glywed bod Gwen wedi colli breichled werthfawr yr oedd ei hangen arni er mwyn talu am faddeuant Richard. Dyma ddangos gwerth ailadrodd ar ei orau.

Mae'n amlwg bod Elizabeth Watkin Jones wedi rhag baratoi trefn ei phenodau mewn ambell nofel gan fod y penodau'n cael eu rhannu am yn ail rhwng dwy ran y stori cyn iddynt gael eu dwyn ynghyd tua diwedd y nofel. Gellir gweld hyn ar ei orau yn nwy nofel olaf yr awdures. Yn Esyllt caiff hynt Esyllt yn ffoi oddi wrth Edward Sieffrai ei adrodd bob yn ail pennod gyda hanes Syr John Wyn yn dioddef o'r dwymyn yn y Llwyndu. Yn yr un modd yn Lois caiff y penodau agoriadol eu rhannu rhwng John ap Huw Owain

a Gwen. Dyma ddangos bod yr awdures yn cymryd gofal wrth baratoi ac nid syn o beth yw sylwi mai yn ei nofelau diweddaraf y bu'r rhagbaratoi. Dengys hyn ôl datblygiad ynddi fel awdures.

Dywedwyd fwy nag unwaith mai prif ddawn Elizabeth Watkin Jones wrth ysgrifennu oedd ei dawn i greu tensiwn yn ei nofelau. Gan mai straeon antur yw pob un o'i nofelau mae'n amlwg y bydd tensiwn yn cael lle blaenllaw ynddynt. Wrth i gymeriadau guddio mewn ogofâu ac wrth i elynion ddilyn ôl traed yr arwresau mae angen mawr am gyffro. Nid yw Elizabeth Watkin Jones yn ein siomi. Mae'r elfennau'n cael eu defnyddio er mwyn ychwanegu at y tensiwn, er enghraifft noson o fellt a tharannau yw hi pan wêl Nest Hywel am y tro cyntaf yn ei hystafell. Gall yr awdures gynnal y tensiwn am sawl paragraff gan ddod â'r cwbl i ryw un uchafbwynt. Yn y dyfyniad canlynol gweld y Mynach Du yw'r uchafbwynt a chyn hynny caiff y darllenydd gyfle i glywed sŵn ei draed, darllen fel y bu bron iddo â chyffwrdd Esyllt, disgrifiad o'i wisg ac wedi hynny'n unig y datguddir pwy ydyw. Cafodd y cyffro ei ddatblygu fesul cam a llwydda Elizabeth Watkin Jones i reoli'r camau'n berffaith er mwyn cael y tensiwn gorau:

> Llithrodd Esyllt i mewn i'r agen, a'i chalon yn curo'n gyflym. Clywodd sŵn traed ar y gro a gwelodd rywun yn cerdded yn frysiog o'r llwybr a oedd y tu cefn iddynt. Daeth i'r gilfach, a safodd ar lan y dŵr.
>
> Bu'n agos iddo gyffwrdd â gwisg Esyllt wrth fyned heibio, ond nid oedd modd iddo ei gweled trwy fod ei wyneb bron wedi ei guddio gan hwd du, pigfain.
>
> Safai fel delw, a'i gefn atynt, yn edrych i'r môr.

Yr oedd y distawrwydd yn llethol. Nid oedd dim i'w glywed ond sŵn y don yn torri'n ddigynnwrf ar y traeth yn awel drymaidd y nos.

Holltodd y cymylau am funud, a daeth llygedyn o leuad i'r golwg. Taflai belydrau ar hyd wyneb y dŵr, ac yn eu llewyrch gwelai'r plant crynedig fod gan y dyn a safai fel delw ar fin y don, fantell ddu laes amdano, ac nid oedd modd camgymryd y ddiwyg fynachol. Bu agos i'r plant lewygu gan fraw.

Yr oedd dymuniad Benni bach wedi dod i ben, a'r Mynach Du yn sefyll o'u blaen. [39]

Nodwedd arall o ddull Elizabeth Watkin Jones o greu tensiwn yw ei defnydd o 'grefft y clogwyn'. Mae sawl pennod yn gorffen ar uchafbwynt er mwyn annog y darllenydd i barhau â'r stori. Mae'r nofel Y Cwlwm Cêl yn enghraifft berffaith gan fod ynddi gynifer o benodau yn gorffen ar uchafbwynt. O'i hugain pennod gellir dweud bod deuddeg yn cynnwys 'crefft y clogwyn', nifer sydd dros hanner y penodau. Pan welir pennod gynhyrfus iawn yn aml bydd y bennod ddilynol yn gorffen yn ddigynnwrf, gan roi cyfle i'r darllenydd gael ei wynt ato. Enghreifftiau yw'r ddwy bennod gyntaf - wedi i Hywel ymddangos yn ystafell Nest yng ngolau'r fellten ar ddiwedd y gyntaf nid oes dim o bwys tragwyddol yn digwydd ar ddiwedd yr ail. Gwelir yr un peth ym mhenodau deuddeg a thair ar ddeg. Ar ddiwedd y ddeuddegfed bennod caiff tad Nest afael ar y rhestr bwysig a oedd ym meddiant ei ferch ac yna gorffen yn dawel a wna'r drydedd bennod ar ddeg. Dengys hyn eto fod Elizabeth Watkin Jones wedi rhagbaratoi trefn y nofel yn ofalus.

Wrth i'r plentyn ddarllen rhagddo, caiff ambell awgrym o'r hyn sydd am ddigwydd yn nes ymlaen. Drwy wneud hyn mae Elizabeth Watkin Jones yn annog y darllenydd i barhau er mwyn gweld a yw'n dyfalu'n gywir. Awgrym o'r carwriaethau a geir gan amlaf ac felly nid yw'n ddim syndod i ni pan gaiff hyn ei gadarnhau ar ddiwedd y straeon. Serch hynny fe geir awgrymiadau eraill a rhain sydd yn annog y darllenydd ymlaen. Yn Lois crybwyllir bod gŵr gyda chraith ar ei dalcen yn gwylio ystafell wely tad John ap Huw Owain wrth iddo roi'r llythyrau pwysig i'w fab. Yna pan mae John yn aros y noson mewn tafarn mae'n sylwi ar y graith sydd ar dalcen yr unig ŵr arall sydd yno. Yn wahanol i John, gŵyr y darllenydd bod y gŵr â'r graith wedi bod yn dilyn John ers amser ond cyn hir daw yntau i wybod mai un o ysbiwyr y seneddwyr ydyw. Nid yn Lois yn unig yr ymddengys yr awgrymiadau oherwydd pan mae'r nain yn ffwndro yn Luned Bengoch mae'n cyfeirio at yr aur yn y lle tân a'r memrwm pwysig. Gyda phytiau fel hyn mae gan y darllenydd ddigon i gnoi cil arno. Enghraifft gwbl wahanol yw'r modd y dywed Benni, yn Plant y Mynachdy, yr hoffai weld ysbryd y Mynach ac yna ymddengys y geiriau canlynol fel brawddeg glo i'r bennod: **'Y nos drannoeth, cafodd Benni bach ei ddymuniad!'** [40]. Er nad yw'r awgrym mor gryno â hanes y gŵr â'r graith ar ei dalcen mae'r un mor effeithiol wrth dynnu sylw'r darllenydd.

Fel y crybwyllwyd eisoes gwelwyd nodweddion cadarnhaol yn yr arddull a ddewisiodd Elizabeth Watkin Jones yn ei nofelau, ond yn anffodus weithiau mae rhai o'r digwyddiadau yn y plot yn tynnu oddi ar gyfanwaith y nofelau. Er bod straeon yn dibynnu'n helaeth ar gyd-ddigwyddiadau mae ambell un na all y darllenydd ei

gredu. Wrth i Luned a Rhys ddychwelyd o'u cyfarfyddiad ag Owain Glyndŵr yn Luned Bengoch daw niwl trwchus i'w rhwystro ar eu taith. Yn anffodus ânt ar goll ac er mai o gyfeiriad Pumlumon y cychwynasant dônt i Blas Crafnant, cartref Merfyn Goch sydd yn ewythr i Luned. Yn ardal Nant Conwy, tu draw i Gapel Curig, yr oedd y plas ac felly mae'n rhaid bod y ddau wedi crwydro gryn dipyn oddi ar eu llwybr. Roedd hyn yn gyfleus dros ben oherwydd roedd yma gyfle i Luned gael ei charcharu ac i ddarganfod ei hetifeddiaeth yn y diwedd.

Mae John Wyn yn ffodus iawn bod Enid, cyfaill mynwesol Esyllt, yn aros yn fferm y Llwyndy ac mai yno y cafodd yntau fynd wedi iddo gael ei glwyfo yn Esyllt ac mae John ap Huw Owain, yn Lois, yn ffodus dros ben bod un o'i hen gyfeillion yng nghastell Caernarfon. Heb gymorth Ieuan ap Llywelyn ni fyddai John wedi dianc o'r castell a dychwelyd i Ben Llŷn er mwyn ailddarganfod Ann a'r llythyrau pwysig. Gellir gweld bod yr holl gyd-ddigwyddiadau yn rhannau annatod o ddatblygiad y straeon. Trueni na allasai Elizabeth Watkin Jones fod wedi eu gwneud yn fwy credadwy yn hytrach na'u bod yn hollol amlwg mai digwyddiadau cyfleus tu hwnt ydynt.

Digon tebyg i'r cyd-ddigwyddiadau yw'r gweithredoedd sydd, wedi manylu arnynt, yn gwbl amhosibl. Yn amlach na pheidio y teithiau a ddisgwylia Elizabeth Watkin Jones i'w chymeriadau eu cyflawni sydd yn amhosibl. Cerdda sawl cymeriad o Gaernarfon i Nefyn neu o Nefyn i Gaernarfon a hynny mewn amser prin iawn. Llwydda Esyllt i gyrraedd Caernarfon, rhoi neges i John Gwynne a dychwelyd i Nefyn gydag ef a milwyr eraill er mwyn achub y

Mynachdy. A gwnaethpwyd y cyfan mewn un noson!

Taith od ar y naw sydd gan un gŵr er mwyn iddo allu dal y goets fawr yn Y Dryslwyn. Gŵr o Dregaron ydyw a **'Daethai i Langollen y noswaith flaenorol o Dregaron, trwy'r Bala a Dolgellau...'** [41]. Yn Llangollen roedd yn dal 'y mêl' a oedd yn teithio rhwng Llundain, Amwythig, Croesoswallt ac ymlaen i Ogledd Cymru. Ymhen hir mae'r 'mêl', a'r gŵr o Dregaron arni, yn cyrraedd Corwen lle mae teithwyr eraill yn ymuno am weddill y daith. Roedd y gŵr o Dregaron felly wedi teithio drwy Gorwen i fynd i Langollen, gan mai drwy'r Bala yr aeth, er mwyn dod yn ôl drwy Gorwen yn y 'mêl'! Byddai wedi bod yn llawer haws iddo ddal y 'mêl' yng Nghorwen gan y byddai hynny wedi arbed peth ar ei siwrnai. Roedd Elizabeth Watkin Jones wedi gallu gwneud gwaith ymchwil wrth ymdrin â gwisgoedd a bwydydd ond roedd amcangyfrif amser teithio ar droed ac ar gefn ceffyl yn llawer anos. Yn ddaearyddol mae hi'n methu ac er ei bod hi wedi teithio mewn mannau yn ne a gogledd Cymru - gellir gweld hyn oddi wrth y gwahanol ardaloedd y cafodd hi waith ynddynt - mae'n syndod ei bod yn camgymryd.

Ceir dau ddigwyddiad digon tebyg ar ddiwedd dwy nofel a thrwy hyn cânt eu difetha. Caiff Nest ei rhoi yn wraig i Hywel gan y brenin ei hun yn Y Cwlwm Cêl. Siarl II sydd yn gosod ei ganiatâd personol ar yr uniad ac mae'r cyfarfyddiad rhwng y brenin a Hywel yn ddigwyddiad y mae'n anodd iawn ei gredu. Byddai'r nofel yn llawer mwy credadwy petai ei rhan olaf yn cael ei hepgor. Ond rhaid cofio mai'r rhamant o fewn y stori hanes oedd yn mynd â bryd Elizabeth Watkin Jones ac felly dyna

paham y cynhwysir y digwyddiad. Cyfarfyddiad â'r brenin a gaiff Gwen hefyd yn Y Dryslwyn ond Siôr III sydd ar yr orsedd erbyn hyn. Dywed ei holl hanes wrtho, gan gynnwys hanes y Brodyr Llwydion cyn sylweddoli'n union beth a ddywedodd. Ond ymateb cwbl groes i'r disgwyl a gaiff Gwen, fel y gwelir yn y dyfyniad canlynol:

> **Estynnodd y brenin ei law iddi, ac meddai'n gwrtais, 'Mae Richard Wynne o Ddinbych wedi dewis angel i ddadlau ei achos, a phan fydd angel yn pledio, beth all dyn meidrol ei wneud? Bydd y pardwn, a sêl y brenin arno, yn eich llaw yfory.'**
> **Chwildrôi popeth o gwmpas Gwen...a gadawodd y llys fel un mewn breuddwyd, gan adael deigryn, fel perl gloyw, ar gefn llaw y brenin.** [42]

Mewn gwirionedd, ni fyddai gan frenhinoedd Lloegr fawr o ddiddordeb yn hynt a helynt trigolion digon cyffredin Gogledd Cymru. Yn sicr ni fyddai'r un brenin yn ymdrafferthu i wneud i Nest deithio bob cam i Lundain er mwyn iddo gael ei rhoi yn swyddogol i Hywel. Dychymyg gor-liwgar yr awdures sydd yn arwain at andwyo plot gyda dau ddigwyddiad nad oes wir rhaid eu cynnwys. Gallasai Nest a Hywel gael diweddglo hapus heb ymyrraeth y brenin a gallasai Richard gael ei bardwn heb i Gwen orfod mynd ar ei gliniau o flaen Sior III.

Camgymeriadau gwahanol yw'r anghysonderau sydd yn ymddangos yn awr ac yn y man yn y nofelau. Efallai na fyddai llygaid plentyn yn sylwi arnynt, ac eto mae plant yn llawer mwy craff nag

ambell oedolyn felly dylid ceisio sicrhau nad oes brychau i'w gweld. Ceir un camgymeriad cwbl amlwg yn Lois. Pan sonia Sioned, y famaeth, am Siwan yn camymddwyn dywed :'**Druan ohoni, heb na thad na mam, a hithau yn ddim ond prin bump oed,**' [43]. Ond o fewn dwy dudalen dywed Gwen ei bod yn hŷn: '**...dyma Siwan, chwe blwydd oed...**' [44]. Dylai'r awdures neu olygydd fod wedi sylwi ar hyn wrth ddarllen y proflenni gan fod y ddau ddyfyniad mor agos at ei gilydd mae'r bai i'w weld yn rhwydd.

Yn y gorffennol bu tueddiad gan awduron Cymraeg i ysgrifennu straeon a oedd yn cynnwys moeswersi, a chan mai gweinidogion oedd nifer helaeth o'n hysgrifenwyr cynnar roedd yr elfen Feiblaidd hefyd yn gref. Er nad yw Elizabeth Watkin Jones yn perthyn i'r dosbarth yma o ysgrifenwyr gellir gweld dylanwad yr awduron cynnar ar ei gwaith. Yn ei nofelau sydd yn ymdrin â'r Rhyfel Cartref mae sawl cyfeiriad at y brenhinwyr a'u cred mai'r brenin ac nid Duw oedd bennaf. Mae Modryb Lowri yn hel meddyliau ynglŷn â Syr John Wyn gan resynu '**...fod bachgen ifanc hardd fel hwn yn perthyn i blaid mor annuwiol, plaid nad ofnai Dduw ac na pharchai ddyn.**' [45]. Dyfynnir sawl adnod o'r Beibl yn ystod y saith nofel a gofynnir i Dduw ofalu am fwy nag un cymeriad, gan gynnwys ambell elyn. Mae Rhys, er enghraifft, yn ceisio rhybuddio Merfyn Goch a'i filwyr am berygl Pwll Pant y Saeson ac yn crefu ar i Dduw eu harbed: '**O Dduw, bydd drugarog wrthynt! ...Trugarha wrthynt!**' [46]. Yn ogystal â'r cyfeiriadau Beiblaidd gwelir Elizabeth Wakin Jones yn cynnwys moeswersi i'r darllenwyr ifainc. Enghraifft berffaith o hyn yw'r modd y mae Dafydd yn adrodd hanes llosgi Rhuthun gan wŷr Glyndŵr, ond cofia ef am drigolion Rhuthun: '**...bydd y diniwed yn dioddef fel yr euog adeg**

rhyfel...' [47], yw ei eiriau.

Wrth ystyried nofelau Elizabeth Watkin Jones fel nofelau hanes dywedodd sawl un nad ydynt yn nofelau hanes yng ngwir ystyr y gair, gan mai digwydd gosod y plot mewn cyfnod yn y gorffennol a wnaeth yr awdures. Cyfeiria Siân Teifi at hyn gan ddweud y **'Gellid gosod y digwyddiadau hyn yn hapus ddigon mewn cyfnod arall - hyd yn oed yn Iwerddon, dyweder, yn wythdegau'r ganrif hon.'** [48]. O'r herwydd fel nofelau mewn gwisg ffansi hanes yn unig y gellid eu hystyried, meddai. Gellir cytuno â'r farn hon ond, er hynny, ni ellir bychanu gwaith Elizabeth Watkin Jones. Ni ellir gwadu bod darllenwyr yn cael eu cyflwyno i hanes, boed gyfnod Cromwell a Siarl II, Owain Glyndŵr neu gyfnod y goets fawr. Dywedwyd mai arwynebol yn unig oedd y cyfeiriadau at hanes yn ei nofelau, megis y sôn am ddillad a bwyd, ond mae'n bwysig bod plant yn dod i ddeall bod gwahaniaethau'n bodoli rhwng eu bywydau hwy a bywydau eu cyndadau. Yn ogystal â'r hanes arwynebol fe gaiff plant eu cyflwyno i ddeunydd hanes mwy sylweddol, megis y cyfeiriadau at ryfeloedd, ac felly mae'n rhaid clodfori gwaith yr awdures.

Cyfrannodd Elizabeth Watkin Jones tuag at ddatblygiad ffurf y nofel hanes yng Nghymru yn ogystal â thuag at y datblygiad ym maes llenyddiaeth plant, fel y dywedwyd:

> **Yr oedd yn awdur toreithiog a gwnaeth gyfraniad nodedig i lenyddiaeth Gymraeg i blant trwy ysgrifennu straeon cyffrous mewn iaith gyfoethog ar adeg pan nad oedd y fath ddeunydd ar gael.** [49]

Gydag ymddangosiad ei llyfrau cafodd plant Cymru y deunydd darllen y buont yn hir ddisgwyl amdano ac roedd eu gwerthiant a'r modd y caent eu darllen yn awchus yn brawf pendant o hyn. Yn y nofelau câi plant eu diddori gan straeon antur hanes a oedd wrth eu boddau. Ar ei gorau, megis yn Y Dryslwyn, gwelir y ddawn a oedd gan Elizabeth Watkin Jones o adrodd stori gelfydd, ddiddorol i'r plant a thrwy hynny eu cyflwyno i hanes am y tro cyntaf, efallai.

Nid nofelau a oedd yn diddanu plant y pedwardegau a phumdegau'r ganrif hon yn unig yw gwaith Elizabeth Watkin Jones oherwydd erbyn hyn fe gafwyd addasiadau o rai o'i nofelau. Gwnaed y gwaith addasu gan Mr. Hugh D. Jones, nai yr awdures, ac o'r herwydd daeth hanes Lois, Luned Bengoch ac eraill yn boblogaidd unwaith eto. Wedi'r cwbl mae stori antur dda yn siŵr o apelio at blant o bob oes. Camp Elizabeth Watkin Jones oedd llunio straeon cyffrous am gyfnodau mwyaf cythryblus ein gwlad gan ddwyn hanes y cyfnodau i feddwl y darllenwyr. Oes, mae brychau yn ei gwaith ond, o ystyried ei bod ymhlith rhai o'r awduron cyntaf i greu deunydd o'r fath, mae'n ddyletswydd arnom i dalu teyrnged i Elizabeth Watkin Jones.

1 Y Winllan, cyf. CIV, rh. 3, Mawrth 1951, t. 41.
2 Sgwrs a gefais â Miss. Nellie Trenholme ar Ebrill y chweched, 1993.
3 Traethawd M. A. Siân Teifi, t. 173.
4 Y Dryslwyn, t. 13.
5 Luned Bengoch, t. 32.
6 ibid., tt. 9-10.
7 Esyllt, t. 75.
8 Hwyl, rh. 5, Tachwedd 1949.
9 Lois, t. 124.
10 Luned Bengoch, t. 90.
11 ibid., t. 84.
12 Plant y Mynachdy, t. 9.
13 Sgwrs a gefais â Mr. Hugh D. Jones ar Fawrth y trydydd ar hugain, 1993. Hefyd cefais olwg ar ffeil o waith Elizabeth Watkin Jones sydd yn ei feddiant.
14 Plant y Mynachdy, t. 120.
15 Tudor and Stuart Britain 1471-1714, t. 282.
16 Y Dryslwyn, t. 82.
17 Storiau Ias a Chyffro, t. 217.
18 Esyllt, t. 67.
19 ibid., t. 17.
20 Plant y Mynachdy, t. 69.
21 Y Dryslwyn, t. 8.
22 Plant y Mynachdy, t. 10.
23 Heddiw, cyf. 5, rh. 5, Medi 1939, t. 261.
24 Esyllt, t. 5.
25 Lois, t. 106.
26 Luned Bengoch, t. 17.
27 Y Dryslwyn, t. 9.
28 Lois, t. 92.
29 Esyllt, t. 66.
30 ibid., t. 57.
31 ibid., t. 69.
32 ibid., t. 66.
33 Lleufer, cyf. VIII, rh. 2, Haf 1952, t. 95.
34 Plant y Mynachdy, t. 20.
35 ibid., t. 14.
36 Storiau Ias a Chyffro, t. 210.
37 Y Dryslwyn, t. 47.
38 Plant y Mynachdy, t. 36.
39 ibid., t. 44.
40 ibid., t. 33.
41 Y Dryslwyn, t. 11.
42 ibid., t. 142.
43 Lois, tt. 13-14.
44 ibid., t. 15.
45 Esyllt, t. 17.
46 Luned Bengoch, t. 98.
47 ibid., t. 21.
48 Traethawd M. A. Siân Teifi, t. 174.
49 Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru, t. 309.

T. Llew Jones

T. LLEW JONES

EI FYWYD

Gŵr a fu'n ymddiddori mewn straeon ers blynyddoedd lawer yw T. Llew Jones, byth oddi ar ei ddyddiau ysgol a'i fagwraeth ar aelwyd Gymraeg yn yr hen Sir Gaerfyrddin. Ar Hydref yr unfed ar ddeg, 1915, y ganwyd Thomas Llewelyn Jones ar fferm yr Iet-Wen ym Mhentre-cwrt. Roedd James Jones, ei dad, yn wehydd yn y ffatri wlân lleol, Ffatri Wlân y Derw, ac roedd Hannah Mary Jones, ei fam, yn ferch fferm leol a chofia T. Llew Jones erfyn arni i adrodd ac ailadrodd straeon iddo. Datblygodd y diddoreb ymhellach yn yr ysgol leol, Ysgol Capel Mair ym Mhentre-cwrt lle'r aeth ym 1920. Yno, yn ôl yr hyn a ddywed yn Y Cymro [1], y daeth i weld nofel E. Tegla Davies, Rhys Llwyd y Lleuad, am y tro cyntaf a rhoddodd y llyfr bleser mawr iddo gan mai prin oedd y deunydd darllen ar gael yn Gymraeg yn y dyddiau hynny.

Pan symudodd y teulu i Dŷ Newydd, Saron ym 1923 bu'n rhaid i T. Llew Jones newid ei ysgol a daeth newid arall i'w fyd ar Ebrill yr ail ar bymtheg, 1926, pan anwyd Edwin Sieffre yn frawd bach i'r mab deng mlwydd oed. Dywed bod yr unigrwydd a deimlodd pan yn ifanc wedi gadael ei ôl arno oherwydd:

> **Fues i yn blentyn unig ac yn unig blentyn nes own i'n tynnu am un-ar-ddeg oed. Ac rwy'n gallu gweld nawr mod i wedi bod ar hyd fy oes yn tueddu i sefyll ar wahân. Dwy'i erioed wedi'i chael hi'n hawdd i wneud ffrindie â phobl.** [2]

Efallai bod yr unigrwydd hwn wedi ysgogi'r awdur i fynd ati i lunio straeon.

Tra roedd yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llandysul yr ymgeisiodd T. Llew Jones ysgrifennu ei nofel gyntaf, yn yr iaith Saesneg, ond ni lwyddodd i'w chwblhau gan fod ei ddiddoreb mewn barddoniaeth yn egino. Nid oedd hyn yn syndod o gwbl o ystyried bod yr ardal y'i magwyd ef ynddi yn frith o feirdd gwlad - a beirdd enwocach - megis Dewi Emrys. Roedd gan yr holl ardal barch mawr tuag at y bardd hwn, meddai T. Llew Jones, ac mewn erthygl yn Barn sonia am y diwrnod y gwelodd y bardd Dewi Emrys am y tro cyntaf wrth i'w gyfaill ei ddangos iddo:

> **Fe bwyntiodd at ddyn yn eistedd yn y ffrynt a thrilby lwyd ar 'i ben e, a gwallt brithlwyd yn hongian lawr dros goler 'i got e. Roedd e'n eistedd fanny mewn myfyrdod dwfn heb edrych i'r chwith nac i'r dde...a fe oedd yn gyfrifol am y distawrwydd ar y bys - distawrwydd yn llawn o barch ac edmygedd at y dyn mawr.**
>
> [3]

Ychydig a wyddai T. Llew Jones y byddai ef ei hun yn derbyn yr un parch ymhen blynyddoedd

Roedd T. Llew Jones wedi bwriadu derbyn hyfforddiant ar gyfer bod yn athro, wedi iddo dreulio cyfnod o ddwy flynedd fel disgybl-athro yn ei hen ysgol ym Mhentre-cwrt. Ond bu'n rhaid iddo ail ystyried wedi marwolaeth ei dad. Roedd hi'n gwbl amhosibl i wraig weddw gadw mab yn y coleg a dau blentyn

gartref ac roedd Megan Eluned, a anwyd ar Ebrill yr ail, 1933, yn ifanc iawn. Wrth roi ei syniad o'r neilltu treuliodd gyfnod o chwe blynedd ansefydlog iawn, fel y dywed Siân Teifi:

> **Bu'r blynyddoedd 1934-1940 yn rhai hir dros ben, blynyddoedd o chwilio am waith, a'i gael yn ysbeidiol ar ôl cyfnodau o ddiweithdra. Yn y cyfnod hwn, honna T. Llew Jones iddo wneud 'tipyn o bopeth' - gweithio yn y gwair, clerc mewn chwarel, postmon, coediwr, gweithio ar yr heol, ac yna, ei swydd olaf, fel dyn insiwrin.**[4]

Ond daeth diwedd ar y gwahanol swyddi wrth iddo gael ei alw i ymuno a'r awyrlu â'r fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yntau erbyn hyn yn ŵr priod. Yn wir honna Siân Teifi [5] iddo dderbyn galwad i uno â'r ymladd ar ddiwrnod ei briodas gyda Margaret Enidwen Jones.

Hannai Margaret Enidwen Jones o deulu enwog y Cilie. Roedd hi'n ferch i Esther a oedd yn seithfed plentyn y teulu. Gyda'r uniad â'r teulu yma daeth Alun, y mab ieuengaf, yn gyfaill mynwesol i T. Llew Jones ac yn gyd-aelod o sawl tîm ymryson y beirdd. Ganwyd dau fab i T. Llew a Margaret Jones, Emyr ar Chwefror y chweched ar hugain, 1941, a Iolo ar Awst yr ail, 1947.

Yn ystod y rhyfel bu T. Llew Jones yn ymladd yn yr Aifft, yng ngogledd Affrica ac yn yr Eidal. Yn y wlad honno y tyfodd diddordeb yr awdur yn y gêm wyddbwyll oherwydd arferai rannu pabell â Sais a phan gafodd y gŵr hwnnw ei anfon gartref rhoddodd ei set wyddbwyll yn anrheg i T. Llew Jones. Wedi treulio pum

mlynedd a hanner yn y fyddin a'r llu awyr cafodd ei ryddhau ym 1945 ac yna, ddwy flynedd yn ddiweddarach, dechreuodd ar gyfnod o hyfforddiant ar gyfer bod yn athro.

Yng Ngholeg y Waun, Caerdydd y derbyniodd dri mis ar ddeg o hyfforddiant brys. Gan fod y wlad yn brin o athrawon wedi'r rhyfel cafodd nifer o gyn-filwyr eu derbyn i wneud cyrsiau o'r math yma er mwyn cyflenwi swyddi. Llwyddodd T. Llew Jones i ddychwelyd yn ôl i Geredigion fel athro teithiol yn y Borth ac yna fel athro yn Nhalgarreg am ddeunaw mis cyn iddo gael ei benodi yn brifathro yn Ysgol Tre-groes ar ddechrau 1951. Dywed T. Llew Jones bod arno ddyled mawr i'w brifathro cyntaf yn Nhalgarreg am sawl rheswm. Tom Stephens a fu'n gyfrifol am ei benodiad yn brifathro ar ei ysgol ei hun ac, yn bwysicach efallai, ef a agorodd lygaid y cyn-filwr i wleidyddiaeth Cymru a Phrydain:

> **Bu Stephens yn ddylanwad mawr arna' i. Cyn hynny 'down i ddim wedi meddwl rhyw lawer am genedlaetholdeb, er 'mod i'n eitha' Cymro. Ond ynglŷn ag argyfwng yr iaith, a melltith imperialaeth, ac yn y blaen, Tom Stephens a fu'n fy arwen ar hyd y llwybre 'na.** [6]

Bu'r pumdegau yn ddegawd brysur iawn i T. Llew Jones. Ar ddechrau'r ddegawd daeth ei enw i'r wyneb dro ar ôl tro mewn cystadlaethau yn yr Eisteddfod Genedlaethol, megis cystadleuaeth yr englyn yng Nghaerffili, 1950, neu gasgliad o benillion yn Llanrwst ym 1951. Bum mlynedd yn ddiweddarach gwelodd ei lyfr cyntaf olau dydd, Llyfr Sian a Iolo (1956) a ysgrifennodd ar y

cyd gyda Dilwen M. Evans. Y flwyddyn ganlynol cyhoeddodd ei gasgliad cyntaf o benillion ar gyfer plant sef Cerddi Gwlad ac Ysgol(1957).

Roedd 1958 yn flwyddyn lwyddiannus i'r awdur oherwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy ef oedd prifardd yr awdl 'Caerllion ar Wysg' ac yng Nhaernarfon y flwyddyn ganlynol ar alwad y corn gwlad T. Llew Jones oedd unwaith eto'n sefyll ar ei draed gyda'r awdl fuddugol 'Dringwr'. Nid tasg hawdd oedd llunio dwy awdl mewn cyfnod byr ac yntau bellach yn brifathro ar ysgol Coed y Bryn ger Llandysul ers dechrau 1958. Mae'r dasg yn ymddangos yn llawer mwy wrth sylweddoli bod T. Llew Jones yn yr un cyfnod wedi cyhoeddi ei lyfr cyntaf ar ei ben ei hun, sef Trysor Plas y Wernen(1958), a enillodd wobr Awdurdod Addysg Sir Aberteifi, ac roedd yn llunio sgriptiau ar gyfer y radio.

Nid tawelu a wnaeth bwrlwm y blynyddoedd cynt wrth i'r chwedegau gyrraedd oherwydd aeth T. Llew Jones ati o ddifrif i lunio straeon a barddoniaeth ar gyfer plant ac oedolion. Rhwng 1965 a 1968 cyhoeddwyd ei bedwar llyfr yn y gyfres Llyfrau Darllen Newydd, gwers lyfrau ar ffurf cwestiynau darllen a deall ar gyfer plant oed cynradd yn bennaf. Yn ystod y cyfnod yma gwelwyd yr awdur yn ehangu ei gynulleidfa gan iddo ysgrifennu rhyddiaith ar gyfer oedolion. Yn y gyfrol Gwaed ar eu Dwylo (1966) adroddir hanes llofruddiaethau yn y gorffennol.

Am ddwy flynedd, rhwng Tachwedd 1967 a Hydref 1969, T. Llew Jones a fu'n gyfrifol am golofn farddonol Y Cymro - 'Sgubor y Beirdd' a byddai'n meuryna'n aml mewn ymrysonau ac yn beirniadu'r

adrodd mewn eisteddfodau lleol. Tasg anodd yw ceisio amgyffred faint o amser oedd gan T. Llew Jones i gwblhau'r holl waith ysgrifennu, dysgu a chyflawni tasgau eraill megis beirniadu. Nid rhyfedd felly yw gweld iddo gael nawdd gan y Cyd-bwyllgor Addysg rhwng 1972 a 1974 ac yna gan Gyngor y Celfyddydau rhwng 1974 a 1976 er mwyn ei alluogi i gael ei esgusodi oddi wrth ddysgu am y pedair blynedd. Yna wedi'r pedair blynedd ymddeolodd wedi deunaw mlynedd fel prifathro Ysgol Coed y Bryn.

Roedd nifer o resymau paham yr aeth T. Llew Jones ati i ysgrifennu ar gyfer plant. Y prif ysgogydd oedd Alun Edwards a oedd yn llyfrgellydd yn Sir Aberteifi ac wedi ei benodiad aeth ati i geisio annog pobl y sir i ysgrifennu deunydd ar gyfer plant. Casglwyd rhai o'r straeon ynghyd yn y gyfrol Cen Ceredigion(1953). Arweiniodd y fenter hon at sefydlu Cymdeithas Lyfrau Ceredigion a bu'r gymdeithas yn cyhoeddi rhai o lyfrau T. Llew Jones, er enghraifft y tair nofel yn y gyfres Twm Siôn Cati.

Roedd yr arian ychwanegol a gâi wrth ysgrifennu hefyd wrth fodd T. Llew Jones gan fod teulu ifanc ganddo. Wrth ysgrifennu ar gyfer y radio, yn ogystal â chreu llyfrau, gallai ychwanegu at ei gyflog athro. Meddai:

> 'Roeddwn i'n byw'n dlawd iawn cyn hynny, tri chant a 'whechdeg o'dd fy nghyflog i at gadw dau o blant, talu rhent a rhedeg car. 'Roedd hi'n galed iawn.' [7]

Roedd ganddo ddiddordeb mewn ysgrifennu ers blynyddoedd ac felly

roedd cael ei dalu am wneud yr hyn a hoffai yn ychwanegiad braf iawn. Ond nid ysgrifennu'n sydyn er mwyn cwblhau'r gwaith a derbyn ei dal a wnâi T. Llew Jones. Roedd yn paratoi cyn ysgrifennu. Cyn rhoi pin ar bapur âi ati i ddarganfod popeth a allai am y cyfnod ac am ei gymeriadau, ac weithiau darganfyddai ffeithiau diddorol tros ben. Wrth ymchwilio i gefndir y môr-leidr Harri Morgan sylweddolodd ei fod yn gymeriad **'cwbwl eithriadol'** [8]. Yn wir roedd y straeon mor anhygoel fel na fyddai darllenwyr yn credu'r hanesion petai'r awdur yn ysgrifennu amdanynt.

Teimlai T. Llew Jones ei bod yn holl bwysig bod hanesion cymeriadau megis Harri Morgan a Barti Ddu yn dod yn wybyddus i blant Cymru. Roedd y plant yn cael eu cyflwyno i rai o arwyr Lloegr, er enghraifft Robin Hood. Yr unig arwyr a oedd gan blant Cymru oedd cymeriadau rhinweddol megis Mari Jones o'r Bala. **'Roedd ein harwyr cenedlaethol ni'n rhy gywilyddus o barchus bob un!'** [9], meddai ac wrth gyflwyno deunydd am Harri Morgan a Barti Ddu ei fwriad oedd creu arwyr y gallai plant fwynhau darllen am eu hanesion.

Cam cwbl naturiol felly oedd dewis ffurf y nofel hanes gan fod ei arwyr yn gymeriadau o gig a gwaed yn ein gorffennol. Roedd gan T. Llew Jones ddiddordeb yn ffurf y nofel hanes ers blynyddoedd gan fod llyfrau Robert Louis Stevenson wedi denu ei fryd er pan yn blentyn. Nofelydd poblogaidd arall gan T. Llew Jones oedd Raphael Sabotini ac edrydd ei hanes yn prynu rhai o'i lyfrau gyda'i arian prin:

'Fe fyddwn i'n cal chwecheiniog gyda mam bob dydd Sadwrn, ac fe fyddwn i'n mynd wedyn dair milltir a hanner ar y beic i siop J. D. Lewis yn Llandysul lle byddwn i'n prynu llyfr 'Penguin' chwecheiniog, llyfre Sabotini os o'dd rhai ar gal.' [10]

Y diddordeb mewn creu arwyr newydd a'r diddordeb yn ffurf y nofel hanes oedd prif gymhellion T. Llew Jones i fynd ati i lunio ei nofelau ar gyfer plant. Roedd dewis ysgrifennu ar gyfer plant yn ddewis rhwydd, meddai, oherwydd eu bod mor anfeirniadol. Darllen er pleser a wna plant tra bod gan oedolion resymau eraill dros ddarllen, fel yr eglura yn y dyfyniad canlynol:

'Mae'r darllenwyr mewn oed yn eistedd i lawr i ddarllen nofel Gymraeg er mwyn ei beirniadu a'i thrafod mewn sgwrs â'u cyfeillion...Mae rhai, ddwedwn i, yn darllen o ran dyletswydd, neu er mwyn bod 'with it' cyn belled ag y mae darllen llenyddiaeth Gymraeg fodern yn y cwestiwn.' [11]

Mae'n siwr bod peth gwirionedd yn ei ddatganiad oherwydd ein tuedd ydyw mynd ati i ddadansoddi gweithiau llenyddol wedi eu darllen tra bo plant yn darllen stori ac yna'n symud ymlaen at y stori nesaf. Ychydig o drafod llyfrau y mae disgwyl i blant ei wneud er bod ysgolion yn ceisio meithrin y ddawn honno. Teimla T. Llew Jones mai gwaith y pumed a'r chweched dosbarth yw'r llinell derfyn rhwng darllen fel plentyn a darllen fel oedolyn. Wrth ysgrifennu ar gyfer plant efallai y teimlai'r awdur y gallai osgoi y trafod a'r beirniadu a ddeuai i'w ran petai'n ysgrifennu

ar gyfer oedolion yn unig.

Fodd bynnag nid gŵr i dderbyn beirniadaeth yn ddirwgnach yw T. Llew Jones, gan ei fod yn gwbl barod i ateb ei feirniaid ac yn y gorffennol golygai hyn golled ariannol iddo. Pan benderfynodd y Cyd-bwyllgor Addysg fod rhaid iddynt safoni y defnydd o iaith yn eu cyhoeddiadau gwrthododd T. Llew Jones â chyd-fynd â hyn. Yn ei nofelau ef ceir defnydd helaeth o iaith lafar ac nid oedd yn barod i'r golygyddion ei newid i'r hyn a elwir yn Gymraeg Byw. Wrth ddal ei dir yn y modd yma nid oedd y Cyd-bwyllgor yn fodlon prynu ei nofelau. Golygai hyn fod T. Llew Jones yn colli gwerthiant deuddeg cant o gopïau, ac oherwydd hynny derbyniai lai o arian. Ond ni newidiodd ei feddwl o gwbl. [12]

Dro arall ysgrifennwyd llythyr gan ŵr o Borthmadog at Y Faner [13] yn cwyno am y dafodiaith yn y nofel Trysor y Môrladron. Credai'r gŵr na ddylai T. Llew Jones fod wedi defnyddio ffurfiau megis 'dere' neu 'bant â thi'. O fewn pythefnos roedd awdur y nofel wedi ateb y feirniadaeth [14] gan ddweud ei fod ef wedi darllen llyfrau E. Tegla Davies, ac awduron eraill, pan oedd yn ifanc ac na chlywodd yr un dyn yn cwyno oherwydd y dafodiaith ogleddol a ddefnyddiwyd ynddynt hwy. Yn wir mae T. Llew Jones yn eithaf hallt yn ei lythyr ef ond mae ganddo resymau dilys i ateb pob cyhuddiad.

Pan sefydlwyd Cymdeithas Llyfrgelloedd Ieuenctid Cymru yn y saithdegau aeth y gymdeithas ati i lunio system wobrwyo awduron llyfrau plant, gan ddilyn hanfodion cystadlaethau tebyg yn Saesneg. Mewn erthygl yn Llais Llyfrau nododd Geraint Lewis,

llyfrgellydd Dyfed, fwriad y gystadleuaeth flynyddol:

> **Gwobrau i Gymru felly ar batrwm gwobrau enwog Newbery yn yr Unol Daleithiau, a Carnegie yn Lloegr, gydag amcanion tebyg hefyd, sef:-**
> **(1) i dynnu sylw at lyfrau nodedig i blant yn y Gymraeg**
> **(2) i dalu teyrnged i'n hawduron plant brodorol**
> **(3) a thrwy'r trafodaethau a'r feirniadaeth a fyddai'n hanu o'r sylw newydd yma, i geisio codi safonau llyfrau Cymraeg i blant yn gyffredinol. [15]**

Gwobr Tir na n-Og oedd y gystadleuaeth a'r enillydd cyntaf, yn yr adran ffuglen Gymraeg, oedd T. Llew Jones am ei nofel Tân ar y Comin(1975), nofel yn ymwneud â bachgen bach o sipsi. Nid dyma'r unig dro iddo ddod i'r brig yn y gystadleuaeth oherwydd ym 1990 ef a Jac Jones, am ei waith dylunio, a gipiodd y wobr am lyfr gorau'r flwyddyn ac eithrio ffuglen gyda Lleuad yn Olau, llyfr yn cynnwys rhai o straeon gwerin Cymru.

Ym 1985 sefydlwyd gwobr newydd yng Nghymru, Tlws Mary Vaughan Jones, a chyflwynir y tlws, bob tair blynedd, i berson sydd wedi cyfrannu'n arbennig ym maes llenyddiaeth plant am gyfnod hir. T. Llew Jones a dderbyniodd y tlws ym 1991 a'r syndod mwyaf oedd nas cafodd ynghynt. Nid dyma'r unig anrhydedd a ddaeth i'w ran oherwydd ym 1977 cafodd radd M. A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru ac fel diolch am ei waith diflino yn gadeirydd Cymdeithas Barddas cyflwynodd y gymdeithas gyfrol deyrnged iddo mewn cyfarfod yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe ym 1982.

NOFELAU HANES T. LLEW JONES

Wrth geisio dadansoddi cyfraniad T. Llew Jones i faes y nofel hanes mae'n rhaid gosod canllawiau pendant ynglŷn â'r gwaith y bydd ymdriniaeth ohono yn y bennod hon. Penderfynwyd y dylid cyfeirio'r sylwadau tuag at ei nofelau hanes yn unig ac felly er bod gan T. Llew Jones ambell stori hanes, megis **Huw Morgan a'r Lladron** yn y gyfrol Arswyd y Byd (1975), ni fydd straeon byrion o'r math yma yn cael eu crybwyll. Wedi hepgor y straeon fe'n gadewir â deg nofel y gellir eu bras hystyried yn nofelau hanes.

Gwelodd y gyntaf, Trysor y Môrladron, olau dydd ym 1960 a hon oedd nofel gyntaf T. Llew Jones fel awdur unigol. Bu wrthi yn ysgrifennu'r triawd o nofelau ar hanes Twm Siôn Cati am bum mlynedd. Y Ffordd Beryglus(1963) oedd y gyntaf, Ymysg Lladron (1965) yr ail a'r olaf oedd Dial o'r Diwedd(1968). Yna ymddangosodd nofel yn ymdrin â hanes y goets fawr, Corn, Pistol a Chwip(1969) ac Ofnadwy Nos(1971), nofel sydd yn adrodd hanes llongddrylliad y Royal Charter ar arfordir Môn ym 1859. Ceir hanes un arall o fôrladron enwog Cymru yn y nofel Barti Ddu o Gasnewy' Bach(1973) ac yn yr un flwyddyn gwelodd Un Noson Dywyll olau dydd. Flwyddyn yn ddiweddarach adroddodd T. Llew Jones hanes terfysgoedd Beca yn Cri'r Dylluan(1974) ac ym 1977 ymddangosodd Dirgelwch yr Ogof. Dyma'r nofelau y bydd y sylwadau canlynol wedi eu cyfeirio atynt.

Hanes Harri Morgan y môrleidr enwog sydd i'w weld yn Trysor y Môrladron(1960). Wrth i Harri Morgan ddychwelyd i'w blasty yn

Abergafenni daw ar draws Ieuan, mab ei arddwr. Dywed Ieuan wrtho am y newidiadau fu yn y plas ers i Richard Llwyd, cefnder Harri Morgan, feddiannu'r adeilad. Penderfyna Harri Morgan na all ddychwelyd i'r plas y noson honno ac felly mae ef a Ieuan yn aros y noson mewn tafarn. Fe ymosodir ar y ddau gan gyfeillion Richard Llwyd ac fe orfodir i Harri Morgan deithio ar fwrdd y 'Bristol Maid' sydd ar ei ffordd i un o ynysoedd y gorllewin i geisio trysor. Roedd Harri Morgan yn berchen ar fap trysor ond drwy dwyll caiff Richard Llwyd a'i gyfaill Wil Ddu eu bachau arno. Cyn i'r fordaith ddechrau mae rhai o gyfeillion Harri, megis Ieuan a Ned, gwas Harri, yn llwyddo i gael gwaith ar y llong. Wedi sawl helynt caiff Harri ailafael ar y map a chapteniaeth y llong ond o fewn dim cwyd storm enbyd a chaiff ei daro gan fast sydd yn syrthio ar ei ben. Mae Richard Llwyd yn feistr ar y llong unwaith eto.

Pan ddaw'r llong i dir sych caiff Harri, Ieuan a Ned eu gadael yno gan Richard Llwyd. Maent yno ar eu pennau eu hunain hyd nes y daw criw o Sbaenwyr atynt. Twyllir y Sbaenwyr a chaiff y tri afael ar eu llong, y 'Santa Maria', a'r criw oedd arni. Wrth iddynt hwylio tuag at borthladd Maracaibo gwelant y 'Bristol Maid' a daw y tri gŵr i'r lan i chwilio am eu gelynion. Llwyddant i'w dal ond nid cyn i Wil Ddu gael ei ladd ac wrth ymladd â milwyr o Sbaen caiff Ned yntau ei ladd.

I ddial ar y Sbaenwyr mae Harri Morgan yn anfon y 'Santa Maria' yn wenfflam i ganol y ddwy long o Sbaen tra bod ef a'i gyfeillion yn dianc ar gwch bychan tuag at y 'Bristol Maid'. Llwydda ei gynllun ac wrth ddychwelyd i Gymru caiff Richard Llwyd

ei ollwng ar ynys anial. Daw hanes Harri i glustiau pawb cyn hir a chaiff ei benodi'n llywydd Jamaica. Gan ei fod ef am deithio unwaith eto mae angen goruchwyliwr ar ei ystad yn Abergafenni a chaiff Ieuan y swydd honno. Fel y gwelir nofel sydd yn llawn antur yw Trysor y Môrladron.

Dywedodd T. Llew Jones mai nofel Robert Louis Stevenson, Treasure Island(1881) oedd un o'i hoff lyfrau pan oedd yn ifanc '...a chais i lunio stori gyffrous debyg i honno oedd Trysor y Môrladron.', meddai [16]. Wrth edrych ar y ddwy nofel gellir gweld nodweddion cyffelyb rhyngddynt. Y prif debygrwydd yw'r modd y mae gan fachgen ifanc ran flaenllaw yn y ddwy nofel; Jim Hawkins sydd yn adrodd hanes ei anturiaeth fel gwas bach yn nofel Stevenson tra bod Ieuan ap Siencyn yn cael mynd ar y fordaith fel gwas bach i Harri Morgan yn nofel T. Llew Jones. Llwydda'r ddau fachgen i ddianc oddi wrth eu gelynion - Jim oddi wrth Long John Silver a Ieuan oddi wrth Richard Llwyd - a chan iddynt ddianc cânt gyfle i grwydro o amgylch yr ynys anial. Ceir ambell gymeriad arall tebyg megis y modd y mae meddyg ar fwrdd y ddwy long ac mae Dr. Livesey, yn Treasure Island, fel Tom Penn, yn Trysor y Môrladron, yn fodlon gwella'r naill garfan a'r llall, gelynion neu beidio.

Hanes mordaith o'i dechrau i'w diwedd a geir yn y ddwy nofel ac adroddir yr helyntion a ddaw i ran y ddau griw wrth iddynt geisio trysor ar ynys anial. Ar y ddwy ynys ceir ogof - ogof Ben Gunn yn nofel Stevenson - a ffos fechan yn rhedeg gerllaw. Wrth i'r da a'r drwg frwydro yn erbyn ei gilydd a cheisio cael gafael ar y map hollbwysig, sydd yn dangos safle claddu'r trysor, caiff

y map ei drosglwyddo o'r naill ochr i'r llall cyn i'r gŵr da oresgyn yn y diwedd. Er mwyn cael y map mae'n rhaid i fiwtini gael ei gynllwynio ar fwrdd y llong a Long John Silver sydd yn ceisio dwyn dynion ynghyd ar fwrdd yr 'Hispaniola' yn Treasure Island. Harri Morgan sydd yn cynllwynio ar fwrdd y 'Bristol Maid' yn Trysor y Môrladron. Ond cyn gallu cynllwynio mae'n rhaid i'r ddau ŵr sicrhau bod eu cyfeillion gyda hwy. Llwydda Long John i ddewis criw ei long ef, fel y dywed John Trelawney mewn llythyr at Dr. Livesey:

> **Between Silver and myself we got together in a few days a company of the toughest old salts imaginable...**
>
> **Long John even got rid of two out of the six or seven I had already engaged. [17]**

Yn yr un modd daw rhai o gyfeillion Harri Morgan, megis Tom Penn, Ned a'r Dyn Du, i fod yn aelodau o griw y 'Bristol Maid'.

Yn dilyn yr holl anturiaethau caiff y gŵr drwg eu dal ond ni leddir mo Long John Silver na Richard Llwyd. Caiff y ddau fyw gweddill eu dyddiau ar ynys bellennig yng nghanol yr haul. Nid yw Ieuan a Jim, yr arwyr ifainc, am weld mordaith arall byth wedyn ac wedi cael eu cyfran hwy o'r trysor penderfyna'r ddau gadw eu traed yn gadarn ar dir sych. Ond mae un gwahaniaeth syfrdanol. Arwr yw Harri Morgan, y môrleidr, tra bod Long John, sydd hefyd yn fôrleidr, yn ŵr drwg ei nofel ef.

Er bod nifer o fân bwyntiau'n debyg rhwng y ddwy nofel ni ellir dweud bod T. Llew Jones wedi tynnu'n helaeth ar blot nofel

Robert Louis Stevenson. Gan fod Stevenson yn awdur mor bwysig a'i ddylanwad wedi treiddio i sawl cyfeiriad, fel y gwelwyd yng ngwaith E. Morgan Humphreys [18], nid rhyfedd o beth yw gweld ôl Robert Louis Stevenson ar nofel sydd yn ymdrin â'r un maes, yn fras, â'i nofel Treasure Island. Nid llenladrata a wnaeth T. Llew Jones oherwydd, yn eu crynswth, mae'r ddwy nofel yn annhebyg iawn. Yn ddi-amau dwy nofel annibynnol, wreiddiol sydd yma gan fod gormod o wahaniaethau rhyngddynt i alw Trysor y Môrladron yn addasiad o Treasure Island.

Yn Barti Ddu o Gasnewy' Bach (1973) caiff Barti ei gipio gan y 'press-gang', ar noson ei briodas yn Nhrefdraeth, a'i orfodi i fod yn aelod o griw llong a oedd ar ei ffordd i'r gorllewin. Ceir amheuaeth cryf mai tad yng nghyfraith Barti a oedd wedi ei fradychu i'r 'press-gang' gan na chredai fod pysgotwr cyffredin yn ŵr cymwys i Megan, ei ferch. Daw Barti'n gyfeillgar ag Abram Tomos, gŵr lleol arall, ac adroddir eu hanesion ar fwrdd y llong. Mewn storm enbyd bu bron i'r llong suddo ond caiff y criw eu hachub gan fôrladron. Cymro yw capten llong y 'Rover' a phan fu ef farw caiff Barti ei ddewis yn olynydd iddo, er gwaethaf gwrthwynebiad Kennedy, un arall o'r criw. Penderfyna ef ei fod am ddial ar Barti a gwna hyn drwy ddwyn y llong oddi arno tra mae Barti ac ambell longwr arall ar fwrdd un o'r llongau y maent yn eu hysbeilio.

Ond llwydda Barti i gyrraedd tir sych yn Tortuga ac yno gwelant Kennedy a rhai o griw y 'Rover'. Yn awr, wedi talu'r pwyth yn ôl, mae Barti yn barod i ddychwelyd i Drefdraeth ac yno caiff Abram Tomos ei ryddid i fynd adref unwaith eto tra a

Barti tuag at gartref Megan. Nid yw ei thad yn adnabod y môrleidr ond pan gaiff Barti sgwrs â Megan sylweddola ei bod wedi ailbriodi ac wedi cael plentyn. Mae'n rhaid iddo ddychweld at y llong heb ei wraig a gŵr chwerw iawn yw'r Barti newydd oherwydd daw â'i dad yng nghyfraith gydag ef ond mae hwnnw'n disgyn o'r cwch ac fel corff ar y traeth y dychwel at Megan, ei ferch. Ceir diweddglo byr i'r stori er mwyn adrodd fel y bu i Barti gael ei ladd wrth ymladd yn erbyn y Saeson.

Yn y gyntaf o'r nofelau yn ymwneud â bywyd Twm Siôn Cati, Y Ffordd Beryglus (1963) fe'n cyflwynir i'r prif gymeriad a'r cymeriadau eraill sydd yn ymddangos yn ystod y tair nofel. Syr Harri Prys, perchennog Plas Dolau, yw meistr Twm a pherchennog ei gartref. Nid oes raid iddynt dalu rhent iddo gan fod Syr Harri yn ffrindiau â'i fam ac yn sylweddoli na allai gwraig weddw ddarganfod yr arian. Mae hefyd yn rhoi gofal o'i geffyl Dart i Twm, sydd yn was ystabl yn y plas, oherwydd sylweddola fod gan Twm y gallu i drin y ceffyl yn well nag Anthony, ei fab. Ond pan gaiff Syr Harri ei ladd mewn damwain nid yw Anthony mor rinweddol â'i dad ac felly mae'n mynnu rhent ugain mlynedd gan Twm a'i fam. Mae'n rhaid i'r ddau ffoi o'u cartref yn nhrymder nos.

Ar ei wely angau roedd Syr Harri wedi dweud bod Dart i'w roi i Twm ac felly daw'n ol i Blas Dolau i ddwyn y ceffyl. Llwydda i gael swydd gyda phorthmon o'r enw Rhys Parri ac ar un o'r teithiau daw Ifan y Cwympwr, un o elynion Twm, i glywed am hanes y ceffyl. Aiff ef â Dart yn ôl i Blas Dolau a chaiff groeso mawr gan Anthony. Un noson yn ei ddiod gwna Anthony gytundeb â Syr John Sbens - os gall ef farchogaeth Dart am ddeng

munud yna byddai Syr John Sbens yn dileu dyled o bedwar cant a hanner o bunnoedd. Yn anffodus disgyn oddi ar Dart yw tynged Anthony gan adael Eluned Prys, ei wraig, yn wraig weddw. Nid yw Eluned hanner mor greulon â'i gŵr a phan gaiff hi dystiolaeth sydd yn cadarnhau'r hyn ddywed Twm ynglŷn â'i hawl ar Dart mae'n ceisio Twm er mwyn ei hysbysu ei fod yn ddi-euog. Nid yw Twm yn fodlon derbyn Dart ganddi hi ond pan gaiff gynnig ei hen swydd a'i gartref bodlona ar ddychwelyd i Blas Dolau. Yma ceir awgrym o'r hyn sydd am ddigwydd ar ddiwedd y nofel olaf.

Onibai am yr hapchwarae ffôl rhwng Syr Anthony a Syr John Sbens yn y nofel ddiwethaf ni fyddai stori yn y nofel Ymysg Lladron(1965). Ar ddechrau'r nofel derbynia Eluned Prys lythyr oddi wrth Syr John yn gofyn am bedwar cant a hanner o bunnoedd gan na lwyddodd Syr Anthony i farchogaeth Dart am ddeng munud. Mae'n rhaid i Eluned anfon Twm i Lundain i werthu un o berlau gwerthfawr ei mam yng nghyfraith. Ar ei ffordd yno daw ar draws Rhys Parri, y porthmon, a chlyw am ras fawr sydd i'w rhedeg y diwrnod canlynol yn Henffordd. Penderfyna y gall gystadlu yno gyda Dart ond pan ddaw rhai o wŷr pwysig y dref i glywed am hyn maent am ei rwystro drwy ei daro'n anymwybodol. Fodd bynnag caiff Dart redeg yn y ras gan fod Wilf yr Osler, cyfaill Rhys, yn farchog penigamp. Pan ddeffra Twm sylweddola ei fod wedi colli perlau Eluned ac aiff ef, Rhys a Wilf i siop Amos Cohen ond gorwedd yn farw yn ei siop y mae'r perchennog. Caiff Twm ei ddwyn i'r ddalfa a'i gyhuddo o lofruddio'r Iddew.

Pan gaiff Eluned ail lythyr oddi wrth Syr John Sbens mae'n amau bod Twm wedi dwyn ei pherlau ac eto nid yw am gredu y

byddai'n gwneud tro sâl â hi. Wrth iddi deithio ar y goets fawr fe ymosodir arni gan ladron pen-ffordd ond llwydda Twm, a oedd hefyd yn teithio ar y goets wedi iddo ddianc o'r carchar, i'w hachub. Wedi iddo adrodd yr holl hanes wrthi penderfyna bod rhaid iddi ofyn i ŵr ei chyfnither am gymorth a chânt bedair awr ar hugain o amser i ddod o hyd i'r llofrudd cyn y byddai Rhedwyr Bow Street, sef yr heddlu, yn ail garcharu Twm. Yn ffodus i Twm ac Eluned dônt o hyd i'r gwir lofrudd a chaiff y ddau ddychwelyd i Blas Dolau yn llawen.

Ewythr Twm Siôn Cati sydd mewn trybini yn y nofel <u>Dial o'r Diwedd</u> (1968) a hynny oherwydd bod Syr Thomas Llwyd, ysgweier lleol, am brynu darn o'i dir. Nid yw Siôn Morys am werthu'r tir ac felly mae'n rhaid i'r uchelwr gyhuddo Siôn o ddwyn ei hwrdd. Aiff ei fab Arthur i ddweud yr holl hanes wrth Twm a llwydda yntau i gasglu criw ynghyd i fynd at blas Syr Thomas i'w ddychryn. Fel y mae Syr Thomas am arwyddo llythyr i brofi nad yw Siôn Morys yn euog daw Morgan yr Osler, gŵr mud a diniwed, i'r ystafell gan geisio ymosod ar Twm. Yn awr mae Syr Thomas am waed Twm am feiddio ei fygwth ond caiff yr arwr loches gan Ianto'r Gwehydd mewn pentref cyfagos.

Daw efeilliaid y gwehydd i Blas Dolau i ddweud wrth Eluned Prys bod Twm yn ddiogel ac i ofyn iddi anfon Dart ato. Arthur yw'r bachgen ffodus sydd yn cael marchogaeth y ceffyl ond cyn iddo gyrraedd cartref Ianto caiff ei ddal gan Morgan yr Osler a chaiff y ceffyl ei erlid i blas Syr Thomas. Penderfyna ef bod rhaid iddo ddianc i Lundain ac wedi i Twm a nifer o wŷr yr ardal ymosod ar y plas nid ydynt yn darganfod yr ysgweier ac mae ei

stiward eisoes ar ei ffordd i'r carchar i brofi euogrwydd Siôn Morys. Gan farchogaeth Dart llwydda Twm i ddal y stiward a chyfeddyf mai Morgan a roddodd yr hwrdd ar dir Siôn ac felly caiff tad Arthur ei ryddhau. Yn nwy bennod olaf y nofel cawn hanes priodas Twm Siôn Cati ac Eluned Prys ac felly ceir y diweddglo y bu hir ddisgwyl amdano.

Cyfaddefodd T. Llew Jones mai cwbl ddychmygol yw'r holl hanesion am Twm Siôn Cati oherwydd nad oes llawer o straeon wedi aros ar gof a chadw am y gŵr. Ceisiodd wneud gwaith ymchwil ond methiant fu ei ymgais, fel y dywed yn Llais Llyfrau:

> Ond yr oedd y cymeriad a oedd yn dod i'r golwg yn y storiau hyn yn rhy fach a di-sut at fy mhwrpas i. Troi wedyn at y Bywgraffiadur a darllen fel hyn...'Thomas Jones (neu Twm Siôn Cati) (1530-1609) tir feddiannwr, hynafiaethydd ... bardd ... yn ŵr bonheddig o sefyllfa mewn cymdeithas'.
> Nid oedd y cyfan yn werth dim i mi! Felly dyma benderfynu defnyddio'r enw'n unig, a llunio fy arwr fy hun a'i roi i fyw mewn canrif arall. [19]

Gellir dweud mai'r stori antur, ac nid y stori hanes, oedd yn mynd â bryd T. Llew Jones wrth ymdrin â Thwn Siôn Cati oherwydd hap a damwain fu hi i Twm gael ei osod yn ail hanner y ddeunawfed ganrif.

Stori a fu'n cronni ym meddwl T. Llew Jones am flynyddoedd lawer yw Un Noson Dywyll (1973), byth oddi ar iddo glywed ei

brifathro yn ysgol Capel Mair yn adrodd pennod gyntaf rhyw nofel iddo. Yn y rhagair i Un Noson Dywyll eglura'r awdur gefndir ei chreu:

> Dim ond y bennod gyntaf o'r stori honno a glywais i...Roedd hi'n sôn am ddyn ar gefn ceffyl yn dod ar noson dywyll, stormus at un o'r tollbyrth oedd mor niferus ar ffyrdd Cymru gynt, ac yn gadael baban bach yng ngofal ceidwad y tollborth ac yna'n diflannu i'r nos.
>
> Am hanner can mlynedd fe fum i'n ceisio dyfalu beth ddigwyddodd i'r baban bach hwnnw...
>
> Yna, ryw flwyddyn yn ôl...fe benderfynais fy mod i'n mynd ymlaen â'r stori fy hunan...
>
> Erbyn hyn, ar ôl digwydd cwrdd â'm hen ysgolfeistr...fe wn mai Anthropos oedd awdur y stori a'm cyffrôdd gymaint pan yn blentyn. [20]

Y Golud Gwell. Adlais o'r Dyddiau Gynt oedd enw'r nofel gan Anthoropos a chafodd ei chyhoeddi ym 1910. Mae dechrau'r nofel hon a nofel T. Llew Jones yn hynod debyg, yn wir yr un yw enwau'r cymeriadau; Tomos Llwyd, Gwenni ac Arthur yn Y Golud Gwell a Tomos Wiliam, Gwen ac Arthur yn Un Noson Dywyll. Gellir dweud bod pedair pennod gyntaf nofel Anthropos yn cyfateb i bum pennod gyntaf nofel T. Llew Jones. Yn y penodau hynny daw gŵr diethr at dollborth Pont y Glyn gan adael plentyn ifanc gwallt cyrliog yno dros nos. Ond ni ddaw i'w nôl fore trannoeth a phan ddaw Tomos i'r beudy gerllaw i chwilio amdano gwêl lythyr wedi ei osod yn y lantern. Yn y llythyr dywedir mai Arthur yw enw'r

plentyn a gofynna'r gŵr dieithr i Tomos gymryd gofal o'r plentyn am gyfnod byr ac os bydd angen arian arno yna mae i ddefnyddio peth o'r arian sydd yn y god ledr. Ynddi mae ugain papur pum punt.

Nid yw Tomos yn fodlon bod y plentyn yn aros yn y tollborth gan fod cynifer o bobl yn mynd heibio ac felly pan ddaw ei chwaer Catrin Puw ato gofynna iddi hi a'i gŵr Ifan edrych ar ôl Arthur yn eu cartref, Yr Hafod. Ceir peth gwahaniaeth yma rhwng y ddwy nofel oherwydd yn Y Golud Gwell Y Foty yw enw cartref Catrin Puw a Rhobet yw enw ei gŵr. Mae eu cefndir yr un fath yn y ddwy nofel; bu iddynt hwy golli eu plentyn ac felly mae Catrin yn fodlon derbyn Arthur er na chafodd gyfle i ofyn barn ei gŵr. Ond crêd Tomos na fyddai ef yn grwgnach gan ei fod yn gwrando ar bopeth a ddywed ei wraig. Cyn gynted ag yr aiff Arthur i'r Hafod, neu'r Foty, daw rhywrai i'r tollborth gan chwilio drwy'r cypyrddau ond nid oes dim iddynt yno. Wedi hyn penderfyna Tomos bod yn rhaid iddo adael ei gartref.

Hyd yn hyn mae'r ddwy stori yn union yr un fath a gellir dweud bod T. Llew Jones wedi dilyn rhediad nofel Anthropos yn agos iawn. Yn wir ar brydiau mae geiriad y ddwy nofel yn union yr un fath, ac eithrio peth diweddaru ar yr orgraff gan T. Llew Jones. Yn y ddau ddyfyniad canlynol gellir gweld y tebygrwydd yn glir. Daw'r dyfyniad cyntaf o bennod agoriadol Y Golud Gwell a'r ail o Un Noson Dywyll. Er bod T. Llew Jones wedi ychwanegu ambell frawddeg i gryfhau'r arddull fe hepgorwyd y brawddegau rheini yn y dyfynnu er mwyn pwysleisio'r tebygrwydd.

Ar noson dywell, aeafol, yn y flwyddyn 18__, yr oedd Tomos Llwyd, ceidwad y 'tyrpeg', a adwaenid ar lafar gwlad fel 'Tyrpeg Pont y Glyn', yn pendwmpian wrth y tân, pan y tybiai ei fod yn clywed llais oddiallan yn galw,-

'Gate!'

Rhoddodd oleu yn y lantern gorn, ac agorodd y drws; ond daeth pwff o wynt heibio, a diffoddwyd y ganwyll. 'Na hidiwch ddim am y goleu,' ebai'r llais yn y tywyllwch,- 'Dowch ymlaen yma. 'Does dim amser i'w golli.' [21]

Un noson dywyll fel y fagddu, yn nyfnder gaeaf, roedd Tomos Wiliam, ceidwad tollborth Pont-y-Glyn, yn Sir Benfro, yn pendwmpian wrth y tân...

Yr oedd ar fin diffodd y golau a throi i'r 'cae nos', pan glywodd sŵn carnau ceffyl ar y ffordd tu allan, ac yna gwaedd fawr uwchlaw sŵn y storm.

'Gate!'

Cydiodd yn y lantarn oddi ar y bwrdd...Cyn gynted ag y rhoddodd gam dros y trothwy daeth pwff sydyn o wynt a diffodd y gannwyll yn y lantarn.

'Paid hidio am y golau, does dim o'i angen e!' gwaeddodd llais o'r tywyllwch. [22]

Ni ellir gwadu nad yr un yw'r ddau ddarn yn eu hanfod.

Wedi i Tomos adael Pont y Glyn mae'r hanesion yn gwbl

wahanol. Yn Y Golud Gwell nid yw Arthur yn dod i wybod am ei gefndir am nifer fawr o flynyddoedd. Caiff ei fagu gan Catrin a Rhobet Puw fel eu plentyn hwy a phan ddisgleiria yn yr ysgol defnyddir yr arian yn y god ledr i'w anfon i ysgol yn Lloegr. Daw gŵr o'r enw Michael Sullivan i chwilio am Arthur gan fod y gŵr ar gefn y ceffyl wedi marw. Caiff Arthur hawlio ei etifeddiaeth yn Iwerddon ar yr amod ei fod yn troi at Babyddiaeth ac yn newid ei enw i Arthur Pattison, cyfenw'r teulu. Arthur yw'r unig un sydd yn darllen y llythyr a fu dan sêl am gyhyd ac felly pan dafla'r llythyr i'r tân nid oes neb, ac eithrio ef, yn gwybod am ei gefndir. Mae felly'n gwadu ei hawl i'w etifeddiaeth ac yn parhau i fod yn ŵr rhinweddol gan fod yn genhadwr ar y gororau. Drwy gydol ail hanner y nofel mae sawl cymeriad yn adrodd emynau a phan mae'n rhaid i ferch o gefn gwlad Cymru symud i Loegr ceir sentimentaliaeth bur wrth iddi hiraethu am ei chynefin. Er bod dechrau cynhyrfus iawn i'r nofel troi at themâu crefyddol, fel y gwnaeth sawl awdur o weinidog Cymraeg yn y gorffennol, y mae Anthropos.

Megis cychwyn y mae'r antur wrth i Tomos adael Pont y Glyn yn nofel T. Llew Jones. Roedd Catrin Puw wedi mynnu darllen y llythyr dan sêl yn y waled ledr ac felly daw Tomos i wybod mai etifedd Plas Dôl y Brain yw Arthur. Bu farw ei fam a Syr Henri Rhydderch, ei daid, o'r frech wen. Daethai ei fam adref o'r Iwerddon pan glywodd fod ei thad yn wael a chyn iddi hi ddychwelyd credodd Harold Mansel, nai Syr Henri, mai ef fyddai'n etifeddu'r cwbl. Ond dychwelodd y ferch gyda mab bychan, sef Arthur, ac oherwydd ei gasineb tuag at yr etifedd newydd penderfyna Harold bod yn rhaid ei wared. Dyna paham y bu i'w

ewythr Patrick, brawd tad Arthur, ei achub o'r plas a'i adael yn y tollborth.

Gan wybod hyn penderfyna Tomos fynd i Blas Dôl y Brain i geisio gwybodaeth ychwanegol. Yno gwêl Ruth, cyn nyrs mam Arthur, a dywed wrthi bod y bachgen yn hollol saff. Cyfeddyf hithau bod ewyllys newydd Syr Henri yn ei gofal ond pan wêl Harold Mansel bod Tomos a Ruth yn gyfeillion mae'n cloi Ruth yn ei hystafell. Trwy dwyll llwydda Tomos i gyrraedd ei hystafell a chael yr ewyllys ganddi cyn dianc o'r plas. Dychwela i'r Hafod, cartref Catrin, ac yno mae Patrick wedi iddo ddarganfod cuddfan Arthur. Penderfynant fynd i weld cyfreithiwr yng Nghaerfyrddin a chred ef ei bod yn well iddynt ymosod ar y plas er mwyn hawlio'r etifeddiaeth a chyda chymorth Merched Beca caiff Arthur feddiant ar Blas Dôl y Brain. Ond, gan ei fod yn ifanc, ni all ofalu am yr ystad ac felly mae'n rhaid i Patrick aros yno hyd nes y bydd Arthur yn dod i oed. Rhy gynnig i Tomos a Gwen, ei ferch, aros yno a chael swyddi bob un, y naill i ofalu am y bachgen ifanc a'r llall i drin y gerddi. Cytuna'r ddau a cheir awgrym cryf bod Patrick a Gwen am briodi cyn bo hir. Ceir diweddglo hapus yma felly gydag Arthur yn cael ei etifeddiaeth, yn wahanol i'r Arthur yn nofel Anthropos.

Wrth gymharu'r ddwy nofel drwyddynt draw mae'n amlwg nad oes tebygrwydd ynddynt ac eithrio yn y golygfeydd cyntaf, sef y penodau agoriadol. Ond, yn ôl cyfaddefiad T. Llew Jones ei hunan, y bennod gyntaf yn unig a glywodd gan ei gynbrifathro. Efallai bod y prifathro wedi darllen pedair pennod ar un gwynt ac felly gallai T. Llew Jones fod wedi tybio iddo glywed un bennod

yn unig. Ond os gwir yw hyn mae'r tebygrwydd yn rhyfeddol o ystyried bod hanner can mlynedd wedi mynd heibio rhwng yr amser y clywodd y stori a phan orffennodd hi ei hun. Sylwodd Siân Teifi ar hyn a meddai:

> **...ond mae'r tebygrwydd yn syfrdanol, a hynny am lawer iawn mwy na phennod gyntaf Y Golud Gwell. Naill ai mae ganddo gof arbennig o dda, a'r gallu i rag-weld digwyddiadau'r penodau sy'n dilyn, neu mae'n bosib iddo ddarganfod copi o'r llyfr cyn cyhoeddi Un Noson Dywyll.**
>
> [23]

Nid oes neb yn hoffi cyhuddo awdur o lenladrata ac yn arbennig pan wneir hynny ar gam ac felly, er bod tebygrwydd rhwng y ddwy nofel, ni ellir dweud yn bendant bod T. Llew Jones yn euog o addasu nofel Anthropos. Yn wir cam gwag fyddai ceisio honni hynny gan fod diwedd y ddwy nofel mor wahanol i'w gilydd. Mae'n amlwg bod T. Llew Jones yn ddisgybl galluog iawn yn yr ysgol a bod ei ddiddordeb mewn llenyddiaeth yn rhyfeddol hyd yn oed pan oedd yn ifanc. O'r herwydd gallasai'n hawdd fod wedi cofio enwau'r cymeriadau, enw'r tollborth, swm yr arian a phlot cyffredinol penodau agoriadol Y Golud Gwell. Gyda'i ymennydd treiddgar ef hawdd yw credu bod y ffeithiau hyn wedi ei swyno am flynyddoedd lawer cyn iddo benderfynu y byddai'n rhaid iddo greu ei ddiweddglo ei hun i'r stori am y baban Arthur.

Mae nofel T. Llew Jones yn rhagori ar nofel Anthropos oherwydd na ddefnyddiodd Anthropos y deunydd a oedd ar gael iddo i'w eithaf. Roedd cnewyllyn stori dda ganddo a gallasai'n hawdd

fod wedi cael llawer mwy o densiwn, fel y gwelwyd ganddo ar ddechrau'r nofel. Yn wir mae'r hanes sydd yn digwydd wedi ymadawiad Tomos o Bont y Glyn yn siomedig gan ei fod yn dibynnu'n hollol ar drosglwyddo syniadau ynglŷn â chrefydd a bywyd rhinweddol. Ni lwyddodd Anthropos i ddiosg ei wisg weinidogol ac felly y neges yn hytrach na'r stori sydd yn cael y lle blaenllaw ganddo, yn wahanol iawn i T. Llew Jones.

Cafwyd cyfeiriad at Ferched Beca ar ddiwedd y nofel Un Noson Dywyll a hanes y terfysgoedd sydd yn mynd â bryd T. Llew Jones yn Cri'r Dylluan(1974). Ar ddechrau'r nofel dychwel Tomos a Sara Bryn Glas o'r farchnad ac oherwydd y prisiau isel a'r holl dollau y bu'n rhaid iddynt eu talu ychydig iawn o bres sydd ganddynt yn weddill. Wrth iddynt nesáu at dollborth y pentref gofynna Mitchell iddynt dalu unwaith eto ac yn ei wylltineb mae Tomos yn dyrnu'r ceidwad. Mynn y sgweiar lleol ddial am hyn a llwydda i berswadio Seth Owen i dystio ei fod wedi gweld Tomos yn teithio o gyfeiriad y tollborth. Mae pawb arall yn cydymdeimlo â Tomos.

Daw dau ddyn dieithr i ymweld â Guto'r gof gan ofyn iddo geisio dwyn dynion ynghyd i ymosod ar giât y pentref. Mae llawer o wŷr yn fodlon ymuno â'i gilydd i greu criw o ymosodwyr. Mae hyd yn oed Huw Parri, nai yr ysgweiar, yn fodlon rhoi help llaw. Caiff ddillad gan Sara Bryn Glas ac mae hynny wrth ei fodd gan ei fod â'i lygaid ar Elin, y ferch. Ond pan nad yw Huw yn ymddangos y noson y caiff rhai o'r gwŷr eu clwyfo gan y fyddin, mae pawb yn amau mai ef fu'n gyfrifol am ddweud wrth y sgweier. Roedd ei fam yn wael iawn ac ni allai ei gadael wedi iddi lewygu ar y llawr.

Daw'r meddyg ati yn y bore a thrwy ddod ag Ifan Bryn Glas, un o'r rhai a glwyfwyd, i gartref Huw Parri gall y meddyg gadw golwg arno yntau heb i wŷr y gyfraith wybod bod Ifan yn un o Ferched Beca.

Gan fod Huw wedi siomi Merched Beca caiff ei alw o'u blaenau i ffug lys. Yno mae Twm Carnabwth, un o wŷr blaenaf y mudiad, ac eraill yn mynnu bod angen cosbi Huw ond dywed Tomos y modd y bu i Huw gymryd Ifan i'w gartref a chaiff ei ryddhau. Roedd arweinydd Merched Beca yno a sylweddolodd Tomos mai'r cyfreithiwr a oedd yn ei amddiffyn yn y llys ydoedd. Roedd y cyfreithiwr am gadw ei ymwneud â'r mudiad yn gyfrinach ac felly roedd yn rhaid iddo ryddhau Huw yn ddi-gosb. Dywed Ben Ifans, un o wŷr y pentref, wrth Tomos mai ei wraig ef fu'n gyfrifol am ddweud wrth y sgweiar ond nid yw Tomos yn dal dig tuag ato. Ymhen amser cafwyd gwared o giât y pentref a sawl giât arall. Gwellodd Ifan a phriodwyd Elin a Huw ac felly bu'r wraig newydd yn edrych ar ôl ei mam yng nghyfraith yn ei gwaeledd.

Hanes ysmyglwyr yn yr ardal honno a elwir erbyn heddiw yn Banc Siôn Cwilt sydd yn y nofel Dirgelwch yr Ogof(1977). Fe'n cyflwynir i Watcyn Parri, ysgweiar lleol Cwmtydu a gŵr sydd yn garedig iawn tuag at ei denantiaid. Clyw fod llong o'i eiddo wedi suddo ac o'r herwydd mae'n wynebu methdaliad gan ei fod wedi benthyg arian yn helaeth i brynu cargo i lenwi'r llong. Aiff Harri, ei fab, i Lundain i geisio arian gan ei fodryb ond nid oes modd iddi hi ei helpu. Ni chawn ychwaneg o hanes Watcyn Parri a throsglwyddir y stori i'r pentref pan gaiff Mari Fforin, Llydawes sydd yn cadw'r dafarn, ymweliad gan ŵr wedi ei wisgo mewn côt

gwiltiog a gŵr sydd yn galw ei hun yn Sion y Cwilt. Mae arno ef angen cymorth Mari gydag ymgyrch smyglo enfawr ar hyd yr arfordir.

Gan fod yr ymgyrch mor llwyddiannus anfonir dau o wŷr y gyfraith i Gwmtydu. Ond, er gwaethaf presenoldeb Bart Thomson a'i was Walter Moses, parhau mae'r smyglo. Maent yn cynnig arian i unrhyw un sydd yn fodlon rhoi gwybodaeth iddynt a chan fod Wil Gaer Ddu yn hoffi Liwsi, merch Mari, ond ei bod hithau'n caru un arall mae'n penderfynu dial ar y teulu. Dywed wrth Bart Thomson ei fod wedi gweld Sion y Cwilt yn arwain ceffylau i gyfeiriad Talgarreg. Penderfyna Thomson gadw gwyliadwraeth gerllaw'r Eglwys a phan wêl olau yno cred ei fod wedi taro ar y smyglwyr, ond y ficer sydd yno yn paratoi ar gyfer y Sul. Fodd bynnag pan â'r ddau swyddog ymaith daw gwŷr eraill o'r Eglwys a drannoeth nid yw'r ficer yn holliach ac felly rhaid cloi'r Eglwys a gohirio'r gwasanaeth.

Mynn Wil mai yn yr Eglwys y mae'r nwyddau yn dod i dir sych a phenderfyna fynd yno i fusnesa. Darganfydda'r llwybr dirgel ac wrth gerdded ar ei hyd caiff ei wthio i'w gwaelod ac yno y mae wedi brifo. Nid yw'r ficer yn fodlon gwella ei glwyf hyd nes y mae Wil yn addo na ddywed yr un gair wrth Thomson a Moses. O'r herwydd ni chaiff y smyglwyr eu dal a phan ddaw'r gaeaf penderfyna Sion y Cwilt na fynn beryglu bywydau trigolion y pentref rhagor. Caiff ei gôt gwiltiog ei llosgi yng nghartref Mari Fforin ac yno y deuir i ddeall mai Harri Parri, mab yr ysgweiar, oedd Sion y Cwilt a thrwy smyglo ceisiai gael arian i dalu dyledion ei dad rhag iddynt golli y Glasgoed, eu cartref.

Nid yw'r stori yn gorffen yma oherwydd dywed Harri wrth Mari ei fod am briodi ei merch ond mae hi'n gwrthod rhoi ei chaniatâd. O'r herwydd aiff Harri at Lowri Rhydclomennod, un o ferched mwyaf cefnog yr ardal, a gofyn iddi hi ei briodi ac er mawr ryddhad iddo mae'n ei wrthod. Fodd bynnag daw achubiaeth i'r plas gan fod chwaer Watcyn am symud atynt, o Lundain, wedi marwolaeth ei gŵr ac felly gall ddefnyddio ei harian i dalu'r dyledion. Yn awr gall Harri fynd i Lydaw ar ôl Liwsi Fforin a gofyn iddi hi ei briodi a chânt ganiatâd ei mam i wneud hynny. Dychwelant i'r Glasgoed sydd bellach yn gartref hapus dros ben.

Hyd yn hyn cafwyd crynodeb o wyth o nofelau hanes T. Llew Jones ac mae'r ddwy nofel arall sydd yn rhan o'r sylwadau hyn mewn categori ar wahân. Nid ydynt hwy yn nofelau hanes yng ngwir ystyr y gair gan mai nofelau sydd yn cyflwyno ffeithiau hanes ydynt. Er bod nofel hanes yn cyflwyno ffeithiau mae Corn, Pistol a Chwip(1969) ac Ofnadwy Nos(1971) yn wahanol i'r nofelau eraill. Gellir eu galw hwy yn nofelau dogfen hanes gan nad yw'r stori yn bwysig iawn ynddynt a rhoddir y lle blaenllaw i'r ffeithiau hanesyddol. Ond o fanylu ar y ddwy yn unigol fe welir bod mwy o stori yn Corn, Pistol a Chwip nag a geir yn y nofel sydd yn ymdrin â hanes llongddrylliad y Royal Charter.

Hanes pedwar person yn teithio o Lundain i Fangor ar goets fawr y Mêl a geir yn Corn, Pistol a Chwip. Mae'r Capten Lewis William yn dychwelyd i Fangor wedi iddo fod yn gweithio yn Llundain ac mae Arthur Ifan yn dychwelyd i Fôn wedi cyfnod o ddwy flynedd fel cyw gyfreithiwr ym mhrifddinas Lloegr. Ar du allan y goets yr eistedda'r ddau a chan fod y capten yn hollwybodus am

hanes y goets caiff adrodd y cwbl a ŵyr wrth Arthur. Mam a merch yw'r ddwy arall sydd yn teithio ar y goets. Mae Mrs. Elen Parri ac Olwen ar eu ffordd i'r Iwerddon i dreulio'r Nadolig gyda Mr. Parri. Cyn bo hir oera'r tywydd ac wrth iddo bendwmpian disgynna Arthur oddi ar y goets. Mae'n rhaid i'r mêl aros amdano ac yn y dafarn nesaf caiff y capten ac Arthur gyfle i newid eu seddi gan deithio y tu mewn i'r goets gyda'r ddwy wraig. Yn awr ac yntau â gwell cynulleidfa mae'r capten yn mynd ati i adrodd mwy o helyntion y goets.

Erbyn iddynt gyrraedd Betws-y-Coed mae'r tywydd yn ddifrifol ac er mwyn teithio i fyny'r bwlch, drwy'r eira, i gyfeiriad Capel Curig mae'n rhaid i'r gyrrwr gael chwe cheffyl yn hytrach na'r pedwar arferol. Mae'r teithwyr yn gwrthod aros dros nos mewn tafarn yng Nghapel Curig ac wedi'r holl drafferth llwyddant i gyrraedd pen y bwlch. Yn awr caiff y ddau geffyl ychwanegol ddychwelyd i Fetws-y-Coed gan nad oes eu hangen i fynd ar y goriwaered. Ond wrth fynd i lawr Nant Ffrancon y cânt yr helynt gwaethaf ac mae'n rhaid gadael y goets yno yng nghanol lluwch eira tra mae'r pedwar yn mynd i gyfeiriad tafarn Glan Llyn. Bore trannoeth caiff y capten fynd i Fangor a'r tri arall groesi'r bont newydd tros y Fenai.

Er bod stori yn cael ei hadrodd drwy gydol y nofel, arwynebol iawn yw'r plot. Pedwar cymeriad yn unig sydd yn y nofel mewn gwirionedd ac mae tri o'r rheini yn eistedd yn dawel yn gwrando ar y capten yn siarad yr holl ffordd o Lundain i Nant Ffrancon. Mae'n amlwg bod T. Llew Jones wedi darganfod nifer fawr o ffeithiau, ac mae'n rhaid dweud bod rheini gan amlaf yn

ddiddorol, a thrwy greu nofel fel Corn, Pistol a Chwip cafodd y cyfle i gyflwyno'r ffeithiau i'r darllenwyr.

Nid nofel mo Ofnadwy Nos o gwbl oherwydd yn y llyfr adroddir hanes llongddrylliad y Royal Charter ar arfordir Moelfre ym 1859. Cyflwynir yr hanes ar ffurf traethawd ffeithiol gan gyfeirio at y niwed a achoswyd gan y storm ofnadwy ar hyd arfordiroedd Cymru a Lloegr. Yna cyfeirir at fordaith gyntaf y Royal Charter cyn adrodd hanes y noson drychinebus a'r gwaith mawr a wnaeth y Parchedig Stephen Roose Hughes am fisoedd wedi'r llongddrylliad. Wrth ddarllen y llyfr gellir yn hawdd gweld bod T. Llew Jones wedi gwneud gwaith ymchwil aruthrol cyn mynd ati i ysgrifennu oherwydd ceir cyfeiriadau at bapurau newydd, cylchgronau, llythyrau a nodiadau swyddogol o'r cyfnod. Mae'r gwaith yn sylweddol iawn ac yn werth ei ddarllen. Mewn adolygiad o'r llyfr dywedodd J. Ellis Williams na ddylai llenor gyfyngu ei ysgrifennu i un ffurf yn unig ac wrth ehangu ei orwelion llwyddodd T. Llew Jones i adrodd yr hanes mewn arddull hynod ddiddorol:

> **Cafodd T. Llew Jones hwyl ar ddweud stori'r llong am fod y môr yn ei waed; cafodd hwyl ar ddweud stori'r aur am ei fod yn adnabod gwerin cefn gwlad; ac fe gafodd hwyl ar ddweud y ddwy stori am ei fod yn llenor sydd yn parchu ei grefft.** [24]

Gan nad yw Ofnadwy Nos yn nofel hanes ni fydd sylwadau pellach yn cael eu cyfeirio tuag ati yn yr astudiaeth hon.

Wrth fanylu ar y nofelau gellir gweld bod yr un themâu yn

ymddangos yn aml yng ngwaith T. Llew Jones. Mae anghyfiawnder cymdeithasol yn nodwedd amlwg iawn, yn arbennig y tyndra rhwng y tlodion a'r cyfoethog. Estyniad o'r syniad yma yw'r stori am geisio etifeddiaeth, wedi i hwnnw gael ei ddwyn ar gam. Yn Trysor y Môrladron cafodd Richard Llwyd ei ddwylo ar ystad Harri Morgan tra bod Barti yn colli ei wraig a'i eiddo yn Barti Ddu. Adfer ei hawl i Blas Dôl y Brain a wna Arthur yn Un Noson Dywyll ac yn Dirgelwch yr Ogof ceisia Harri Parri gael arian ynghyd rhag bod ei gartref yn mynd i ddwylo estron. Er mwyn adfer etifeddiaeth neu wella sefyllfa gymdeithasol mae sawl cymeriad yn herio'r drefn gyfreithiol. Môrladron yw Harri Morgan a Barti Ddu a môrladron sydd yn herio'r drefn i'w heithaf ydynt. Mae Merched Beca yn ymddangos mewn dwy nofel ac nid rhai am gadw at y gyfraith oeddynt hwy, mwy nag y mae holl bentrefwyr Cwmtydu yn Dirgelwch yr Ogof. Twm Siôn Cati yw'r cymeriad arall sydd byth a beunydd mewn helynt. Ond, er bod yr holl gymeriadau yn herio'r drefn, maent i gyd yn ennyn edmygedd T. Llew Jones. Ni chaiff yr un ohonynt eu cosbi gan eu bod yn llwyddiannus dros ben wrth geisio dileu'r anghyfiawderau yn eu bywydau.

Beirniadwyd Elizabeth Watkin Jones am gynnwys mân ffeithiau hanesyddol yn unig yn ei nofelau ac o'r herwydd rhoddir yr argraff mai nofelau mewn gwisg ffansi hanes ydynt [25]. Ond wrth fanylu ar nofelau T. Llew Jones gellir dweud bod yr un bai yn ei waith ef oherwydd prin yw'r cyfeiriadau at ddigwyddiadau o bwys yn ein gorffennol. Yn hytrach, awyrgylch gyffredinol y mae'r awdur yn ei gyflwyno i'r darllenwyr yn bennaf ac yn hyn o beth mae'n rhagori ar yr awduron cynnar.

Fel y gwelwyd mae un nofel yn llawn ffeithiau hanesyddol ac o'r herwydd mae hi'n hollol wahanol i weddill nofelau T. Llew Jones. Yn Corn, Pistol a Chwip cyflwynir ffaith ar ôl ffaith ar ol ffaith. Enwir rhai o yrrwyr enwocaf y mêl, eu cyflog, eu gwaith, hanes sefydlu'r mêl, cost teithio arni, amgylchiadau'r teithwyr arni, hanes adeiladu pont Telford a'r fferi a arferai gludo pobl cyn hynny a llawer mwy. Mae'r stori yn frith o ddyddiadau a ffigyrau ac er bod y ffeithiau'n cael eu cyflwyno'n eithaf diddorol, drwy gyfrwng sgwrs rhwng Capten Lewis William a'r teithwyr eraill, gellir dweud bod yma ormod o hanes a dim digon o stori.

Ymhlith y cyfeiriadau hanesyddol pendant a geir yn y nofelau eraill enwi brenin, prifweinidog neu weinidog yn y llywodraeth a wneir yn aml iawn. Siarl II yw'r brenin yn Trysor y Môrladron ond erbyn dyddiau hwylio Barti Ddu Anne sydd ar yr orsedd a chyfeirir at y rhyfel rhyngddi hi a Sbaen. Yn wir dyna'r rheswm paham y bu i Barti gael ei gipio gan y 'press'. Prifweinidog yw'r cymeriad hanesyddol arall a enwir, sef yr Arglwydd North yn un o nofelau Twm Siôn Cati. Yn Ymysg Lladron mae cyfnither Ledi Eluned yn wraig i George Courteney ac yntau'n ysgrifennydd personol i'r prifweinidog. Er mwyn egluro i'r darllenydd pwy yn union yw'r Arglwydd North mae Megan Courteney yn siarad amdano fel a ganlyn:

> 'Ond, cariad! Fe fydd pawb - bydd pawb - ym mhlas Lord North heno! Dyna lle mae George druan, er saith o'r gloch y bore 'ma, yn trefnu ar gyfer y 'Ball' flynyddol. Fe wyddost wrth gwrs, Eluned mai Lord North

yw'r Prif Weinidog?'

Gwenodd y Ledi Eluned. 'Wrth gwrs.'

'Wel, dyna ti 'te. A wyddost ti mai George yw 'i Ysgrifennydd Preifat e?' [26]

Drwy'r sgwrs yma caiff darllenwyr wybodaeth am wŷr pwysig gweinyddiaeth y cyfnod a thrwy hyn dônt i ddeall sut y llwydda Twm i gael ei draed yn rhydd am ddiwrnod ychwanegol er mwyn dal y gwir lofrudd.

Caiff ambell gymeriad hanesyddol Cymreig ei enwi yn y llyfrau, yn arbennig yn y llyfr sydd yn ymwneud â helyntion Beca. Enwir y cyfreithiwr sydd yn amddiffyn Tomos Bryn Glas yn Cri'r Dylluan fel Hugh Williams a'r un yw'r enw sydd yn cael ei grybwyll pan benderfyna Gwen a Patrick fynd at gyfreithiwr i hawlio etifeddiaeth Arthur yn Un Noson Dywyll. Yn ôl yr hyn a ddywedir am Hugh Williams yn y Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru roedd yn gweithio yng Nghaerfyrddin wedi 1822 a **'chredir mai ef oedd y trefnydd y tu ôl i Helyntion Beca a bu ganddo gysylltiad â Siartiaeth ac yn amddiffyn rhai terfysgwyr yn yn llys.'** [27]. Mae'n bur debyg mai ef fyddai'r gŵr a gymerai'r dasg o geisio amddiffyn trueiniaid yr ardal. Yn y nofel Cri'r Dylluan fe'n cyflwynir hefyd i'r gŵr a oedd, yn ôl hanesion lleol, yn un o'r rhai a faluriodd glwyd tollborth yr Efail-wen, y glwyd gyntaf i gael ei thorri gan Ferched Beca. Daw Twm Carnabwth i ymweld â Guto'r gof gyda gŵr dieithr ac ar ddiwedd y nofel cawn wybod mai Hugh Williams oedd y gŵr hwnnw. Felly, yn ystod y nofel fe gyflwynir y darllenydd i'r ddau ŵr a oedd, yn ôl y sôn, yn brif sefydlwyr y mudiad Merched Beca.

Drwy grybwyll cymeriadau megis brenin neu frenhines y cyfnod dan sylw, neu ŵr fel yr Arglwydd North, y prifweinidog, gosodir y cefndir hanesyddol i'r darllenydd yn ogystal â'i gyflwyno i rai o enwogion y dyddiau hynny. Ond wrth ddwyn rhai o wŷr pwysig i wead y plot â T. Llew Jones gam ymhellach na chrybwyll enwau yn unig. Gan fod Hugh Williams a Thwm Carnabwth yn gymeriadau hanesyddol mae eu cyflwyno yn y straeon yn cyfoethogi'r nofelau. Wrth gwrs roedd hi'n haws gwneud hyn â chymeriadau Cymreig oherwydd petai T. Llew Joens wedi ceisio cael yr Arglwydd North, dyweder, i siarad yn bersonol â Thwm Siôn Cati gellid dweud y byddai hynny'n gwbl annhebygol. Sylweddolodd yr awdur fod canllawiau y mae'n rhaid eu dilyn wrth ysgrifennu nofelau hanes a llwyddodd T. Llew Jones gan ei fod wedi cadw atynt. Drwy blethu cymeriadau o gig a gwaed go iawn gyda deunydd dychmygol y plot gwelir y nofel hanes ar ei gorau ac yn Cri'r Dylluan mae hyn i'w weld yn glir.

Nid oes unrhyw gyfeiriadau eraill at ddigwyddiadau neu gymeriadau pendant yn y nofelau a chreu awyrgylch gyffredinol y cyfnodau a wneir gan weddill y cyfeiriadau. Wrth sôn am y cartref crybwyllir defnyddio canhwyllau ac yn Dial o'r Diwedd cyfeirir at do gwellt cartref Elen Tŷ Clotas a'r modd y lleda'r fflamau'n sydyn yn y math hwnnw o do:

> **Cydiodd yr hen wellt sych ar unwaith. Yna yr oedd y fflamau'n dringo i'r awyr a mwg gwyn yn gymylau rhyngddynt a'r awyr. Cyn pen fawr o dro yr oedd y top i gyd ar dân.** [28]

Nid oes llawer o ddisgrifio'r dillad a'r bwydydd y mae trigolion y cartrefi yn eu gwisgo a'u bwyta. Pan ddaw milwyr i'r ardal fe nodir eu bod hwy yn gwisgo lifrau arbennig, a rheini gan amlaf o liw coch, megis '...**milwyr yn eu cotiau cochion a'u trowsus liw [sic] hufen...**' [29] a dillad coch sydd gan filwyr Sbaen, yn ogystal, yn Trysor y Môrladron. Pan geir disgrifiad o wisg briodasol Eluned ar ddiwedd Dial o'r Diwedd nid ydyw mor wahanol i'r hyn a ddarllenir mewn papurau y dyddiau yma:

> **Gŵn sidan o liw melyn cyfoethog oedd amdani a honno'n cyrraedd hyd y llawr. Am ei chanol yr oedd gwregys lydan o sidan glas, trwchus a dau pen [sic] hwnnw'n hongian i lawr bron hyd y llawr hefyd. Ar ei mynwes yr oedd dolen o'r sidan glas eto, ac o gylch ymylon ei gŵn i gyd yr oedd gwaith brodwaith costus a thlws dros ben. Ar ei phen gwisgai het uchel a phluen fawr drosti yn ôl ffasiwn y cyfnod.** [30]

Yr hyn sydd yn gosod T. Llew Jones ar ris uwch nag Elizabeth Watkin Jones yw'r gallu sydd ganddo i ddisgrifio bywyd y tlodion. Nid oedd y garfan hon o gymdeithas yn mynd â bryd yr awdures o Ben Llŷn ond drwy gyfeirio at y sefyllfa fregus rhwng y tenant a'r ysgweier caiff y darllenydd ddarlun cyffredinol o'r anawsterau a wynebai pobl ers talwm. Ymhob un o'r nofelau, ac eithrio Barti Ddu a Corn, Pistol a Chwip, mae ysgweier lleol yn rhan o'r stori ac maent naill ai yn hynod garedig neu'n hynod greulon wrth drin eu tenantiaid. Weithiau ceir y ddau fath o ysgweier yn yr un nofel, megis Trysor y Môrladron; Harri Morgan yw'r un caredig tra bod Richard Llwyd yn feistr tir cas dros ben.

Yn nhair nofel Twm Siôn Cati ceir cymysgedd o'r da a'r drwg. Roedd Syr Harri Prys yn garedig, gan adael i Twm a'i fam aros yn eu tyddyn yn rhad ac am ddim, ond pan ddaw Syr Anthony, ei fab, i'w etifeddiaeth mynn ef hawlio rhent. Ar ei ôl ef daw'r plas i ddwylo caredig Eluned Prys, ei weddw. Pan geir ysgweier caredig mae'r trigolion yn fodlon ei helpu yntau yn ei drafferthion, megis yn Dirgelwch yr Ogof ond ennyn casineb a wna ysgweier didrugaredd, megis yn Cri'r Dylluan. Drwy ddangos y gwahaniaethau hyn rhy T. Llew Jones flas i ni o deimladau pobl gyffredin tuag at eu meistri tir. Dyma ffordd o ddangos awyrgylch y cyfnod mewn nofel hanes.

Yn ogystal â sôn am y rhenti y mae'n rhaid i'r trigolion eu talu cyfeirir at broblemau ariannol eraill yr oeddent yn eu hwynebu. Problem fawr oedd y taliadau i fynd drwy'r tollbyrth ac ar ddechrau Cri'r Dylluan cwyna Tomos nad oes ganddo lawer o arian yn weddill wedi iddo ef a'i wraig weithio yn galed i gynhyrchu ymenyn a chaws. Yn wir dywed mai pedwar swllt yn unig sydd ganddo ac er nad yw plant y dyddiau yma yn gwybod faint yw gwerth pedwar swllt gallant ddeall nad yw'n llawer oherwydd tôn y sgwrs a'r modd y disgrifir gofidiau Sara, gwraig Tomos:

> Bwyd oedd yr unig ofid y dyddiau hynny - a'r rhent wrth gwrs. Gynt roedd hi wedi bod yn gofidio ble roedd un o'r plant yn mynd i gael dilledyn newydd, neu sut y gallai hi fforddio cael het neu siol iddi hi ei hun...Yn awr nid oedd eisiau gofidio am brynu dillad neu offer ffarm - roedd pethau felly y tu hwnt i'w gafael bellach, felly ffolineb oedd meddwl amdanynt.

Oherwydd hynny doedd dim i boeni amdano ond bwyd - a'r rhent. [31]

Dyma ddangos yn union i'r darllenwyr ifanc pa mor greulon ydoedd bywyd i'r anffodusion yn y gorffennol. Drwy egluro nad oedd modd i Sara brynu dillad i'w phlant dangosir pa mor dlawd oedd y teulu mewn gwirionedd.

Yn ei nofelau caiff T. Llew Jones y cyfle i sôn am alwedigaethau, rhai cyfreithlon ac eraill yn anghyfreithlon, nad ydynt bellach yn bodoli. Ymhlith y rhai cyfreithlon mae'r gwaith a olygai deithio o Gymru i Lundain i dywys anifeiliaid i farchnadoedd megis Smithfield neu Barnet. Rhys Parri yw'r porthmon yn Y Ffordd Beryglus ac wrth i Twm Siôn Cati weithio gydag ef down i wybod am ddull y porthmyn o fyw wrth iddynt deithio cannoedd o filltiroedd. Hefyd sonnir am yr holl waith paratoi a oedd angen ei wneud cyn cychwyn ar y daith. Cyfeirir at y modd y câi'r gwartheg eu nodi er mwyn i'r porthmyn eu hadnabod a'u pedoli rhag i'w traed gael eu clwyfo ar y daith hir. Caiff y daith adref ei chrybwyll gan fod peryglon yn wynebu'r porthmyn ar y daith honno yn ogystal. Gwyddai'r lladron penffordd fod ganddynt arian mawr. Dywed Rhys Parry iddo golli peth o'i arian pan gafodd ei ladrata:

'Rown i'n dod nôl o ffair Barnet lle'r own i wedi gwerthu gwartheg. Trwy lwc rown i wedi gadael hanner yr arian ge's i am yr anifeilied gyda chyfaill, ond roedd gen i, fel y dwedes i, dros ganpunt - arian ffermwyr bach Cymru - mewn cod ledr yn 'y mhoced.' [32]

Drwy adrodd am y digwyddiad yma caiff y darllenydd wybodaeth am y peryglon a wynebai'r porthmon yn ogystal â'r niwed a gâi'r ffermwyr wrth i'w harian gael eu lladrata. Nid y porthmyn yn unig a wynebai broblemau ariannol.

Cyfeiriwyd at un o'r galwedigaethau anghyfreithlon uchod, sef y lladron pen-ffordd. Roeddynt hwy yn frith yn y cyfnod a daw Twm Siôn Cati ar draws mwy nag un ohonynt yn ystod y tair cyfrol, megis Wil Siencyn yn Y Ffordd Beryglus. Yn y nofel honno caiff Twm ei garcharu, ar gam, oherwydd y gred ei fod yn lleidr gyda Wil Siencyn. Eglura Guto'r gof, ei gyfaill, wrtho am y gosb debygol a fyddai yn ei aros a thrwy hyn daw'r darllenydd i wybod nad gŵyr o blaid y gyfraith oedd y lladron pen-ffordd:

> **'Wel, Twm bach, dyn caled yw Syr Tomos, ac ma' gormod o ladron pen ffordd o lawer ar yr hewlydd y dyddie hyn; mae'n debyg y bydd cosb go galed yn eich disgw'l chi.'** [33]

Cyn gorffen trafod y gwahanol alwedigaethau a gaiff eu henwi yn nofelau T. Llew Jones mae'n rhaid sôn am y disgrifiadau a geir o fywyd y môrladron. Dyma garfan arall, fel y lladron pen-ffordd, a oedd yn byw yn anghyfreithlon. Yn y ddwy nofel, Trysor y Môrladron a Barti Ddu, ceir darlun byw iawn o'r bywyd llawn anawsterau a wynebai'r morwyr. Nid yw T. Llew Jones yn ceisio rhamantu'r math o fywyd a gâi'r morwyr ond yn hytrach mae'n disgrifio'r caledi yn ogystal â'r amseroedd hapus. Gwelir pa mor ddibynnol oedd y gŵyr ar yr elfennau oherwydd gallai'r

haul tanbaid losgi eu crwyn tra bod y diffyg awel yn rhwystro'r llong rhag parhau ar ei thaith. Mewn tywydd o'r fath roedd yn rhaid iddynt fod yn ddarbodus gyda'r cyflenwad dŵr ac o'r herwydd dioddefai'r môrladron gyda syched ofnadwy. Ond gallai gormod o wynt a glaw fod yr un mor drychinebus oherwydd ar amseroedd felly roedd perygl i fastiau'r llongau dorri neu, yn waeth, gallai'r llong suddo.

Nid y tywydd yw'r unig fwgan ar y llongau hyn oherwydd roedd y môrladron yn aml yn elynion i'w gilydd. Peth digon cyffredin oedd iddynt fradychu ei gilydd, fel y gwelir ar fwrdd y llong y teithia Barti Ddu arni. Ef yw'r un sydd yn dioddef cosb aruthrol chwip y gath-naw-cynffon ac yn y disgrifiad o'r digwyddiad gwelir pa mor greulon oedd y môrladron tuag at eu cyd-ddyn:

> Camodd John Davies ymlaen â'r gath-naw-cynffon yn ei law...
>
> Gwyliai'r Capten yr olygfa o'r pŵp. Gwelodd y Mêt yn codi ei law dde. Gwelodd gynffonnau'r chwip fawr yn gwingo fel nadredd yn yr awyr. Yna roedden nhw wedi disgyn ar gefn noeth Barti gyda holl nerth braich y Mêt.
>
> Aeth rhyw ias trwy'r dyrfa a oedd yn gwylio wrth weld y gwaed yn tasgu o'r gwrymiau ar gefn llydan Barti lle roedd cynffonnau creulon y chwip wedi disgyn. [34]

Mae'r mwyafrif o blant, ac eithrio'r rhai sensitif iawn, yn hoff o ddarllen am erchyllterau megis yr hanes am gosbi Barti a byddent wrth eu boddau gyda'r disgrifiadau a geir yn Barti Ddu.

Yn ogystal dangosir iddynt pa mor farbaraidd oedd ein cyndadau a'r gobaith yw y bydd hyn yn rhwystr i ddyddiau tebyg ddychwelyd.

Yn ogystal â gosod awyrgylch y gorffennol â T. Llew Jones ati i ddweud yn bendant wrth y darllenydd ym mha flwyddyn y mae'r stori yn digwydd. Brawddeg agoriadol Trysor y Môrladron yw '**Y dydd olaf o Ionawr oedd hi, yn y flwyddyn 1673.**' [35] ac yn Corn, Pistol a Chwip ceir yr un math o ddechreuad: '**Y dyddiad yw'r 22ain o Ragfyr 1826.**' [36] neu ddechrau Dirgelwch yr Ogof: '**Noson stormus yn niwedd Medi 1788 oedd hi...**' [37]. Ond, yn y nofelau sydd yn ymwneud â Thwm Siôn Cati, ar ddiwedd y drydedd nofel y cawn wybod y dyddiad. Ar ddiwrnod priodas Twm ac Eluned dywedir mai '**Y cyntaf o Ionawr 1778 oedd hi...**' [38]. Efallai bod yr awdur eisiau i'r darllenwyr gael cadarnhad o'r dyddiad rhag ofn i ambell ddarllenydd fethu â lleoli dyddiad y nofel drwy'r naws gyffredinol sydd yn cael ei greu drwy'r disgrifiadau.

Yn union fel awduron eraill mae T. Llew Jones weithiau'n methu wrth geisio cyfleu'r gorffennol yn ei nofelau. Ni all anghofio ei fod yn byw mewn cyfnod gwahanol i'r hyn y mae'n ei ysgrifennu amdano. Gwelir y geiriau 'yn ôl ffasiwn y cyfnod hwnnw' fwy nag unwaith. Yn Trysor y Môrladron fe'i gwelir ddwywaith, er mwyn cyfeirio at y bluen yn het Harri Morgan ac at wallt hir, cyrliog Richard Llwyd. Yn Dial o'r Diwedd cyfeirio at y bluen yn het briodas Eluned a wneir gyda'r geiriau. 'Yn y dyddiau hynny' yw'r geiriau a welir yn aml yn Barti Ddu er mwyn nodi'r caledi a oedd yn rhan o fywyd morwyr ar longau rhyfel ac i ddangos mai'r grocbren oedd y gosb am ddwyn defaid yn y

gorffennol. Ceir yr un math o beth wrth i T. Llew Jones sôn am Ynys y Tywysogion, yr ynys y mae Barti yn ymosod arni, oherwydd dywed fod caer fechan ar yr ynys: **'Uwch ben y lanfa ar Ynys y Tywysogion yr oedd, ac y mae o hyd, gaer...'** [39]. Wrth ychwanegu'r geiriau 'ac y mae o hyd' fe atgoffir y darllenydd o'i bresennol. Brawddegau neu gymalau yw'r enghreifftiau uchod ond mewn un nofel ceir paragraff cyfan o gymharu ddoe a heddiw. Cyn i T. Llew Jones fynd rhagddo i adrodd yr hanes yn Un Noson Dywyll ceir y geiriau canlynol:

> **Cyn bod trên na bws na char modur i gludo pobl o le i le, a chyn bod trydan i oleuo'r tai a'r strydoedd a'r ffyrdd...yn y dyddiau hynny - bron gant a hanner o flynyddoedd yn ôl, yr oedd clwydi neu gatiau mawr ar draws y ffyrdd ymhobman; a byddai rhaid i deithwyr ar gefn ceffylau neu mewn cerbyd neu gert dalu am fynd trwyddynt. Gelwid y gatiau hyn yn dollbyrth, ond mewn rhai rhannau o'r wlad gelwid hwy'n gatiau tyrpeg, o'r enw Saesneg 'Turnpike Gates'.** [40]

Dyma ddweud wrth y darllenydd, cyn iddo gael cyfle i flasu'r stori hyd yn oed, ei fod yn darllen am ddigwyddiad yn y gorffennol pell. Ni ddylid annog awduron i wneud hyn oherwydd dylent allu cyfleu naws y gorffennol yn eu hysgrifennu. Llwydda T. Llew Jones i wneud hyn gan amlaf ac felly nid oes angen iddo fynd ati i osod dyddiad neu baragraff cyflwyniadol.

Nid cymeriadau sydd byth a beunydd yn dda neu gymeriadau sydd byth a beunydd yn ddrwg a bortreadir gan T. Llew Jones a

chanlyniad hyn yw'r cymeriadau crwn a welir yn y nofelau. Enghreifftiau o lwyddiant yr awdur yw cymeriadau megis Twm Siôn Cati, Harri Morgan neu Barti Ddu. Gwelir bod Harri Morgan yn ŵr creulon iawn oherwydd y modd y lleddir y Sbaenwr ganddo yn y dyfyniad canlynol:

> **Agorodd y Sbaenwr ei geg i weiddi ond yr oedd braich dde Harri Morgan am ei wddf cyn iddo gael cyfle i wneud dim...**
>
> **Yna aeth ati i wasgu ei gorn gwddf a'i fysedd cryfion. Cyn pen fawr gwelodd goesau'r Sbaenwr yn rhoi plwc neu ddau, yna gorweddodd yn berffaith lonydd.** [41]

Ond, er gwaethaf y weithred enbyd yma, fe welir bod Harri Morgan yn gallu bod yn ŵr caredig dros ben, megis y modd y mae'n gofalu am Ieuan ar ei fordaith gyntaf ac, yn y disgrifiad o ymateb Harri i farwolaeth Ned, gwêl y darllenydd pa mor sensitif y gallai'r môrleidr fod:

> **Ond yr oedd Ned bach mileinig yn rhy bell i ateb dim. Aeth Syr Harri â'r corff llonydd yn ei gôl i gyfeiriad y grisiau...**
>
> **Yr oedd hi'n nos dywyll erbyn hyn ac nid oedd y Sbaenwyr wedi dod yn ôl. Yr oedd Harri Morgan o hyd yn y caban gyda chorff Ned.** [42]

Gyda geiriau cynnil T. Llew Jones llwyddir i gyfleu y golled a deimlai Harri wedi marwolaeth Ned.

Yr un math o gymeriad yw Barti Ddu oherwydd er ei fod yn gas tuag at ei dad yng nghyfraith ar ddiwedd y nofel, cymeriad digon rhesymol ydyw mewn gwirionedd. Yn wir mae'n casáu'r syniad o grogi Anstis ac felly, fel cosb, penderfyna ymladd ag ef. Wedi i'r Ffrancwr golli ei gleddyf gallasai Barti fod wedi ei glwyfo'n angeuol ond nid dyna yw dewis y môr-leidr. Yn hytrach gadawa i Anstis neidio i'r môr ac yn y dyfyniad canlynol gellir gweld beth yw tynged y Ffrancwr:

> **Yna gwelodd Barti Roberts gyllell yn mynd trwy'r awyr o fwrdd y 'Fortune'. Gwelodd hi'n disgyn yng nghefn Anstis a'r carn yn sefyll allan. Yna roedd y dŵr yn goch, ac roedd y nofiwr wedi diflannu. Trodd ei ben i weld pwy oedd wedi taflu'r gyllell. Gwelodd mai Pring ydoedd...** [43]

Gan mai Pring sydd yn lladd y bradwr mae Barti yn ddi-euog ac felly drwy'r weithred yma dengys T. Llew Jones nad yw Barti yr un fath â môrladron eraill.

Gwelir nodweddion da a drwg ym mhersonoliaeth Twm Siôn Cati hefyd, er mai direidi, yn hytrach na chreulondeb, yw nodwedd wael y gŵr o Dregaron. Wrth iddo fygwth Syr Tomos a mynnu ei fod yn ysgrifennu llythyr yn gwadu euogrwydd Siôn Morys, ewythr Twm, gwelir yr ochr gasaf o gymeriad Twm Siôn Cati. Ond, hyd yn oed yn yr olygfa honno, nid yw T. Llew Jones yn anghofio mai cymeriad digon diniwed yw Twm mewn gwirionedd a chyda'r geiriau '**Tynnodd Twm ei bistol gwag.**' [44] fe'n hatgoffir o hyn. Mae Twm ei hun yn gweld deuoliaeth yng nghymeriad Joe King, lleidr

pen-ffordd, ac wrth iddo hel meddyliau amdano dywedir: **'Lleidr pen-ffordd neu beidio yr oedd ef wedi hoffi Joe King ta'i dim ond am ei ddewrder wrth farw.'** [45]. Gan fod Twm wedi bod mewn ambell helynt mae'n gallu gweld nodweddion da mewn cymeriadau tebyg iddo ef ei hun.

Nid yw T. Llew Jones yn beirniadu'r cymeriadau rheini sydd yn gweithredu'n anghyfreithlon. Yn wir mae'n cydymdeimlo â hwy gan mai amgylchiadau sydd yn eu gorfodi i weithredu fel y gwnânt. Mae'r naill gymeriad ar ôl y llall yn cael ei glodfori am herio'r drefn. Cyfeirwyd eisoes at y ddau fôrleidr enwog ac nid yw Twm Siôn Cati ymysg angylion y ddaear. Ymosod ar glwydi yn anghyfreithlon yw'r holl hanes yn Cri'r Dylluan a chyda Tomos Bryn Glas, Twm Carnabwth ac eraill y mae cydymdeimlad T. Llew Jones. Yr ysgweier lleol a phobl o'i fath ef yw'r drwgweithredwyr yng ngolwg yr awdur. Yn Dirgelwch yr Ogof cymeriadau sydd yn destunau sbort yw gwŷr y trethi tra mae Harri Watcyn, sef Siôn y Cwilt, Mari Fforin a'i theulu, a hyd yn oed y person lleol, yn ennyn edmygedd oherwydd eu beiddgarwch yn twyllo Thomson a Moses dro ar ôl tro. Gellir galw y math yma o ysgrifennu yn bropoganda ar ran y tlodion ond, gan fod y mwyafrif o'n hanes wedi ei ysgrifennu o safbwynt y tirfeddiannwr Prydeinig, mae'n rhaid canmol T. Llew Jones am geisio darlunio bywyd y 'werin' Gymraeg.

Yn anffodus ni ellir canmol cymaint ar bortreadu T. Llew Jones o wragedd ei nofelau oherwydd eu bod hwy yn dueddol i fod yn deipiau. Yn aml unig bwrpas y merched yw ychwanegu'r elfen o ramant neu fagu plant. Yn wir mewn ambell nofel nid oes yr un

cymeriad benywaidd pwysig, megis Trysor y Môrladron. Ychwanegu'r elfen o ramant a wna Eluned yn y tair nofel am Twm Siôn Cati, fel y gwna Elin Bryn Glas yn Cri'r Dylluan. Oherwydd ei gariad tuag at Elin mae Huw Parri yn fodlon ymuno â Merched Beca ac felly er mwyn denu Huw at y bobl gyffredin y cynhwysir cymeriad Elin. Yr elfen o ramant sydd yn caniatáu i Liwsi Fforin fod yn gymeriad yn Dirgelwch yr Ogof ac ar ddiwedd y nofel caiff hi a Harri briodi. Nid oes gan yr un o'r merched a enwir uchod rannau allweddol yn y nofelau ac onibai am eu perthynas â Twm, Huw a Harri gellid eu hepgor o'r nofelau heb unrhyw rwystr mawr.

Gwelir yr elfen o ramant, yn ei ffurf mwyaf diniwed, yn Corn, Pistol a Chwip gan mai'r awgrym lleiaf a geir o berthynas yn y dyfodol cyd-rhwng Arthur Ifan ac Olwen Parri. Ni cheir dwy deip gwaeth nag Olwen a'i mam gan eu bod yn gymeriadau arwynebol dros ben. Maent yn fodlon eistedd yn dawel drwy gydol y siwrnai o Lundain i Ogledd Cymru gan wrando'n astud ar y Capten yn adrodd y naill ffaith ar ôl y llall. Maent yn ymateb fel pob gwraig rinweddol yn y gorffennol! Ond mae'n rhaid beirniadu T. Llew Jones gan ei fod wedi canolbwyntio gormod ar drosglwyddo ffeithiau a thrwy hyn esgeuluswyd y gwaith o greu cymeriadau credadwy.

Ar wahân i fod yn rhamantus caiff y merched fod yn famol, ac unwaith eto dyma ddangos fod T. Llew Jones yn defnyddio merched fel teipiau yn unig yn ei nofelau. Cyflwynir Gwen a Chatrin Puw, yn Un Noson Dywyll, gan fod angen rhywrai i warchod Arthur y baban. Gan fod Tomos Wiliam wedi colli ei wraig mae'n rhaid i'w ferch fod yn byw gydag ef gan na allasai ef fagu Arthur ar ei ben

ei hun. Pan ddaw'r milwyr heibio'r tollborth sylweddola Tomos fod rhaid iddo symud y bychan ac felly daw Catrin Puw, ei chwaer, heibio. Dyma ddwy a oedd yn ddigon tebol i edrych ar ôl Arthur a dyna'u hunig bwrpas yn y nofel. Caiff Gwen ychwanegu'r elfen ramantaidd hefyd oherwydd ar ddiwedd y nofel dywedir wrthym bod Patrick a hithau'n caru ei gilydd.

Yr unig gymeriad benywaidd sydd yn codi uwchlaw'r teipiau hyn yw Mari Fforin. Mae ganddi hi ran allweddol yn y nofel Dirgelwch yr Ogof, oherwydd hebddi hi ni fyddai modd i gynllwyn y smyglwyr weithio. Ynddi hi y gwelir y cadernid sydd ar goll yng nghymeriad Elin a Gwen ac eraill. Wrth gymharu portread T. Llew Jones o wragedd gyda phortread y nofelwraig flaenorol, Elizabeth Watkin Jones, mae'n hawdd gweld y gwahaniaethau. Roedd yr awdures o Lŷn am greu merched dewr a lluniwyd y straeon o'u hamgylch hwy tra bod cymeriadau gwrywaidd cadarn, megis Harri Morgan, yn mynd â bryd yr awdur o Bentre-cwrt. Nid yw hyn yn syndod o gwbl gan fod awduron yn dueddol i ysgrifennu am gymeriadau o'r un rhyw â hwy eu hunain. Ar y cyfan, llwydda cymeriadau T. Llew Jones i gynnal eu straeon ac ar wahân i ambell wendid, megis yng nghymeriadau'r gwragedd, ceir darlun o gymeriadau crwn y gall y darllenydd ymddiried ynddynt. Trwy'r ymddiriedaeth yma caiff y plentyn ei gyfareddu gan y stori a dyna sydd yn gwneud nofel yn werth ei darllen.

Fel pob awdur arall mae gan T. Llew Jones nodweddion da a drwg yn ei arddull a'r un beiau a rhinweddau sydd i'w gweld yma ag a welwyd wrth ymdrin ag awduron blaenorol. Yn anffodus gwelir y defnydd o gromfachau yn rhy aml yng ngwaith T. Llew Jones a

dengys hyn nad oedd yr awdur wedi mynd ati i drefnu ei waith cyn dechrau ysgrifennu. Yn Un Noson Dywyll ceir enghraifft o hyn:

> **'Catrin,' meddai Tomos Wiliam, 'eistedd ar y sgiw 'na',-(roedd ei chwaer wedi neidio ar ei thraed pan welodd y baban ym mreichiau Gwen).** [46]

Mae'n amlwg y dylid bod wedi crybwyll bod Catrin wedi codi ar ei thraed wrth ddangos ei syndod, nid sôn ei bod yn cael ei gorfodi i aileistedd. Mae'r camgymeriad yma yn dangos diffyg yn adeiladwaith plot y nofel. Defnyddir cromfachau weithiau pan nad oes wir angen hynny oherwydd nad yw'r hyn sydd yn cael ei ddweud rhyngddynt yn ddibwys, fel y gwelir yn y dyfyniad canlynol:

> **Safodd Barti'n dal o flaen ei elyn, yn disgwyl iddo gymryd y cam cyntaf. (Yn ystod gyrfa Barti Roberts, fe sylwodd llawer ar yr hynodrwydd yma yn ei gylch - y gallu i'w dynnu ei hun i fyny'n dal pan fyddai'n paratoi i ymladd).** [47]

Yn ôl y geiriau sydd yn y cromfachau daw'r darllenydd i wybod nad gŵr di-nod yw Barti pan ymladda â rhywun. Gan fod y wybodaeth yn ychwanegu at y darlun o gymeriad Barti nid oes angen ei gynnwys mewn cromfachau. Roedd T. Llew Jones yn ysgrifennu tipyn o ddeunydd yn ystod y blynyddoedd hyn ac efallai nad oedd ganddo lawer o amser i ragbaratoi. Ond, ni ddylai unrhyw awdur fod yn gynnil â'i amser pan fo hynny ar draul yr arddull.

Syndod mawr oedd sylwi ar y nifer o wallau gramadegol sydd

yng ngwaith T. Llew Jones, yn wir ni ellir dweud mai camgymeriadau teipio ydynt gan fod cymaint ohonynt. Mae diffyg treiglo yn britho'r nofelau, megis **'gyda ti'** sydd yn ymddangos o leiaf chwe gwaith [48] neu **'â ti'** [49]. Yn yr un modd mae'r treiglad llaes ar goll yn **'..waeth na ti'** [50] a threiglad meddal yn **'...safai pawb...fel na allent ond prin gweld ei gilydd.'** [51]. Hefyd ceir camgymeriadau sillafu fel **'cymeryd'** [52] **'âg'** [53] a'r arfer o roddi 'i' o flaen berf, fel y Saesneg 'to'. Enghraifft o hyn yw'r dyfyniad canlynol o eiriau'r Capten yn y nofel Corn, Pistol a Chwip:

> **Beth bynnag, fe achosodd i'r dandi ifanc hwnnw - beth oedd 'i enw fe - Paul Dudley i fynd dros y bont...**
>
> [54]

Dylid ceisio sicrhau nad oes gwallau gramadegol mewn unrhyw lyfr, ac yn arbennig felly mewn llyfrau ar gyfer plant. Gall oedolion sylweddoli mai camgymeriad sydd yno ond bydd plant yn tybio mai'r hyn a welant wedi ei argraffu yw'r ffurf gywir. Yn ogystal ag osgoi camgymeriadau sillafu a threiglo dylid osgoi defnyddio arddull wael ac, yn anffodus, nid yw T. Llew Jones yn ddi-fai yn y maes yma ychwaith.

Gwelir dylanwad y Saesneg droeon ar waith yr awdur ac er bod lle weithiau i gynnwys y Saesneg, fel y gwelir yn Cri'r Dylluan, nid Cymreigio geiriau o'r iaith fain yw'r ateb. Gellir beirniadu T. LLew Jones am iddo gynnwys sgwrs gyfan yn y Saesneg yn y nofel am Ferched Beca. Cynhaliwyd y sgwrs yng nghartref yr ysgweier lleol a chan mai gŵyr bonedd Saesneg oedd gwesteion yr ysgweier

penderfynodd T. Llew Jones y dylai'r sgwrs fod yn eu hiaith hwy. Llwydda'r sgwrs i gyfleu sawl peth. Yn gyntaf dangosir y gwahaniaeth pennaf a oedd rhwng y bobl gyffredin a'r bonedd, sef mamiaith wahanol. Hefyd llwyddir i gyfleu y chwithdod a gâi person fel Huw Parri wrth iddo geisio siarad yn ei ail iaith. Gwelir y gwahaniaeth rhwng Jane Selby a Huw yn y dyfyniad canlynol:

> **'Have you any nice hunters?' gofynnodd Jane. O'r diwedd roedd hi'n cymryd diddordeb.**
>
> **'Well, there is one - Robin his name is. I think he's a very good horse - son of 'Seren', a mare my father used to have.'** [55]

Gyda'r defnydd o frawddegau byr a chymalau byrion o fewn y brawddegau dangosir yn glir yr anhawster a gâi ambell Gymro wrth siarad â Sais. Ni ellir beirniadu T. Llew Jones am ddefnyddio ychydig o Saesneg oherwydd canran fechan iawn ydyw mewn gwirionedd ac fe'i defnyddir i bwrpas. Mae'r sgwrs yn ychwanegu at yr apêl hanesyddol oherwydd ei fod yn dangos i'r darllenydd y gwahaniaethau a fodolai yn y gymdeithas.

Wedi amddiffyn cynnwys sgwrs Saesneg yn Cri'r Dylluan mae'n rhaid beirniadu T. Llew Jones wrth iddo ddefnyddio idiomau a geiriau Saesneg wedi eu Cymreigio. Enghreifftiau yw **'neidio o'i groen'** [56] neu **'chwerthin allan dros y lle i gyd'** [57]. Yn y nofel Barti Ddu fe frithir y gwaith gan ddywediadau Seisnig megis **'gadael eu marc'** [58], **'ar fin byrstio'** [59] neu **'llosgi allan'** [60] a chan eiriau Seisnig fel **'mendio'** [61], **'trenio'** [62] neu

'fflotio' [63]. Gan fod geiriau Cymraeg ar dafod leferydd am y geiriau uchod dylid hepgor y ffurfiau Seisnig.

Ond nid tasg mor hawdd yw penderfynu ai doeth neu annoeth a fu T. Llew Jones wrth iddo ddefnyddio termau technegol morwrol Seisnig yn y nofel. Wrth gyfeirio at safle'r llongau dywedir eu bod **'along-seid'** [64] neu wedi **'dod abowt'** [65]. Yn aml bu'n rhaid i mi ddarllen brawddegau fwy nag unwaith cyn dod i ddeall yn union beth oedd ystyr ambell air. Un enghraifft oedd dweud bod llong yn mynd **'ar dac sowestaidd'** [66] neu gyfeiriad at ran neilltuol o'r llong, sef **'bilô'** [67]. Wedi hir bendroni dyma ddeall mai taith tua'r de-orllewin oedd y cyntaf ac mai is-law oedd yr ail. Mae'n rhaid cyfaddef bod defnyddio geiriau Saesneg yn broblem enfawr ac ni ellir defnyddio'r un llinyn mesur wrth gymharu sgwrs yn y Saesneg, fel y gwelwyd yn Cri'r Dylluan, gydag ambell air Saesneg mewn brawddeg Gymraeg. Sylwodd W. J. Jones ar y broblem hefyd gan ddweud y canlynol mewn adolygiad o'r nofel:

> **Yng nghyfnod y ffuglen, mae'n siwr mai termau-môr Saesneg a arferid gan Barti Ddu a'i griw. Yn wir, go brin y bydden nhw'n siarad llawer o Gymraeg...Roeddwn i'n medru dygymod â rhai [o'r geiriau Seisnig], ond roedd y mwngreliaid pennaf fel bilô, ac along-seid yn taro'n chwithig ynghanol brawddegau rhywiog eu Cymraeg.**
>
> [68]

Yn ôl y dyfyniad uchod dylai sgwrsio'r morwyr fod yn gyfangwbl yn y Saesneg. Ond gan fod T. Llew Jones wedi dewis ysrifennu yn y Gymraeg dylai fod wedi newid holl iaith sgwrsio'r morwyr i'r

Gymraeg yn hytrach na newid ei hanner. Nid ceisio cadw'n agos at ffurf wreiddiol y sgwrsio a wnaeth T. Llew Jones os ydym i dderbyn bod yr hyn ddywed W. J. Jones am iaith debygol y morwyr yn wir. Os oedd T. Llew Jones yn ddigon bodlon newid hanner y sgwrsio yna dylai newid y cwbl er mwyn cael sgwrs Gymraeg naturiol a gellir ei feirniadu am beidio â bathu termau morwrol Cymraeg. Nid termau hollol dechnegol yw'r geiriau Seisnig a ddefnyddia ac felly nid oes esgus dros ddewis 'mendio' yn hytrach na 'gwella', sydd yn cyfleu'r union syniad.

Ar brydiau nid yw'r arddull a gyflwynir yn y nofelau o'r radd flaenaf, ac nid y geiriau Seisnig a ddefnyddir mewn brawddegau yw'r rheswm am hyn. Rhoddir yr awgrym bod ôl brys ar y gwaith ac na ddarllenwyd trosto yn fanwl cyn iddo gael ei gyhoeddi. O'r herwydd ceir enghreifftiau o Gymraeg gwael, a hwnnw'n Gymraeg gwael iawn ar brydiau, megis **'Yr oedd hi heb ddyddio o hyd...'** [69] neu **'Fe a' i tua Betws y Coed bore fory, ar ôl bydd y ceffylau wedi cael hoe a thipyn o fwyd.'** [70]. Petai disgyblion ysgol yn cynnwys brawddegau tebyg yn eu gwaith byddent yn siŵr o gael eu cosbi ac felly, yn sicr, ni ddylai gŵr mor broffesiynol â T. Llew Jones eu cynnwys. Problem fawr i sawl awdur modern yw darganfod y cydbwysedd cywir rhwng ysgrifennu naturiol a bratiaith, ac mae'n rhaid galw'r enghreifftiau uchod yn fratiaith. Gan fod T. Llew Jones yn awdur mor boblogaidd ymysg darllenwyr ifainc mae hi'n holl bwysig ei fod yn cyflwyo iaith raenus i'r plant.

Ni ellir beirniadu defnydd iaith T. Llew Jones drwy gydol y nofelau oherwydd fe welir yr awdur ar ei orau yn amlach nag y

mae'n methu. Mae ei waith yn cynnwys idiomau Cymraeg a defnyddir ambell idiom sydd bellach wedi ei gor-ddefnyddio, ond efallai nad oedd hynny'n wir pan ysgrifennodd T. Llew Jones ei nofelau cynharaf. Enghreifftiau o'r 'hen' idiomau yw **'Cyn pen winc'** [71] neu **'yn gacwn gwyllt'** [72]. Yn ogystal fe welir idiomau sydd yn llai cyffredin, megis **'gyda glasiad dydd'** [73] ac **'Adar go frith yw'r rhain'** [74]. Wrth fwrw golwg ar y cyffelybiaethau sydd yn y nofelau unwaith eto fe welir y cymysgedd o'r hen a'r newydd. Mae cyffelybiaethau megis **'yn dywyll fel bol buwch'** [75] a **'mor dawel â'r bedd'** [76] yn fwy cyffredin na **'dechreuodd Harri Morgan gerdded o gwmpas y caban fel llew mewn caethiwed'** [77] neu **'rhuai** [y gwynt] **o gwmpas yr hen blas fel anifail gwyllt.'** [78]. Drwy gyflwyno idiomau a chymhariaethau, boed gyffredin neu anghyffredin, mae'r darlleniad yn llawer mwy diddorol gan eu bod yn lliwio'r gwaith ac os yw'r darlleniad yn fywiog yna bydd y plentyn yn cael blas ar y stori hanes.

Dull arall o ennyn diddordeb yw'r defnydd o ddisgrifiadau, gan fod creu darlun o gymeriad neu olygfa yn bwydo dychymyg y darllenydd. Ceir disgrifiad o Harri Morgan ar ddechrau <u>Trysor y Môrladron</u> ac wedi ei ddarllen bydd plentyn am ddarllen gweddill y nofel gan mai darlun o ŵr eithaf echrydus a gyflwynir, fel y gwelir yn y dyfyniad canlynol:

> **Dyn cadarn o gorff a thrwsiadus ei wisg, dyn du ei farf a gloyw ei lygaid. Ei lygaid! Rhaid sylwi eilwaith ar y rheini, oherwydd yn ei lygaid y mae cymeriad dyn.**
>
> **Mewn wyneb o liw'r mahogani disgleirient fel dwy**

fflam ddu. Llygaid creulon, ffyrnig oeddynt, ond yn eu dyfnderoedd yn rhywle yr oedd fflach o ddireidi iach.

[79]

Nid er mwyn cyflwyno cymeriad yn unig y defnyddir brawddegau disgrifiadol oherwydd, eto yn Trysor y Môrladron, gwelir y modd y mae T. Llew Jones yn adnabod plant yn dda. Yn y nofel ceir paragraff sydd yn disgrifio ymateb Ieuan wrth iddo weld ysgerbwd am y tro cyntaf. Mae'r disgrifiadau yn eithaf erchyll:

> **Wedi mynd yn nes a gweld yn iawn bu'r olygfa bron â chodi cyfog ar Ieuan. O fewn y wisg liwgar nid oedd ond esgyrn sgerbwd o ddyn. Gwelodd y penglog yn wyn a'r tyllau lle bu'r llygaid. Gwelodd y cudynnau du o wallt hir a'r dwylo a pheth cnawd yn aros arnynt o hyd.**
>
> [80]

Bydd y darllenwyr ifanc wrth eu boddau gyda disgrifiadau fel hyn ac, er y dywed rhai nad oes angen cyflwyno erchyllterau i'r plant, mae'n fodd o ddangos beth oedd yn digwydd i filwyr yn y gorffennol. Felly, gellir dweud bod yma elfen hanesyddol a chan mai crefft y nofel hanes sydd dan sylw yma mae'n rhaid nodi bod y disgrifiadau, waeth pa mor erchyll, yn ychwanegu at ei chrefft.

Cyn gorffen sôn am arddull ieithyddol nofelau T. Llew Jones mae'n rhaid cyfeirio at ddefnydd yr awdur o iaith lafar. Brithir ei waith â sŵn hyfryd geiriau Sir Gaerfyddin, geiriau megis **'cwato'** [81], **'pallu'** [82] neu **'gwlei'** [83]. Yn ogystal ag ambell air ceir hefyd frawddegau cyfain wedi eu hysgrifennu yn y

dafodiaith, er enghraifft **'O'ch chi'n 'i nabod e'?'** [84], **'...a gobeithio y byddi di'n barod i ddod gen i pan ddo'i allan.'** [85]. Cafodd T. Llew Jones ei feirniadu, gan lythyrwr yn Y Faner, am ei ddefnydd o iaith lafar yn ei nofelau. Cyfeiria Mr. William Rowlands ei sylwadau yn arbennig at y nofel Trysor y Môrladron, ac meddai am y defnydd o eiriau llafar:

> **Rhwystr i lawer o blant sy'n darllen Cymraeg yw ffurfiau tafodieithol...Ofnaf na all nifer mawr o blant sy'n gallu darllen Cymraeg yn ddigon rhwydd ddilyn llawer o gynnwys y stori hon am fod ynddi ormod o eiriau ac ymadroddion tafodieithol.** [86]

Yn ôl y disgwyl aeth T. Llew Jones ati i ateb ei feiriniad ac ymhen pythefnos ymddangosodd ei lythyr ef yn yr wythnosolyn. Mae'n ateb cyhuddiadau Mr. Rowlands yn ddi-flewyn ar dafod gan ddweud na fu i'r un plentyn gwyno na ddeallodd y stori oherwydd y dafodiaith. Teimla T. Llew Jones mai rhagfarn rhwng gogleddwyr a deheuwyr yw achos y gynnen ym meirniadaeth y llythyrwr, ac meddai:

> **Mae'n amlwg oddi wrth hyn mai cŵyn Mr Rowlands yw cŵyn yn erbyn y naws ddeheuol a geir yn y ddeialog. Mae'n rhyfedd mor barod y mae ambell Ogleddwr i ymosod ar unrhyw beth a sgrifennwyd yn iaith y De neu'r Gorllewin. Ar hyd y blynyddoedd fe dderbyniasom ni yn y De dafodiaith y Gogledd mewn llyfrau, heb gwyno cymaint ag unwaith. Fy arwr i pan oeddwn yn blentyn oedd Tegla, ac un o'm hoff lyfrau oedd 'Rhys Llwyd y**

> Lleuad'...Ac eto nid oes gen i gof i'r dafodiaith ryfedd yna [yn llyfrau Tegla] fod yn dramgwydd i mi erioed. Nid oes gen i gof chwaith fod Mr William Rowlands wedi codi'i lais yn erbyn Tegla. Ŷch chi'n gweld, roedd y dafodiaith yn ogleddol ac felly roedd popeth yn iawn. [87]

O'r dyfyniad uchod gellir gweld yn amlwg bod gan T. Llew Jones deimladau cryfion ynglŷn ag ysgrifennu mewn tafodiaith, ac mae'n rhaid dweud mai gydag ef, ac nid gyda'r llythyrwr o Borthmadog, y mae fy nghydymdeimlad innau. Mae'n rhaid i bob ardal yng Nghymru dderbyn bod tafodieithoedd gwahanol i'w cael ac wrth eu cofnodi, fel yn nofelau T. Llew Jones, bydd gwell dealltwriath i'w weld cyd-rhwng yr ardaloedd. Mae'n bur debyg nad yw beirniadaeth Mr. Rowlands mor wir heddiw oherwydd, gydag ymddangosiad mwy o raglenni Cymraeg ar y teledu, daeth ein clustiau yn fwy cyfarwydd â thafodieithoedd gwahanol. Oni bai bod awduron yn mynd ati i ysgrifennu eu tafodieithoedd bydd y Gymraeg yn dod yn unffurf a thrwy hynny bydd yn colli ei chyfoeth. O'r herwydd canmol T. Llew Jones y dylem ei wneud gan iddo sylwi ar hyn ddeng mlynedd ar hugain yn ôl.

Wedi beirniadu a chanmol ieithwedd nofelau'r awdur mae'n rhaid bwrw golwg dros wead plot ei straeon. Mewn ambell nofel ceir brawddegau sydd yn dangos gwendid yn yr adeiladwaith, brawddegau megis '...ond rhaid i ni fynd yn ôl i blas y Dolau.' [88], 'Yn awr mae'r hanes yn symud o Dregaron i Lanbedr-pont-Steffan...' [89] neu 'Gan y bydd Richard Llwyd yn cymeryd [sic] rhan bwysig yn yr hanes yma, gwell i ni edrych yn

fwy manwl arno.' [90]. Dyma'r math o frawddegau a oedd i'w gweld yng ngwaith E. Morgan Humphreys [91] ac felly nid ydym yn disgwyl eu gweld yn nofelau awdur mor ddiweddar â T. Llew Jones. Sylwodd Siân Teifi ar yr enghraifft yn Trysor y Môrladron, ac meddai am y dull o gyflwyno cymeriad Richard Llwyd:

> A yw hyn yn torri ar draws rhediad y stori, gan adael y darllenydd mewn gwagle am ychydig funudau? Mae hwnnw eisiau mynd ymlaen â'r stori, a hwyrach y gellid bod wedi ychwanegu'r ffeithiau hyn yn grefftus wrth fynd ymlaen, neu ddefnyddio dull awdur(on) Y Mabinogi, sef gadael i'r dyn ddangos ei gymeriad drwy ei ffordd o siarad a natur ei sgwrs. Hyd y gwelaf, dyma'r tro cyntaf a'r tro olaf i T. Llew Jones ddefnyddio'r dull hwn o greu cymeriad, a diolch am hynny. [92]

Ond mae'n rhaid dweud mai yn ei nofelau cynnar y gwelir y brychau, yn wir daw'r dyfyniadau o'r ddwy nofel hanes gyntaf ganddo, ac felly mae'n amlwg bod ei arddull wedi datblygu gyda phrofiad ac amser.

Nodwedd arall sydd yn dangos na fu i T. Llew Jones baratoi adeiladwaith y nofel yn ddigonol cyn mynd ati i ysgrifennu yw'r modd y caiff diwedd ambell nofel ei brysio. Gwelir hyn mewn mwy nag un nofel, ac nid yn y nofelau cynharaf yn unig. Yn y nofelau hyn ceir pennod fer, neu is-bennod fer, er mwyn adrodd yr hyn sydd yn digwydd i'r cymeriadau. Yn Trysor y Môrladron fe ddywedir bod Syr Harri am fynd yn llywydd ar ynys Jamaica tra bod Ieuan am gadw golwg ar ei ystad; yn Corn, Pistol a Chwip dywedir

wrthym bod y pedwar teithiwr wedi cyrraedd pen eu taith yn ddiogel; hanes y modd y bu i Barti Ddu farw a gawn yn y nofel amdano ef tra bo adran glo Cri'r Dylluan yn sôn am wellhad Ifan Bryn Glas a mam Huw Parri, am briodas hapus Elin a Huw a genedigaeth ŵyr cyntaf i fam Huw. Fe ddywedir hyn i gyd mewn tua dau gant a hanner o eiriau, ac felly gellir dychmygu y modd y cafodd y diwedd ei frysio. Efallai bod T. Llew Jones yn teimlo bod angen diweddglo hapus ar ei ddarllenwyr a dyna paham yr aeth ati i gynnwys y penodau clo. Ond wrth wneud hyn rhoddwyd yr argraff bod yr awdur wedi cael llond ei fol o ysgrifennu ac wedi penderfynu gorffen yn ddirybudd a swta.

Weithiau, mae angen gorffen penodau'n frysiog gan fod hyn yn rhoi'r argraff o grefft y clogwyn. Mae'n rhaid i'r awdur ddewis yn ofalus sut yn union y mae am orffen gan fod crefft y clogwyn yn cael ei ddefnyddio i annog darllenwyr i barhau â'r stori. Gan mai straeon antur yw nofelau hanes T. Llew Jones gellid disgwyl llawer o benodau'n gorffen yn y dull hwn ond, yn annisgwyliadwy, nifer fach ohonynt sydd i'w gweld. O blith yr ychydig enghreifftiau ceir y canlynol yn Ymysg Lladron:

> **Y funud honno cododd [Twm Siôn Cati] ei law a'i gosod ar ei wasgod, ac aeth ei fysedd trwy rwyg yn y brethyn. Yn wyllt gwthiodd ei law'n ddyfnach i'r leinys, ond roedd rhaff berlau'r Ledi Eluned wedi diflannu!** [93]

Bydd y darllenwyr am wybod ble yn union yr aeth perlau Eluned ac

a oedd Twm Siôn Cati yn gyfrifiol am eu colli. Yn amlach na'r defnydd o grefft y clogwyn bydd T. Llew Jones yn gorffen ei benodau'n daclus iawn. Yn nhair pennod gyntaf Trysor y Môrladron daw'r hanes i ben gyda Ieuan yn mynd i gysgu. Mae'n amlwg mai hanes diwrnod sydd ymhob pennod. Er nad yw'r elfen hon yn annog y darllenwyr ymlaen, fel y mae crefft y clogwyn, mae trefnusrwydd o fewn nofel yn rhinwedd. Yn yr un modd mae hyd penodau yn bwysig iawn. Yn Ymysg Lladron, er enghraifft, ceir rhai penodau byrion sydd yn cynnwys llai na thua naw can gair. I ddarllenydd gwan bydd gweld ei hun yn darllen pennod ar ôl pennod yn weddol gyflym o galondid mawr iddo. Yn ogystal dengys y penodau byrion bod llawer o ddigwydd yn y nofelau gan fod rhaid symud o un digwyddiad i'r llall yn chwim.

Nid yw T. Llew Jones yn ddigon gofalus wrth sicrhau cysondeb o fewn ei nofelau. Weithiau bydd cymeriadau yn newid eu henwau yn ystod nofel, er enghraifft enw'r lleidr yn Y Ffordd Beryglus yw **'John Brant'** [94] cyn iddo gael ei ailfedyddio yn **'John King'** [95], a digwydd yr un peth i **'Deio'r Gweydd'** [96] yn Dial o'r Diwedd. **'Ianto'r Gweydd'** [97] yw ei ail enw ef. Nid yw hyn yn peri llawer o drafferth, er bod gan blentyn lygaid craffach nag oedolyn yn aml, ond ar brydiau bydd brawddeg anghyson yn gallu rhoi gwedd gwbl newydd ar ddigwyddiad. Yn Dial o'r Diwedd ceir y frawddeg **'Sylwodd y Ledi Eluned ei fod** [Arthur] **yn galw** ti **arni er mai** chi **oedd hi'n gynharach yn y prynhawn.'** [98] ond wrth ddarllen ac ail ddarllen y brawddegau blaenorol nid oes sôn bod Arthur yn galw'r Ledi yn ti. Mewn dwy frawddeg mae'n rhaid iddo ddefnyddio'r rhagenw a 'chi' sydd yn cael eu defnyddio ar y troeon hynny. Mae'n amlwg bod T. Llew Jones wedi bwriadu i'r

digwyddiad fod yn bwysig neu ni fuasai wedi crybwyll y peth ond, gan ei fod wedi anghofio newid y rhagenw, mae'r frawddeg yn ymddangos yn gwbl chwithig.

Yn yr enghraifft olaf sydd yn dangos yr anghysonderau gellir gweld yr hyn a gaiff ei alw'n anacronistiaeth. Wrth ddisgrifio dychweliad Twm Siôn Cati i Dregaron dywedir:

> **Yr oedd hi'n nos eto erbyn hyn, ond gallai Twm weld goleuadau Tregaron yn y pellter yn ei arwain ymlaen.** [99]

Dywedwyd eisoes mai tua 1780 yw dyddiad y digwydd yn y nofelau sydd yn ymwneud â bywyd Twm Siôn Cati, ac felly peth anhebygol iawn fyddai gweld goleuadau tref, heb sôn am eu gweld yn disgleirio. Efallai y byddai ambell gannwyll yn y stryd, neu hyd yn oed olau cannwyll yn ffenestri'r cartrefi, ond ni fyddai Twm yn gallu gweld rheini 'yn y pellter'. Gan fod Tregaron yng ngorllewin Cymru byddai'r ardal wledig yn un o'r ardaloedd olaf i gael goleuadau yn ei strydoedd ac felly mae'n rhaid dweud fod yma gamgymeriad hanesyddol dybryd iawn.

Gan mai nofelau antur hanes yw nofelau T. Llew Jones gellid disgwyl y byddai rhannau o'r nofelau yn llawn tensiwn ac, fel ymhob agwedd arall o'i waith, weithiau mae'r awdur yn llwyddo ac weithiau mae'n methu. Ar brydiau bydd y darllenydd yn teimlo y gallasai T. Llew Jones fod wedi cael llawer mwy o densiwn, yn arbennig yn yr ymladdfeydd. Wrth i Barti ac Anstis ymladd ceir y disgrifiad canlynol:

> Trawodd y ddau gleddyf yn erbyn ei gilydd a chlywodd pawb y dur yn tincial...Y gwahaniaeth rhwng y ddau oedd fod Barti'n ystwyth ac yn ysgafn ar ei droed, tra'r oedd ei elyn - ar ôl byw bywyd ofer fel môr-leidr dros nifer o flynyddoedd, yn fwy araf a thrymaidd. Ond roedd e'n gwybod holl driciau'r gelfyddyd serch hynny, a bu rhaid i Barti gilio o'i flaen ar draws y dec, tra'r oedd cleddyf y Ffrancwr yn gwibio i mewn ac allan. [100]

Yn hytrach na disgrifio gwefr yr ymladd penderfyna T. Llew Jones fynd ati i sôn am fywyd anfoesol Anstis ac, o'r herwydd, mae'r cyffro y gellid ei greu ar goll. Nid yw'r awdur yn methu bob tro gan y llwydda i gyfleu'r brys wrth i Twm geisio dianc o'r carchar, fel y gwelir yn y dyfyniad canlynol:

> Cydiodd yng nghoesau Jerry. Un plwc, ac roedd hwnnw'n mesur ei hyd ar y llawr. Yna cododd Twm ar ei draed a chyrraedd cic at y lamp yn llaw Nokes. Aeth yn deilchion ar lawr y gell a diffodd. Yn y tywyllwch teimlodd ddwylo Nokes yn cyffwrdd â'i gorff. Neidiodd o'i afael a mynd am y drws agored...Daeth y drws agored yn nes. Yna gwelodd swyddog arall yn sefyll ym mhen draw'r coridor...Fe geisiodd redeg yn gynt... [101]

Yn yr enghraifft yma, sydd yn draean o hyd hanes y ddihangfa, gellir gweld yn glir y modd y creir cyffro drwy ddefnyddio cyfres o frawddegau byrion. Gan fod y brawddegau'n symud o'r naill i'r llall yn rhwydd mae'r digwydd hefyd yn cael ei drosglwyddo'n

sydyn. Gwna'r math yma o densiwn i'r darllenydd gynhyrfu gan anadlu'n gyflymach ond mewn rhannau eraill o waith T. Llew Jones ceir tensiwn gwahanol, y tensiwn sydd yn arafu'r anadliad gan fod yr awyrgylch yn iasol.

Pan aiff Ned i ystafell Richard Llwyd i geisio'r map mae'n rhaid iddo fod yn eithriadol o dawel rhag ofn deffro Richard a Wil Ddu:

> **Disgynnodd Ned ar lawr y caban fel pluen ac aeth ar unwaith am y drws. Ni wnâi ei draed noeth unrhyw sŵn ar y llawr o gwbl, ond pan oedd hanner y ffordd i'r drws, fe stopiodd yn sydyn a thynnodd y gyllell o'i geg. Yr oedd Wil Ddu wedi troi yn ei wely. Daliodd Ned ei anadl. Ochneidiodd Wil Ddu a dywedodd rywbeth yn ei gwsg. Yna dechreuodd chwyrnu drachefn. Dechreuodd Ned anadlu eto...** [102]

Wrth i Ned beidio ag anadlu bydd anadl y darllenydd hefyd yn peidio rhag ofn iddo ddeffro Wil o'i drwmgwsg. Mae'n amlwg bod gan T. Llew Jones y gallu i greu cyffro pan fo angen hynny a thrueni mawr yw gweld y paragraffau di-fywyd yn hytrach na'r rheini a ddylai fod yn llawn cyffro. Anogaeth i barhau â'r stori hanes yw'r antur yn y nofelau ac felly dylid ceisio sicrhau nad moronen lipa sydd yn wynebu'r darllenwyr.

Gan fod T. Llew Jones wedi treulio sawl blwyddyn fel athro gwyddai'n union beth oedd plant eu hangen mewn nofel - cymeriadau credadwy, arddull raenus a phlot yn llawn antur. Drwy gyfuno'r

cwbl roedd yn siŵr o lwyddo a thrwy hynny ennyn darllenwyr newydd pan fŏnt yn ifanc. Sylwyd ar y modd y bu i'r awdur daro deuddeg yn ei nofelau mewn adolygiad o Dial o'r Diwedd:

> **Y gwir plaen a syml yw fod storiau fel y rhain yn ateb uniongyrchol i weddi cannoedd o blant hynaf ein hysgolion yng Nghymru.** [103]

Drwy osod y straeon yn ein gorffennol caiff plant y cyfle i ddod i ddeall rhywfaint am hanes eu cyndadau. I sawl plentyn rhywbeth diflas yw hanes ond gyda straeon antur T. Llew Jones all hanes byth fod yn ddiflas. Dyma un o'r ffyrdd gorau i gyflwyno hanes i blentyn am y tro cyntaf oherwydd bod ffuglen yn sbarduno dychymyg y plant, fel y nododd Dyddgu Owen:

> **...ond rhowch iddynt stori wedi ei gosod mewn cefndir hanesyddol a dyma nhw ar unwaith yn dechrau cael blas, daw'r cyfnod yn fyw a hwythau yn dechrau ymdeimlo â gwefr a rhamant 'ers talwm'.** [104]

Yn sicr, mae digon o wefr yn nofelau'r awdur o Bentre-cwrt.

Ni ellir gwadu nad yw cyfraniad T. Llew Jones i faes y nofel hanes yn werthfawr iawn yng Nghymru gan ei fod ymhlith yr ychydig awduron a benderfynodd sŏn am Gymry cyffredin. Credir yn aml nad oeddynt hwy yn bwysig yn ein gorffennol gan fod y bonedd yn cael y lle blaenllaw yn y llyfrau hanes. Gyda nofelau awduron megis T. Llew Jones dangosir mai'r bobl gyffredin oedd asgwrn cefn y gymdeithas. Yn ei nofelau fe welir y modd yr oedd bywydau'r

tlodion a'r cyfoethog yn cyfarfod yn awr ac yn y man ac felly ceir darlun o gymdeithas gyfan, yn wahanol i Elizabeth Watkin Jones, dyweder. Ond ni ddylid credu mai dyma oedd bwriad T. Llew Jones. Defnyddia'r ddwy haen o gymdeithas gan fod hyn yn peri tensiwn ac, wedi'r cwbl, y stori antur sydd yn mynd â bryd yr awdur nid y stori hanes. Er gwaethaf hyn mae'n rhaid dweud bod y darllenwyr yn cael dogn helaeth o hanes wrth ddarllen ei nofelau. Yn sicr fe welent beth o waith gorau'r awdur gan fod ambell feirniad yn credu mai yn ei straeon hanes y gwelir T. Llew Jones ar ei orau:

> **Ef, yn anad neb ohonom, sy wedi llwyddo i gynnig i'w ddarllenwyr yr hyn sy at eu dant - stori afaelgar wedi'i hadrodd yn gelfydd, ac mae ar ei orau pan fo'n tynnu o ffynonellau'r gorffennol...** [105]

Erbyn heddiw mae sawl cenhedlaeth wedi cael eu magu ar nofelau T. Llew Jones ac mae'n siŵr bod ambell oedolyn yn cael ail fyw gwefr y nofelau wrth eu darllen gyda'u plant. Yn wir nid oes angen plentyn fel esgus ar yr oedolion i ddarllen ei nofelau gan fod y llyfrau '... **yn gwbl addas i blant dros ddeg oed ac ar yr un pryd heb fod yn rhy elfennol i ddarllenwyr mewn oed.**'[106], fel y dywedwyd mewn adolygiad o'r Ffordd Beryglus. Cefais i flas ar ddarllen ac ail ddarllen ambell stori gan fod y blynyddoedd wedi gwibio heibio ers i mi eu darllen y tro diwethaf ac rwy'n siŵr y byddai sawl un arall yn cael yr un blas ar eu darllen. Dyna paham y mae'n ddigon hawdd cytuno â'r hyn ddywedodd Islwyn Ffowc Elis yng Nghyfrol Deyrnged T. Llew Jones:

> Ar ryw olwg, byddai'n dda gennyf pe na bawn i erioed wedi darllen nofelau T. Llew Jones, er mwyn i mi gael y wefr o'u darllen am y tro cyntaf eto. Ond pan fo un ohonynt wedi mynd yn niwlog yn y cof, fel y bydd nofelau, fe fydd yn hawdd troi ati gan wybod y bydd ei darllen eto yn ffordd gyda'r orau i anghofio trafferthion bywyd bob dydd am rai oriau. Diolch amdanynt, ac amdano ef. [107]

Rwy'n siŵr y bydd trydedd a phedwaredd cenhedlaeth yn cael yr un mwyniant wrth ddarllen nofelau T. Llew Jones ag a gafodd y ddwy genhedlaeth gyntaf.

1 Y Cymro, Medi 21ain, 1976, t. 28.
2 Barn, Mehefin 1972, rh. 116, atodiad 'Y Gwrandawr', t. ii
3 ibid.
4 Cyfaredd y Cyfarwydd, t. 6.
5 ibid.
6 Y Cymro, Medi 21ain, 1976, t. 28.
7 Y Cymro, Medi 28ain, 1976, t. 28.
8 Llais Llyfrau, rh.10, Gaeaf 1968, t. 5.
9 ibid.
10 Y Cymro, Medi 21ain, 1976, t. 28.
11 Llais Llyfrau, rh. 10, Gaeaf 1968, t. 6.
12 Y Cymro, Medi 28ain, 1976, t. 28.
13 Baner ac Amserau Cymru, Ionawr 26ain, 1961, t. 6.
14 Baner ac Amserau Cymru, Chwefror 9fed, 1961, t. 6.
15 Llais LLyfrau, Gaeaf 1976, t. 6.
16 L lais Llyfrau, rh. 10, Gaeaf 1968, t. 5.
17 Treasure Island, tt. 49-50.
18 Gweler y bennod ar waith E. Morgan Humphreys, t. 113.
19 Llais Llyfrau, rh. 10, Gaeaf 1968, t. 6.
20 Un Noson Dywyll, t. 5.
21 Y Golud Gwell, t. 1.
22 Un Noson Dywyll, tt. 7-9.
23 Cyfaredd y Cyfarwydd, t. 42.
24 Y Genhinen, cyf. 21, rh. 4, 1971, t. 208.
25 Gweler y bennod ar waith Elizabeth Watkin Jones, t. 167.
26 Ymysg Lladron, t. 110.
27 Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru, t. 625.
28 Dial o'r Diwedd, t. 53.
29 Dirgelwch yr Ogof, t. 69.
30 Dial o'r Diwedd, t. 122.
31 Cri'r Dylluan, t. 8.
32 Y Ffordd Beryglus, t. 71.
33 ibid., t. 60.
34 Barti Ddu, t. 42.
35 Trysor y Môrladron, t. 5.
36 Corn, Pistol a Chwip, t. 9.
37 Dirgelwch yr Ogof, t. 7.
38 Dial o'r Diwedd, t. 120.
39 Barti Ddu, t. 108.
40 Un Noson Dywyll, t. 7.
41 Trysor y Môrladron, t. 188.
42 ibid., t. 252.
43 Barti Ddu, tt. 163-164
44 Dial o'r Diwedd, t. 39.
45 Ymysg Lladron, t. 147.
46 Un Noson Dywyll, t. 40.
47 Barti Ddu, t. 85.
48 Y Ffordd Beryglus, t. 85; Barti Ddu, t. 169; Cri'r Dylluan, t. 27 a t. 36; Dirgelwch yr Ogof, t. 18 a t. 64.
49 Y Ffordd Beryglus, t. 24; Cri'r Dylluan, t. 103.
50 Y Ffordd Beryglus, t. 64.
51 Barti Ddu, t. 10.
52 Trysor y Môrladron, t. 40.
53 Corn, Pistol a Chwip, t. 41.

54 ibid., t. 18.
55 Cri'r Dylluan, tt. 93-94
56 Corn, Pistol a Chwip, t. 20.
57 Trysor y Môrladron, t. 77.
58 Barti Ddu, t. 13.
59 ibid., t. 42.
60 ibid., t. 113.
61 ibid., t. 45.
62 ibid., t. 70.
63 ibid., t. 147.
64 ibid., t. 55.
65 ibid., t. 49.
66 ibid., t. 40.
67 ibid., t. 127.
68 Y Genhinen, cyf. 24, rh. 1, 1973, t. 64.
69 Corn, Pistol a Chwip, t. 63.
70 ibid., t. 94.
71 Trysor y Môrladron, t. 203.
72 Y Ffordd Beryglus, t. 12.
73 Trysor y Môrladron, t. 212.
74 Un Noson Dywyll, t. 22.
75 Dial o'r Diwedd, t. 21.
76 ibid., t. 21.
77 Trysor y Môrladron, t. 92.
78 Dirgelwch yr Ogof, t. 7.
79 Trysor y Môrladron, t. 5.
80 ibid., t. 180.
81 Un Noson Dywyll, t. 88.
82 Dial o'r Diwedd, t. 106.
83 Cri'r Dylluan, t. 134.
84 Trysor y Môrladron, t. 8.
85 Y Ffordd Beryglus, t. 27.
86 Baner ac Amserau Cymru, Ionawr 26ain, 1961, t. 6.
87 Baner ac Amserau Cymru, Chwefror 9fed, 1961, t. 6.
88 Y Ffordd Beryglus, t. 17.
89 ibid., t. 31.
90 Trysor y Môrladron, t. 40.
91 Gweler y bennod ar waith E. Morgan Humphreys, t. 108.
92 Cyfaredd y Cyfarwydd, tt. 34-35.
93 Ymysg Lladron, t. 43.
94 Y Ffordd Beryglus, t. 88.
95 ibid., t. 94.
96 Dial o'r Diwedd, t. 43.
97 ibid., t. 55.
98 ibid., t. 71.
99 Y Ffordd Beryglus, t. 142.
100 Barti Ddu, t. 163.
101 Ymysg Lladron, t. 83.
102 Trysor y Môrladron, t. 94.
103 Y Genhinen, cyf. 19, rh. 2, 1969, t. 183.
104 Y Genhinen, cyf. 20, rh. 1, 1969, t. 45.
105 Y Genhinen, cyf. 24, rh. 1, 1973, t. 63.
106 Y Genhinen, cyf. 14, rh. 1, 1963, t. 54.
107 Cyfrol Deyrnged Y Prifardd T. Llew Jones, t. 87.

Gweneth Lilly

GWENETH LILLY

EI BYWYD

Roedd teulu rhieni Gweneth Lilly yn hannu o Fôn, ond nid ar yr ynys honno y ganwyd yr awdures ym 1920. Roedd ei rhieni ymhlith y rhai a adwaenir fel Cymry Lerpwl ac felly yn y ddinas honno y treuliodd Gweneth Lilly ei phlentyndod. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd llawer o Gymry wedi symud i Lerpwl ac, o'r herwydd, ni ddaeth y ferch ifanc i siarad Saesneg hyd nes yr aeth i'r ysgol. Er na chafodd yr un wers Gymraeg yn yr ysgol dysgodd Gweneth Lilly ddarllen ei mamiaith yn yr Ysgol Sul pan ydoedd yn wyth oed a thra roedd ar ei gwyliau gyda'i theulu ym Môn dechreuodd ysgrifennu yn y Gymraeg **'gan mai peth od oedd sgrifennu ati** [ei mam] **yn Saesneg, a ninnau byth yn siarad dim â'n gilydd ond Cymraeg.'** [1]

Er i Gweneth Lilly golli ei thad pan oedd yn wyth oed roedd eisoes wedi cyflwyno a meithrin diddordeb ei ferch mewn chwedlau; diddordeb sydd i'w weld mewn ambell nofel o'i heiddo. Yn ogystal â'i hoffter o chwedlau roedd ganddi ddiddordeb mewn barddoniaeth ac felly penderfynodd ddilyn cwrs Saesneg yn y brifysgol. Arhosodd yn ei dinas enedigol, gan raddio mewn Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Lerpwl cyn cael swydd darlithio yn yr adran. Bu yno hyd nes iddi, ym 1946, dderbyn gwaith yng Ngholeg y Santes Fair ym Mangor fel darlithydd Saesneg ac ymroi ati i hyfforddi athrawesau.

Tra oedd yn manylu ar waith beirdd Saesneg sylweddolodd

Gweneth Lilly pa mor gyfoethog oedd yr iaith Gymraeg, fel y dywedodd yn Llais Llyfrau:

> **...ac ystyried pa mor ffodus yr ydym ni fel Cymry yn ein hiaith hynafol, sy'n cadw'i hurddas a'i ffresni tra bo'r Saesneg yn dirywio'n arswydus o gyflym...Credaf fod trysorau annherfynol yn perthyn i'r Gymraeg, ond i ni ei pharchu a'i chadw'n fyw fel iaith ein plant.** [2]

Wedi sylwi ar y cyfoeth ceisiodd fynd ati i'w drosglwyddo i bobl eraill drwy ysgrifennu dramâu bychain neu sgetsus i'r capel neu'r coleg, rheini yn Gymraeg a Saesneg. Dyma sut y bu i awdures arall, sef Elizabeth Watkin Jones, ddechrau ymhel â llenyddiaeth a dengys hyn pa mor bwysig yw rhan y gymdeithas wrth feithrin awduron newydd.

Nid syndod yw sylwi bod Gweneth Lilly wedi penderfynu ysgrifennu ar gyfer plant, oherwydd bu iddi droi ym myd plant a'u llenyddiaeth drwy gydol ei gyrfa yng Ngholeg y Santes Fair. Ond ni ddaeth y cyfle iddi ddechrau ysgrifennu hyd nes yr ymddeolodd yn gynnar, ym 1976, wedi i'r Santes Fair uno ag Adran Addysg Prifysgol Bangor. Wedi hyn roedd ganddi'r amser i geisio llunio stori y bu'n pendroni yn ei chylch ers sawl blwyddyn. Er hyn bu wrthi am dair blynedd cyn cwblhau Y Drudwy Dewr (1980), nofel a enillodd wobr Tir na n-Og 1981 i'r awdures. Mae'r stori yn seiliedig ar Ail Gainc y Mabinogi ac felly gellir gweld y modd y bu hoffter ei thad o chwedlau yn gymhelliad i Gweneth Lilly fynd ati i ysgrifennu ei nofel gyntaf. Nid nofel hanes mo'r nofel, er bod y chwedl yn cael ei chlymu â hanes bachgen o Ynys Môn yn

ystod yr Oes Haearn, a chyfaddefodd Gweneth Lilly hyn mewn erthygl:

> **Nid yw Y Drudwy Dewr...yn hanesyddol yng ngwir ystyr y gair. Mae'n wir fod 'na lawer sy'n ffeithiol gywir yn y darlun o'r Oes Haearn yn Y Drudwy, ond mae peth ohono'n ffantasi am fod un neu ddau o bethau sylfaenol yn chwedl Branwen yn anghyson â ffeithiau hanesyddol. Er enghraifft, roedd yn rhaid i Matholwch yn fy stori i fod yn Uchel Frenin am fod Matholwch yr Ail Gainc yn 'frenin Iwerddon'; ond 'doedd dim Uchel Frenin yn Iwerddon mor gynnar yn ei hanes.** [3]

Wedi ymddangosiad ei nofel gyntaf aeth Gweneth Lilly ati i ysgrifennu yn gyson a chyhoeddwyd y naill nofel ar ôl y llall ganddi. Yn ystod yr un flwyddyn cyhoeddwyd dau lyfr ychwanegol, sef Gêm o Guddio ac Annes a'r Addanc Bach, stori ar gyfer plant wyth i un ar ddeg oed. Yn y nofel honno gwelir ôl llaw Gweneth Lilly ar y lluniau gan mai hi yw'r darlunydd yn ogystal a'r llenor. Dywedwyd bod ei nofel gyntaf wedi cymryd tair blynedd i'w chwblhau tra cafodd Gêm o Guddio ei chwblhau mewn naw wythnos. Ynddi gwelir yr elfen oruwchnaturiol, nodwedd sydd yn ymddangos fwy nag unwaith yng ngweithiau'r awdures. Y flwyddyn ganlynol cyhoeddwyd dwy nofel gan Gweneth Lilly. Yn Gaeaf y Cerrig(1981) plethir hanes Oes Newydd y Cerrig â theulu yn yr ugeinfed ganrif gan symud o'r presennol i'r gorffennol am yn ail drwy gydol y nofel. Yn union fel y gwelwyd yn Y Drudwy Dewr defnyddio hanes i fynd â'r cymeriadau yn y nofel yn ôl i gyfnod hanesyddol, yn hytrach na lleoli y nofel yn gyfangwbl yn y

gorffennol, a wna Gweneth Lilly yn Gaeaf y Cerrig, ac fel y nofel flaenorol dyfarnwyd gwobr Tir na n-Og i hon ym 1982. Roedd y nofel hon hefyd wedi ennill y wobr yn adran Comisiynau yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon ym 1979. Dyfarnwyd y wobr ar sail dwy bennod ac amlinelliad o weddill y stori ac yn ôl y beirniad, Emrys Parry, Gweneth Lilly oedd yn haeddu nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru. Defnyddir y cymeriadau a'r digwyddiadau yn y gorffennol fel trosiad o'r hyn sydd yn digwydd yn y presennol. Yr un cymeriadau ydynt mewn gwirionedd ac er bod y digwyddiadau yn wahanol yr un problemau sydd yn codi. Dywed Gweneth Lilly paham y bu iddi ddewis y cyfrwng yma a oedd yn ei galluogi i wneud y cymariaethau rhwng y ddau gyfnod:

> **Un pwrpas i'r darnau ar yr hen fyd ydi eu bod nhw'n ffordd o dreiddio'n ddyfnach i seicoleg Rhian, ac i raddau Liam. Ynddyn nhw ceir dau gymeriad sy'n defnyddio chwedl a ffantasi i ddramaeiddio'u problemau personol, ac felly, mewn ffordd, i ymgodymu â nhw. Am fod breuddwyd Rhian wedi ei gwreiddio yn ei thir a'i theulu ei hun, mae'r profiad yn fath o katharsis iddi ac mae hi'n gallu tyfu trwyddo.** [4]

Nid nofel hanes berffaith mo hon ychwaith felly. Gwelir yr elfen oruwchnaturiol yn yr ail nofel a gyhoeddwyd ym 1981, sef Hwyl a Helynt Calan Gaeaf.

Ym 1982 cafodd tair o nofelau Gweneth Lilly eu cyhoeddi. Roedd Y Gragen a'r Drych wedi cael ei hysgrifennu rai blynyddoedd ynghynt gan iddi dderbyn y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth yn

Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch, 1979. Gofynion y gystadleuaeth oedd ysgrifennu nofel ar gyfer plant rhwng un ar ddeg a thair ar ddeg oed a honno'n nofel a oedd wedi ei seilio ar hanes neu chwedloniaeth. Unwaith eto roedd dylanwad y tad wedi treiddio i waith Gweneth Lilly gan mai awgrymiadau o nifer o wahanol chwedlau a geir yn y nofel. Fel gyda'r nofelau sydd yn tynnu ar hanes, defnyddir y chwedlau er mwyn ateb problemau'r cymeriadau, fel y dywedwyd yn y feirniadaeth yn yr Eisteddfod:

> **Y ddwy anrheg yma** [cragen a drych] **sydd yn arwain y plant trwy antur beryglus, heriol gweddill y nofel: antur a ddaw â hwy wyneb yn wyneb â chymeriadau symbolaidd a sefyllfeydd chwedlonol, sydd yn eu profi yn y tân, fel petai, nes aeddfedu o'r diwedd mewn teyrngarwch a chydymdeimlad tuag at ei gilydd.** [5]

Comisiwn gan Bwyllgor Addysg Gwynedd oedd y nofel arall a welodd olau dydd ym 1982. Comisiynwyd Gweneth Lilly i ysgrifennu nofel i goffáu saith can mlwyddiant marw Llywelyn Ein Llyw Olaf a'r canlyniad oedd Rwy'n Cofio Dy Dad. Dyma nofel hanes gyntaf yr awdures ond yn ystod yr un flwyddyn daeth yr ail nofel hanes i'r golwg, sef Ysbïwr yn yr Ysgol. Roedd hon hefyd wedi ei gwobrwyo yn yr un gystadleuaeth â'r Gragen a'r Drych yng Nghaernarfon. Nid oedd angen disgwyl llawer hyd ymddangosiad y nofel hanes nesaf ychwaith gan i Hogan y Plas gael ei chyhoeddi yn ystod y flwyddyn ganlynol. Mae ganddi un nofel hanes arall sydd yn rhan o gynllun nofelau hanes y Cyd-bwyllgor Addysg. Yn y gyfres sydd wedi ei seilio ar hanes Cymru, tasg Gweneth Lilly oedd llunio'r nofel Tachwedd Tân Gwyllt (1990).

Ni chyfyngodd Gweneth Lilly ei hysgrifennu i nofelau yn unig oherwydd cyhoeddwyd cyfrolau o ddramâu byrion o'i heiddo, megis Nadolig y Bwthyn(1983) a Y Llan ger y Llys(1991). Yn ogystal ceir llyfr Saesneg ar hanes lleol Llanfairfechan, sef Fresh as Yesterday(1988). Hefyd ysgrifennodd Orpheus(1984), nofel hanes am gyfnod y Rhufeiniaid, yn arbennig ar gyfer oedolion. Gellir gweld felly bod cynulleidfa Gweneth Lilly yn amrywio'n fawr o ran oedran a diddordebau darllen. Hefyd sylwir ei bod yn awdures a gyfrannodd yn sylweddol at faes llenyddiaeth Cymru a hynny mewn cyfnod eithaf byr, gan na chyhoeddwyd ei nofel gyntaf hyd 1980. Wedi dechrau ysgrifennu nid oedd pall ar y syniadau a rhwng 1980 a 1982 cyhoeddwyd wyth o'i llyfrau ar gyfer plant. Dengys hyn pa mor brysur y bu yn y blynyddoedd cynnar wedi ei hymddeoliad.

NOFELAU HANES GWENETH LILLY

Fel y gwelir yn y dadansoddiad uchod o nofelau Gweneth Lilly, byddaf yn ymdrin â phedair nofel gan mai dyma'r nofelau hanes a ysgrifennwyd gan yr awdures. Y bedair yw Rwy'n Cofio Dy Dad, Ysbïwr yn yr Ysgol, Hogan y Plas a Tachwedd Tân Gwyllt.

Yn ei nofel hanes gyntaf, Rwy'n Cofio Dy Dad(1982), adroddir hanes Gwenllian, sydd yn byw mewn lleiandy, yn gofyn i Margret, un o'r lleianod, pwy oedd ei thad. Gŵyr Margret gan iddi adnabod rhieni Gwenllian cyn geni'r ferch a chyda chwestiwn y ferch atgoffir y lleian am y gorffennol. Dywedir fel y bu i Dywysog Gwynedd ddod â'i wraig newydd i'r llys yn Abergwyngregyn ac fel y dewisiwyd Margret i fod yn un o forynion Elinor, y Dywysoges. Trwy'r cysylltiad yma cawn olwg ar fywyd Llywelyn ac

Elinor. Yn ogystal â chipdrem ar eu bywydau hwy adroddir hanes Ieuan, brawd Margret, yn cael ei anfon i Gadeirlan Deiniol Sant i gael ei addysg. Yno daw'n gyfeillgar â Gruffydd ap Hwfa, taeog, ac oherwydd hynny caiff y ddau ohonynt eu herlid gan ambell ddisgybl. Gartref caiff mam Ieuan a Margret hawl y tywysog i ail briodi â Rhys Gadarn, un o gyfeillion ei gŵr cyntaf, a milwr grymus yng ngosgordd Llywelyn.

Gan fod y berthynas rhwng Llywelyn ac Edward, brenin Lloegr, yn fregus cawn olwg ar sut y cynydda'r tensiwn rhyngddynt hyd nes y daw'r hyn sydd yn anochel. Yn ogystal â hanes y rhyfel adroddir y modd y bu i Elinor farw ar enedigaeth ei merch ac felly caiff Efa, mam Margret, y gwaith o fagu'r eneth. Wedi i Ieuan glywed am gynllwyn i ladd Llywelyn mae'n rhaid iddo ef a'r Tad Thomas deithio ar frys i Lanfair ym Muallt i rybuddio'r tywysog. Cyrhaeddant yno mewn pryd i achub Llywelyn ond nid cyn i'r Saeson ymosod ar eu gwersyll ac yna troi ar arweinydd y Cymry. Gwêl Ieuan hyn i gyd cyn iddo yntau gael ei glwyfo a'i drosglwyddo i ofal tyner y mynaich yn Abaty Cwm Hir. Yno mae'r Tad Thomas a Rhys Gadarn, ei dad gwyn.

Yn Abergwyngregyn mae'r newyddion am farw Llywelyn yn peri pryder a phenderfynir bod yn rhaid mynd â Gwenllian at Ddafydd, ei hewythr. Ond wrth iddynt geisio ffoi cânt eu dal gan filwyr y gelyn ac mae'n rhaid i Margret fynd gyda Gwenllian i Gastell Rhuddlan ac oddi yno i leiandy Sempringham yn Lloegr. Er mwyn aros gyda'r eneth penderfyna Margret fod yn lleian ac ym mhennod olaf y nofel dywed Margret ei bod yn adnabod tad y ferch. Ar ddiwedd y nofel felly cawn yr ateb i'r cwestiwn.

Hanes cyfnod yr erlid ar yr Ymneilltuwyr sydd yn cael ei adrodd yn y nofel Ysbïwr yn yr Ysgol(1982) a chaiff Lydia, sydd yn byw gyda'i modryb Kate a'i hewythr Ellis, ei phoenydio gan blant eraill tref Caernarfon. Gan fod Ellis yn gwrthod plygu i'r ddeddf a fynnai fod pawb yn addoli yn yr Eglwysi caiff yntau ei erlid gan rai o swyddogion y gyfraith. Swydd Lydia a Morus, y bachgen sydd yn byw drws nesaf, yw ceisio rhwystro'r swyddogion rhag dod i wybod am y cyfarfodydd cyfrinachol sydd yn cael eu cynnal yng nghartref Ellis. Ond gan fod un o'r disgyblion sydd yn mynychu ysgol Modryb Kate yn cario negeseuon at y swyddogion, mae'r dasg honno'n anodd iawn. Bu bron iddynt â chael eu dal ar sawl tro ond cânt eu hachub gan gyfrwyster eu cyd addolwyr neu gan ddewrder Lydia a Morus. Darganfyddir mai Siwsi, un o'r disgyblion mwyaf diniwed, yw'r ysbïwraig yn eu plith a gwnaeth hynny gan fod ei thad mewn dyled ac felly yn ei hannog i werthu'r cyfrinachau. Ar ddiwedd y nofel dywedir bod y brenin wedi penderfynu dileu'r deddfau a gyfyngai ar hawl yr unigolyn i addoli fel y mynnai. Yn awr caiff y teulu fyw heb rwystrau.

Ynys Môn yng nghyfnod Oes Fictoria yw'r cefndir i'r nofel Hogan y Plas(1983) ac mewn plasdy ar yr ynys y caiff Sydna ei swydd fel y forwyn newydd, yr hyn a elwir yn 'hogan y plas'. Un noson sylwa ar olau ar ynys fechan ar arfordir yr ynys ond mynn pawb ddiystyru'r golau. Ceir cyfnodau prysur iawn yn y plas, yn arbennig yn ystod y tymor saethu ac yn ystod y cyfnod tawel sydd yn dilyn daw Miss Julia i aros atynt gyda'i hathrawes bersonol. Wedi ei chyrhaeddiad hi y dechreua holl broblemau Sydna a thrigolion y plasdy. Llwydda Julia i gyffroi hen ysbryd sydd yn un o'r ystafelloedd ond gyda chymorth Mr. Charles, nai y ficer

lleol, caiff yr ysbryd, sydd ar ffurf pryf copyn, ei gaethiwo mewn potel yn yr ardd. Yn dilyn y digwyddiad yma cred Julia fod ganddi bwerau grymus a goruwchnaturiol ac ymddengys hyn yn wir am gyfnod.

Pan gaiff Julia ei thraed yn rhydd dywed wrth Sydna am ei rhwyfo draw i'r ynys leol ble y digwydd pethau digon amheus gan gadarnhau amheuon Sydna bod rhyw ddrygioni ar droed. Cred bod Lewis, ei brawd, yn ymwneud â rhyw gynllwyn smyglo ond yn y diwedd Rolant, ei brawd distawaf, sydd yn euog. Caiff ei daflu o'i gwch ar noson stormus ac oni bai am Lorenzo, gwas y plas, byddai wedi boddi. Caiff Sydna ddyrchafiad yn y plas gan dderbyn codiad yn ei chyflog ac felly ceir diweddglo hapus yn enwedig gan fod Julia bellach wedi dychwelyd i'w chartref ei hun.

Hanes y cyfnod sydd yn arwain at gynllwyn Guto Ffowc ar Dachwedd y pumed a geir yn Tachwedd Tân Gwyllt (1990). Ceir yr hanes o safbwynt Rhys, disgybl deuddeg oed y Doctor Thomas Wiliems. Mae un disgybl arall ganddo, sef Huw Prydderch, ond mae rhyw ddirgelwch ynglŷn ag ef oherwydd bob tro y daw Siôn Wyn o Wydir i weld ei gefnder Thomas Wiliems cuddia Huw oddi wrtho. Un dydd â Rhys i weld ei nain a'i chwaer Mali a chaiff gryn fraw o weld yr olwg wael a thlodaidd sydd ar y ddwy, ac ar eu cartref. Cafodd y nain ei dirwyo am beidio â mynd i'r Eglwys. Pabyddes ydyw a nid yw am fynd i wasanaeth Protestannaidd. Gan na lwyddodd i dalu'r ddirwy dygwyd peth o'i heiddo oddi arni a golygai hynny na châi hi na'i hwyres fwyd a phan geisiodd Mali fynd i gardota i Wydir cafodd ei chwipio'n gas. Daw Thomas Wiliems atynt i'w cynorthwyo.

Dychwel Arthur, brawd Rhys, o Rydychen gan gyfaddef wrth Rhys ei fod yntau'n arddel yr un ffydd â'i nain. Crybwyll hefyd fod cynllwyn ar droed i ffrwydro'r Senedd ar Dachwedd y pumed er mwyn lladd y brenin ac adfer Pabyddiaeth. Ond daw'r hanes o Lundain am fethiant y cynllwyn ac felly mae'n rhaid i Huw Prydderch a'i gyfaill y Tad Thomas ddianc o'r wlad cyn iddynt gael eu cyhuddo o deyrnfradwriaeth. Arweiniodd Rhys y ddau at Fodsilin, cartref Robert Owen sydd hefyd yn Babydd, ond daw'r forwyn i'w cyfarfod gan ddweud bod swyddogion y gyfraith yn y plas. Llwyddant i ffoi i'r Iwerddon drwy deithio ar hyd ffordd wahanol ac yn ôl yng nghartref Thomas Wiliems penderfyna Arthur ei bod yn amser iddo ddychwelyd i Rydychen gan adael i Thomas Wiliems a Rhys barhau â'u gwaith ar eiriadur newydd. Mae bywyd yn parhau yn union yr un fath ag o'r blaen.

Nid yw Gweneth Lilly yn awdures sydd yn osgoi cynnwys ffeithiau hanesyddol yn ei nofelau. Mae tair o'r pedair nofel yn rhoi darlun eithaf manwl i ni o'r digwyddiadau a oedd i'w gweld yn ein gorffennol. Yn Rwy'n Cofio Dy Dad down i ddysgu am yr atgasedd a fodolai rhwng Edward, brenin Lloegr, a Llywelyn neu Dafydd, brawd Llywelyn. Deallwn mai un o'r rhesymau am yr atgasedd oedd y modd y mynnai Edward reoli yn ôl cyfraith Lloegr, yn hytrach na chyfraith Hywel, ar diroedd yng Nghymru ac felly teimlai'r Cymry nad oeddynt yn cael chwarae teg gan y Saeson. Dywedir wrth y darllenydd am y modd y cyfyngwyd ar rym Llywelyn o fewn ychydig flynyddoedd, o fod yn arweinydd ar Gymru gyfan i gael ei gornelu yng Ngwynedd. Nid yn unig cawn olwg ar fywyd gwleidyddol y tywysog ond sonnir hefyd am ei berthynas ag Elinor a'r modd y bu'n rhaid iddo aros am flynyddoedd lawer cyn ei chael

yn wraig, ac yna disgrifir ei marwolaeth cynnar wrth roi genedigaeth i'w plentyn.

Yn yr un modd yn Tachwedd Tân Gwyllt cyflwynir hanes y frenhines Elizabeth a'i holynydd Iago a'r modd y gorfodent unrhyw un nad oedd yn arddel eu crefydd hwy, sef ffydd yr Eglwys Brotestannaidd, i addoli yn y dirgel. Drwy sôn am y cynllwyn i ladd y brenin yn y Senedd, a chael cysylltiad Cymreig â'r cynllwyn, daw'r hanes yn fwy byw ym meddyliau'r darllenwyr. Yr un math o hanes sydd i'w weld yn Ysbïwr yn yr Ysgol, ond nid y Pabyddion sydd ar ffo yma ond yr Ymneilltuwyr Cymraeg yn Arfon. Fe'u gorfodir hwythau i guddio pan maent yn addoli a dangosir yr effaith a gâi deddfau, megis Deddf y Confenitglau neu'r Ddeddf Pum Milltir, ar drigolion cyffredin. Nid yw Hogan y Plas yn cynnwys cymaint o gyfeiriadau at hanes pendant. Yma mae'r hanes yn llawer mwy cyffredinol, megis y modd y cyferbynnir bywyd y forwyn â bywyd Miss Julia, y ferch o dras fonheddig. Drwy ddarllen am Gymry cyffredin, y math o bobl a allai'n hawdd fod yn gyndadau a chynfamau i'r darllenwyr, caiff y plant flas ar yr hanes a thrwy hyn daw'r gorffennol yn fyw yn eu meddyliau.

Cyflwynir y ffeithiau mewn dull diddorol iawn a hynny, yn aml, ar ffurf sgwrs rhwng plentyn ifanc ac oedolyn. Drwy gael plentyn i holi gall yr oedolyn wneud y gwaith egluro, a thrwy hynny daw'r darllenydd ifanc hefyd i ddeall. Gyda'r dull yma nid yw'r egluro yn mynd yn fwrn gan ei fod yn cael ei gyflwyno fel rhan naturiol o wead y stori. Ceir enghreifftiau o'r arfer yma ymhob un o'r nofelau gan fod gan blant rannau blaenllaw yn y pedair nofel. Yn Rwy'n Cofio Dy Dad ceir Margret neu Ieuan yn

holi, yn Ysbïwr yn yr Ysgol Lydia yw'r plentyn, yn Hogan y Plas Sydna sydd yn gwneud y gwaith holi tra bo Rhys yn fachgen ifanc yn Tachwedd Tân Gwyllt. Gellir gweld felly bod Gweneth Lilly yn ceisio sicrhau bod plant yn gymeriadau allweddol yn y nofelau er mwyn eu 'defnyddio' i drosglwyddo gwybodaeth. Ceir enghraifft o'r dechneg hon yn y dyfyniad canlynol sydd yn adrodd yr hanes paham y bu i Llywelyn ac Elinor gael eu gwahanu am flynyddoedd:

> 'Taid,' gofynnodd Margret, 'mae pawb yn dweud fel mae'r tywysog wedi gorfod disgwyl yn hir am ei wraig, a chael ei wahanu oddi wrthi. Sut y mae hynny? Pwy ddaru eu gwahanu nhw?'
>
> Ochneidiodd ei thaid, ond roedd o'n falch ei bod hi wedi gofyn. 'Mae hi'n stori faith, 'y mach i. Rwyt ti'n cofio fod yr arglwyddes 'ma'n ferch i Iarll Simwnt de Montfort? Fe wnaeth ei thad gytundeb â'r tywysog dros dair blynedd ar ddeg yn ôl, a threfnu iddo briodi â'i unig ferch, Elinor; doedd hi ddim yn llawn tair ar ddeg oed pryd hynny.' [6]

Wedi hyn mae'r Taid yn adrodd yr holl stori, fel y bu i Elinor gael ei chipio wrth iddi deithio o Ffrainc am Gymru a'i dwyn i Windsor yn garcharores gan y brenin Edwart. Ni chafodd ei rhyddhau hyd ddeng mis ar ôl i Lywelyn dalu gwrogaeth i Edwart. Cyflwynir esboniad Taid am dair tudalen ac mae'n egluro cefndir y dywysoges newydd wrth Margret ac wedi hyn y dywed y dylai pawb fod yn gyfeillgar ag Elinor gan ei bod wedi cael bywyd anhapus. Nid yw hyn yn torri ar rediad y stori gan fod y wybodaeth a gaiff Margret gan ei thaid yn ei harwain, yn y pen-draw, at gael ei

dewis yn forwyn i Elinor, gan iddi roi tusw o flodau iddi ar ei diwrnod cyntaf yn Aber. Gellir dweud felly mai'r hanesyn yma yw man cychwyn y nofel a thrwy ei gyflwyno'n fywiog mewn deialog caiff yr hanes ei drosglwyddo'n rhwydd.

Enghraifft arall o 'ddefnyddio' plant i drosglwyddo hanes yw'r modd y mae Gweneth Lilly yn gwneud iddynt glustfeinio ar sgwrs oedolion. Weithiau gwnânt hyn o ran cyfrwystra, neu gan eu bod yn yr un ystafell a'r oedolion ac felly'n gallu gwrando'n ddidrafferth. Ceir enghraifft wrth i Rhys weithio'n ddygn ar y geiriadur tra bo ei feistr a Siôn Wyn yn cynnal sgwrs ar ochr arall yr ystafell, a defnyddir y geiriau canlynol i brofi bod Rhys yn gwrando ar eu sgwrs: **'ond ddim mor ddistaw fel na fedrai Rhys glywed pob gair.'** [7]. Yn yr un modd caiff Lydia wrando ar ddadl rhwng ei hewythr Ellis a'i frawd yng nghyfraith Richard, y naill wedi cefnogi Cromwell a'r llall o blaid y frenhiniaeth, ac wrth iddi hithau glustfeinio caiff y darllenydd wybod y rhesymau a oedd gan y naill a'r llall dros ddilyn y ddau drywydd gwahanol.

Er mwyn cyfleu naws gyffredinol ein gorffennol mae Gweneth Lilly yn cyfeirio at yr hyn sydd yn bwysig ym myd plant y dyddiau hyn. Drwy wneud hyn gall y darllenwyr gymharu eu bywywdau hwy heddiw gyda bywydau y cymeriadau o'r gorffennol. Er enghraifft crybwyllir bod y plant yn derbyn gwersi Lladin, ac mae'r dulliau dysgu yn ymddangos yn ddiflas iawn erbyn heddiw:

> **Doedd Ieuan yn cael fawr o hwyl ar y gwersi Lladin. Darllenai'r meistr dudalen o Ladin; yna byddai'n ei gyfieithu a thrafod y rheolau gramadegol.**

Ar ôl hynny disgwyliai i'r bechgyn fedru cyfieithu'r darn fesul brawddeg ac egluro gramadeg pob un gair. [8]

Y bechgyn yn unig sydd yn ddigon ffodus i dderbyn gwersi Lladin tra bo'n rhaid i'r merched fodloni ar dasgau mwy 'benywaidd', megis gwersi gwnio fel a gaiff Lydia yn Ysbïwr yn yr Ysgol. Gall y darllenydd sylwi ar y gwahaniaethau a diolch bod ei wersi ysgol ef yn llawer mwy diddorol ac yn cael eu cynnal yn ei fam-iaith.

Fodd bynnag, nid y gwersi yn unig sydd wedi newid erbyn heddiw gan fod y disgrifiadau o'r adeiladau yn dangos bod gwahaniaeth mawr rhwng ysgolion y gorffennol a'r ysgolion y bydd y darllenwyr yn eu mynychu. Yn y Gadeirlan mae'n rhaid i leuan godi ben bore er mwyn bod yn barod ar gyfer ei wersi:

Am chwech o'r gloch y bore byddai stafell yr ysgol yn oer fel y bedd a bron cyn dywylled, gan mai dim ond un gannwyll frwyn a oleuai un gongl ohoni...swatiai'r rhai [disgyblion] llai, a'u dannedd weithiau'n cletsian gan oerni, ar y fainc yn y tywyllwch... [9]

Rwy'n siŵr y byddai'r darllenwyr i gyd yn falch eu bod yn byw yn yr ugeinfed ganrif ac nid yn y drydedd ganrif ar ddeg. Ond mae'n rhaid cofio bod leuan ymhlith yr ychydig breintiedig a dderbyniai addysg. Fel Rhys yn Tachwedd Tân Gwyllt, sydd yn cael bod yn un o ddisgblion Thomas Wiliems, eithriadau ydynt o blith y tlodion gan mai gwaith fel morynion a gweision a wynebai'r plant rheini gan amlaf, megis Sydna yn Hogan y Plas.

Mae bywyd Sydna yn wahanol i fywyd Ieuan a Rhys ac yn wahanol iawn i fywydau'r darllenwyr. Mae'n rhaid iddi hithau godi'n gynnar er mwyn gwneud ei dyletswyddau o gwmpas y plas ac erbyn amser brecwast mae hi wedi glanhau'r llefydd tân a chynnau tân ynddynt, blacledio'r poptai, brwsio lloriau'r gegin a'r pantri, glanhau'r drws cefn ac yna'r drws ffrynt gan beidio ag anghofio rhoi sglein i'r pres a oedd ar y drysau. Wedi hyn i gyd y caiff osod y bwrdd ar gyfer breswast. Dyma ddangos i'r darllenwyr y fath waith y disgwylid i blant ifainc eu cwblhau, heb sôn bod mwy o waith yn wynebu Sydna wedi brecwast.

Weithiau bydd ambell nofel yn cael ei gosod mewn dyddiad pendant o'i dechrau, megis y modd y ceir yr is-deitl **Dyffryn Conwy, 1605** ar un o dudalennau rhagarweiniol Tachwedd Tân Gwyllt neu frawddeg agoriadol yr ail bennod o Rwy'n Cofio Dy Dad: **'Roedd Margret yn wyth oed pan ddaeth y Tywysog Llywelyn â'i briodferch i Abergwyngregyn, yn y flwyddyn 1278.'** [10]. Ond, gan amlaf, llwydda Gweneth Lilly i gyfleu naws y gorffennol heb orfod egluro'n bendant ym mha gyfnod y mae'r stori wedi ei gosod. Nid y math o awdures sydd yn rhestru ffeithiau moel yn ddi-ben-draw yw Gweneth Lilly ac mae hyn yn hynod wir am ei nofel Rwy'n Cofio Dy Dad. Llwyddodd Gweneth Lilly i blethu'r nodweddion hanesyddol i wead y plot ac felly teimla'r darllenydd eu bod yn rhan gwbl naturiol o'r nofel. Wrth ddarllen bydd plant yn llifo'n esmwyth dros y digwyddiadau heb iddynt ymddangos fel gwers hanes ac ni ellir ond gobeithio y bydd peth o bwysigrwydd yr hanes yn treiddio'n dawel i'w hisymwybod.

Ceir rhagoriaeth arall yn y nofel a gomisiynwyd gan Awdurdod

Addysg Gwynedd a hynny oherwydd y modd y llwydda Gweneth Lilly i ddangos bod y digwyddiadau, sydd erbyn hyn yn hen hanes i ni, wedi dylanwadu ar deimladau pobl yr oes honno. Wrth i Llywelyn ac Edwart baratoi at ryfel unwaith yn rhagor mae'r wên a fu ar wyneb Elinor gyhyd yn dechrau pylu a phan ddywed Efa wrth Margret fod '**..ganddi ofalon eraill, wsti, na ŵyr gwragedd cyffredin ddim amdanyn nhw.**' [11] daw'r darllenydd i sylweddoli mai gwraig sensitif, yn union fel gwragedd eraill, oedd Elinor hithau. Gellid credu'n hawdd mai bodau dideimlad oedd y tywysogion a'r tywysogesau ond dengys Gwneth Lilly bod sawl gwedd ar gymeriad y bodau enwog yma.

Yn yr enghraifft uchod cawn olwg ar deimladau Elinor a thrwy gydol y nofel gwelir cymeriad y dywysoges yn amlygu'i hun. Yn wir gellir dweud bod ei chymeriad hi'n bwysicach na chymeriad Llywelyn. Unwaith eto mae'n rhaid canmol Gweneth Lilly am wneud hyn gan nad yw gwragedd arweinwyr yn cael rhan blaenllaw yn ein llyfrau hanes. Ychydig iawn o hanes Elinor sydd wedi ei gofnodi ac felly cawn flas o'r hyn nas cafwyd o'r blaen. Caiff sawl peth digon dadleuol eu hawgrymu gan Gweneth Lilly, megis bod Elinor wedi beichiogi unwaith cyn iddi roi genedigaeth i Gwenllian neu dywedir bod gan Elinor ran flaenllaw yn rhai o benderfyniadau'r llys. Pan glyw Llywelyn fod Dafydd, ei frawd, wedi ymosod ar gastell Penarlâg nid yw'n sicr beth ddylai ei ymateb fod. Naill ai fe ddylai gadw at ei air a bod yn deyrngar i Edwart neu fe ddylai gefnogi ei frawd a'r Cymry a'i cefnogodd yntau. Mae'n hollol ansicr wrth iddo ofyn y cwestiwn canlynol i'w wraig cyn iddi hithau benderfynu ar ei ran:

> **'Ond sut y galla'i wadu fy mhobl fy hun?'**
>
> **Safai'r ddau yn eu dillad Grawys syml di-liw, yn wynebu'r dewis anochel...**
>
> **'Fedri di ddim,' meddai Elinor mewn llais cadarn. 'Ti yw Tywysog Cymru. Ti sydd wedi ei dysgu i feddwl amdani ei hun fel cenedl rydd.'** [12]

Awgryma hyn yn glir mai penderfyniad Elinor, ac nid Llywelyn a'i gynghorwyr, oedd y penderfyniad i fynd i ryfel ag Edwart ym Mawrth 1282. Mae hyn yn ddiddorol iawn ac yn ychwanegu at apêl y nofel fel nofel hanes.

Sylweddola Gweneth Lilly bwysigrwydd defnyddio iaith gaboledig wrth ysgrifennu. Yn wir credai mor gryf yn y farn hon fel nad aeth ati i ysgrifennu am gyfnod hir oherwydd ei chred nad oedd ei hiaith hi yn gymwys ar gyfer bod yn awdures. Er i'r syniad am ei nofel gyntaf, Y Drudwy Dewr, fod yn cronni yn ei hisymwybod am gyfnod hir ataliodd rhag ei chychwyn oherwydd ei diffyg hyder yn ei Chymraeg, fel y dywedodd yn Y Faner:

> **Bûm yn hir iawn yn magu digon o hyder i fentro ar nofel yn Gymraeg...Ond credwn y golygai nofel ar y fath thema** [thema Y Drudwy Dewr] **gamp ieithyddol y tu hwnt i'm gallu, heb gwrs coleg mewn Cymraeg efallai.** [13]

Yn sicr ni ddylai fod wedi poeni gan fod safon yr ysgrifennu yn rhagorol.

Nid un i lwytho ei hysgrifennu ag idiomau Cymraeg yw Gweneth

Lilly ond pan y mae'n eu defnyddio maent yno i bwrpas. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae Sydna yn ateb honiad Julia ei bod yn un o ddisgynyddion gwrachod Llanddona. Gŵyr Sydna nad yw hyn yn wir a'i hateb yw **'Twt lol botas maip!'** [14]. Gan na allai morwyn fechan gyhuddo perthynas ei meistres o ddweud celwydd dyma'r gorau y gallai ei ddweud i ddangos ei hanfodlonrwydd a thrwy hyn daw'r darllenydd i ddeall bod Julia'n gymeriad sydd yn hoffi rhamantu oherwydd diflastod ei bywyd beunyddiol. Cafodd Gweneth Lilly ei beirniadau am ddefnyddio ambell ymadrodd lleol a chan na chytunai â'i beirniaid gwnaeth ei safbwynt yn glir mewn cyfweliad yn Llais Llyfrau:

> **Rwyf fi fy hun wedi gweld golygydd yn rhoi 'eu gadael i gymryd eu siawns' yn lle 'eu gadael i falu yn eu bandiau', ac un arall yn cynnig ymadroddion haniaethol di-liw yn lle 'neidio i'w phen' a 'cael gwynt o' - idiomau Môn, ond rhai eitha dealladwy. Y broblem ydi creu iaith safonol heb golli cyfoeth y tafodieithoedd.**
>
> [15]

Fel T. Llew Jones cred Gweneth Lilly bod pwysigrwydd cadw'r dywediadau lleol yn hanfodol i barhad cyfoeth yr iaith Gymraeg. Cytunaf â'r hyn a ddywed Gweneth Lilly oherwydd nid yw'r idiomau a ddefnyddia hi yn amharu dim ar ddealltwriaeth y darllenwyr o'i nofelau.

Wrth fanylu ar arddull yr awdures mae'n rhaid nodi bod Gweneth Lilly yn ysgrifennu'n ddisgrifiadol iawn ac mae hyn o gymorth i'r darllenwyr wrth iddynt greu darlun yn eu dychymyg.

Pan aiff Sydna a Julia i ymweld â Betsan Parry ceir darlun disgifiadol o fwthyn yr hen wreigan ac mae'n amlwg bod ôl trefn ar y paragraffau gan fod allanolion y bwthyn yn cael eu disgrifio yn gyntaf, cyn mynd ati i sôn am y tu mewn a'r hen wraig ei hun:

> **Safai'r giât yn agored, yn hongian yn gam gan fod un o'r bachau wedi torri. Tyfai llwyn o hen ŵr wrth y drws, a lafant yr ochr arall...**
>
> **Y peth cyntaf i'w tharo oedd tywyllwch y stafell fechan a'r aroglau clos, yn drwm gan fwg priciau a lleithder, a godai o'r llawr cerrig a'r muriau anwastad...Eisteddai'r hen wreigan yn un o'r ddwy gadair freichiau bren ar yr aelwyd, a darn o weu ar ei glin, ond roedd ei dwylo'n gnotiog gan gryd cymalau. Gwisgai gap di-liw am ei phen, a chudynnau o wallt melynwyn yn hongian o dano, a siol weu am ei hysgwyddau. [16]**

Gyda disgrifiad o'r math yma gall y darllenydd weld sut gartref a oedd gan yr hen wreigan. Nid yw'r disgrifiad uchod yn rhoi darlun hanesyddol i ni oherwydd mae sawl hen wreigan yn parhau i fyw mewn cartref llaith gan wisgo planced i geisio cadw'n gynnes. Felly, pan welir geiriau sydd yn ychwanegu at yr apêl hanesyddol mae'n rhaid canmol Gweneth Lilly am eu cynnwys. Dyma enghraifft o'r nofel Rwy'n Cofio Dy Dad, pan ddisgrifir Ieuan a'r Tad Thomas yn teithio ar geffylau drwy ganol y gwynt a'r glaw ym mis Rhagfyr. Gan fod cysuron ceir o'n hamgylch ni erbyn heddiw gall y plant sydd yn darllen gydymdeimlo â'r ddau ar eu taith

ddigalon:

> **Llafuriodd y merlod dewr a'u marchogion diferol y naill awr ar ôl y llall drwy'r gwlybaniaeth llwyd, wedi eu dallu bron gan y glaw, heb sŵn yn eu clustiau ond ei hysian yn gymysg â thrydar afonydd chwyddedig, tincial y dafnau'n disgyn o'r coed, a slapio a sblasio'r llaid yn erbyn traed a choesau'r meirch. Roedd y dyn a'r bachgen hwythau yn dew o laid at eu canol.** [17]

Mae'r enghraifft uchod, er ein bod yn gallu amgyffred y dasg a wynebai Ieuan a'i gyfaill ar eu taith, yn dangos un o wendidau Gweneth Lilly yn berffaith. Weithiau bydd yn defnyddio iaith ychydig yn anodd ac o'r herwydd gall ambell blentyn gael trafferth wrth geisio deall yr hyn sydd yn cael ei ddweud. Wrth ysgrifennu ar gyfer plant mae'n rhaid bod yn ofalus ac, yn anffodus, wrth geisio sicrhau iaith safonol drwy gydol ei gwaith ceir ambell frawddeg neu baragraff sydd yn ymddangos yn drymlwythog neu'n feloddramatig, fel yn yr ychydig eiriau canlynol sydd yn disgrifio Miss Rosamund yn chwarae'r delyn: **'...a'i phen o dan ei goronbleth euraid yn plygu'n wylaidd, a'i breichiau gwynion yn cofleidio'r delyn aur, yn union fel angel.'** [18]. Dylid ceisio sicrhau nad yw'r disgrifiadau yn mynd dros ben llestri neu bydd y darllenydd yn colli amynedd â'r awdur.

Yn sicr ni fydd y darllenydd yn colli amynedd â Gweneth Lilly wrth ddarllen y sgwrsio sydd yn ei nofelau. Mae'n amlwg fod ganddi glust dda i gofnodi sgwrsio pobl, er nad yw hyn yn syndod o wybod fod ganddi ddiddordeb yn y maes, fel y dywedodd yn

Sgwarnog: **'Rwyf wrth fy modd yn sgrifennu deialog.'** [19], ac adlewyrchir y mwyniant yn ei nofelau. Mae'r ddeialog yn llithrig iawn ac felly'n annog y darllenydd ymlaen. Enghraifft o'r math yma o ysgrifennu yw'r dyfyniad a ddaw o enau Henrietta yn Ysb'iwr yn yr Ysgol:

> **'Dwi'n credu i Arabel gael 'i siomi braidd yn 'y ngwledd ben-blwydd i,' sibrydodd Henrietta'n gyfrinachol. 'Debyg 'i bod hi wedi disgwyl cael mwy o sylw gen i. Ond wyddost ti, Lydia, roedd 'na gymaint o ffrindia' er'ill yno...Mi wel'is i'n fuan iawn fod Arabel yn dechra' pwdu.'** [20]

Gyda'r collnodau mae'r iaith i'w chlywed yn realistig iawn ac felly'n llifo'n rhwydd. Wrth gwrs mae'n ddigon posibl na fyddai ein cyndadau yn siarad fel yr ydym ni heddiw ond, nid oes wahaniaeth am hynny gan fod ennyn diddordeb darllenwyr heddiw yn llawer iawn pwysicach na cheisio nodi'r union Gymraeg a siaredid ganrifoedd yn ôl.

Yn wahanol i awduron megis Elizabeth Watkin Jones neu T. Llew Jones nid yw'r antur o fewn y stori yn hollbwysig i Gweneth Lilly. Ceir rhannau sydd yn llawn tensiwn ond nid ydynt mor niferus yn ei gwaith hi ag yr oeddent yng ngweithiau awduron eraill. Ym mhenodau cyntaf Hogan y Plas nid oes unrhyw ddigwydd o gwbl ac eithrio disgrifio dyddiau cyntaf Sydna yn gweithio yn y plas. Wedi'r chweched bennod y ceir ychydig o gynnwrf gydag ymddangosiad Julia a'r ysbryd. Gall sawl un ddweud nad oes gwir densiwn yn Rwy'n Cofio Dy Dad ychwaith hyd nes y ceir bygythiad o

ymosodiad gan y Saeson o Fôn. Cafwyd tamaid i aros pryd gyda'r disgrifiad o'r erlidigaeth a ddioddefodd Ieuan a Gruffydd gan Cadwladr, un o'r disgyblion hynaf, ond enghraifft brin ydyw.

Er bod cyfle i sôn am gyffro yn Ysbïwr yn yr Ysgol ychydig iawn ohono sydd i'w weld. Yn wir canolbwyntir y tensiwn ar ddau ddigwyddiad, y naill pan mae'n rhaid i Lydia daro'r padelli i'r llawr i rybuddio'r Ymneilltuwyr bod swyddogion ar ddod a'r tro arall pan gaiff Lydia ei dal gan Mr. White, y swyddog. Wrth ymdrin â'r ysbïwr nid yw Gweneth Lilly yn defnyddio'r hanes i'w lawn botensial. Nododd Rhiannon Lloyd hyn mewn adolygiad o'r nofel:

> **Yr unig wendidau sy'n amlwg yn y nofel yw'r rheini sy'n ymwneud â'r cynllun ei hun. Trueni na fuasai rhai cliwiau wedi'u gwasgaru drwy'r llyfr er mwyn arwain y darllenydd - neu'i gamarwain - yn fwy celfydd ac yn fwy cynnil at y darganfyddiad sydyn o'r ysbïwr, yn enwedig gan mai dyna yw teitl y nofel.** [21]

Drwy gynyddu'r tensiwn am yr ysbïwr gam wrth gam gallasai'r nofel fod wedi bod yn well. Gŵyr Gweneth Lilly am y dechneg o gadw ffeithiau'n ôl, oherwydd fe'i gwelir yn nechrau Tachwedd Tân Gwyllt. Wrth i ŵr dieithr ddod i siarad â Rhys mae'n rhaid i'r darllenydd aros hyd ddiwedd y sgwrs, sydd yn bedair tudalen o hyd, cyn cael gwybod enw'r gŵr. Gan iddi ddangos ei hymwybyddiaeth o'r dechneg gallasai Gweneth Lilly fod wedi ei defnyddio yn Ysbïwr yn yr Ysgol. Tensiwn ail-law sydd yn Tachwedd Tân Gwyllt gan fod Arthur yn ailadrodd yr hanes am y

cynllwyn yn Llundain i ladd y brenin. Nid oes gan Rhys, y prif gymeriad, ran allweddol yn y cynllwyn ac felly prin iawn yw'r cyfle i gynnwys tensiwn yn y nofel. Nid oedd dewis arall gan Gweneth Lilly oherwydd ei bod wedi'i chyfyngu gan amodau cyfres y Cyd-bwyllgor. Nofelau am hanes Cymru oedd yn y prosiect ac felly ni ellid bod wedi trosglwyddo'r hanes i Lundain ac roedd rhaid i Gweneth Lilly fodloni ar y deunydd a oedd ar gael iddi.

Fodd bynnag, wedi beiriniadu'r diffyg yn nifer yr adrannau cyffrous yn nofelau Gweneth Lilly mae'n rhaid cyfeirio at yr achlysuron rheini pan y'u ceir. O'r enghraifft ganlynol, sydd yn cyfeirio at y digwyddiad pan roddwyd ystafell Ieuan a Gruffydd, neu Gutun, ar dân gan Cadwaladr, gellir gweld bod yr awdures yn wybyddus â'r dechneg o gyflwyno brawddegau cynhyrfus:

> **Neidiodd Ieuan o'i wely heb gymryd amser i feddwl. Lluchiodd y llyfr ar wely Gutun a thaflu'r stol ar ei hochr, gan dorri'r llestr a gwagio'r saim tanllyd i ganol y brwyn llaith ar y llawr cerrig. Cydiodd yn ei obennydd a'i daro yn erbyn y fflamau. Ciciodd ei wely o'r neilltu rhag ofn i'r tân gydio yn hwnnw.** [22]

Gyda'r defnydd o frawddegau byrion a gosod y ferf ar ddechrau pob brawddeg rhoddir yr argraff o gynnwrf a symud sydyn. Dyma sydd ei angen er mwyn tynnu sylw'r darllenwyr ifanc.

Ceir rhai nodweddion ym mhlot nofelau Gweneth Lilly sydd yn ymddangos dro ar ôl tro. Fel awdures sydd wedi ysgrifennu nofelau ffantasi mae'n amlwg bod yr elfen oruwchnaturiol yn mynd

â'i bryd. Nid yn Hogan y Plas yn unig y gwelir y nodwedd yma oherwydd yn Rwy'n Cofio Dy Dad ceir hanes breuddwyd Ieuan. Nid yw'r freuddwyd yn ychwanegu at y stori ac eithrio fel modd i ddangos pa mor wael yw Ieuan, gan ei fod yn ffwndro. Mewn dwy dudalen o ffantasi gwêl Ieuan y diafol ar ffurf Gwion ab Adda, sef sacrist y gadeirlan, ei fam, ei chwaer Fflur, a chlyw gnul cloch yn canu'n angladdol. Cyflwyna Gweneth Lilly'r freuddwyd mewn ffordd sydd yn dangos yn eglur bod Ieuan yn gymysglyd, fel gwelir yn y dyfyniad isod:

> **Canai'r cnul yn drymaidd dragwyddol yn y tywyllwch, nes i'r twr ysgwyd trwyddo. Weithiau fe fyddai'n hongian uwchben Ieuan, a'i ddwndwr yn ei ddrysu bron wrth iddo ymdrechu i ddianc o gyrraedd y drewdod o bydredd yng nghwaelod y pwll. Weithiau byddai'r twr ei hun yn troi ben ucha'n isa', a'r gloch yn canu ac atseinio'n wyllt bendramwnwgl cyn ailgydio yn ei rhythm angladdol ymhell oddi tano.** [23]

Drwy bwysleisio'r modd y mae swn y gloch yn poenydio Ieuan a'r darluniau sydd yn ymddangos yn ei ddychymyg, megis y twr ar ei ben i lawr, dangosir yn glir bod Ieuan yn symol.

Ffantasi digon diniwed yw'r enghraifft uchod o'i chymharu â'r hyn a geir yn Hogan y Plas. Yn y nofel hon mae'r elfennau goruwchnaturiol yn gryfach o lawer. Wrth i Julia droelli ei bysedd cred Sydna a hithau mai hi a fu'n gyfrifol am ymddangosiad ysbryd yr ystafell las, am ddamwain athrawes bersonol Julia wrth iddi dorri ei choes yn ogystal â gwaeledd Mrs. Edwards. Efallai

mai cyd-ddigwyddiad hollol oedd y pethau hyn ond nid yw Gweneth Lilly yn peidio ag awgrymu bod Julia yn berchen ar bwerau arbennig a sinistr. Hefyd dywedir bod gan Betsan Parry y gallu i geulo gwaed a dyna'n union a wna i frawd Sydna. Wrth gyflwyno deunydd o'r math yma i ddarllenwyr ifainc mae'n rhaid bod yn ofalus gan fod rhai plant yn ofni straeon sydd yn cynnwys yr elfen oruwchnaturiol ond, gan fod Gweneth Lilly yn ysgrifennu ar gyfer darllenwyr hŷn, credaf nad yw hyn yn broblem yma. Os oes angen beirniadu y nofel gellir dweud bod yr elfen wrachyddol yn cael y lle blaenllaw ar draul y stori hanes. Dywedwyd bod y stori ramant yn mynd â bryd Elizabeth Watkin Jones ac mae'n rhaid dweud mai'r stori am bwerau hud sydd yn denu Gweneth Lilly yn Hogan y Plas. Wrth ei chymharu â'r nofelau eraill mae'n amlwg nad ydyw o'r un safon wrth ei hystyried fel nofel hanes.

Ceir nifer o ddigwyddiadau cyfleus a ddewisiwyd yn arbennig gan yr awdures er mwyn i'r darllenydd gael golwg manwl ar gynnwys prif rediad y stori. Yn Hogan y Plas dewisir Sydna i eistedd yn yr ystafell wely gyda Julia, gan eu bod tua'r un oed, tra mae Mr. Charles yn cael gwared â'r ysbryd. Oni bai i Sydna gael ei dewis mae'n bur debygol mai adroddiad ail-law a gâi'r darllenydd gan Julia wedi'r digwyddiad. Ond drwy ddewis Sydna caiff y darllenydd fod yn gymaint rhan o'r digwyddiad â'r ddwy ferch. Tebyg iawn yw'r modd y caiff Margret ei dewis i fod yn forwyn i Elinor yn Rwy'n Cofio Dy Dad oherwydd pe na bai hyn wedi digwydd ni fyddai'r darllenydd yn cael cipolwg ar fywyd y llys.

Hefyd gan mai Ieuan sydd yn clywed am y cynllwyn i ladd Llywelyn mae'n rhaid iddo ef deithio i Lanfair-ym-Muallt ac felly

mae'r darllenydd yn cael y cyfle i weld lladd y tywysog trwy lygaid Ieuan. Gall darllenydd feddwl mai digwyddiad cyfleus yn nychymyg Gweneth Lilly oedd hanes y cynllwyn ond pan eir ati i ymchwilio gwelir bod peth gwirionedd yn y digwyddiad. Dywed yr hanesydd J. Beverley Smith, sydd yn ailadrodd o'r Brutiau cyn rhoi ei farn, y canlynol:

> **'ac yna y gwnaethpwyd brâd Llywelyn yn y clochdy ym Mangor gan ei wŷr ef ei hun'. Yn sicr, nid oes modd dweud pwy oedd yn y clochdy ar y diwrnod hwnnw...** [24]

Gwelir felly bod sail ffeithiol i'r digwyddiad er bod Gweneth Lilly yn ychwanegu at yr hanes er mwyn cael y gorau o'r stori. Dengys hyn ei bod yn awdures lwyddiannus. Wrth gwrs mae nofelau yn dibynnu ar ddigwyddiadau cyfleus i raddau ac mewn nofelau hanes mae hi'n hollbwysig bod y darllenwyr yn cael gweld yr holl ddigwydd er mwyn iddynt ddeall yr hanes yn gliriach. Wrth ddarllen am y cyffro maent yn fwy tebygol o gofio'r stori ac felly gofio peth o'u hanes. O'r herwydd mae'n rhaid canmol Gweneth Lilly am ddwyn y digwyddiadau gyda'i gilydd yn gelfydd heb i'r cyd-ddigwyddiadau ymddangos yn anghyson â gweddill plot y nofelau.

Wrth ystyried oedran tebygol darllenwyr nofelau Gweneth Lilly mae'n rhaid sylweddoli bod angen llawer mwy o aeddfedrwydd i ddeall ei nofelau hi nag a oedd angen i ddeall nofelau yr awduron yr ymdriniwyd â hwy yn flaenorol. Cyfaddefodd ei hun ei bod yn anelu ei gwaith at blant hŷn, sef y rheini yn eu harddegau hwyr, oherwydd y math o bynciau y mae'n eu trafod yn ei gwaith:

> Rwyn hoffi trin datblygiad mewn personoliaeth a pherthnasau; tyndra a gwrthdaro rhwng aelodau o un teulu, yn arbennig efallai rhwng plentyn a'i rieni; darganfod bod da a drwg, cariad a chasineb yn tyfu ochr yn ochr yn yr un pridd; dewis gwerthoedd a dod o hyd i gyfeiriad mewn bywyd; dechrau meistroli gwendidau personol a magu hunan-hyder. Themâu gogyfer â'r arddegau ydi'r rhain. [25]

Gellir gweld felly bod Gweneth Lilly yn hoffi ymdrin â stori sydd â gafael ynddi. Er hyn, mae'n hollol amlwg bod Tachwedd Tân Gwyllt wedi'i hanelu at ddarllenwyr iau na'i nofelau eraill, a hynny oherwydd ei bod yn rhan o gyfres a luniwyd yn arbennig ar gyfer plant blynyddoedd olaf yr ysgol gynradd. Darllenwyr tua'r deuddeg oed yw'r plant yr anelwyd y nofel Ysbïwr yn yr Ysgol ati ac mae hyn yn eithaf teg gan nad oes cymaint â hynny o waith dadansoddi ar y cymeriadau ynddi. Yr unig beth a allasai fod yn aneglur i'r darllenwyr yw'r cyfeiriadau at ddiwinyddiaeth wrth gymharu barn yr Ymneilltuwyr a'r Protestaniaid. Ond nid oes llawer o sôn am hyn a gellir mwynhau'r stori heb i'r darllenydd ddeall y syniadau'n berffaith. Gan fod y themâu a drafodir yn Hogan y Plas yn themâu a allai effeithio ar rai plant sensitif, credaf fod oedran darllenwyr tebygol fymryn yn hŷn na darllenwyr Ysbïwr yn yr Ysgol. Gellir gweld felly nad darllenwyr ifainc a fyddai'n cael y boddhad mwyaf o ddarllen nofelau Gweneth Lilly a phan geisir ystyried cynulleidfa Rwy'n Cofio Dy Dad mae'r broblem yn llawer mwy.

Cofiaf geisio darllen Rwy'n Cofio Dy Dad ym mlynyddoedd

cynnar yr ysgol uwchradd ond bu'n rhaid i mi ei roi o'r neilltu gan fod y llyfr yn rhy anodd i mi ar y pryd. Wrth gwrs nid yw hyn yn profi ei fod yn anodd ar gyfer pob disgybl deuddeg neu dair ar ddeg oed. Ond mae'n rhaid cyfaddef bod y stori yn gofyn am gryn aeddfedrwydd er mwyn ei gwerthfawrogi'n llwyr, ac nid aeddfedrwydd o ran dealltwriaeth hanes yn unig oherwydd mae safon yr iaith a ddefnyddir, ar brydiau, yn gofyn am aeddfedrwydd yn y Gymraeg. O ran yr hanes nododd un adolygydd [26] y byddai o fantais, ond nid yn angenrheidiol, i'r darllenydd ddeall ychydig am y cyfnod cyn mynd ati i ddarllen y nofel. Ond wedi dweud hyn nid oes raid bod yn arbenigwr ar hanes er mwyn cael mwynhad o ddarllen nofelau hanes, fel y nododd Gweneth Lilly ei hun:

> **Rwy'n hoffi hanes er nad wyf yn hanesydd, ac yn credu y dylai pob plentyn gael cyfle i ystyried 'rhin y cenedlaethau coll'. Y mae'n rhaid i mi gyfaddef mai trwy lenyddiaeth yn bennaf y deallais i hanes...** [27]

Gall y darllenwyr ifainc hefyd ddod i ddeall rhywfaint ar ein gorffennol drwy gyfrwng y nofel hon. O'r herwydd credaf y gellid argymell plant tua phedair ar ddeg neu bymtheg oed i fynd ati i ddarllen Rwy'n Cofio Dy Dad.

Nid oes angen cyfyngu darllenwyr Gweneth Lilly i blant yn unig gan fod ei nofelau 'plant' yr un mor addas ar gyfer oedolion ac, yn aml, wrth i'r rhai hŷn fynd ati i ail ddarllen y nofelau cânt olwg ar bethau na sylwasant arnynt ynghynt. Dywedododd yr awdures ei hun nad ydi **'...awdur da i blant ddim yn 'sgrifennu i lawr' i'w ddarllenwyr, ac am ei fod o'n parchu'r ifainc mae**

oedolion hefyd yn mwynhau ei waith.'[28]. Mae hyn yn hollol wir am nofelau hanes Gweneth Lilly, fel ei nofelau eraill, gan fod ynddynt haenau gwahanol ac wrth i'r darllenwyr fynd yn hŷn dônt ar draws yr hanenau newydd a chânt fwynhad pellach o ddarllen ei nofelau. Yn yr erthygl 'Chwarter Canrif o Antur' yn Pori dywed Olive Jones y canlynol am y gwahanol haenau sydd yng ngwaith yr awdures:

> **Mae storïau Gweneth Lilly yn gofyn am ddarllenwyr profiadol sy'n ddigon aeddfed eu teimladau a'u deall ac sydd wedi cael help llaw pobl hŷn i werthfawrogi haenau mewnol dan-yr-wyneb stori, er, fel y gwyddom ni oll o brofiad, bod modd cael blas ar y stori arwynebol yn unig heb flasu rhin yr is-haenau.** [29]

Er bod yr haenau yn gallu rhoi trafferthion i ambell ddarllenwr maent yn ychwanegu at fwynhad y darllenwr hŷn. Felly gan nad ydynt yn rhwystr i fwynhad y darllenwyr iau, mae'n rhaid clodfori Gweneth Lilly am lwyddo i greu arddull sydd, ar y naill law, yn addas ar gyfer darllenwyr medrus ac, ar y llaw arall, yn addas i'r rhai nad ydynt mor fedrus.

Mae'n rhaid dweud bod y nofel hanes yn codi i dir newydd yn nwylo Gweneth Lilly ac ni cheir gwell enghraifft na'r nofel Rwy'n Cofio Dy Dad. Ynddi ceir y rhagoriaethau y bu hir ddisgwyl eu gweld ynghyd mewn un nofel. Cyflwynir y ffeithiau hanesyddol mewn dull syml a dirodres gan beidio ag amharu dim ar rediad y stori. Yn wir maent yn cael eu cyflwyno mor rhagorol fel nad yw'r darllenydd yn sylweddoli ei fod yn cael ei fwydo â'r naill

ffaith ar ôl y llall. Ceir ynddi hefyd stori sydd yn symud yn gelfydd o un digwyddiad i'r digwyddiad nesaf gan arwain yn y pen-draw at farw Llywelyn a chipio Gwenllian i Loegr o olwg ei gwlad. Gam wrth gam dangosir sut y bu i hyn ddigwydd a chan fod y cwbl i'w weld trwy lygaid dau blentyn gall y darllenwyr ifainc uniaethu â chymeriadau Ieuan a Margret. Gyda hyn caiff y darllenwyr fwy o flas ar y stori ac felly caiff yr hanes ei gyflwyno mewn dull sydd o ddiddordeb i'r darllenwyr. **'Mwynhau naws y cyfnod a chael syniad o'r prif ddigwyddiadau a wneir drwy gyfrwng y nofel hon.'** [30] a ddywedodd Rhiannon Ifans a dyna'n union yw dyletswydd y nofel hanes.

Hyd yn hyn yn y penodau blaenorol gwelwyd gwendidau yng ngweithiau yr awduron, megis eu bod yn defnyddio'r cyfrwng er mwyn cyflwyno stori ramant neu stori antur. Ond ni ellir dweud hyn am Gweneth Lilly gan fod y nofel hanes yn cael y flaenoriaeth ganddi hi. Efallai bod ei harddull weithiau'n anodd ar gyfer y darllenwyr ieuengaf ond drwy gael eu cyflwyno i iaith raenus bydd eu Cymraeg hwythau'n gwella, ac fel y dywedwyd eisoes nid yw'r arddull yn amharu ar fwyniant y darllen. Clodforwyd ei gwaith gan lawer ac mewn adolygiad o Rwy'n Cofio Dy Dad nodwyd yr hyn sydd yn gwneud Gweneth Lilly yn awdures o fri:

> **Mae ymddangosiad Gweneth Lilly ym mywyd llenyddol Cymru yn achos llawenydd mawr. Mae ganddi ysgolheictod amlwg a dawnfawr. Yn y nofel hon, y mae'r holl hanes wedi'i drin yn hyderus fel un yn cerdded llwybr cyfarwydd, ac y mae dychymyg y gwir artist dan reolaeth lwyr.** [31]

Defnyddiodd Gweneth Lilly ei gallu a'i diddordeb ym maes hanes er mwyn creu nofelau sydd â rhan bwysig yn natblygiad y nofel hanes yng Nghymru. Yn ei gwaith hi, ar gyfer plant, y gwelir yr un gorchest ag a geir yng ngwaith Marion Eames neu Rhiannon Davies-Jones, sydd yn awduron ar gyfer oedolion. Mae Gweneth Lilly, fel hwy, yn cynhyrchu nofelau safonol iawn yn y Gymraeg ac wedi arwain y nofel hanes ar gyfer darllenwyr ifainc i dir newydd.

1 Sgwarnog, Haf 1980, t. 28.
2 Llais Llyfrau, Gaeaf 1982, t. 6.
3 ibid., t. 7.
4 ibid., t. 7.
5 Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Caernarfon a'r Cylch 1979, tt. 165-166.
6 Rwy'n Cofio Dy Dad, t. 22.
7 Tachwedd Tân Gwyllt, t. 20.
8 Rwy'n Cofio Dy Dad, t. 55.
9 ibid., t. 55.
10 ibid., t. 15.
11 ibid., t. 128.
12 ibid., t. 136.
13 Y Faner, Medi'r 28ain, 1979, t. 14.
14 Hogan y Plas, t. 165.
15 Llais Llyfrau, Gaeaf 1982, t. 7.
16 Hogan y Plas, t. 173.
17 Rwy'n Cofio Dy Dad, t. 193.
18 Hogan y Plas, t. 70.
19 Sgwarnog, Haf 1980, t. 28.
20 Ysbiwr yn yr Ysgol, t. 60.
21 Pori, Hydref 1983, t. 32.
22 Rwy'n Cofio Dy Dad, tt. 86-7.
23 ibid., t. 223.
24 Llywelyn ap Gruffudd Tywysog Cymru, t. 372.
25 Y Faner, Medi'r 28ain, 1979, t. 15.
26 Yr Athro, cyf. 33, rh. 1, Rhagfyr 1982, t. 30.
27 Y Faner, Medi'r 28ain, 1979, t. 14.
28 Llais Llyfrau, Gaeaf 1982, t. 6.
29 Pori, Hydref 1983, t. 6.
30 ibid., tt. 31-32.
31 Barn, rh. 234/235, Gorffennaf/Awst 1982, t. 248.

Clo

CLO

Wrth edrych yn ôl dros gynnyrch y pedwar awdur yr ymdriniwyd â'u gwaith yng nghorff y traethawd yma mae'n hollol amlwg bod gwahaniaethau lu rhyngddynt. Roedd gan bob un ohonynt resymau gwahanol dros ddechrau ysgrifennu ac o'r herwydd mae'r cynnyrch yn amrywio o'r naill awdur i'r llall. Dywedodd E. Morgan Humphreys mai ysgrifennu er mwyn cynhyrchu deunydd antur ar gyfer bechgyn oedd ei fwriad ef. Sylwodd ar y tlodi mawr ym maes nofelau antur Cymraeg yn ei blentyndod ef ac felly roedd am lenwi peth ar y bwlch gan geisio cyfoethogi bywydau y genhedlaeth nesaf. Diddanu oedd pennaf fwriad Elizabeth Watkin Jones hefyd a chan fod ganddi gryn ddiddordeb ym maes hanes dewisiodd osod ei nofelau mewn cyfnodau hanesyddol. Mae cyflymder ei hysgrifennu yn dangos i ni nad ei bwriad oedd trosglwyddo gwybodaeth hanesyddol gywir a manwl i'w darllenwyr. Diddanwch ei darllenwyr ifainc oedd yn mynd â'i bryd a chan fod cymaint o ddisgwyl am ymddangosiad ei nofel nesaf roedd cael y gwaith i'r wasg yn bwysig iddi ac felly rhaid oedd mynd ati i'w ysgrifennu mewn dim o amser.

I T. Llew Jones ei ardal ef oedd yn bwysig yn ei nofelau. Mae'r mwyafrif llethol o'i nofelau wedi eu gosod yn ei filltir sgwâr yn Nyfed a phob clod iddo gan mai naturiol o beth yw gwneud hyn. O'r herwydd mae brogarwch T. Llew Jones i'w weld yn amlwg yn ei nofelau. Y mae yntau, fel E. Morgan Humphreys, yn ymwybodol mai creu nofelau antur y mae ar gyfer ennyn diddordeb ei ddarllenwyr ac, fel Elizabeth Watkin Jones, roedd cryn ddisgwyl ymhlith ei gefnogwyr am ymddangosiad ei nofel

nesaf. Ond yn wahanol i'r awdures o Ben Llŷn mae ôl mwy o waith ymchwil yn nofelau T. Llew Jones gan ei fod yn ymwybodol o bwysigrwydd digwyddiadau hanesyddol yng nghorff ei nofelau. Dyma sydd yn clymu T. Llew Jones gyda'r awdures yr ymdrinwyd olaf â'i gwaith, sef Gweneth Lilly. Mae hi yn ymwybodol iawn o'r digwyddiadau hanesyddol. Dyna sydd yn hollbwysig iddi hi gan mai o gwmpas y digwyddiadau hanesyddol ffeithiol gywir y mae ei chymeriadau yn creu'r stori yn hytrach na bod cymeriadau yn creu digwyddiadau hanesyddol dychmygol er mwyn parhau â'r stori. Ni ellir gwadu na fu Gweneth Lilly yn gwneud gwaith ymchwil trylwyr iawn cyn mynd ati i lunio ei nofelau gan fod ôl ei hymchwil i'w weld yn berffaith amlwg yn ei gwaith.

Wrth grynhoi bwriadau'r awduron mae'n amlwg eu bod yn syrthio i gategoriau cwbl wahanol. Ar y naill law mae E. Morgan Humphreys ac Elizabeth Watkin Jones yn awduron sydd yn hoffi hanes ac yn ei ddefnyddio er eu mwyn eu hunain. Defnyddia E. Morgan Humphreys ef er mwyn lleoli ei nofelau antur ac Elizabeth Watkin Jones er mwyn cael cefndir i'w nofelau rhamant. Yr antur a'r rhamant oedd bwysicaf i'r ddau awdur fel ei gilydd ond bod yr antur yn dod o flaen y rhamant gan E. Morgan Humphreys tra bo Elizabeth Watkin Jones yn cael mwy o flas ar y rhamant a'r antur wedyn yn eilbeth yn ei nofelau. Digwyddiad fu i'r ddau ddefnyddio cefndir hanesyddol a gellid yn hawdd addasu'r nofelau a'u gosod yn y presennol neu mewn unrhyw gyfnod hanesyddol gwahanol i'r hyn a ddewisiwyd gan y naill awdur a'r llall.

Cyfeiriwyd at E. Morgan Humphreys ac Elizabeth Watkin Jones fel awduron oedd mewn categori gyda'i gilydd ond mae'n rhaid

gosod T. Llew Jones mewn categori ar wahân iddynt hwy. Mae'n gwbl wir bod mwy o ôl ymchwil yn ei waith ef nag a oedd yng ngwaith y ddau awdur a'i rhagflaenodd ac o'r herwydd mae mwy o ddyfnder i'w nofelau a gellir credu yn y digwyddiadau a'r cymeriadau. Awdur sydd yn gwbl ymwybodol o hanes ydyw ond nid yw wedi ei rwymo ei hun yn llawn i'r hanes hwnnw gan mai'r stori antur sydd yn mynd â'i fryd ac oherwydd hynny mae'n dueddol i ddefnddio'r hanes er mwyn lleoli ei nofelau mewn cyfnodau anturus, megis cyfnod Beca yn Cri'r Dylluan. Fel E. Morgan Humphreys ac Elizabeth Watkin Jones nid yr hanes sydd yn cael y lle blaenllaw ond yn wahanol i'r ddau awdur yma mae yn llawer mwy ymwybodol o'r hanes ac felly yn haeddu cael ei roi mewn categori ar wahan ond heb fod y categori hwnnw gam cyfan oddi wrth y ddau awdur blaenorol.

Bellach mae'n ddigon hawdd dadansoddi mai Gweneth Lilly yw'r awdures sydd yn cymryd y cam cyfan. Yn ei gwaith hi y gellir gweld y cam pellach a droediodd o'i chymharu â T. Llew Jones. Roedd hanes yn bwysig iddo ef ond mae'n hollbwysig i Gweneth Lilly. Mae ei nofelau yn llawn gwybodaeth a ffeithiau hanesyddol a rheini'n cael eu cyflwyno mewn dulliau diddorol a syml i'r darllenwyr. Mae'r oriau o waith ymchwil wedi dwyn ffrwyth iddi hi ac ni ellir ond enwi Rwy'n Cofio Dy Dad fel yr enghraifft mwyaf perffaith o'i gwaith ym maes y nofel hanes i blant. Llwydda i gyplysu'r antur gyda'r hanes fel y gwna'r awduron eraill ond nid yw hi'n bradychu'r hanes er mwyn gwneud hyn. Yn wir mae'n cadw mor glos at y ffeithiau nes mae rhywun yn rhyfeddu at y modd y llwydda i lunio cymeriadau a stori o'u hamgylch. Ond llwyddo, a hynny mewn dull clodwiw iawn, a wna Gweneth Lilly yn

ei nofelau hanes a dyna paham y mae'n ddigon hawdd dweud ei bod mewn categori cwbl ar wahân i'r awduron eraill. Yn gryno felly, ymddengys E. Morgan Humphreys ac Elizabeth Watkin Jones ar y naill law, Gweneth Lilly ar y llaw arall tra bo T. Llew Jones yn y canol rhwng y tri awdur.

Wrth nodi'r gwahaniaethau mawr sydd rhwng yr awduron mae modd nodi bod nodweddion tebyg yng ngwaith y pedwar. Mae'r elfen o antur yn bodoli yn straeon yr holl awduron. Nid yw hyn yn syndod mawr gan fod rhaid iddynt geisio dal a chadw diddordeb y darllenwyr ifainc a thrwy ddefnyddio'r elfen antur fe wneir hyn gan fod plant, ar y cyfan, wrth eu bodd gyda straeon cyffrous. Yn yr un modd mae'r holl awduron yn ceisio cyfeirio at wisgoedd y cyfnod er mwyn dangos i'r darllenwyr bod eu stori wedi ei lleoli mewn cyfnod hanesyddol. Yn naturiol ddigon mae ambell awdur yn llwyddo yn well na'i gilydd i gyfleu'r teimlad yma ond yr un yw bwriad y pedwar wrth wneud hyn. Gellir gweld yn hawdd mai yng ngwaith yr awduron mwyaf diweddar y mae'r ysgrifennu o safbwynt yr agwedd hanes i'w weld ar ei orau. Digon cyffredin yw'r manylion hanesyddol yng ngwaith E. Morgan Humphreys ac Elizabeth Watkin Jones o'i gymharu â'r hyn a welir yn nofelau T. Llew Jones a Gweneth Lilly. Mae'n amlwg felly bod datblygiad wedi bod o safbwynt yr elfennau hanesyddol gan fod y ddau awdur diwethaf, ac yn arbennig Gweneth Lilly, yn rhoi sylw mawr i fanylion hanesyddol. Nid cyfeirio at wisgoedd a bwydydd yn unig a wna hi, fel y gwelir yng ngwaith Elizabeth Watkin Jones, ond yn hytrach mae'r gwaith drwyddo draw yn cynnwys ffeithiau a gwybodaeth hanesyddol. Yn sicr gellir gweld datblygiad a'r datblygiad hwnnw am y gorau.

Ceir rheswm arall dros oruchafiaeth Gweneth Lilly yn y maes yma a hynny yw'r ffaith ei bod hi'n mynd ati'n unswydd i ysgrifennu nofelau hanes yn hytrach nag unrhyw ffurf arall ar y nofel. Nid dewis ysgrifennu am gyfnod hanesyddol gan fod y cyfnod hwnnw'n llawn cyffro neu'n gyfnod y gellid gosod digwyddiadau cyffrous cyfleus ynddo, megis y sôn am smyglwyr yn Rhwng Rhyfeloedd neu yn nofelau T. Llew Jones, a wna Gweneth Lilly. Dewisia hi y cyfnod gan fod hwnnw yn gyfnod sydd yn mynd â'i bryd o safbwynt ei hanes ac oherwydd y gwaith ymchwil a wna daeth i adanabod y cyfnod a'r digwyddiadau fel cefn ei llaw. Mae hyn i'w weld yn berffaith glir yn rhwyddineb y darllen a'r modd y caiff ei holl waith ymchwil ei gyflwyno mor ddidrafferth yr olwg. Ni chyfyngodd Gweneth Lilly ei nofelau hanes ar gyfer darllenwyr ifanc yn unig gan iddi ddewis y ffurf ar gyfer oedolion hefyd yn ei nofel Orpheus(1984). Dengys hyn nad diddanwch plant oedd ei phennaf reswm am ddewis y ffurf ac mae'n amlwg bod Gweneth Lilly yn ymwybodol o'r nofel hanes fel cyfrwng ehangach na'r tri awdur arall. Gellir gweld hyn yn glir yn ei gwaith gan fod nofelau Gweneth Lilly yn nofelau hanes cyflawn gyda'r digwyddiadau hanesyddol yn cael lle blaenllaw tra nad yw gwaith y tri arall yn nofelau hanes crwn oherwydd mai eilbeth yw'r hanes iddynt hwy. O dan ddwylo medrus Gweneth Lilly gellir gweld bod y nofel hanes wedi aeddfedu a thyfu yn hyderus iawn. Gosododd seiliau tu hwnt o gadarn ar gyfer awduron y dyfodol.

Bu ychydig dros ganrif ers ymddangosiad cyntaf y nofel hanes yn Gymraeg gan mai Gwen Tomos gan Daniel Owen yw'r nofel a gaiff ei hystyried fel ein nofel hanes gyntaf. Wrth edrych yn ôl dros gynnyrch y ganrif a aeth heibio mae'n ddigon hawdd nodi mai yn y

deng mlynedd ar hugain diwethaf yn unig y gwelwyd y nofel hanes yn aeddfedu nes camu o'i phlentyndod i'w glaslencyndod gan roi i ni y nofel hanes ddatblygedig. Ond sylwer mai i'w glaslencyndod yn unig y camodd gan fod angen cam arall arni i gyrraedd ei llawn dwf. Gellir dweud hyn gan na chafodd y ffurf ei dderbyn yn llawn gan ddarllenwyr nac awduron mewn gwirionedd. Cred llawer mai pethau diflas yw nofelau hanes ac mai ar gyfer y rhai sydd â gwir ddiddordeb mewn hanes y'u lluniwyd. Nid oes rhithyn o wirionedd yn hyn gan fod modd mwynhau nofel hanes er ei mwyn ei hun fel nofel gyflawn ond bod y cymeriadau a'r plot yn digwydd bod mewn cyfnod hanesyddol hollol wahanol i'r darllenydd. Mae pob nofel yn arwain darllenydd i fyd sydd yn wahanol i'w fywyd bob dydd a dyna'r union beth a ddigwydd mewn nofel hanes.

Nid oes reswm digonol dros neilltuo'r nofel hanes i gategori ar wahân ar gyfer nifer cyfyngedig o ddarllenwyr. Fe geisiwyd dwyn y ffurf i sylw darllenwyr ifainc yn ddiweddar gyda chyfres y Cyd-bwyllgor Addysg(CBAC) ond mae gennyf amheuaeth ai drwy gyfres benodedig y daw'r ffurf yn boblogaidd. Nid bod y gyfres yn fethiant, o bell ffordd, gan fod yma nofelau arbennig iawn a'r rheini yn adrodd hanes Cymru am ganrifoedd lawer. Gosodir y nofel gyntaf, mewn trefn gronolegol, yng nghyfnod Derwyddon Môn ac ymosodiad y Rhufeniniaid ar yr ynys, sef y cyfnod 60 O.C., a'r nofel olaf yn nhridegau'r ganrif yma. Cyffyrddir â hanes bron i fil o flynyddoedd mewn un nofel ar bymtheg felly! Tipyn o gamp mewn gwirionedd. Wrth gwrs yr hyn a geir yw croesdoriad o rai o brif ddigwyddiadau hanes Cymru. Ymhlith y digwyddiadau y cyfeirir atynt mae llofruddiaeth y Barwn Owen gan Wylliaid Cochion Mawddwy, Helyntion Beca, ymgyrch y

Siartwyr yn ogystal â chaledi bywyd yn y pyllau glo.

Wrth fanylu ar y straeon mae amryw ohonynt yn ymdrin â'r un themâu ac felly yn straeon sydd yn ddigon tebyg i'w gilydd. Yn y nofel Caleb gan Mair Wynn Hughes ceir hanes tlodi teulu yn Ynys Môn. Oherwydd eu sefyllfa fregus mae'n rhaid iddynt symud i Amlwch i chwilio am waith yn y gweithfeydd copr. Yn ffodus i'r teulu yma cânt eu hachub oddi wrth fudreddi coch y dref gan ŵr bonheddig sydd yn cynnig gwaith i'r teulu ar ei ystâd yn y wlad. Hanes digon tebyg am dlodi ac ymateb gweithwyr i'w diffyg hawliau a geir yn y nofel Cip ar y Goleuni gan Irma Chiltion. Ym mhwll glo Kynaston yng Nghlwyd y lleolir helyntion gweithwyr Syr Watcyn Williams Wyn a'u brwydr i geisio gwell cyflog iddynt eu hunain. Pyllau glo De Cymru yw cefndir y nofel Dan gan Bernard Evans ac ynddi ceir hanes plentyn ifanc deuddeg oed yn gorfod dioddef caledi gweithio o dan y ddaear yn ogystal â chael ei gamdrin gan ei dad gartref. Daw Dan yn ŵr cryf sydd yn fodlon brwydro dros gyfiawnder y gweithiwr. Cyfiawnder y gweithiwr oedd hefyd yn mynd â bryd y Siartwyr yng Nghasnewydd a hanes y gwrthryfel hwnnw a geir yn y nofel Cyffro yn y Cwm gan Mari Williams. O'r bras grynhoad o'r nofelau uchod gellir gweld eu bod yn debyg iawn i'w gilydd ond mae'n rhaid cofio ei bod yn bwysig i ddarllenwyr ifainc sylwi bod gan y werin gyffredin ran flaenllaw yn ein hanes. Wedi dweud hyn wrth ystyried mai un nofel ar bymtheg oedd yn y gyfres i gyd a bod disgwyl i'r rheini gwmpasu'r holl ganrifoedd credaf mai penderfyniad annoeth iawn oedd neilltuo pedair nofel i ymdrin â'r un math o bynciau yn enwedig pan ystyrir bod pedair nofel yn chwarter y gyfres gyfan.

Gwendid arall yn y gyfres yma yw'r modd y mae peth o'r hanesion yn ymwneud â digwyddiadau y tu allan i Gymru. Yn y nofel Dan Faner Dafydd Gam aiff Rhys gyda milwyr eraill o dan arweiniad Dafydd ap Llywelyn o Frycheiniog, neu Ddafydd Gam fel y'i gelwid, i ymladd yn Ffrainc dros y brenin Harri V. Yn Ffrainc y digwydd yr hanes a'r unig gysylltiad Cymreig yw'r modd y mae'r milwyr y dilynir eu hynt yn Gymry Cymraeg. Yn yr un modd mae'r nofel Tachwedd Tân Gwyllt gan Gweneth Lilly yn ymdrin â hanes cynllwyn Guto Ffowc yn Llundain a cheir yr hanes drwy lygaid Rhys a'i frawd Arthur yn Llanrwst. Fel y dywedwyd yn y bennod ar waith Gweneth Lilly [1] ceir y teimlad wrth ddarllen y nofel hon mai hanes wedi'i ail dwymo a gawn yn hytrach na'n bod yng nghanol y bwrlwm go iawn. Credaf bod y nofelau Dan Faner Dafydd Gam a Tachwedd Tân Gwyllt yn nofelau sydd efallai yn cael eu llusgo i mewn i gynllun y CBAC gan mai fel hyn y caiff y cynllun ei ddisgrifio ar dudalen yn nhu blaen pob llyfr sydd yn y gyfres:

> **Comisiynwyd y nofel hon gan Gyngor y Celfyddydau. Fe'i cyhoeddir dan nawdd Cynllun Llyfrau Darllen Cyd-bwyllgor Addysg Cymru fel rhan o Broject Hanes Cymru, 9-12.** [2]

Nid yw'r ddwy nofel mewn gwirionedd yn ymdrin â Hanes Cymru a gallesid bod wedi cynnwys dwy nofel fyddai'n llenwi'r bwlch yn well. Nid oes nofel am gyfnod Owain Glyndŵr a mwy buddiol o lawer i'r gyfres fyddai bod wedi cynnwys nofel am un o'n harwyr pwysicaf yn hytrach na sôn am frwydrau brenin o Loegr. Nid beirniadu'r nofelau a wneir gan eu bod yn nofelau digon boddhaol

ar y cyfan ond teimlaf eu bod wedi rhwystro nofelau eraill rhag cael eu comisiynu, nofelau gyda chysylltiad agosach â thema'r prosiect.

Yn yr un modd teimlaf bod Mudan Porth y Ddraig gan J. Selwyn Lloyd hefyd wedi cael blaenoriaeth ar nofel a fyddai'n fwy buddiol ei chynnwys yn y gyfres. Y rheswm dros hyn yw mai nofel am smyglwyr ym Mhen Llŷn ydyw. Cafwyd nifer o hanesion am smyglwyr yng Nghymru ac ni cheir gwell na straeon awdur yr ymdriniwyd â'i waith eisoes yng nghorff y traethawd yma sef T. Llew Jones. Yn wir mae'r nofel hon yn f'atgoffa o'r nofel Dirgelwch yr Ogof gan yr awdur hwnnw ac o nofel W. D. Owen Madam Wen. Ceir rhyw gymeriad 'dieithr' na ŵyr neb pwy ydyw yn y dair nofel. Siôn Cwilt yw'r cymeriad yn Dirgelwch yr Ogof a'r Fadam Wen ydyw yn y nofel o'r un enw ac fel hithau mae'r cymeriad yn Mudan Porth y Ddraig hefyd yn marchogaeth ceffyl gwyn ar hyd y glannau. Tebygrwydd arall rhwng nofel T. Llew Jones a nofel J. Selwyn Lloyd yw'r modd y mae llwybr y smyglwyr yn arwain at yr Eglwys a bod cysylltiad agos rhwng y smyglwyr, y Ficer a'r Sgweiar lleol. Fel y gellir gweld cafwyd nofelau fel hyn o'r blaen ac felly nid oedd wir angen ei chynnwys pan y gellid bod wedi cael nofel a oedd yn ymdrin â digwyddiad pwysicach yn ein hanes.

Er mwyn i'r darllenwyr ifainc uniaethu â'r cymeriadau yn y gyfres sicrhawyd bod yr holl brif gymeriadau yn blant ifainc rhwng deg a deuddeg oed, ychydig hŷn na'r darllenwyr. At ei gilydd ceir cymeriadau digon lliwgar a chymeriadau cryf iawn, yn arbennig felly yn y straeon sydd yn ymdrin â gorthrymderau

cyfnodau gwahanol a'r brwydro i sicrhau gwell amodau gwaith i blant a phobl. Nid brwydro yn erbyn amodau'r oes yn unig sydd raid i un cymeriad ei wneud oherwydd bod gan y prif gymeriad yn y nofel Gwerfyl Gam anabledd corfforol ac felly mae ei bywyd hi yn frwydr ddwbl. Gan fod Gwenno Hywyn yn ymdrin â'r broblem oesol yma yn ei nofel credaf y dylid manylu arni yma.

Cefndir hanesyddol y stori yw dyfodiad y Pla Du i ardal Rhedynog Felen, sef bro y gellid ei lleoli heddiw fel ardaloedd Llanwnda a Llandwrog yn Arfon. Er bod amryw wedi clywed am y salwch yn Lloegr ychydig iawn a feddyliai ei fod am gael y fath effaith ar bobl gyffredin fel trigolion Rhedynog Felen. Daw'r arwydd cyntaf o ddyfodiad y Pla wrth i'r bobl glywed am farwolaeth un o'r beirdd a ddeuai i'r ardal yn awr ac yn y man. Yna ni chaiff y pentrefwyr fynd i werthu eu cynnyrch ym marchnad y dref yng Nghaernarfon gan fod y pla yn rhemp yno. Mae ymateb y trigolion, yn arbennig tad Gwerfyl, yn gryf iawn i hyn a phenderfynant greu gwarchae o amgylch Rhedynog Felen er mwyn rhwystro unrhyw un dieithr rhag cario'r pla i mewn a sicrhau nad aiff yr un o'r pentrefwyr ymaith a dwyn y salwch i'w plith. Gwyddom fod hyn wedi digwydd yn ystod cyfnod y Pla Du, megis ym mhentref enwog Eyam yn Lloegr. Trefnwyd y gwaith hwn yno o dan arweiniad y person lleol. Ceir yma felly yr hyn allasai'n hawdd fod yn hanesyn gwir er bod Gwenno Hywyn wedi newid peth ar y gwir i greu ei stori ei hun. Dyma sydd yn dangos bod awdures alluog yn ymdrin â'r testun yma.

Gwerfyl yw enw'r ferch ddeuddeg oed sydd yn anabl oherwydd bod ganddi un goes yn hwy na'r llall ac felly mae ei cherddediad

yn gloff ac araf. Fel y gellir meddwl roedd bywyd i ferch ifanc gloff yn anodd iawn yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Nid oedd cymdeithas yn derbyn pobl wahanol a chan nad oedd modd i Gwerfyl gyfrannu tuag at waith y pentrefwyr fe'i hystyrid yn dipyn o fwrn ar ei theulu. Yn wir ei mam yw'r un mwyaf cas tuag ati gan ei hatgoffa yn aml o'i hanabledd a'r pethau na all mo'u gwneud, fel y tasgau sydd yn hawdd i weddill y plant:

> **Meddalodd wyneb Mam am eiliad cyn caledu eto wrth iddi edrych ar ei merch ieuengaf.**
> **'Well i <u>ti</u> nôl dŵr o'r ffynnon felly. Os medri di'i gario fo heb golli'r cwbl.'** [3]

Erbyn diwedd y nofel derbynia Gwerfyl gariad ei mam ond gellir gweld yr annhegwch a wyneba Gwerfyl bob dydd a phwysleisir hyn yng ngeiriau cyntaf y nofel wrth i rai o blant y pentref weiddi **'Gwerfyl Gam, babi mam!'** [4] arni. Mae'n amlwg nad yw'n cael ei derbyn gan ei chyfeillion ac wrth ystyried hyn sylweddolir nad yw cymdeithas wedi newid llawer mewn chwe chan mlynedd. Efallai wir bod mwy o hawliau gan blant a phobl anabl heddiw ond mae'n anodd iawn newid rhagfarnau cymdeithas.

Wrth ganmol Gwenno Hywyn am y modd y darlunia fywyd plentyn anabl gobeithir y bydd darllenwyr heddiw yn meddwl ychydig am y modd y maent hwy yn ymateb i blant neu bobl yn yr un sefyllfa gorfforol â Gwerfyl. Ond gan mai ceisio dadansoddi'r nofel hanes a wneir yma bydd rhaid yn awr fwrw golwg ar ymdriniaeth yr awdures o nodweddion y ffurf hwnnw. Yn ddigon naturiol ceir cyfeiriadau aml at y Pla Du. Credaf i Gwenno Hywyn lwyddo yn y

modd yr aiff ati i ddisgrifio'r salwch gan iddi beidio â cheisio amddiffyn ei darllenwyr a chreu darlun hyfryd o'r Pla ac eto nid yw'n syrthio i'r fagl a chynnwys disgrifiadau erchyll er mwyn ceisio dychryn ei darllenwyr. Llwyddodd i gadw'r disgrifiadau o fewn rheswm ac mewn modd y gall y darllenwyr ifainc ddeall pa mor ddifrifol oedd y salwch ac felly gydymdeimlo â'r cymeriadau yn y nofel, fel y gwelir yn y disgrifiad canlynol a gaiff Gwerfyl gan ei thad wedi iddo weld pobl sâl ar ei ffordd am Gaernarfon:

> **'Roedden nhw'n poeri gwaed ac roedd plorod mawr ar eu cyrff nhw. Ar rai roedd y plorod wedi byrstio a chrawn budr, drewllyd yn llifo ohonyn nhw. Druan o'r bobl! Does neb yn byw fwy na thridiau ar ôl dal y pla.'** [5]

Yn ogystal â disgrifiadau manwl o'r salwch fe geir cyfeiriadau at wahaniaethau rhwng y gorffennol a'r presennol. Nid yw Gwenno Hywyn yn mynd ati'n unswydd i gymharu ddoe a heddiw ond yn hytrach mae ei chyfeiriadau yn gynnil ac felly'n llwyddo'n eithriadol o dda. Wrth gyfeirio at wallt disglair Nest, chwaer Gwerfyl, fe ddywedir ei bod hi'n un o'r ychydig rai oedd yn golchi ei gwallt yn aml[6]; pan ddywedir wrthym bod Gwerfyl yn cael trafferth cysgu fe gyfeirir at ei gwely o sach yn llawn gwair[7] ac felly gwêl y darllenydd mor braf yw gwelâu heddiw o'u cymharu â'r hyn oedd gan Gwerfyl druan. Hefyd fe gyfeirir at deithwyr oedd yn ymweld â Rhedynog Felen, megis Hywel y bardd a ganai gân i Gwerfyl yn aml. Dyma ddangos nodwedd bwysig iawn yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, sef y beirdd a deithiai'r wlad yn clera. Fel Gweneth Lilly o'i blaen llwydda Gwenno Hywyn i gyfleu awyrgylch cyfnod yn hynod effeithiol. Cyflwyna'r wybodaeth yn

ddigon naturiol wrth i'r stori fynd yn ei blaen yn hytrach na'i bod yn syrthio ar un o feiau mwyaf ffurf y nofel hanes o gael rhannau ar wahan i gyflwyno'r hanes ac i ddangos i'r darllenydd bod gwahaniaeth rhwng cyfnod y stori a'n cyfnod ni heddiw. Gallai hyn arwain at baragraffau fyddai'n anodd i'w darllen ac yn sicr ddigon ni ellir dweud hyn am nofel Gwenno Hywyn. Mae Gwerfyl Gam yn nofel ddarllenadwy iawn gyda stori afaelgar a gellir yn hawdd ei gosod ymhlith nofelau gorau y gyfres, os nad yr orau hyd yn oed. Colled fawr i lenyddiaeth plant yn Gymraeg oedd marwolaeth Gwenno Hywyn gan ei bod yn awdures ddawnus iawn ac o ddarllen y nofel hon fe welir ei bod hi wedi llwyddo i feistroli ffurf y nofel hanes a cholled fawr i'r cyfrwng oedd na lwyddwyd i weld mwy o'i gwaith yn y maes yma.

Wrth edrych ar gyfres y Cyd-bwyllgor gellir dweud na ddatblygwyd y gyfres i'w photensial llawn. Roedd yma gyfle gwych i annog awduron profiadol a newydd i lunio nofelau gwreiddiol yn y Gymraeg er mwyn hybu darllenwyr ifainc i ddarllen y nofelau hanes. Yn anffodus ychydig iawn o nofelau cofiadawy sydd yn y gyfres ac o'r un ar bymtheg roedd pedair yn addasiadau. Tuedd y Cymry yw dibynnu'n ormodol ar addasiadau yn hytrach nag annog awduron i lunio nofelau gwreiddiol. Mae ein darllenwyr ifainc yn haeddu deunydd clodwiw er mwyn ennyn eu diddordeb mewn llenyddiaeth. Drwy gyfrwng straeon gafaelgar y cadwn ein gafael ar y darllenwyr ac yn anffodus nid yw'r gyfres gyfan wedi llwyddo i daro deuddeg, er bod yr ychydig straeon gorau yn gwneud hynny.

Wrth son am gyfres gyfan o straeon hanes caf fy mhoeni braidd wrth feddwl bod rhywun yn mynd ati'n unswydd i lunio

nofelau mewn un ffurf arbennig, megis cyfres sydd yn cynnwys nofelau hanes yn unig, ac felly y tebygolrwydd yw y bydd peth methiant yng nghynnwys rhai o'r nofelau, fel y gwelwyd yn y prosiect Hanes Cymru. Pan geir cyfres o lyfrau ar gyfer oedran arbennig, megis Cyfres Cled, ceir amrywiol nofelau ond eu bod i gyd yn addas ar gyfer darllenwyr o'r un oedran. Gellir cynnwys nofelau o blith y gwahanol ffurfiau sydd ar gael, megis nofelau antur, ffantasi, hanes, ditectif neu ramant i enwi ambell gategori yn unig. Wrth ehangu'r dewis a'r amrywiaeth mae llai o le i fethu. Efallai y dylid ceisio dwyn ambell nofel hanes i mewn i'r cyfresi yma. Ni fyddai plentyn wedyn mor ymwybodol ei fod yn darllen nofel hanes ac felly fe ddeuai i gysylltiad â'r ffurf mewn sefyllfa llai ffurfiol na'i fod yn gweld cyfres gyfan a meddwl bod angen iddo lusgo ei ffordd drwy'r holl lyfrau gan ei bod yn 'gyfres'. Byddai meddwl am y fath dasg yn ddigon i godi'r felan ar unrhyw ddarllenydd a chaiff ei farn tuag at y gyfres ei lliwio yn syth ac felly tuag at ffurf y nofel hanes.

Nofelau hanes unigol, diddorol, yn ôl llinach Gweneth Lilly, sydd eu hangen ar ddarllenwyr Cymru er mwyn magu diddordeb at lenyddiaeth ymhlith ein hieuenctid a thrwy hynny eu cyflwyno i'n hanes cyfoethog. Dyma yw mantais y nofel hanes gan bod modd iddi gyfoethogi iaith y darllenwyr a chyflwyno gwybodaeth am draddodiadau a chefndir hanesyddol ein cenedl ar yr un pryd. Gellir gwneud y cwbl drwy ddiddanwch ac os pery peth o'r wybodaeth yma ym meddyliau'r darllenwyr gan fagu parch at Gymru a Chymreictod yna yn sicr gallwn ddweud bod gwerth mawr i ffurf y

nofel hanes. Gobeithio'n wir y bydd y cyfrwng yma yn parhau i aeddfedu er mwyn i ni gael ei weld yn camu o'i laslencyndod i'w ddatblygiad llawn.

1 Gweler y bennod ar waith Gweneth Lilly, t. 260
2 Gweler tudalen ym mlaen pob un o lyfrau'r gyfres, er enghraifft Gwerfyl Gam, t. 5.
3 Gwerfyl Gam, t. 27.
4 ibid., t. 7.
5 ibid., t. 17.
6 ibid., t. 9.
7 ibid., t. 23.

Atodiad I

Copiau o'r holiaduron a roddwyd i'r plant er mwyn darganfod eu gwybodaeth am gysyniadau amser a hanes. Gellir gweld eu hatebion yma.

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 7

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Ionawr 21

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1985

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed/[redacted] fyddwch chi'n hŷn neu iau? hyn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? iau

5. Pa dymor yw hi? Gaeaf

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? Tachwedd 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 11:20

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 11:20

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 9:10

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3:30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 24 awr

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/ [redacted] bore

Sut ydych chi'n gwybod? achos mae amser chwarae y bore. newydd Fod.

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 7

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Awst 4

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni?

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed/[redacted] fyddwch chi'n hŷn neu iau?

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau?

5. Pa dymor yw hi? GAeAF fur

6. Pa fis yw hi? TAchwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 10:30

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 10:30

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 9:00 AM

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 4:00 PM

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 3 wyddnos

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/ Bore [redacted] heB CAul bwud

    Sut ydych chi'n gwybod? Brens

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 7

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd?

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni?

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed/[redacted]yddwch chi'n hŷn neu iau? hŷn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hŷn

5. Pa dymor yw hi?

6. Pa fis yw hi? Eachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 20 Mywbeth

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? hanner awr wedi 11

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? hanner awr wedi 11

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? hanner awr wedi 8

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 4 or gloch

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 4 wythnos

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/[redacted]

Sut ydych chi'n gwybod? Achos dydi amser cinio ddim wedi bod.

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 7

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Awst 16

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni?

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed/[redacted] fyddwch chi'n ~~hŷn~~ neu iau?

   b) Fydd eich mam/tad yn [redacted] neu iau?

5. Pa dymor yw hi? gorffennaf

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi?

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? ydd wenar

10. Faint o'r gloch yw hi? bron yn hanner dydd

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon?

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 8

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 5or gloch

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 1wsnos

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/ [redacted] bore

Sut ydych chi'n gwybod?

achos tydan ni heb wedi caelein bwyd.

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 7

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Mytfen y 15

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni?

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed/[redacted] fyddwch chi'n hŷn neu iau? hyn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hyn

5. Pa dymor yw hi? Dydd Gwener

6. Pa fis yw hi? Tachwedd.

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? Dydd Gwener Tachwedd 21

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 11 ot gloch

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 11 ot gloch

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? P ot glogh

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? Pidwar ot glach

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 3 flwydd y

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/ [redacted] Bora

    Sut ydych chi'n gwybod? yaw i dysta wedi aod i ysgol

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 7

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Ionawr 8

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1985

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed/[redacted] fyddwch chi'n hŷn neu iau?

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau?

5. Pa dymor yw hi? Geaf

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon?

10. Faint o'r gloch yw hi? 11.20

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon?

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor?

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau?

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 1 mis

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/[redacted] bore

    Sut ydych chi'n gwybod? Mae o dim yn cinio

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 8

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? mis medi y gyntaf

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni?

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed/[redacted] fyddwch chi'n hŷn neu iau?

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau?

5. Pa dymor yw hi? Tachwedd 27

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi?

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi?

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon?

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor?

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? hanafawr wedi 3

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig?

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/ bore [redacted]

Sut ydych chi'n gwybod? mae'r Hael allan

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 8

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Tachwedd 4

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni?

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed/[redacted] fyddwch chi'n hŷn neu iau? hyn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hyn

5. Pa dymor yw hi? Tachwedd

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 26 - 25

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? Bron yn 11

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? Bron yn 11

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 8 or gloch

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? tua 5 or gloch

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 5/4 wsos

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/ [redacted] bore

Sut ydych chi'n gwybod? Achos tua 2 awr yn ol desi ir ysgol

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 8

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? 13 Medi

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1984

4. a) Pan fyddwch chi'n 11oed[redacted] fyddwch chi'n hŷn neu iau? Hyn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? Hyn

5. Pa dymor yw hi? Gaeaf

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 11:00

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 11:00

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 9:00

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3:30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? Mis ond 2 ddiwrnod

15. Ai'r bore neu'r prynhawn yw hi?/[redacted]

    Bore

    Sut ydych chi'n gwybod? Dydi cinio neb fod eto

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 10

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Awst 6

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1882

4. a) Pan fyddwch chi'n [redacted] 15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? hun

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hun

5. Pa dymor yw hi? gwanwyn

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 3.15

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 3.15

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 8.50

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3.30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 28 diwrnod

15. [redacted] / Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? ~~prynhawn~~ ~~bron~~ ~~amser cinio~~

    Sut ydych chi'n gwybod? bronamser i bryn ovdiel

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 10

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? 25 Ebrill

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1982

4. a) Pan fyddwch chi'n [redacted]/15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? hun

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hun

5. Pa dymor yw hi? Tachwedd

6. Pa fis yw hi? Gaeaf

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 2:40

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 2:40

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 9:50

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3:30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 3 wythnos

15. [redacted] Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? Prynhawn

Sut ydych chi'n gwybod?

Ar ôl y bore mae'r Prynhawn ac ar ôl ginio mae'r prynhawn.

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 10

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? 22 o mhefin

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1982

4. a) ~~Pan fyddwch chi'n~~ [redacted]/15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? hŷn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hŷn

5. Pa dymor yw hi? Tachwed

6. Pa fis yw hi? Tachwed

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 28

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 3:40

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 3:40

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 9:00

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3:30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 28 o ddwrnodiau

15. [redacted]/ Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? Prynhawn

    Sut ydych chi'n gwybod? naturiol

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 10

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Ebrill yr 2

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 82

4. a) Pan fyddwch chi'n [redacted]/15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? hŷn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hŷn

5. Pa dymor yw hi? [redacted] Hydref

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 92

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 2:30

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 2:30

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 8:50

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3:30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 3 wythos

15. [redacted]/ Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? prynhawn

Sut ydych chi'n gwybod? oherwydd fys mod wedi coel ôrio

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? $10\frac{3}{4}$

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Ionawr y 10fed

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1982

4. a) Pan fyddwch chi'n [redacted] 15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? hŷn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hŷn

5. Pa dymor yw hi? Hydref

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27fed

8. Pa flwyddyn yw hi? Bluyddyn 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? deg munud i dri

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? deg munud i dri

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 8.50 am

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3.30 pm

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 28 o diwrnodau

15. [redacted] Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? prynhawn

    Sut ydych chi'n gwybod? Mae hi wedi pasio amser cinio

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 11

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Hydref 7

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1981

4. a) Pan fyddwch chi'n [redacted]/15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? hyn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hyn

5. Pa dymor yw hi? Gaeaf

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 92

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Gwenar

10. Faint o'r gloch yw hi? 2:50

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 2:50

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 8:50

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3:30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 28

15. [redacted] Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? Prawn

    Sut ydych chi'n gwybod? mae medi pasio 12 or gla

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 11

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? ~~11~~ 10 Hydref

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1981

4. a) Pan fyddwch chi'n [redacted]/15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? hyn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? hyn

5. Pa dymor yw hi? Hydref

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? ~~92~~ 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? chwarter i 3

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? chwarter

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 10 munud i 9 ~~am~~

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3.30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? 28

15. [redacted]/ Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? Prynhawn

    Sut ydych chi'n gwybod? Gan ei bod ar ol deuddeg.

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 11

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd? Tachwedd 23 [redacted]

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni? 1981

4. a) Pan fyddwch chi'n [redacted] 15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? Hŷn

   b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau? Hŷn

5. Pa dymor yw hi? Hydref

6. Pa fis yw hi? Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi? 27

8. Pa flwyddyn yw hi? 1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon? Dydd Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi? 2:30

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon? 2:30

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor? 8:50

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau? 3:30

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig? mis

15. [redacted] Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi? prynhawn

Sut ydych chi'n gwybod? Achos ei bod hi ar ol deuddeg o'r gloch. (card dydd)

HOLIADUR (1)

1. Faint yw eich oed? 11

2. Beth yw dyddiad eich pen-blwydd?

11/11/81

3. Pa flwyddyn gawsoch chi eich geni?

1981

4. a) Pan fyddwch chi'n [redacted]/15oed fyddwch chi'n hŷn neu iau? hyn

b) Fydd eich mam/tad yn hŷn neu iau?

hyn

5. Pa dymor yw hi?

Hydref

6. Pa fis yw hi?

Tachwedd

7. Pa ddyddiad o'r mis yw hi?

Tachwedd 27

8. Pa flwyddyn yw hi?

1992

9. Pa ddiwrnod yw hi yn Nghaernarfon?

Gwener

10. Faint o'r gloch yw hi?

2.40 pm

11. Faint o'r gloch yw hi yng Nghaernarfon?

2.40 pm

12. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn agor?

8.50 am

13. Faint o'r gloch mae'r ysgol yn cau?

3.30 pm

14. Faint o amser sydd hyd y Nadolig?

28 diwrnod

15. [redacted] Ai'r prynhawn neu'r bore yw hi?

Pynhawn

Sut ydych chi'n gwybod?

am ein bod wedi cael ein cinio.

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? Na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? Na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Caradog
   Hywel dda
   Owain glyndŵr

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf? Twm

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? Ia

b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? Oedd
y taid dim hain Ia

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928 3

Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400 2

Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48 1

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

Pa un yw'r hynaf? TWM

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? na goedd

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na goedd

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

Owain Glyndŵr	1400
Hywel Dda	928
Caradog	48

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf?

   Sian

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C. 1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Owain Glyndwr
   Caradog
   Hywel Dda

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf?

   Twm

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? na

b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na gall/a

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

Caradog
Hywel
Owain Glyndŵr

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

Pa un yw'r hynaf? Twm

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? Na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? Na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Caradog
   Hywel dda
   Owain Glyndwr

Caradog
Hywel dda
Owain Glyndwr

Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48



3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf? Twm

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187. na

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma?

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Hywel dda

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928 Glyndwr Owain

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Owain Glyndwr
   Hywel dda

   Twm

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf?

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187. oedd

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? NA

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? NA

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   (2) Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928 ✗

   (1) Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C. 1400 ✓

   (3) Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48 ✓

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901. ✓

   Pa un yw'r hynaf?

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   c. Caradog

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   caradog
   Hywel dda
   Glun dwr

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf?

   Twm

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? nacoeddien

b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? nacoeddien

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

2 Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

3 Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

1 Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C, 48
Hywel Dda
Owain glyndwr

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

Pa un yw'r hynaf? Twm

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187. Na

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? Na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? Na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928
   Hywel
   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400
   Owain
   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Caradog
   Hywel
   Owain

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf? Twm

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? Na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? Na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   caradog 48.
   Howel Dda 928
   Owain Glyndŵr 1400.

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf? Twm.

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma?

   Nac oedd

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma?

   Nac oedd

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Caradog 48 OC
   Hywel dda 928 OC
   Owain Glyndwr 1400 OC

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf?

   Twm

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? Na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Caradog 48

   Hywel Dda O.C. 928

   Owain Glyndŵr O.C. 1400

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf?

   Twm 1898

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Caradog O.C. 48
   Hywel dda O.C. 928
   Owain Glyndwr O.C. 1400.

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf? Twm.

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Caradog O.C. 48
   Hywel dda O.C 928
   Owain Glyndwr O.C 1400

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf? Twm

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928 2

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400 3

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48 1

   Caradog
   Howel dda
   Owain glyn dwr

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf?

   Twm
   Sian

HOLIADUR (2)

1. Roedd Robin Hood yn byw yn 1187.

   a) A oedd eich mam/tad yn byw yn y cyfnod yma? na

   b) A oedd eich nain/taid yn byw yn y cyfnod yma? na

2. Dyma enw tri pherson a'r dyddiadau yr oeddent yn byw. Rhowch nhw mewn trefn, gan osod yr un a oedd yn byw bellaf nol mewn hanes i ddechrau:

   Roedd Hywel Dda yn byw yn Nyfed yn O.C. 928

   Roedd Owain Glyndŵr yn byw yn Nglyn Dyfrdwy yn O.C.1400

   Roedd Caradog yn byw yn Ngwent yn O.C. 48

   Caradog
   Hywel Dda
   Owain Glyndŵr

3. Ganwyd Twm yn 1898. Ganwyd Siân yn 1901.

   Pa un yw'r hynaf? Twm

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd

b) Roeddent yn bwyta moron a cig

c) Adeiladwyd eu tai o coed a gwaer a cerig
gwair

ch) Eu prif dref oedd cal'dadd caerdydd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd sgachi bowau cleddif saeth bwa cleddyf

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo Het

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sgidau allan
o

f) Roeddent yn addoli

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Iwerdd Iwerddon

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd dyma pam mae hwy hanas yn y llyfr

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd helpu Iesu

b) Roeddent yn bwyta ffrwythau + llysiau

c) Adeiladwyd eu tai o ceryg

ch) Eu prif dref oedd [illegible]

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd pren a cyllell

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo rhwbech mesal efo nhw Dail Ar

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sandals

f) Roeddent yn addoli Iesu

ff) Roeddent yn siarad yr iaith ~~[illegible]~~

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd am llyfra

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd llADD

b) Roeddent yn bwyta BAra A cig

c) Adeiladwyd eu tai o ceria

ch) Eu prif dref oedd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cLeddudd deddyf.

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo helmet

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo Sgidia matel

f) Roeddent yn addoli NA

ff) Roeddent yn siarad yr iaith it Alnod Eidaleg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd ANGieddFA

Angueddfa.

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd helpu i cario pethau

b) Roeddent yn bwyta cawl

c) Adeiladwyd eu tai o cerig mowr a man

ch) Eu prif dref oedd ~~Dwl~~

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cleddau

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo helmet galed

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo bwts mowr

f) Roeddent yn addoli oedd am Iesu

ff) Roeddent yn siarad yr iaith oaddan oeddaleg
Eidaleg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd mae yna
llyfrau

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd

b) Roeddent yn bwyta cig

c) Adeiladwyd eu tai o carag

ch) Eu prif dref oedd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd rhaf Rhaff

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo het Het

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sdwrj Sbwrj

f) Roeddent yn addoli ha

ff) Roeddent yn siarad yr iaith s deinwir Sbaeneg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd Mae Popol yn byw

Mae pobl yn byw.

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd cadw cyfraith Rhufain

b) Roeddent yn bwyta pysgod a bara

c) Adeiladwyd eu tai o ddefnydd blanced

ch) Eu prif dref oedd Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cleddyfau a gwaywffyn

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo helmet

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo ryw fath o esgidiau heb sanau

f) Roeddent yn addoli y duw Iau

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Eidaleg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd bod ni wedi darganfod hen wersyll rufeinig.

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd edrich ar o y defaid

ednych ar ôl y defaid

b) Roeddent yn bwyta soji

soseg

c) Adeiladwyd eu tai o ffen

ch) Eu prif dref oedd caerdydd

caerdydd.

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd gwn

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo het

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo flip flops

f) Roeddent yn addoli gweddio

ff) Roeddent yn siarad yr iaith ei dolcg

eidaleg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd bod ni wedi darganfod gwersyll Rufeinig. (efallai bod [redacted] wedi ei helpu yma).

[redacted]

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd Ymosod i Gesar

b) Roeddent yn bwyta
Baraa gwin

c) Adeiladwyd eu tai o
fwd

ch) Eu prif dref oedd
Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd
cleddyfau
gwaeffon gwaywffon

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo
helmau

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo
sandalau

f) Roeddent yn addoli
y duwiau

ff) Roeddent yn siarad yr iaith
Rhufeinig

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd
Llyfrau

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd cadw - trio copio Eu'dir

b) Roeddent yn bwyta Pysgod a bara

c) Adeiladwyd eu tai o defnudd blanred
blanced.

ch) Eu prif dref oedd Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd clyfar cleddyfau

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo llian

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sandals

f) Roeddent yn addoli y duwiau

ff) Roeddent yn siarad yr iaith lidalig

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd
(achos bod nho
mewn llyfr)

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd ymladd ar bobl

b) Roeddent yn bwyta ffrwythau a cig moch.

c) Adeiladwyd eu tai o carreg a mwd a gwellt

ch) Eu prif dref oedd Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd spears

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo helmed

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sandals lledr

f) Roeddent yn addoli ddim yn addoli

ff) Roeddent yn siarad yr iaith rhufeinig

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd Wedi darllen llyfrau amdanynt

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd Gwaith arfau, hela anifeiliaid

b) Roeddent yn bwyta Anifeiliaid

c) Adeiladwyd eu tai o Wellt

ch) Eu prif dref oedd Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd Ksgyrn.

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo helmedau

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo Sandals

f) Roeddent yn addoli

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Rufeinig

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd olion Rufeinig

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd gwneud bedyla
pedolau.

b) Roeddent yn bwyta mamoths

c) Adeiladwyd eu tai o gwellt

ch) Eu prif dref oedd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd gwynebon

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo ben Iaith
pen Iar.

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sandals

f) Roeddent yn addoli Nu

ff) Roeddent yn siarad yr iaith

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd ein llyfre

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd ymladd

b) Roeddent yn bwyta Brifeiriaed

c) Adeiladwyd eu tai o fud a gwellt

ch) Eu prif dref oedd Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd Spears

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo. helmedau

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sgidie lleder

f) Roeddent yn addoli. oedd

ff) Roeddent yn siarad yr iaith. Gymraeg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd
o hyfrae

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd gwneud arfau

b) Roeddent yn bwyta llawer o ffrwythau.

c) Adeiladwyd eu tai o wellt a clai

ch) Eu prif dref oedd Athen

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd picellau hirion a tariannau

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo helmedau metal.

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sandalau

f) Roeddent yn addoli ~~Duwiau~~ Deilwau aur

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Rhufeinig

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd olion rhufeinig

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd cwffio a gwneud pillad allan o ledr

b) Roeddent yn bwyta cig

c) Adeiladwyd eu tai o mwd a pridd

ch) Eu prif dref oedd y ddinas

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd gweuaffon

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo capian

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo lledar

f) Roeddent yn addoli Duw

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Groeg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd llyfrau

4 Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd
gwladychwyr gwledydd
sewill

b) Roeddent yn bwyta
Grawnwin, cig, Ffrwythau

c) Adeiladwyd eu tai o
Oerfig

ch) Eu prif dref oedd
Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd
cleddyfau, gwaywffyn

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo
math o hanner cylch
sydd yn rhyw o amgylch
ei pen gan eu hadeiladau

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo
Esgidiau

f) Roeddent yn addoli
Haul a sêr

ff) Roeddent yn siarad yr iaith
Groeg, Rhufeinig

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd
ein bod wedi ei gwelch
ar beledu ac mewn
llyfrau

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd Gwneud Arfau ac gwedrych ar ol anifeiliaid

b) Roeddent yn bwyta aig

c) Adeiladwyd eu tai o fwd, pridd a cherrig

ch) Eu prif dref oedd Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd gwaiwffyn, cleddyfau a tharian

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo hacar wedi ei foldio, sōap pen a ffaent i ei addumo.

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo esgidiau hacar

f) Roeddent yn addoli y haul neu y sun

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Rhifeinaidd

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd llyfrau a fideos

4. Atebwch y cwestiynau canlynol ar y Rhufeiniaid:

a) Eu gwaith oedd Hela, ~~Sarchnad~~

b) Roeddent yn bwyta Cig a llysiau berra

c) Adeiladwyd eu tai o marbl Cerrig
"marbl"

ch) Eu prif dref oedd Rhufain

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd gwaywffon

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo
arfwisg helmedau metal

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo Sandals

f) Roeddent yn addoli Sisar

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Rhufeinig

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd ~~Haul~~ llysiau

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd gned'ty

b) Roeddent yn bwyta cig

c) Adeiladwyd eu tai o cerig mawr

ch) Eu prif dref oedd gun nw dim

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cerig efo min bach

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dim bydd

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo dim byd

f) Roeddent yn addoli Roeddnw dim

ff) Roeddent yn siarad yr iaith dim - dim ond synau meddal.

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd gangi efa amgueddfa

Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd Hadd Mamath

b) Roeddent yn bwyta Mamath

c) Adeiladwyd eu tai o ogof

ch) Eu prif dref oedd Spain Sbaen.

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd gan gwn.

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo gwallt

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo troed elifant

f) Roeddent yn addoli gweddio

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Sbaeneir Sbaeneg.

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd

coed ffrh yn byw
yna yn lexŝ

- wedi gofyn iddo feddwl am ddau funud + rhoi'r ateb yma yn y diwedd. Efallai wedi meddwl am unrhywbeth i'm rhoystro rhag siwnian.

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd gwneud Betha allano geria

b) Roeddent yn bwyta bara.

c) Adeiladwyd eu tai o wellt

ch) Eu prif dref oedd Llandudno

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cleddyddau gwn

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo defnudd

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sandals

f) Roeddent yn addoli i Duw

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Sbeunib sbaneg.

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd

Mae nhw wedi ysgrifenu llyfr

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd

Hela

b) Roeddent yn bwyta

Cig a Dwr

c) Adeiladwyd eu tai o

Roedd ganddynt ogofau

ch) Eu prif dref oedd

Copenhagen

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd

cerrig ac pastwn ac cyllell garreg ac esgyrn

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo

croen arth (yr pen)

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo

dim

f) Roeddent yn addoli Duw

ff) Roeddent yn siarad yr iaith

Baledychlyn

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd

Llyfrau

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd ymladd.

b) Roeddent yn bwyta cig.

c) Adeiladwyd eu tai o garreg.

ch) Eu prif dref oedd does neb yn gwybod.

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cleddyf.

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dimbyd.

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo dimbyd

f) Roeddent yn addoli Ea duwiau eu hun.

ff) Roeddent yn siarad yr iaith Eu iaith eu hun

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd darganfod eu cyrff. Rydym wed:

gofyn iddo ol am atb e "???" a'i lymiad!!

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd

hela hela.

b) Roeddent yn bwyta

cig

c) Adeiladwyd eu tai o cepig

ch) Eu prif dref oedd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd

cleddyf

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo het

het

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sbwnj

sbwnj

f) Roeddent yn addoli na

ff) Roeddent yn siarad yr iaith den marc

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd podoi yn dyw

pobl yn byw.

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd gwnend pecha allan o cerrig

b) Roeddent yn bwyta cig

c) Adeiladwyd eu tai o ogof

ch) Eu prif dref oedd



d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cafapolc a hamas a cerig a prep.

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dim byd

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sandels

f) Roeddent yn addoli Iesu

ff) Roeddent yn siarad yr iaith seusneg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd am llyfra a Fryned dad ffrind dad.

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd llADd

b) Roeddent yn bwyta cig

c) Adeiladwyd eu tai o OgOF

ch) Eu prif dref oedd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cerig

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo Dim Byd

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo dim Byd

f) Roeddent yn addoli NA

ff) Roeddent yn siarad yr iaith SeuSneg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd llyfrA

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd tori cerig nes oeddien nhw yn dod yn rhydd.

b) Roeddent yn bwyta cawl

c) Adeiladwyd eu tai o brics

ch) Eu prif dref oedd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd lleyddau

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo sandals

f) Roeddent yn addoli

ff) Roeddent yn siarad yr iaith susneg

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd Mae ei gael mewn llyfrau

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd Hela

b) Roeddent yn bwyta anifeiliaid a llysiau

c) Adeiladwyd eu tai o gerrig

ch) Eu prif dref oedd doedd dim

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cerrig !

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dim

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo dim

f) Roeddent yn addoli chig neu

ff) Roeddent yn siarad yr iaith ~~bobl yn dau~~
mynbla oeddan neu
'mymblan'

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd
bobl yn dweud ac Teledu ac amgueddfa
a llyfro radio Sgerbwd.
sgerbwd.

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd ymladd a difeisio
dyfeisio.

b) Roeddent yn bwyta cig

c) Adeiladwyd eu tai o genig

ch) Eu prif dref oedd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd gwaywffon, a darnau o genig au preniau

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo gwallt

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo esgidiau allan o hen groen

f) Roeddent yn addoli ei hunan

ff) Roeddent yn siarad yr iaith oes y cerig

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd

roeddent yn glyfar ac mae ei storian nhw mewn llyfrau

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd Hela

b) Roeddent yn bwyta cig

c) Adeiladwyd eu tai o ogof

ch) Eu prif dref oedd Doedd genddynt ddim

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd gwyoffon

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo Dim

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo Dim

f) Roeddent yn addoli Sbirit

ff) Roeddent yn siarad yr iaith ei hunain

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd llyfrau a wedi marw allan.

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd magu eu teulu, [illegible] bwyd i'w teulu

b) Roeddent yn bwyta

Anifeiliaid

c) Adeiladwyd eu tai o graig

(mewn ogof)

ch) Eu prif dref oedd

Doedd ganddyn nhw ddim

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd

Ffyn, pastwnau

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo

gwallt

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo

Dim

f) Roeddent yn addoli

anifeiliaid

ff) Roeddent yn siarad yr iaith

Dim

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd

ein bod yn dal bod yn darllen ysgrau

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd gwneud tai

b) Roeddent yn bwyta ig.

c) Adeiladwyd eu tai o gerig neu glai.

ch) Eu prif dref oedd doedd gorddyn rhw ddim.

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cerig

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dim

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo dim

f) Roeddent yn addoli neb

ff) Roeddent yn siarad yr iaith doedden rhw ddim yn deall ei gilydd.

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd lluniau ar waliau,

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd Hadd

b) Roeddent yn bwyta anifeiliaid

c) Adeiladwyd eu tai o esgyrn a lledr

ch) Eu prif dref oedd

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd Spears

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dim

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo dim byd

f) Roeddent yn addoli na

ff) Roeddent yn siarad yr iaith doeddech deall ddim yn ei

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd llyfre a tŷ'r

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd Hela

b) Roeddent yn bwyta Anifeiliaid

c) Adeiladwyd eu tai o gerrig a pridd

ch) Eu prif dref oedd Nid oedd gandlynt.

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd Cerrig

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dim

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo dim

f) Roeddent yn addoli

ff) Roeddent yn siarad yr iaith

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd lluniau a cangueddf a ychydig ou hoelion

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd gwneud tai

b) Roeddent yn bwyta mamoths

c) Adeiladwyd eu tai o asgwrn

ch) Eu prif dref oedd dim

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cerig

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dim byd

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo dim byd

f) Roeddent yn addolj na

ff) Roeddent yn siarad yr iaith dim

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd llynia yn yr ogof

5. Atebwch y cwestiynau canlynol ar Bobl Oes y Cerrig:

a) Eu gwaith oedd Helg anifeiliaid i bwyta

b) Roeddent yn bwyta Anifeiliaid

c) Adeiladwyd eu tai o tu mewn i ogof

ch) Eu prif dref oedd ddim un

d) Wrth ymladd, eu harfau oedd cerrig

dd) Ar eu pennau roeddent yn gwisgo dim byd

e) Ar eu traed roeddent yn gwisgo ddim

f) Roeddent yn addoli nagoeddem

ff) Roeddent yn siarad yr iaith ddim yn gwbod

g) Rydym yn gwybod am eu hanes oherwydd Rhaglenau teledu a llyfrau

Llyfryddiaeth

Llawysgrifau

Humphreys, E. M., Land of My Fathers, llawysgrif deipiedig yn Archifau Prifysgol Bangor.

Jones, E. W., casgliad o'i gwaith sydd ar gael gan Mr. Hugh D. Jones, ei nai.

Teifi, S., Llenyddiaeth Storiol i Blant yn y Gymraeg 1919-1950, Traethawd M. A. Prifysgol Cymru, 1987.

Casgliad o lythyrau a anfonwyd at E. Morgan Humphreys ar gael yn Archifau Prifysgol Bangor.

Erthyglau

Aiken, J., 'Interpreting the Past', Children's Literature in Education, cyf. 16, Haf 1985, tt. 67-83.

Ames, Louise Bates, 'The Development of the Sense of Time in the Young Child', Journal of Genetic Psychology(USA), cyf. 68, 1946, tt. 97-125.

Beer, P., 'Kidnapped', Children's Liteature in Education, cyf. 14, Gwanwyn 1983, tt. 54-62.

Bradley, N. C., 'The Growth of the Knowledge of Time in Children of School Age', The British Journal of Psychology, cyf. 38, 1947, tt. 67-78.

Davies, P., 'Llên Ystoriol - Nofel, Epig, Drama, Hanes.', Barn, rh. 131, Medi 1973, tt. 489-90.

Eames, M., 'Ffeithiau mewn Ffuglen', Barn, rh. 352, Mai 1992, t. 22-24; Barn, rh. 353, Mehefin 1992, tt. 19-21.

Ebenezer, L., 'Ni chlywodd ddiwedd y stori ond fe daniwyd ei ddawn', Y Cymro, Medi 21ain, 1976, t. 28.

idem, 'Awdur sy'n sensitif i Feirniadaeth', Y Cymro, Medi 28ain, 1976, t. 28.

Evans, D. T., 'Edward Morgan Humphreys', Y Genhinen, cyf. 5, rh. IV, 1955, tt. 197-204.

Evans, G., 'Dirgelwch y nofelydd swil', Y Cymro, Tachwedd 7fed, 1990, t. 11.

Holland, P., 'Shades of the prison house: the fiction of Leon Garfield', Children's Literature in Education, cyf. 9, Gaeaf 1978, tt. 159-72.

Hughes, W. D., 'Elizabeth Watkin Jones: Portread', Athro Arfon, Rhagfyr 1969, tt. 30-2.

Ifans, D., 'Nofelau Hanesyddol fel Llenyddiaeth', Ysgrifau Beirniadol IX, Gwasg Gee, Dinbych, tt. 298-311.

Jahoda, G., 'Children's Concept of Time and History', Educational Review, cyf. 15, 1962-3, tt. 87-104.

Jenkins, R. T., 'Edward Morgan Humphreys (1882-1955), Ymyl y Ddalen, Hughes a'i Fab, Wrecsam, 1957, tt. 175-89.

Jones, C., 'Aaron Jenkins (Ystraeon o Ddeheudir America XVIII)', Cymru'r Plant, cyf. XI, Ionawr 1902, tt. 11-13.

idem, 'Aaron Jenkins (Ystraeon o Ddeheudir America XIX)', Cymru'r Plant, cyf. XI, Chwefror 1902, tt. 50-3.

Jones, E. W., 'Atgofion y Prifion XXVII: Elizabeth Watkin Jones', Y Winllan, cyf. CIV, rh. 3, Mawrth 1951, tt. 41-6.

Jones, J. G., 'Agweddau ar y Nofel Hanes yng Nghymru', Barn, rh. 357, Hydref 1992, tt. 24-5; rh. 358, Tachwedd 1992, t. 28; rh. 359, Rhagfyr 1992, tt. 24-5; rh. 360/361, Ionawr/Chwefror 1993, tt. 47-8.

idem, 'Cipdrem ar Hanes y Nofel Gymraeg', Taliesin, cyf. 45, Rhagfyr 1982, tt. 9-34.

Jones, M. G., 'Gwobr Tir Na N'og - Beth Amdani?', Barn, rh. 167, Rhagfyr 1976, tt. 392-4.

Jones, O., 'Chwarter Canrif o Antur', Pori, Hydref 1983, tt. 2-6.

Jones, P. W., 'Cymwynaswyr Ein Llên - Irma Chilton', Pori, Hydref 1986, tt. 8-16.

Jones, T. Ll., 'Ar Drywydd Arwyr a Dihirod', Llais Llyfrau, rh. 10, Gaeaf 1968, tt. 4-6.

idem, 'Gwrando ar Waldo yn y Glaw!', Barn, rh. 116, Mehefin 1972, t. ii atodiad 'Y Gwrandawr'.

idem, 'Tafodiad mewn nofel' (llythyr), Baner ac Amserau Cymru, Chwefror 9fed 1961, t. 6.

Leeson, R., 'The spirit of what age? the interpretation of history from a radical standpoint', Children's Literature in Education, Gaeaf 1976, tt. 172-82.

Lewis, G., 'Gwobrau Tir Na N-og', Llais Llyfrau, Gaeaf 1976, t. 6.

Lewis, G., 'Mam Lois - Cyfle i'w hadnabod', Y Faner, Chwefror 19eg, 1982, t. 9.

Lilly, G., 'Gweneth Lilly', Sgwarnog, Haf 1980, tt. 28-9.

Millward, E. G., 'Cenedl o Bobl Ddewrion: Y Rhamant Hanesyddol yn Oes Fictoria', Ysgrifau Beirniadol XVII, Gwasg Gee, Dinbych, 1990, tt. 131-47.

Oakden, E. C. a Sturt, M., 'The Development of the Knowledge of Time in Children', British Journal of Psychology, cyf. 12, 1922, tt. 309-36.

Rowlands, W., 'Trysor y Môrladron' (llythyr), Baner ac Amserau Cymru, Ionawr 26ain, 1961, t. 6.

Self, D., 'A Lost Asset? The Historical Novel in the Classroom.' Children's Literature in Education, cyf. 22, Gwanwyn 1991, tt. 45-9.

Thomas, G. J., 'Ar Drywydd Awdur - T. Llew Jones', Hamdden, cyf. 5, rh. 46, Chwefror 1969, tt. 127-8.

Thomas, R. M., 'Elizabeth Watkin-Jones', Y Wawr, rh. 50, Gaeaf 1980, tt. 8-9.

idem, 'W. D. Owen (marw 1925) - awdur rhamant', Gŵyr Môn, Cyngor Gwlad Gwynedd, Y Bala, 1979, tt. 145-7.

Trease, G., 'The Historical novelist at work', Children's Literature in Education, cyf. 7, Mawrth 1972, t. 5-16.

William, A. Ll., 'Owen M. Edwards: Hanesydd a Llenor', Y Traethodydd, cyf. XXVII, 1959, t. 1-16.

Wyn, H., 'Twm Carnabwth - Arwr Becca neu cythraul cynhenllyd?', Y Cymro, Medi 21ain, 1976, tt. 16-17.

dienw, 'Holi Gweneth Lilly', Llais Llyfrau, Gaeaf 1982, tt. 6-7.

dienw, 'Darganfod Awdures', Y Faner, Medi 28ain, 1978, tt. 14-15.

Llyfrau

Anthropos, Y Golud Gwell: Adlais o'r Dyddiau Gynt, Hughes a'i Fab, Wrecsam, 1910.

Barton, G. Meek, M. Warlow, A. (gol.), 'The Author as historical novelist: one of the elite' gan Burton, H., The Cool Web, The Bodley Head Ltd., Trowbridge, trydydd argraffiad, 1988.

Bell, I., Dreams of Exile, Mainstream Publishing Company Ltd, Fromes, 1992.

Brown, D., Walter Scott and the Historical Imagination, Routledge and Kegan Paul, Trowbridge, 1979.

Cam, H., Historical Novels, Historical Association, Llundain, 1961.

Carpenter, H. a Prichard, M., The Oxford Companion to Children's Literature, Oxford University Press, East Kilbride, 1984.

Chilton, I., Cip ar y Goleuni, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

Defoe, D., Robinson Crusoe, Oxford University Press, Llundain, 1972.

Donaldson, M., Children's Minds, Fontana Press, Glasgow, 1988.

Eames, M., Y Tir Tywyll, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

Edwards, H. Ll., Gwarchod yr Ynys, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

idem, Mab yr Haul, Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

idem, Y Llwybr Disglair, Gwasg Gomer, Llandysul, 1982.

Elis, I. Ff., Cysgod y Cryman, Gwasg Aberystwyth, Aberystwyth, 1953.

Evans, B., Dan, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

Evans, E., Dafydd ap Siencyn a'r Gwalch Glas, Gwasg Carreg Gwalch, Capel Garmon, 1988.

idem, Dafydd ap Siencyn Yr Herwr, Gwasg Carreg Gwalch, Capel Garmon, 1982.

Fisher, M., The Bright Face of Danger, Hodder and Stoughton, Bury St. Edmunds, 1986.

Grugeon, E. a Walden, P. (gol.), 'Historical Novels for Children' gan Davin, A., Literature and Learning, Gwasg y Brifysgol Agored, Plymouth, 1978.

ap Gwilym, G. a Lewis, R. H. (gol.) Cyfrol Deyrnged y Prifardd T. Llew Jones, Cyhoeddiadau Barddas, Caernarfon, 1982.

Hughes., M. W., Caleb, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

idem, Y Llinyn Arian, Gwasg Gomer, Llandysul, 1983.

idem, Yr Un Yw'r Frwydr, Gwasg Gomer, Llandysul, 1983.
Humphreys, E. M., 'Ar y Ffordd Ddu', Cymru, cyf. XL, rh. 238, Mai 1911, tt. 257-62.

idem, 'Croesaw Rhys Morus', Cymru, cyf. XL, rh. 236, Mawrth 1911, rr. 189-95.

idem, 'Dial y Cymry', Cymru, cyf. XXXVIII, Ionawr 1910, t. 95.

idem, Dirgelwch yr Anialwch ac Ystraeon Eraill, Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig, Caernarfon, 1911.

idem, 'Dirgelwch yr Anialwch', Cymru, cyf. XL, Ionawr 1911, t. 23-8.

idem, 'Gorchest Wil Ifan', Cymru, cyf. XXXIX, rh. 232, Tachwedd 1910, t. 215-18.

idem, 'Mab Llwyn y Ceirw', Cymru, cyf. XL, rh. 235, Chwefror 1911, t. 112-16.

idem, 'Rhwng Rhyfeloedd', Cymru, cyf. L, Ionawr 1916, tt. 20-3; Chwefror 1916, tt. 91-6; Mawrth 1916, tt. 143-51; Ebrill 1916, tt. 191-9; Mai 1916, tt. 241-6; Mehefin 1916, tt. 283-9.

idem, Rhwng Rhyfeloedd, Y Cwmni Cyhoeddi Addysgol, Caerdydd, 1924.

idem, 'Y Ddau Frawd', Cymru, cyf. XXXIX, rh. 233, Rhagfyr 1910, tt. 245-50.

idem, 'Y Llong a'r Goeden', Cymru, cyf. XL, rh. 237, Ebrill 1911, tt. 220-5.

idem, Yr Etifedd Coll, y Cwmni Cyhoeddi Addysgol, Caerdydd, 1924.

Hywyn, G., Gwerfyl Gam, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

Ifan, D. G., Merch y Glannau, Gwasanaeth Llyfrgell Sir Gwynedd, Caernarfon, 1990.

Jones, E. W., 'Dirgelwch y Priordy', Hwyl, rh. 1-14, Gorffennaf 1949 - Awst 1950.

idem, Esyllt, Gwasg y Brython, Lerpwl, 1951.

idem, Lois, Gwasg y Brython, Lerpwl, dim dyddiad.

idem, 'Lowri', Storiau Ias a Chyffro, Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, Dinbych, 1951, tt.207-48.

idem, Luned Bengoch, Gwasg y Brython, Lerpwl, pedwerydd argraffiad, 1953.

idem, Plant y Mynachdy, Gwasg Aberystwyth, Abertawe, 1939.

idem, Y Cwlwm Cêl, Gwasg Aberystwyth, Llandysul, ail argraffiad, 1954.

idem, Y Dryslwyn, Gwasg y Brython, Lerpwl, trydydd argraffiad, 1957.

Jones, M. a G. (gol.), Dewiniaid Difyr, Gwasg Gomer, Llandysul, 1983.

Jones, T. Ll., Barti Ddu o Gasnewy' Bach, Christopher Davies, Llandybie, 1973.

idem, Corn, Pistol a Chwip, Gwasg Gomer, Llandysul, trydydd argraffiad, 1975.

idem, Cri'r Dylluan, Gwasg Gomer, Llandysul, pedwerydd argraffiad, 1988.

idem, Dial o'r Diwedd, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, Llandybie, ail argraffiad, 1973.

idem, Dirgelwch yr Ogof, Gwasg Gomer, Llandysul, ail argraffiad, 1978.

idem, Ofnadwy Nos, Gwasg Gomer, Llandysul, trydydd argraffiad, 1988.

idem, Trysor y Môr Ladron, Christopher Davies, Llandybie, trydydd argraffiad, 1976.

idem, Un Noson Dywyll, Gwasg Gomer, Llandysul, trydydd argraffiad, 1977.

idem, Y Ffordd Beryglus, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, Llandysul, trydydd argraffiad, 1977.

idem, Ymysg Lladron, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, Llandysul, 1965.

Lewis, S., Monica, Gwasg Aberystwyth, Aberystwyth, 1930.

Lilly, G., Gaeaf y Cerrig, Gwasg Gomer, Llandysul, 1981.

idem, Hogan y Plas, Gwasg Gomer, Llandysul, 1983.

idem, Rwy'n Cofio Dy Dad, Gwasg Gomer, Llandysul, 1982.

idem, Tachwedd Tân Gwyllt, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

idem, Y Drudwy Dewr, Gwasg Gomer, Llandysul, 1980.

idem, Y Gragen a'r Drych, Gwasg Gomer, Llandysul, 1982.

idem, Ysbiwr yn yr Ysgol, Gwasg Gomer, Llandysul, 1982.

Lloyd, J. S., Mudan Porth y Ddraig, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

Lukacs, G. The Historical Novel, cyfieithiad o'r Almaeneg gan Mitchell, H. a S., Merlin Press, Llundain, 1962.

Lockyer, R., Tudor and Stuart Britain 1471-1714, Longmans, Llundain, 1964.

Llywelyn, R., Seren Wen ar Gefndir Gwyn, Gwasg Gomer, Llandysul, 1992.

Marryat, F., The Children of the New Forest, Oxford University Press, Aylesbury, 1991.

ibid., Masterman Ready, Rylee Ltd., Llundain, dim dyddiad.

Owen, D., Enoc Huws, Llyfrau'r Dryw, Llandybie, 1967.

idem, Gwen Tomos, Hughes a'i Fab, Aberystwyth, argraffiad newydd 1992.

idem, Rhys Lewis, Hughes a'i Fab, Caerdydd, 1948.

Owen, W. D., Madam Wen, Hughes a'i Fab, Caerdydd, 1925.

Rowlands, J., Ysgrifau ar y Nofel, Gwasg Prifysgol Cymru, Pen-y-Bont ar Ogwr, 1992.

Sanders, A., The Victorian Historical Novel 1840-1880, The Macmillan Press Ltd., Llundain, 1978.

Scott, W., Waverley, Clarendon Press, Oxford, 1981.

Sebesta, S. L. a Iverson, W. J., Literature for Thursday's Child, Science Tesearch Associates, Chicago, 1975.

Selwood, N., Dan Faner Dafydd Gam, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

Stephens, M. (gol.), Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru, Gwasg Prifysgol Cymru, Llandysul, 1986.

Stevenson, R. L., Catriona, Heinemann, Llundain, 1924.

ibid., Kidnapped, Rylee Classics, Llundain, dim dyddiad.

ibid., The Strange Case of Dr Jekyll and Mr Hyde, Heinemann, Llundain, 1924.

ibid., Treasure Island, Collins, Llundain, 1955.

Sutcliff, R., Blood Feud, Oxford University Press, Llundain, 1977.

ibid., Simon, Oxford University Press, Llundain, 1953.

ibid., The Armourer's House, Oxford University Press, Llundain, 1951.

ibid., The Eagle of the Ninth, Oxford University Press, Llundain, 1954.

ibid., The Lantern Bearers, Oxford University Press, Llundain, 1959.

ibid., The Light Beyond the Forest, Bodley Head, Llundain, 1981.

ibid., The Mark of the Horse Lord, Oxford University Press, Llundain, 1965.

ibid., The Shield Ring, Oxford University Press, Llundain, 1965.

ibid., The Silver Branch, Oxford University Press, Llundain, 1957.

ibid., The Sword and the Circle, Bodley Head, Llundain, 1981.

ibid., Warrior Scarlet, Oxford University Press, 1958.

Teifi, S., Cyfaredd y Cyfarwydd, Gwasg Cambria, Aberystwyth, 1982.

Townsend, J. R., Written for Children, Penguin Books, Aylesbury, 1987.

Trease, R. G., Bows Against the Barons, Lawrence, Llundain, 1934.

ibid., Comrades for the Charter, Lawrence, Llundain, 1934.

ibid., Cue for Treason, Blackwell, Oxford, 1940

Treece, H., Horned Helmet, Brockhampton Press, Leicester, 1963.

ibid., Hounds of the King, Lane, Llundain, 1955.

ibid., Legions of the Eagle, Lane, Llundain, 1954

ibid., Man with a Sword, Bodley Head, Llundain, 1962.

ibid., The Dark Island, Gollancz, Llundain, 1952.

ibid., The Eagles Have Flown, Lane, Llundain, 1954.

ibid., The Last of the Vikings, Brockhampton Press, Leicester, 1964.

ibid., The Road to Miklagard, Lane, Llundain, 1957.

ibid., Viking's Dawn, Lane, Llundain, 1955.

ibid., Viking's Sunset, Bodley Head, Llundain, 1960.

Tucker, N., The Child and the Book, Cambridge University Press, St. Ives, 1991.

Williams, E. a Shuard, H., Primary Mathematics Today, Longman Group Limited, Hong Kong, 1982.

Williams, M., Cyffro yn y Cwm, (Cyfres CBAC), Gwasg Gomer, Llandysul, 1990.

Wyss, J., The Swiss Family Robinson, Oxford University Press, Oxford, 1991.